# Cofnod y Trafodion
# The Record of Proceedings
# 19/11/2014

Cynnwys Contents


Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau
Questions to the Minister for Education and Skills

Cwestiynau i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth
Questions to the Minister for Economy, Science and Transport

Cynnig i Gymeradwyo Cyllideb Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2015-16
Motion to Approve the Assembly Commission's Budget 2015-16

Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Pobl Hŷn
Welsh Conservatives Debate: Older People

Dadl Plaid Cymru: Costau Cyfleustodau
Plaid Cymru Debate: Utility Costs

Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru: Y Gymuned Drawsryweddol
Welsh Liberal Democrats Debate: The Transgender Community

Cyfnod Pleidleisio
Voting Time

Dadl Fer
Short Debate


*Cyfarfu'r Cynulliad am 13:30 gyda'r Llywydd (Y Fonesig Rosemary Butler) yn y Gadair.*

*The Assembly met at 13:30 with the Presiding Officer (Dame Rosemary Butler) in the Chair.*

13:30 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Good afternoon. The National Assembly for Wales is now in session.

Prynhawn da. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn awr yn eistedd.

## Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau

## Questions to the Minister for Education and Skills

### Categoreiddio Ysgolion Cynradd

### Primary School Categorisation

13:30 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*1. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynlluniau i gyflwyno system newydd o gategoreiddio ysgolion cynradd? OAQ(4)0492(ESK)*

*1. Will the Minister provide an update on plans to introduce a new school categorisation system for primary schools? OAQ(4)0492(ESK)*

13:30 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Addysg a Sgiliau / The Minister for Education and Skills*

I thank the Member for Ceredigion for her question. I announced the introduction of the national school categorisation system for primary schools and secondary schools in my written statement on 25 September. The outcomes of the national school categorisation system will be published on the My Local School website in January 2015.

Diolch i'r Aelod dros Geredigion am ei chwestiwn. Yn fy natganiad ar 25 Medi, cyhoeddais fod y system genedlaethol ar gyfer categoreiddio ysgolion ar gyfer ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd yn cael ei chyflwyno. Bydd canlyniadau'r system genedlaethol ar gyfer categoreiddio ysgolion yn cael eu cyhoeddi ar wefan Fy Ysgol Leol ym mis Ionawr 2015.

13:30 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Weinidog. Rydych wedi bod yn glir eich bod yn awyddus i ddefnyddio data cadarn yn sail i'r categoreiddio. A allwch chi esbonio, felly, pam nad ydych chi'n defnyddio data y profion cenedlaethol rhifedd a darllen yng ngham 1 y categoreiddio, ac, yn hytrach, yn defnyddio data sy'n seiliedig ar asesiad yr athrawon, data sydd, yn gyffredinol, yn llai gwrthrychol na'r profion cenedlaethol?

Thank you, Minister. You have been clear that you are eager to use robust data as a foundation for this categorisation. Can you therefore explain why you are not using the data from the national numeracy and literacy tests in stage 1 of the categorisation, but rather are using data that is based on teacher assessment, which, generally speaking, is data that is less objective than the national tests?

13:31 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for that very pertinent question. It gives me an opportunity to clarify this point. The outcomes of the literacy and numeracy tests are being used in the categorisation model. The results of the tests are not included in the set of performance measures for primary schools and secondary schools at step 1—the Member is quite correct. There is international evidence that, in countries using test results for accountability purposes, this has led to unintended consequences, including teaching to the test. As a result, this can mean that pupils' wider development needs receive less attention.

Diolch i'r Aelod am y cwestiwn hynod berthnasol hwnnw. Mae'n rhoi cyfle i mi egluro'r pwynt hwn. Mae canlyniadau'r profion llythrennedd a rhifedd yn cael eu defnyddio yn y model categoreiddio. Nid yw canlyniadau'r profion yn cael eu cynnwys yn y gyfres o fesurau perfformiad ar gyfer ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd yng ngham 1—mae'r Aelod yn hollol gywir. Mae tystiolaeth ryngwladol, mewn gwledydd sy'n defnyddio canlyniadau profion at ddibenion atebolrwydd, yn dangos fod hyn wedi arwain at ganlyniadau anfwriadol, gan gynnwys addysgu i'r prawf. O ganlyniad, gall hyn olygu bod anghenion datblygu ehangach y disgyblion yn cael llai o sylw.

However, step 2 of the national school categorisation system will take the reading and numeracy test into account when looking at how schools actually use the data that they garner from them. Schools will need to evidence that test results are used as part of effective school management and improvement and that there is a correlation between teacher assessment and standardised scores. So, in other words, the teacher assessments have some kind of correlation with a national standard. If the degree of correlation between the two is poor, then the judgment from the consortium for that school will be at the lower end of categorisation.

Fodd bynnag, bydd cam 2 y system genedlaethol ar gyfer categoreiddio ysgolion yn ystyried y prawf darllen a'r prawf rhifedd wrth edrych ar sut y mae ysgolion yn mynd ati i ddefnyddio'r data a gasglant ohonynt. Bydd angen i ysgolion ddangos tystiolaeth bod canlyniadau profion yn cael eu defnyddio i reoli a gwella'r ysgol yn effeithiol a bod cydberthynas rhwng asesiadau athrawon a sgoriau safonedig. Felly, mewn geiriau eraill, mae rhyw fath o gydberthynas rhwng asesiadau athrawon a safon genedlaethol. Os na cheir llawer o gydberthynas rhwng y ddau, bydd dyfarniad y consortiwm ar gyfer yr ysgol honno ar y pen isaf i'r categorïad.

13:32 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I think that there is probably a lot to be said for moving to a three-year performance model. However, there is clearly already a degree of confusion over this new system, even at this early stage, and what you have just said was rather convoluted. Could you tell us what you are doing to make sure that, as this new system is evaluated and monitored, teaching staff and schools are being listened to and are able to give feedback to you, so that the system, as it evolves, does so in a way that is most meaningful for schools and teachers, and for the pupils at the schools?

Weinidog, credaf fod llawer i'w ddweud dros newid i fodel perfformiad tair blynedd. Fodd bynnag, mae'n amlwg fod yna eisoes rywfaint o ddryswch ynghylch y system newydd hon, hyd yn oed yn y cyfnod cynnar hwn ac mae'r hyn rydych newydd ei ddweud braidd yn astrus. A allech ddweud wrthym beth rydych yn ei wneud i sicrhau bod staff addysgu ac ysgolion yn cael eu clywed wrth i'r system newydd hon gael ei gwerthuso a'i monitro a'u bod yn gallu rhoi adborth i chi fel bod y system, wrth iddi esblygu, yn gwneud hynny yn y ffordd fwyaf ystyrlon i ysgolion ac athrawon, ac ar gyfer y disgyblion yn yr ysgolion?

13:33 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I will try my best, Presiding Officer, to clear up any confusion in the minds of the Welsh Conservatives. There are three simple steps to categorisation. The first is that judgment on standards in the school. The second is a judgment in terms of the school's ability to self-improve, and their self-evaluations are an important part of that. The third step is corroboration by the educational consortium and by the challenge advisers in local authorities. So, in other words, the third step is there to ensure that we have national standards by which we hold the schools to account. It is important to point out that the purpose of categorisation is exactly the same as that of banding—it is to identify those schools that need various levels of challenge and support.

Wel Lywydd, ceisiaf wneud fy ngorau i egluro unrhyw ddryswch ym meddyliau'r Ceidwadwyr Cymreig. Mae tri cham syml i gategoreiddio. Y cyntaf yw'r dyfarniad ar safonau yn yr ysgol. Yr ail yw dyfarniad o ran gallu'r ysgol i wella'i hun, ac mae ei hunanwerthusiadau yn rhan bwysig o hynny. Y trydydd cam yw cadarnhad gan y consortiwm addysgol a chynghorwyr herio'r awdurdodau lleol. Felly, mewn geiriau eraill, mae'r trydydd cam yno i sicrhau bod gennym safonau cenedlaethol a ddefnyddiwn er mwyn dwyn yr ysgolion i gyfrif. Mae'n bwysig nodi bod diben categoreiddio yn union yr un fath â diben bandio—sef nodi pa ysgolion sydd angen gwahanol lefelau o her a chefnogaeth.

### Atal Bwlio

### The Prevention of Bullying

13:34 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*2. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y camau a gaiff eu cymryd i atal bwlio yn ysgolion Cymru? OAQ(4)0495(ESK)*

*2. Will the Minister make a statement on the action taken to prevent bullying in Welsh schools? OAQ(4)0495(ESK)*

13:34 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for Mid and West Wales. Our aim is to provide schools with the tools to tackle bullying. In addition to the Welsh Government guidance 'Respecting Others', we have invited schools to develop short films with an anti-bullying message. We have also just published information materials for children, young people and parents who are concerned about bullying.

Diolch i'r Aelod dros Ganolbarth a Gorllewin Cymru. Ein nod yw darparu'r arfau sydd eu hangen ar ysgolion i fynd i'r afael â bwlio. Yn ogystal â chanllawiau Llywodraeth Cymru 'Parchu Eraill', rydym wedi gwahodd ysgolion i ddatblygu ffilmiau byrion gyda neges gwrthfwlio. Hefyd, rydym newydd gyhoeddi deunyddiau gwybodaeth ar gyfer plant, pobl ifanc a rhieni sy'n pryderu am fwlio.

13:34 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I would like to thank the Minister very much for that response. As you will be aware, this is currently Anti-bullying Week, which provides an important focus and reminder that bullying is still very much an issue in our schools and always has been. In the context of the rise of social media, this, of course, has further dimensions and can also pursue victims well after school and into the weekend. In that context, Minister, what lessons have been learnt from attempts to address online bullying that have already arisen in terms of some of your prevention strategies, and what further steps can be taken to address the scourge of bullying that affects so many young people here in Wales?

Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i'r Gweinidog am yr ymateb. Fel y gwyddoch, mae hi'n Wythnos Gwrthfwlio ar hyn o bryd, sy'n rhoi ffocws pwysig i ni ac yn ein hatgoffa bod bwlio yn dal i fod yn broblem yn ein hysgolion fel y bu erioed. Yng nghyd-destun y cynnydd yn y defnydd o gyfryngau cymdeithasol, mae dimensiynau pellach i hyn, wrth gwrs, a gall hefyd barhau i ddigwydd i ddioddefwyr ar ôl ysgol a thros y penwythnos. Yn y cyd-destun hwnnw, Weinidog, pa wersi a ddysgwyd o ymdrechion i fynd i'r afael â bwlio ar-lein sydd eisoes wedi codi o ran rhai o'ch strategaethau atal, a pha gamau pellach y gellid eu cymryd i fynd i'r afael â bwlio sy'n effeithio ar gynifer o bobl ifanc yma yng Nghymru?

13:35 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for his question and commend him on his concerns around the subject of bullying, which I know are of long standing. He is quite right—this is an opportunity for us all of us to remind ourselves and our colleagues in our constituencies of the importance of Anti-bullying Week. Back in October 2011, as I said, the Welsh Government published 'Respecting Others'—a suite of comprehensive anti-bullying guidance that covered five key areas: bullying on the basis of race, culture and religion; sexist and sexual transphobic bullying; homophobic bullying; bullying involving pupils with special educational needs and disabilities; and cyber bullying. We are currently developing new guidance on appearance-related bullying.

Diolch i'r Aelod am ei gwestiwn ac rwy'n ei gymeradwyo ar ei sylw i fater bwlio, pwnc y bu'n bryderus yn ei gylch ers amser maith. Mae'n hollol iawn—dyma gyfle i bob un ohonom atgoffa ein hunain a'n cydweithwyr yn ein hetholaethau am bwysigrwydd yr Wythnos Gwrthfwlio. Yn ôl ym mis Hydref 2011, fel y dywedais, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru 'Parchu Eraill'—cyfres o ganllawiau gwrthfwlio cynhwysfawr a oedd yn cynnwys pum prif faes: bwlio ar sail hil, diwylliant a chrefydd; bwlio rhywiaethol a thrawsffobig rhywiol; bwlio homoffobig; bwlio sy'n cynnwys disgyblion ag anghenion addysgol arbennig ac anableddau; a seiberfwlio. Ar hyn o bryd rydym yn datblygu canllawiau newydd ar fwlio sy'n gysylltiedig ag ymddangosiad.

In addition, in 2013-14, we commissioned Estyn, as part of its remit, to review the effectiveness of action taken by schools to address bullying on the grounds of those protected characteristics under the Equality Act 2010. In its report, which was published in June this year, a number of recommendations were made for schools, local authorities and Welsh Government, and I would encourage schools and local authorities to pay attention to Estyn's recommendations.

Yn ogystal, yn 2013-14, comisiynwyd Estyn gennym, fel rhan o'i gylch gwaith, i adolygu effeithiolrwydd y camau a gymerwyd gan ysgolion i fynd i'r afael â bwlio ar sail nodweddion gwarchodedig Deddf Cydraddoldeb 2010. Yn ei adroddiad, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin eleni, gwnaed nifer o argymhellion ar gyfer ysgolion, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru, a byddwn yn annog ysgolion ac awdurdodau lleol i roi sylw i argymhellion Estyn.

13:36

## Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition*

In national bullying week, it is always good to reflect on the broad scope of bullying and homophobic bullying in particular. There are many different types of coercion that go on within our school environment. What engagement does the Government have with Stonewall Cymru for example—I think many Members would have seen its campaign that was laid out in the Assembly last week—to tackle this scourge within some of our schools, which has been identified as being one of the major problem areas?

Yn ystod yr wythnos fwlio genedlaethol, mae hi bob amser yn syniad da i fyfyrio ar ehangder bwlio a bwlio homoffobig yn benodol. Mae sawl math gwahanol o ormes yn digwydd o fewn amgylchedd yr ysgol. Pa gysylltiad sydd gan y Llywodraeth â Stonewall Cymru, er enghraifft—rwy'n credu y byddai llawer o Aelodau wedi gweld ei ymgyrch a gyflwynwyd gerbron y Cynulliad yr wythnos ddiwethaf—i fynd i'r afael â'r malltod hwn yn rhai o'n hysgolion, sydd wedi'i glustnodi fel un o'r prif broblemau?

13:37

## Huw Lewis Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Andrew R.T. Davies for his very important points. Stonewall is working in Welsh schools at the moment to raise the profile and awareness around very prevalent attitudes around homophobic bullying, which unfortunately do exist out there in our schools. Awareness of the harm and hurt that this kind of homophobic language and so on can have is a key element of that. We will continue to work alongside organisations like Stonewall to raise awareness and combat these attitudes.

Diolch i Andrew R.T. Davies am ei bwyntiau pwysig iawn. Mae Stonewall yn gweithio mewn ysgolion yng Nghymru ar hyn o bryd i godi proffil ac ymwybyddiaeth ynghylch agweddau cyffredin iawn yng nghyd-destun bwlio homoffobig, sy'n digwydd yn ein hysgolion, yn anffodus. Mae ymwybyddiaeth o'r niwed a'r boen y gall y math hwn o iaith homoffobig ac ati eu hachosi yn elfen allweddol o hynny. Byddwn yn parhau i weithio ochr yn ochr â sefydliadau fel Stonewall i godi ymwybyddiaeth a brwydro yn erbyn yr agweddau hyn.

13:38

## Jocelyn Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, from a very young age, children experience sexist and sexual bullying and harassment in schools on a daily basis, which is driven by pressures to conform to those damaging gender norms. So, how will you expect schools to effectively tackle bullying without introducing a whole-school approach to healthy relationship education right throughout the system? Will you look at those schools that currently base all that they do on respect to see whether that ethos can be rolled out right across Wales?

Weinidog, o oedran cynnar iawn, mae plant ysgol yn ddyddiol yn dioddef bwlio ac aflonyddu rhywiaethol a rhywiol sy'n cael ei ysgogi gan bwysau i gydymffurfio â'r normau rhywedd niweidiol hynny. Felly, sut y mae disgwyl i ysgolion fynd i'r afael â bwlio'n effeithiol heb gyflwyno dull ysgol gyfan o gyflwyno addysg cydberthynas iach ar draws y system? A wnewch chi edrych ar yr ysgolion hynny sydd ar hyn o bryd yn seilio popeth a wnânt ar barch i weld a ellir cyflwyno'r ethos hwnnw ledled Cymru?

13:38

## Huw Lewis Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Member is quite right to point to there being some very good practice out there among our schools in terms of these issues. Of course, all schools by law must have a school behaviour policy, and an effective anti-bullying strategy should be central to that policy and be developed and put into effect by everyone at the school, including the pupils; the pupils' input is vital. She also points to issues around relationships education, and we all look forward to the publication of Graham Donaldson's review into the curriculum, which will include aspects of personal, social and health education. I am confident that we will see, arising from that, a much more holistic look at sex and relationships education within our schools.

Mae'r Aelod yn hollol iawn i dynnu sylw at y ffaith bod rhywfaint o arferion da iawn ymhlith ein hysgolion o ran y materion hyn. Wrth gwrs, mae'n rhaid i bob ysgol yn ôl y gyfraith fod â pholisi ymddygiad ysgol. Dylai strategaeth gwrthfwlio effeithiol fod yn rhan ganolog o'r polisi hwnnw a dylai fod yn cael ei ddatblygu a'i roi ar waith gan bawb yn yr ysgol, yn cynnwys y disgyblion; mae mewnbwn y disgyblion yn hanfodol. Mae hi hefyd yn tynnu sylw at faterion ynglŷn ag addysg cydberthynas, ac mae pob un ohonom yn edrych ymlaen at gyhoeddi adolygiad Graham Donaldson ar y cwricwlwm, a fydd yn cynnwys agweddau ar addysg bersonol, gymdeithasol ac iechyd. Yn deillio o hynny, rwy'n hyderus y byddwn yn gweld agwedd lawer mwy holistaidd ar addysg rhyw a chydberthynas yn ein hysgolion.

13:39

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

We now move to questions from the party spokespeople and first this afternoon is the Welsh Liberal Democrat's spokesperson, who I understand is Eluned Parrott this afternoon.

Rydym bellach yn symud ymlaen at y cwestiynau gan lefarwyr y pleidiau ac yn gyntaf y prynhawn yma, mae llefarydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, sef Eluned Parrott y prynhawn yma o'r hyn rwy'n ei ddeall.

13:39

## Eluned Parrott [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Diolch, Lywydd. Minister, in 1975, the Venezuelan economist, José Antonio Abreu founded the Simón Bolívar Youth Orchestra of Venezuela and the Fundación del Estado para El Sistema Nacional de las Orquestas Juveniles e Infantiles de Venezuela or 'El Sistema' for short. El Sistema was created specifically to be an instrument for social change through music, designed to work with the most deprived children in society, even street children, and to give them hope and aspiration to build a better life. It has discovered some extraordinary musicians, but that is a by-product; its biggest achievement is that it has rescued literally hundreds of children from involvement in gangs, violence, crime and from abject poverty on the streets of Caracas. Do you agree with me that music education has a powerful potential to be an agent of social change?

Diolch, Lywydd. Weinidog, ym 1975, sefydlodd José Antonio Abreu, yr economegydd o Venezuela, Gerddorfa Ieuenctid Simón Bolívar Venezuela a'r Fundación del Estado para El Sistema Nacional de las Orquestas Juveniles e Infantiles de Venezuela neu 'El Sistema' yn fyr. Cafodd El Sistema ei greu yn benodol i fod yn offeryn ar gyfer newid cymdeithasol drwy gerddoriaeth, a gynlluniwyd i weithio gyda'r plant mwyaf difreintiedig mewn cymdeithas, hyd yn oed plant y stryd, ac i roi gobaith iddynt a dyhead i greu bywyd gwell. Mae wedi darganfod rhai cerddorion eithriadol, ond sgil-gynnyrch yw hynny; ei lwyddiant mwyaf yw ei fod wedi achub cannoedd o blant yn llythrennol rhag ymwneud â gangiau, trais, troseddau a rhag dioddef tlodi truenus ar strydoedd Caracas. A ydych yn cytuno â mi fod potensial pwerus gan addysg gerddorol i fod yn gyfrwng newid cymdeithasol?

13:40

## Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Yes, I do, and I wish that I could respond in a multilingual context, and I thank the Member for that lesson in faultless Spanish. In fact, the philosophy behind the Bolívar orchestra is active in Welsh schools and I would point her to the tremendous example of schools in Bangor and the surrounding area, working in partnership with Bangor University. Following that philosophy, I have visited one of those schools and been exposed to the transformational power that not just listening to music, but making music, has on young minds, most particularly those young people from deprived backgrounds.

Ydw, rwy'n cytuno, a hoffwn pe bawn i'n gallu ymateb mewn cyd-destun amlieithog, a diolch i'r Aelod am y wers mewn Sbaeneg perffaith. Yn wir, mae'r athroniaeth wrth wraidd cerddorfa Bolívar ar waith mewn ysgolion yng Nghymru a hoffwn dynnu ei sylw at enghraifft aruthrol ysgolion ym Mangor a'r ardal gyfagos, sy'n gweithio mewn partneriaeth â Phrifysgol Bangor. I weld yr athroniaeth honno, ymwelais ag un o'r ysgolion a gwelais bŵer trawsnewidiol gwrando ar gerddoriaeth, a chreu cerddoriaeth, ar feddyliau ifanc, yn enwedig pobl ifanc o gefndiroedd difreintiedig.

13:41 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank you for that answer, Minister, and I am glad that you agree, but, given that, it is astonishing to me that this Welsh Labour Government is presiding over a system that is patched together or falling apart completely in places. There is no consistent policy from one authority to another or even from one school to the next on who should pay for lessons and who should not. Children are taught in some of our primary schools with instruments made out of yoghurt pots. Labour-controlled Rhondda Cynon Taf County Borough Council is currently consulting on a proposal to end its music service altogether and privatise all of its music education in the borough. Labour-controlled Merthyr Tydfil County Borough Council does not have a music co-ordinator at all. Unless you take action, Minister, the only children who will be able to learn music properly in Wales will be the privileged few who can afford to pay for their lessons and who can afford to buy an instrument, and the chance to raise our children's aspirations through music will be lost. What are you going to do to make sure that music in Wales is not the reserve of the privileged few?

Diolch i chi am eich ateb, Weinidog, ac rwy'n falch eich bod yn cytuno, ond o gofio hynny, mae'n rhyfeddod i mi fod Llywodraeth Lafur Cymru yn llywyddu dros system sy'n dameidiog neu'n chwalu'n llwyr mewn mannau. Nid oes polisi cyson rhwng un awdurdod a'r llall neu hyd yn oed rhwng un ysgol a'r llall ynglŷn â phwy ddylai dalu am wersi a phwy na ddylai orfod gwneud. Yn rhai o'n hysgolion cynradd, caiff plant eu dysgu gydag offerynnau wedi'u creu o botiau iogwrt. Ar hyn o bryd mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, sy'n cael ei reoli gan y Blaid Lafur, yn ymgynghori ar gynnig i roi diwedd ar ei wasanaeth cerddoriaeth yn gyfan gwbl a phreifateiddio ei holl addysg gerddorol yn y fwrdeistref. Nid oes gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, sy'n cael ei reoli gan y Blaid Lafur, gydlynydd cerddoriaeth o gwbl. Oni bai eich bod yn gweithredu, Weinidog, yr unig blant a fydd yn gallu dysgu cerddoriaeth yn iawn yng Nghymru fydd yr ychydig o blant breintiedig sy'n gallu fforddio talu am eu gwersi ac sy'n gallu fforddio prynu offeryn, a bydd y cyfle i hybu dyheadau ein plant drwy gerddoriaeth yn cael ei golli. Beth a wnewch i sicrhau nad yw cerddoriaeth yng Nghymru yn rhywbeth i ychydig o blant breintiedig yn unig?

13:42 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Presiding Officer, the synthetic outrage generated by the spokesperson for the Welsh Liberal Democrats would have firmer foundations if she had not been one of those political activists who campaigned for the austerity cuts that our schools and our educational system are having to face, and who knocked doors for it and will be out there again on the streets of Wales campaigning for further austerity cuts as we run up to the next general election.

Lywydd, byddai sail gadarnach i'r dicter ffug a leisiwyd gan y llefarydd ar ran Democratiaid Rhyddfrydol Cymru pe na bai wedi bod yn un o'r ymgyrchwyr gwleidyddol hynny a ymgyrchodd dros y toriadau caledi y mae ein hysgolion a'n system addysg yn gorfod eu hwynebu, ac a fu'n cnocio ar ddrysau dros hynny, ac a fydd allan yno eto ar strydoedd Cymru yn ymgyrchu dros doriadau caledi pellach wrth i ni nesáu at yr etholiad cyffredinol nesaf.

Having said that, I have never been content with the consistency around the delivery of music education in our schools and, as I mentioned, there are examples of good practice like the Codi'r To example in schools around Bangor University, and we will again look forward to the suggestions that Graham Donaldson comes up with during his independent review of the curriculum, and we have had face-to-face discussions on those issues around inconsistency in terms of delivery of music education in our schools. There are big problems here in terms of affordability and there are even bigger problems in terms of the number of specialist teachers who we can call upon. There are no instant answers to this historic problem and I cannot see that any suggestions for positive change have arisen from the Welsh Liberal Democrats.

Wedi dweud hynny, nid wyf erioed wedi bod yn fodlon â chysondeb y ddarpariaeth addysg gerddorol yn ein hysgolion ac fel y soniais, mae enghreifftiau o arferion da fel enghraifft Codi'r To mewn ysgolion yng nghyffiniau Prifysgol Bangor, a byddwn unwaith eto yn edrych ymlaen at awgrymiadau Graham Donaldson yn ei adolygiad annibynnol o'r cwricwlwm. Rydym wedi cael trafodaethau wyneb yn wyneb ar fater diffyg cysondeb y ddarpariaeth addysg gerddorol yn ein hysgolion. Mae problemau mawr yma o ran fforddiadwyedd ac mae problemau hyd yn oed yn fwy o ran nifer yr athrawon arbenigol sydd ar gael i ni. Nid oes atebion hawdd i'r broblem hanesyddol hon ac ni allaf weld bod Democratiaid Rhyddfrydol Cymru wedi cynnig unrhyw awgrymiadau ar gyfer newid cadarnhaol.

13:43 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Finally, a more concise question please.

Yn olaf, cwestiwn mwy cryno os gwelwch yn dda.

13:43 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

How dare you, Minister, accuse me of synthetic outrage? [Interruption.]

Rhag eich cywilydd, Weinidog, yn fy nghyhuddo o ddicter ffug. [Torri ar draws.]

13:43 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Excuse me—order.

Esgusodwch fi—trefn.

13:43 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

I am one of those children who was taken from a council estate—[Interruption.]

Rwy'n un o'r plant hynny a gymerwyd o ystâd dai cyngor-[Torri ar draws.]

Senedd.tv Fideo Video

13:43 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Order, order.

Trefn, trefn.

Senedd.tv Fideo Video

**Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

[Continues.]—in Wolverhampton to university here in Cardiff to this place—

[Yn parhau.] —yn Wolverhampton i'r brifysgol yma yng Nghaerdydd i'r lle hwn—

13:44 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Order. Will you ask your question and take your hand off your hip, please?

Trefn. A wnewch chi ofyn eich cwestiwn a symud eich llaw oddi ar eich clun, os gwelwch yn dda?

Senedd.tv Fideo Video

13:44 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

It is ironic, Minister, but did you know that Venezuela was not the first country in the world to set up this kind of national youth orchestra system to raise the aspirations of its children? Wales was. We had the first national youth orchestra in the world and it is under threat right now. In England, £18 million is being allocated to support music services; in Scotland, they have created their own version of El Sistema, underpinned with a national strategy. When are you going to bring forward a national strategy that is going to save music education in the place where this system was invented?

Mae'n eironig, Weinidog, ond a oeddech chi'n gwybod nad Venezuela oedd y wlad gyntaf yn y byd i sefydlu system gerddorfa ieuenctid genedlaethol o'r fath ar gyfer hybu dyheadau ei phlant? Cymru oedd hi. Ni oedd â'r gerddorfa ieuenctid genedlaethol gyntaf yn y byd ac mae honno dan fygythiad ar hyn o bryd. Yn Lloegr, mae £18 miliwn yn cael ei ddyrannu i gefnogi gwasanaethau cerddorol; yn yr Alban, maent wedi creu eu fersiwn eu hunain o El Sistema, gyda strategaeth genedlaethol yn sail iddi. Pryd ydych chi'n mynd i gyflwyno strategaeth genedlaethol a fydd yn achub addysg gerddorol yn y fan a'r lle y cafodd y system hon ei dyfeisio?

Senedd.tv Fideo Video

13:44 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Presiding Officer, I fully accept that the outrage of the Member may well be genuine, but, in that case, I would urge her to cease campaigning for austerity cuts in order to allow us to invest in our young people and to follow the logic of her argument and cross the floor.

Lywydd, rwy'n derbyn yn llwyr y gallai dicter yr Aelod fod yn ddilys, ond os felly, byddwn yn ei hannog i roi'r gorau i ymgyrchu dros doriadau caledi er mwyn caniatáu i ni fuddsoddi yn ein pobl ifanc, a dilyn rhesymeg ei dadl a chroesi'r llawr.

Senedd.tv Fideo Video

13:45 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

I call the opposition spokesperson, Angela Burns.

Galwaf ar lefarydd yr wrthblaid, Angela Burns.

Senedd.tv Fideo Video

13:45 **Angela Burns** Bywgraffiad Biography

Good afternoon, Minister. Earlier this week, the 'Western Mail' obtained some rather disturbing figures that suggested that our brightest students are choosing to study in England rather than in Wales. The numbers indicated that Welsh-domiciled students were accepted at 317 Universities and Colleges Admissions Service points, while Welsh students needed 375 points to study at a comparable university in England. As for the Russell Group universities, our only Russell Group university accepts Welsh-domiciled students at an average of 421 points, whereas to go to a Russell Group university in England you have to have 435 points. Minister, do you share my concern that our brightest students are choosing to study in England rather than in Wales?

Prynhawn da, Weinidog. Yn gynharach yr wythnos hon, daeth y 'Western Mail' o hyd i ffigurau eithaf ysgytwol a oedd yn awgrymu bod ein myfyrwyr mwyaf disglair yn dewis astudio yn Lloegr yn hytrach nag yng Nghymru. Nodai'r ffigurau fod myfyrwyr yn hanu o Gymru wedi cael eu derbyn gyda 317 o bwyntiau Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau, ond bod angen 375 o bwyntiau ar fyfyrwyr Cymru i astudio mewn prifysgol gyffelyb yn Lloegr. O ran prifysgolion Grŵp Russell, mae ein hunig brifysgol Grŵp Russell yn derbyn myfyrwyr sy'n hanu o Gymru ar 421 o bwyntiau ar gyfartaledd, ond mae angen 435 o bwyntiau arnoch i fynd i brifysgol Grŵp Russell yn Lloegr. Weinidog, a ydych yn rhannu fy mhryder fod ein myfyrwyr mwyaf disglair yn dewis astudio yn Lloegr yn hytrach nag yng Nghymru?

Senedd.tv Fideo Video

13:45 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

First of all, Presiding Officer, I extend my welcome to the Welsh Conservative spokesperson; it is good to see her back in the Chamber. I read the article, as many will have done, and I think that the interpretation that was drawn from it is fraught with difficulty in terms of direct comparison. The Welsh higher education community, and the number of institutions, is, of course, much smaller than the offer that appears across the border, with literally hundreds of institutions and a much more diverse offer in terms of higher education. So, I think that these difficulties are rather like comparing apples and pears. I know that Welsh HE strives constantly to raise its game in terms of its offer to our young people. The Welsh Government continues to invest in higher education—a rise of income in the Welsh HE community of almost 14% this year. That is almost unique in the public realm, and Welsh higher education has the vote of confidence of the Welsh Government.

Yn gyntaf oll, Lywydd, rwyf am groesawu llefarydd y Ceidwadwyr Cymreig; mae'n dda ei gweld yn ôl yn y Siambr. Darllenais yr erthygl, fel y mae llawer wedi ei wneud, ac rwy'n credu bod y dehongliad a ddeilliodd ohoni'n llawn anawsterau o ran cymharu'n uniongyrchol. Mae'r gymuned addysg uwch yng Nghymru, a nifer y sefydliadau yn llawer llai na'r hyn sy'n cael ei gynnig ar draws y ffin, wrth gwrs, sydd â channoedd o sefydliadau a chynnig llawer mwy amrywiol o ran addysg uwch. Felly, rwy'n credu bod yr anawsterau hyn yn debyg i gymharu afalau a gellyg. Gwn fod Addysg Uwch yng Nghymru'n ymdrechu'n barhaus i wella o ran yn hyn y mae'n ei gynnig i'n pobl ifanc. Mae Llywodraeth Cymru'n parhau i fuddsoddi mewn addysg uwch—bu cynnydd o bron 14% yn incwm y gymuned Addysg Uwch yng Nghymru eleni. Mae hynny bron yn unigryw yn y byd cyhoeddus, ac mae addysg uwch yng Nghymru yn cael pleidlais o hyder gan Lywodraeth Cymru.

Senedd.tv
Fideo Video

13:47 **Angela Burns** Bywgraffiad Biography

Comparisons—I agree with you, Minister—are always very difficult to make. However, English universities seem to be saying, essentially, to Welsh students, 'Your results need to be a whole grade better to study with us than if you were to go to a Welsh university'. Minister, do you think that this is a reflection of how the majority of the UK university sector views the Welsh education system? Will this be compounded by concerns over the perceived robustness of the new qualifications and the continuing mix of turbulence that we are having in our system?

Rwy'n cytuno â chi, Weinidog—mae cymariaethau bob amser yn anodd iawn i'w gwneud. Fodd bynnag, yn y bôn, mae'n ymddangos bod prifysgolion Lloegr dweud wrth fyfyrwyr o Gymru, 'Mae angen i'ch canlyniadau fod radd gyfan yn well i astudio gyda ni na phe baech yn mynd i brifysgol yng Nghymru'. Weinidog, a ydych yn credu bod hyn yn adlewyrchiad o'r ffordd y mae'r rhan fwyaf o sector prifysgolion y DU yn edrych ar y system addysg yng Nghymru? A fydd hyn yn cael ei gymhlethu gan bryderon ynghylch cryfder ymddangosiadol y cymwysterau newydd a'r cymysgedd parhaus o drafferthion rydym yn ei gael yn ein system?

Senedd.tv
Fideo Video

13:47 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

No, I do not, Presiding Officer—I certainly do not. I think that extrapolating that kind of conclusion from the kind of study that we saw is stretching credibility to its limit. It really is not possible, in my view, to compare two systems of such different scale. I am sure that, if we took a regionalised look at higher education offers in England, we would find all kinds of different comparators with Wales. If we took the north-east of England, or the north-west, or wherever it happened to be, we would find pictures that were very different in terms of the grades that were asked for. I am confident that Welsh higher education is in a healthy place. It is stable financially, unlike the situation that we see beginning to develop across the border, and our students are not laden with debt, as they would be if they were English-domiciled students.

Na, nid wyf yn credu hynny, Lywydd—yn bendant nid wyf yn credu hynny. Credaf fod cyrraedd casgliad felly o astudiaeth o'r math a welsom yn gwthio hygrededd i'r pen. Yn fy marn i, nid yw'n bosibl cymharu dwy system mor wahanol o ran maint. Pe baem yn ystyried y cynigion addysg uwch yn Lloegr ar lefel ranbarthol, rwy'n siŵr y byddem yn canfod pob math o wahanol elfennau y gellid eu cymharu â Chymru. Pe baem yn edrych ar Ogledd-ddwyrain Lloegr, neu'r Gogledd-orllewin, neu lle bynnag, byddem yn dod o hyd i ddarluniau gwahanol iawn o ran y graddau y gofynnir amdanynt. Rwy'n hyderus fod addysg uwch yng Nghymru mewn sefyllfa iach. Mae'n sefydlog yn ariannol, yn wahanol i'r sefyllfa rydym yn ei gweld yn dechrau datblygu ar draws y ffin, ac nid yw ein myfyrwyr o dan faich dyledion fel y byddent pe baent yn fyfyrwyr sy'n hanu o Loegr.

Senedd.tv
Fideo Video

13:48 **Angela Burns** Bywgraffiad Biography

Minister, if general comparisons make you so uncomfortable, let us look at something very specific. We have a committee report next week into science, technology, engineering and mathematics in Wales, and our mathematics score this year saw over 22,000 students fail to get a C or above. What key actions will you, Minister, take to ensure that, after your reforms, Welsh students will still not be at a competitive disadvantage in the years to come, whether it is in this country, over the border or in Europe?

Weinidog, os yw cymariaethau cyffredinol yn gwneud i chi deimlo mor anghyfforddus, gadewch i ni edrych ar rywbeth penodol iawn. Mae gennym adroddiad pwyllgor yr wythnos nesaf ar wyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg yng Nghymru, ac wrth edrych ar ein sgôr mathemateg eleni gwelwn fod dros 22,000 o fyfyrwyr wedi methu cael gradd C neu uwch. Pa gamau gweithredu allweddol y byddwch chi, Weinidog, yn eu cymryd i sicrhau, ar ôl eich diwygiadau, na fydd myfyrwyr o Gymru o dan anfantais gystadleuol yn y blynyddoedd i ddod, yn y wlad hon, dros y ffin neu yn Ewrop?

Senedd.tv
Fideo Video

13:49

## Huw Lewis Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Member will be aware that standards, in terms of attainment in Welsh schools, continue to rise overall, and that this summer saw us at an historic high, in terms of GCSE results; indeed, in A-level mathematics—she refers specifically to mathematics—Wales now outstrips England, as it does in history, chemistry and nine other A-level subjects. So, the picture is by no means as bleak as she paints it. However, I accept that improvements in attainment in mathematics specifically are not moving forward as quickly as we would like, and that is why I have called the first ever national conference of mathematics lead teachers to meet with me on 28 January in City Hall in Cardiff to discuss how we can raise our game still further.

Bydd yr Aelod yn ymwybodol fod safonau cyrhaeddiad yn ysgolion Cymru yn parhau i godi yn gyffredinol, a'n bod wedi cyrraedd lefel uwch nag erioed yr haf hwn o ran canlyniadau TGAU; yn wir, mewn mathemateg lefel A—mae'n cyfeirio'n benodol at fathemateg—mae Cymru bellach yn curo Lloegr, fel y mae'n ei wneud mewn hanes, cemeg a naw pwnc lefel A arall. Felly, nid yw'r darlun mor llwm ag y mae hi'n ei awgrymu, o bell ffordd. Fodd bynnag, rwy'n derbyn nad yw'r gwelliannau o ran cyrhaeddiad mewn mathemateg, yn benodol, yn symud mor gyflym ag yr hoffem, a dyna pam rwy'n trefnu'r gynhadledd genedlaethol gyntaf erioed o athrawon mathemateg arweiniol i gyfarfod â mi ar 28 Ionawr yn Neuadd y Ddinas yng Nghaerdydd i drafod sut y gallwn wella ein perfformiad ymhellach.

13:49

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to the Plaid Cymru spokesperson, and that is Simon Thomas.

Symudwn yn awr at lefarydd Plaid Cymru, Simon Thomas.

13:50

## Simon Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have a question for the Deputy Minister. What deficit do you expect further education colleges to be running in the next financial year?

Mae gennyf gwestiwn i'r Dirprwy Weinidog. Faint o ddiffyg rydych chi'n disgwyl i golegau addysg bellach ei wynebu yn y flwyddyn ariannol nesaf?

13:50

## Julie James Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg / The Deputy Minister for Skills and Technology*

FE colleges have faced a particularly difficult round of funding this year, because we have had to have unprecedented cuts as a result of the £1.7 billion cut to the Welsh Government's funding. I have to say that these are not cuts that I would be choosing to make in any regard. However, we are working extremely hard with a number of FE colleges across Wales—all of them—to mitigate the effect of the cuts, where at all possible. We have implemented a new skills-based implementation plan, which will be working with them to mitigate the effect of those cuts; we have just announced the outcome of the new work-based learning contract, which will allow people to get a solid base underneath them; we are working extremely hard with our anchor and major employers, regionally and nationally, to make sure that our co-investment strategy gets off to a good start; and we have a number of other irons in the fire alongside that to mitigate the impact. However, the Member asks a very pertinent question, because there is no doubt at all that these cuts are having a massive impact on cherished services.

Mae colegau Addysg Bellach wedi wynebu cylch cyllido arbennig o anodd eleni, gan ein bod wedi gorfod ysgwyddo toriadau digynsail o ganlyniad i'r toriad £1.7 biliwn yng nghyllid Llywodraeth Cymru. Rhaid i mi ddweud nad yw'r rhain yn doriadau y byddwn yn dewis eu gwneud mewn unrhyw amgylchiadau. Fodd bynnag, rydym yn gweithio'n hynod o galed gyda nifer o golegau addysg bellach ar draws Cymru-pob un ohonynt-i liniaru effaith y toriadau lle bo hynny'n bosibl. Rydym wedi gweithredu cynllun gweithredu newydd yn seiliedig ar sgiliau i'w ddefnyddio gyda hwy er mwyn lliniaru effaith y toriadau; rydym newydd gyhoeddi canlyniad y contract newydd dysgu seiliedig ar waith i roi sylfaen gadarn i bobl; rydym yn gweithio'n hynod o galed gyda chwmnïau angori a chyflogwyr mawr, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol, er mwyn sicrhau bod ein strategaeth gyd-fuddsoddi yn cael cychwyn da; ac mae gennym nifer o heyrn eraill yn y tân yn ogystal ar gyfer lliniaru'r effaith. Fodd bynnag, mae'r Aelod yn gofyn cwestiwn perthnasol iawn, oherwydd nid oes amheuaeth o gwbl fod y toriadau hyn yn cael effaith enfawr ar wasanaethau gwerthfawr.

13:51

## Simon Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Deputy Minister. My interpretation is that we can expect the deficit to be around £35 million to £40 million for FE colleges due to the cuts that the Deputy Minister has just outlined—cuts that are her cuts within the budget that has been allocated, and a choice has been made to prioritise other decisions within the Welsh budget above and beyond further education, which is being cut by some 4.8% in real terms. So, with that background, Deputy Minister, how many actual post-19 new learners do you expect to see next year?

Diolch i'r Dirprwy Weinidog. Fy nehongliad i yw y gallwn ddisgwyl i'r diffyg fod tua £35 miliwn i £40 miliwn i golegau addysg bellach oherwydd y toriadau y mae'r Dirprwy Weinidog newydd eu hamlinellu—ei thoriadau hi o fewn y gyllideb a ddyrannwyd, ac mae dewis wedi cael ei wneud i flaenoriaethu penderfyniadau eraill yng nghyllideb Cymru y tu hwnt i addysg bellach, sy'n gweld toriad o tua 4.8% mewn termau real. Felly, gyda'r cefndir hwnnw, Ddirprwy Weinidog, sawl dysgwr newydd dros 19 oed ydych chi'n disgwyl ei weld y flwyddyn nesaf mewn gwirionedd?

13:51 **Julie James** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

That is a very difficult specific question to ask; it depends on which of the strands of the programme we are looking at. So, for example, I have said in the Chamber many times that what we will be doing is prioritising our funding on those programmes that deliver the best outcomes for learners. So, under the new planning and funding methodology, we are going through all of the courses that are currently on offer and ensuring that it is only those courses that give the best outcomes for learners that are supported by the Govenrment. We have a new focus on both 16 to 24-year-olds and those who are furthest away from education, employment or training in the real world. As you know, we also have a focus on higher-level apprenticeships, which are very popular indeed, both with learners and employers. Those are mostly focused on plus 25s. Although there is no age limit, the statistics show that it is mostly people over 25 who are already in the workplace who are accessing those. That is very much part of our plan to upskill Wales over the next two or three years in a major way, alongside our major employers—indeed, I do not know why I am saying 'major employers', because I meant to say 'alongside our employers', because we have a number of exemplary small and medium-sized enterprises in this area as well.

Mae hwnnw'n gwestiwn anodd a phenodol iawn i'w ofyn; mae'n dibynnu ar ba ran o elfennau'r rhaglen rydym yn edrych arni. Er enghraifft felly, rwyf wedi dweud yn y Siambr droeon mai'r hyn y byddwn yn ei wneud fydd blaenoriaethu ein cyllid ar gyfer y rhaglenni hynny sy'n cyflawni'r canlyniadau gorau i ddysgwyr. Felly, yn rhan o'r fethodoleg gynllunio ac ariannu newydd, rydym yn edrych ar bob un o'r cyrsiau sydd ar gael ar hyn o bryd ac yn sicrhau mai dim ond y cyrsiau sy'n rhoi'r canlyniadau gorau i ddysgwyr sy'n cael eu cefnogi gan y Llywodraeth. Mae gennym ffocws newydd ar rai rhwng 16 a 24 oed a'r rhai sydd bellaf o addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant yn y byd go iawn. Fel y gwyddoch, mae gennym ffocws hefyd ar brentisiaethau lefel uwch, sy'n eithriadol o boblogaidd gyda dysgwyr a chyflogwyr. Mae'r rheiny'n canolbwyntio'n bennaf ar bobl 25 oed a hŷn. Er nad oes cyfyngiad oedran, mae'r ystadegau'n dangos mai pobl dros 25 oed sydd eisoes yn y gweithle sy'n gwneud defnydd o'r rheiny. Mae hynny'n sicr yn rhan o'n cynllun i wella sgiliau Cymru dros y ddwy neu dair blynedd nesaf mewn ffordd bwysig, ochr yn ochr â'n prif gyflogwyr—yn wir, nid wyf yn gwybod pam rwy'n dweud 'prif gyflogwyr', gan mai'r hyn rwy'n ei olygu yw 'ochr yn ochr â'n cyflogwyr', oherwydd mae gennym nifer o fentrau rhagorol bach a chanolig eu maint yn y maes hwn hefyd.

So, while I am not going to hide in any way from the fact that these cuts are not things that we would want to do, they are choices and there have been no good choices whatsoever in making these announcements. What we have tried to do is to focus on the very best possible outcomes, given the circumstances that we find ourselves in.

Felly, er nad wyf yn mynd i guddio mewn unrhyw ffordd rhag y ffaith nad yw'r toriadau hyn yn bethau y byddem yn dymuno eu gwneud, dewisiadau ydynt ac ni fu unrhyw ddewisiadau da o gwbl wrth wneud y cyhoeddiadau hyn. Yr hyn rydym wedi ceisio'i wneud yw canolbwyntio ar y canlyniadau gorau posibl, o ystyried ein hamgylchiadau presennol.

13:53 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

You say, Deputy Minister, that it is a difficult question to ask—although I think that you meant a difficult question to answer—but your own strategic integrated impact assessment tries to address this very question. You say that these cuts will affect 12,000 and will mean 100,000 fewer hours of part-time provision. You say that class sizes will increase. You have undermined the cross-party support for higher-level skills and parity with academic choices with your own cuts of £15 million to work-based learning next year. You did not say in reply, but you have said so previously, that you wish for European funding and for companies to fund themselves to replace some Welsh Government funding, but where will this leave adults post-19, Deputy Minister, who need to retrain or upskill following redundancies, such as those in Pembrokeshire now, following the Murco closure?

Rydych yn dweud, Ddirprwy Weinidog, ei fod yn gwestiwn anodd i'w ofyn—er fy mod yn credu mai'r hyn a olygwch yw ei fod yn gwestiwn anodd i'w ateb—ond mae eich asesiad effaith strategol integredig eich hun yn ceisio mynd i'r afael â'r union gwestiwn hwn. Rydych yn dweud y bydd y toriadau hyn yn effeithio ar 12,000 ac y bydd yn golygu 100,000 yn llai o oriau o ddarpariaeth ran-amser. Rydych yn dweud y bydd maint dosbarthiadau'n cynyddu. Rydych wedi tanseilio'r gefnogaeth drawsbleidiol i sgiliau lefel uwch a chydraddoldeb â dewisiadau academaidd drwy eich toriadau eich hun o £15 miliwn i'r ddarpariaeth ddysgu seiliedig ar waith y flwyddyn nesaf. Ni ddywedasoch yn eich ateb, ond rydych wedi dweud o'r blaen, eich bod yn dymuno cael cyllid Ewropeaidd ac am weld cwmnïau'n ariannu eu hunain i gymryd lle rhywfaint o gyllid Lywodraeth Cymru, ond lle fydd hyn yn gadael oedolion dros 19 oed sydd angen ailhyfforddi neu wella'u sgiliau, Ddirprwy Weinidog, yn dilyn diswyddiadau, megis y rhai yn Sir Benfro ar hyn o bryd yn dilyn cau Murco?

13:54 **Julie James** Bywgraffiad Biography

The Member has conflated two separate issues. [Interruption.] Well, there were three questions, but two separate issues. I will look at the Murco issue first. We are extending, for example, our ReAct programme for people who are under threat of redundancy, which obviously most of the employees in Murco are. There are some gaps there. The Minister for Economy, Science and Transport and I have worked very hard with that group to make sure that we have the best possible offer in place to retain very skilled workers who are essential to the economy of Wales in Wales and in our economy. That is an ongoing plan, with a taskforce that is currently meeting very regularly to try to do just that. That is a separate issue from the mainstream of post-19 education, because that is a very special circumstance, which we are working very hard across Government to try to address.

Mae'r Aelod wedi cymysgu dau fater gwahanol. [Torri ar draws.] Wel, roedd tri chwestiwn, ond dau fater gwahanol. Byddaf yn edrych ar fater Murco yn gyntaf. Rydym yn ymestyn, er enghraifft, ein rhaglen ReAct ar gyfer pobl sydd o dan fygythiad o gael eu diswyddo, sef y rhan fwyaf o'r gweithwyr yn Murco, wrth gwrs. Mae rhai bylchau yno. Mae Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth a minnau wedi gweithio'n galed iawn gyda'r grŵp hwnnw i wneud yn siŵr fod gennym y cynnig gorau posibl yn ei le i gadw gweithwyr medrus iawn sy'n hanfodol i economi Cymru yng Nghymru ac yn ein heconomi. Mae hwnnw'n gynllun parhaus, gyda thasglu sy'n cyfarfod yn rheolaidd iawn ar hyn o bryd i geisio gwneud hynny. Mae hwnnw'n fater ar wahân i brif ffrwd addysg dros 19 oed, gan fod hwnnw'n amgylchiad arbennig, ac rydym yn gweithio'n galed iawn ar draws y Llywodraeth i geisio mynd i'r afael ag ef.

Senedd.tv
Fideo Video

In terms of the mainstream post-19 scenario, we are focusing on those people not in employment and on those people in sectors that are very important to the Welsh Government, which we are upskilling. There is an impact, which I regret, on adults who are in work in particular sectors that are hard hit by this. I am not making any attempt to hide from that; this is not a cut I would have chosen to make, but we are in a very difficult position and there have been no good choices. However, we have focused very sharply on what our priorities are, and I will reiterate them: our priorities are to get young people into employment; to make sure that people get the best out of their talents; to make sure that our employers understand the value of investing in their employees; and to make sure that our offer to those employers is the very best it can be by focusing our funding on priority programmes that have the best outcome for their learners, in conjunction with the employers, to make sure that we have the skills set to ensure that those employers stay and grow here for our economy.

O ran senario'r brif ffrwd dros 19, rydym yn canolbwyntio ar y bobl hynny nad ydynt mewn gwaith ac ar y bobl hynny mewn sectorau sy'n bwysig iawn i Lywodraeth Cymru, ac rydym yn gwella sgiliau'r bobl hynny. Mae yna effaith, ac rwy'n difaru hyn, ar oedolion sy'n gweithio mewn sectorau penodol ac sy'n cael eu taro'n galed gan hyn. Nid wyf yn gwneud unrhyw ymgais i guddio rhag hynny; nid yw hwn yn doriad y byddwn wedi dewis ei wneud, ond rydym mewn sefyllfa anodd iawn ac nid oes unrhyw ddewisiadau da wedi bod. Fodd bynnag, rydym wedi canolbwyntio yn galed iawn ar beth yw ein blaenoriaethau, a byddaf yn eu hailadrodd: ein blaenoriaethau yw cael pobl ifanc i mewn i waith; gwneud yn siŵr fod pobl yn gwneud y gorau o'u doniau; gwneud yn siŵr fod ein cyflogwyr yn deall gwerth buddsoddi yn eu gweithwyr; a gwneud yn siŵr fod ein cynnig i'r cyflogwyr hynny y gorau y gall fod drwy ganolbwyntio ein cyllid ar raglenni â blaenoriaeth a all gynnig y canlyniadau gorau ar gyfer eu dysgwyr, ar y cyd â'r cyflogwyr, er mwyn gwneud yn siŵr fod gennym y sgiliau i sicrhau bod y cyflogwyr hynny'n aros ac yn tyfu yma ar gyfer ein heconomi.

### Anghenion Addysgol Arbennig

### Special Educational Needs

13:56 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

*3. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar adnabod anghenion addysgol arbennig? OAQ(4)0497(ESK)*

*3. Will the Minister make a statement re garding identifying special educational needs? OAQ(4)0497(ESK)*

Senedd.tv
Fideo Video

13:56 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

I will, Presiding Officer. Early identification and provision of support is the key to ensuring that children with special educational needs—SEN—achieve their potential. The responsibility to provide suitable education for all pupils, including those with SEN, rests with the local authority.

Gwnaf, Lywydd. Nodi a darparu cefnogaeth yn gynnar yw'r allwedd i sicrhau bod plant ag anghenion addysgol arbennig—AAA—yn cyflawni eu potensial. Mae'r cyfrifoldeb i ddarparu addysg addas ar gyfer pob disgybl, gan gynnwys disgyblion AAA, yn nwylo'r awdurdod lleol.

Senedd.tv
Fideo Video

13:56 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Thank you for that answer, Minister. Many of my constituents have experienced very long waits to achieve a diagnosis, even after they have been referred by their schools. Will you consider a method of monitoring the referral-to-diagnosis waiting time for young people in this position, to ensure that they can get the interventions that they need at the earliest possible point?

Diolch i chi am eich ateb, Weinidog. Mae llawer o fy etholwyr wedi wynebu amseroedd aros hir iawn cyn cael diagnosis, hyd yn oed ar ôl iddynt gael eu hatgyfeirio gan eu hysgolion. A wnewch chi ystyried dull o fonitro'r amser aros rhwng atgyfeiriad a diagnosis i bobl ifanc yn y sefyllfa hon, er mwyn sicrhau y gallant gael yr ymyriadau sydd eu hangen arnynt ar y pwynt cynharaf posibl?

Senedd.tv
Fideo Video

13:57 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, of course. The Member is quite right to point to the difficulties that have been faced historically in this regard. In terms of the run-up to the additional learning needs Bill that the Assembly will be considering, which will be introduced by the summer of next year, we will all need to work closely together to ensure that Assembly Members, our stakeholders out there in the community, experts and others develop alongside that Bill an additional learning needs code, with the intention that this is made available during the ALN Bill scrutiny process. I see these things as running in parallel. The code will impose requirements and provide guidance around the identification of ALN, including earlier identification. That is the commitment from me. It is for all of us now to work together to come up with the best possible formulation for that vital code.

Gwnaf, wrth gwrs. Mae'r Aelod yn hollol gywir i dynnu sylw at yr anawsterau a wynebwyd yn hanesyddol yn hyn o beth. O ran y cyfnod sy'n arwain at y Bil anghenion dysgu ychwanegol y bydd y Cynulliad yn ei ystyried, ac a fydd wedi'i gyflwyno erbyn haf y flwyddyn nesaf, bydd angen i bob un ohonom gydweithio'n agos i sicrhau bod Aelodau'r Cynulliad, ein rhanddeiliaid yn y gymuned, arbenigwyr ac eraill yn datblygu cod anghenion dysgu ychwanegol ochr yn ochr â'r Bil, gyda'r bwriad o sicrhau ei fod ar gael yn ystod proses graffu'r Bil ADY. Rwy'n gweld y pethau hyn yn rhedeg yn gyfochrog. Bydd y cod yn gosod gofynion ac yn rhoi arweiniad ar nodi ADY, yn cynnwys eu nodi'n gynharach. Dyna'r ymrwymiad gen i. Mae'n rhaid i bob un ohonom gydweithio yn awr i ddod o hyd i'r ffurf gorau posibl ar gyfer y cod hollbwysig hwnnw.

13:58 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, the Children's Commissioner for Wales's report published yesterday, 'Full Lives: Equal Access?', shows that half of local education authorities in Wales have no accessibility policy strategy or have such a weak policy document that it is going nowhere. You said last night on the television that you will consider the report, but will you give us a bit more detail as to how quickly LEAs will be getting the message that this subject needs addressing in secondary schools?

Weinidog, mae adroddiad Comisiynydd Plant Cymru a gyhoeddwyd ddoe, 'Bywydau Llawn: Mynediad Cyfartal', yn dangos nad oes gan hanner yr awdurdodau addysg lleol yng Nghymru unrhyw strategaeth polisi hygyrchedd neu fod y polisi sydd ganddynt mor wan fel nad yw'n gweithio o gwbl. Dywedasoch neithiwr ar y teledu y byddwch yn ystyried yr adroddiad, ond a allech chi roi ychydig mwy o fanylion i ni ynglŷn â pha mor gyflym y bydd yr AALlau yn cael y neges fod angen mynd i'r afael â'r pwnc hwn mewn ysgolion uwchradd?

13:58 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Jenny Rathbone. We are clear, as a Welsh Government, that schools as providers of services must not discriminate against anyone, and that is very clearly laid out in law under the Equality Act 2010. There is an appeals procedure, too, for parents through the Education (Wales) Measure 2009 to the special educational needs tribunal for Wales. I can assure the Member that, in terms of our twenty-first century schools programme, letters of agreement between the Welsh Government and local government, as we move towards new build and refurbishment, always take into account the access issues that the children's commissioner is concerned about. However, across the rest of the school estate, it seems that there is a game that must be raised among local authorities in terms of making sure that their policies are up to date and robust.

Diolch i Jenny Rathbone. Rydym yn glir, fel Llywodraeth Cymru, fod yn rhaid i ysgolion fel darparwyr gwasanaethau beidio â gwahaniaethu yn erbyn unrhyw un, ac mae hynny wedi'i osod yn glir iawn yn y gyfraith o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Hefyd, ceir gweithdrefn i rieni allu apelio drwy Fesur Addysg (Cymru) 2009 i'r tribiwnlys anghenion addysgol arbennig ar gyfer Cymru. O ran ein rhaglen ysgolion yr unfed ganrif ar hugain, gallaf sicrhau'r Aelod fod llythyrau cytundeb rhwng Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol, wrth i ni symud tuag at adeiladau newydd ac adnewyddu ysgolion, bob amser yn ystyried y materion mynediad y mae'r comisiynydd plant yn bryderus yn eu cylch. Fodd bynnag, ar draws gweddill yr ystâd ysgolion, mae'n ymddangos bod yn rhaid gwella ymdrechion awdurdodau lleol o ran sicrhau bod eu polisïau yn gyfredol ac yn gadarn.

13:59 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I am glad that you recognise the need for a game to be raised. I had a constituent whose child was statemented, and the school was not implementing the requirements of that statement. She sought to appeal to her local education authority, which did not deal with the appeal in the appropriate time limits. That is a lacuna in the legislation, Minister, because she found that there was an inability to enforce those statemented needs. So, I would ask, when you are bringing forward the ALN Bill, that you look at that lacuna and seek to fill it. Tribunal proceedings can be very lengthy, they require a degree of legal expertise that, very often, parents do not have and cannot afford. So, I would ask you to look at whatever you can do to speed up the enforcement process.

Weinidog, rwy'n falch eich bod yn cydnabod yr angen i wella ymdrechion. Roedd gen i etholwr â phlentyn ar ddatganiad, ac nid oedd yr ysgol yn gweithredu gofynion y datganiad hwnnw. Ceisiodd apelio at ei hawdurdod addysg lleol, ond ni lwyddodd i ymdrin â'r apêl o fewn y terfynau amser priodol. Mae hynny'n fwlch yn y ddeddfwriaeth, Weinidog, oherwydd gwelodd fy etholwr fod yna anallu i orfodi anghenion y datganiad. Felly, pan fyddwch yn cyflwyno'r Bil ADY, hoffwn ofyn i chi edrych ar y bwlch hwnnw a cheisio ei lenwi. Gall achosion tribiwnlys fod yn hir iawn, maent yn galw am rywfaint o arbenigedd cyfreithiol nad oes gan y rhieni'n aml iawn ac nad ydynt yn gallu ei fforddio. Felly, byddwn yn gofyn i chi edrych ar beth bynnag y gallwch ei wneud i gyflymu'r broses orfodi.

14:00 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank the Member, and my reply is to say, of course I will. It is a key element, as we build this new legislative framework around the needs of children with ALN, that we have a mind to speed and resolution. In effect, if we reach a tribunal stage, then the system has—almost by definition—let someone down. So, we need a very different framework that delivers for young people and for their parents.

Diolch i'r Aelod, ac wrth gwrs y gwnaf i hynny. Wrth i ni adeiladu'r fframwaith deddfwriaethol newydd hwn o amgylch anghenion plant ag ADY, mae'n allweddol ein bod yn ceisio gwneud hynny'n gyflym ac yn benderfynol. Mewn gwirionedd, os ydym yn cyrraedd cam tribiwnlys, yna mae'r system—bron drwy ddiffiniad—wedi gwneud cam â rhywun. Felly, rydym angen fframwaith gwahanol iawn sy'n darparu ar gyfer pobl ifanc ac ar gyfer eu rhieni.

14:01 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Weinidog, yn unol â'r strategaeth awtistiaeth a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru beth amser yn ôl, fe roedd yna gymhorthdal penodol o £40,000 yn mynd i bob cyngor sir i gynnig gwasanaethau i bobl sy'n dioddef o awtistiaeth. Roedd awdurdodau addysg yn gallu gwario peth o'r arian hwn ar offer angenrheidiol, fel iPads, i gynorthwyo addysg myfyrwyr yn yr ysgolion oedd ag awtistiaeth. Mae'r arian hwn bellach yn rhan o'r cymhorthdal cyffredinol i gynghorau sir. Beth ydych chi yn mynd i'w wneud i sicrhau bod y cymorth addysgiadol hanfodol hwn yn cael ei ddiogelu o fewn y trefniant newydd?

Minister, in accordance with the autism strategy, adopted by Welsh Government some time ago, there was a specific grant of £40,000 going to every county council to offer services to people on the autistic spectrum. Local education authorities could spend that money on necessary equipment, such as iPads, to assist with the education of students in schools who suffered with autism. This money is now part of the general support for local authorities. What are you going to do to ensure that this essential educational support is safeguarded within the new arrangements?

14:01 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Well, of course, we fight every budget round for sufficient resource for all our young people, and that is part of the deliberations of this place. I have made very clear my priorities in terms of making sure that the schools system does not discriminate against any young person, regardless of their sex, race or disability.

Wel, wrth gwrs, ar bob cylch cyllidebol rydym yn ymladd am ddigon o adnoddau ar gyfer pob un o'n pobl ifanc, ac mae hynny'n rhan o drafodaethau'r lle hwn. Rwyf wedi gwneud fy mlaenoriaethau'n amlwg iawn o ran gwneud yn siŵr nad yw'r system ysgolion yn gwahaniaethu yn erbyn unrhyw berson ifanc, beth bynnag yw ei ryw, ei hil neu ei anabledd.

14:02 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Before we move to question 4, may I remind Members to be more concise in their questioning, including you Rhodri Glyn Thomas? Also, if Ministers could be a little more concise in replying, we can move on through the agenda. Question 4, Gwenda Thomas.

Cyn i ni symud i gwestiwn 4, hoffwn atgoffa'r Aelodau i fod yn fwy cryno wrth ofyn cwestiynau, yn eich cynnwys chi, Rhodri Glyn Thomas. Hefyd, pe gallai Gweinidogion fod ychydig yn fwy cryno wrth ateb, gallwn symud ymlaen drwy'r agenda. Cwestiwn 4, Gwenda Thomas.

### Ymgyrch 'Ffocws ar Wyddoniaeth

### The 'Focus on Science' Campaign

14:02 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*4. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr ymgyrch Ffocws ar Wyddoniaeth? OAQ(4)0500(ESK)*

*4. Will the Minister provide an update on the Focus on Science campaign? OAQ(4)0500(ESK)*

14:02 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Yes, I launched the Focus on Science campaign on 24 October, and we have already made positive progress in developing a range of stimulating support materials and an exciting timetable of activities to support our key aim of promoting the study of science subjects with teachers, pupils and their parents.

Gwnaf, lansiais yr ymgyrch Ffocws ar Wyddoniaeth ar 24 Hydref, ac rydym eisoes wedi gwneud cynnydd cadarnhaol wrth ddatblygu ystod o ddeunyddiau cymorth ac amserlen gyffrous o weithgareddau ysgogol i gefnogi ein nod allweddol o hyrwyddo astudio pynciau gwyddonol ymhlith athrawon, disgyblion a'u rhieni.

14:03 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch am yr ateb, Weinidog. A wnewch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf, felly, am y niferoedd sy'n manteisio ar yr adnoddau dwyieithog newydd sy'n cael eu creu er mwyn helpu athrawon a dysgwyr â'u hastudiaethau gwyddoniaeth?

Thank you for that response, Minister. Will you give us an update, therefore, on the numbers actually benefiting from the new bilingual resources that are being created in order to assist both teachers and pupils with their scientific studies?

14:03 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for that question. This is a personal priority for me, and an early point I made with officials. We need more resources in the Welsh language, as was highlighted in our science practitioner survey last year. I have taken action on this, and I am ensuring that all of the new resources that are produced under the Focus on Science campaign are available in Welsh. This will also apply to materials in support of the new science GCSEs for first teaching from September 2016.

Diolch i'r Aelod am y cwestiwn. Mae hon yn flaenoriaeth bersonol i mi, ac yn bwynt a godais yn gynnar â swyddogion. Mae arnom angen mwy o adnoddau yn yr iaith Gymraeg, fel yr amlygwyd yn ein harolwg athrawon gwyddoniaeth y llynedd. Rwyf wedi gweithredu ar hyn, ac rwy'n sicrhau bod yr holl adnoddau newydd sy'n cael eu cynhyrchu o dan yr ymgyrch Ffocws ar Wyddoniaeth ar gael yn Gymraeg. Bydd hyn hefyd yn wir am ddeunydd cefnogi'r TGAU gwyddoniaeth newydd sydd i'w dysgu o fis Medi 2016 ymlaen.

14:04 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, you have mentioned resources several times in your answer to Gwenda Thomas. May I ask you what your intentions are with regard to the use of science role models? When the Enterprise and Business Committee did our inquiry into entrepreneurship, we found that entrepreneur role models could be of great value. I do not think that you can beat sort of personal contact, so would you factor that into your scheme?

Weinidog, rydych wedi crybwyll adnoddau sawl gwaith yn eich ateb i Gwenda Thomas. A gaf fi ofyn i chi beth yw eich bwriad o ran defnyddio modelau rôl gwyddoniaeth? Pan gynhaliodd y Pwyllgor Menter a Busnes ein hymchwiliad i entrepreneuriaeth, darganfuom y gallai modelau rôl entrepreneuraidd fod yn werthfawr iawn. Nid wyf yn credu y gallwch guro cyswllt personol o'r fath, felly a fyddech yn cynnwys hynny yn eich cynllun?

14:04 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, of course. Our work with schools, and particularly the awareness campaign that we are currently engaged with in terms of STEM subjects in conjunction with schools, is shot through with examples of good female role models, in particular, for our young people to take as examples.

Byddwn, wrth gwrs. Mae ein gwaith gydag ysgolion, ac yn enwedig yr ymgyrch ymwybyddiaeth rydym yn ymwneud â hi ar hyn o bryd ar y cyd ag ysgolion o ran pynciau STEM, yn llawn o fodelau rôl benywaidd, yn arbennig, i'n pobl ifanc eu hystyried yn esiampl.

14:04 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Un o amcanion Ffocws ar Wyddoniaeth ydy denu mwy o ferched i astudio gwyddoniaeth. A wnaiff y Gweinidog ymuno efo fi i longyfarch Ysgol David Hughes yn fy etholaeth i, lle cafodd y gwobrau am lwyddiant yn y pynciau gwyddoniaeth Safon Uwch i gyd eu dyfarnu i ferched yn ddiweddar? A ydyw'r Gweinidog yn rhannu fy mhryderon y gallai toriadau yn y gyllideb hon i gyllidebau gwasanaethau gyrfaoedd danseilio'r gwaith o ddenu rhagor o ferched i mewn i feysydd gwyddonol?

One of the objectives of Focus on Science is to attract more girls to study science. Will the Minister join me in congratulating Ysgol David Hughes in my constituency, where the awards for success in science subjects at A-level were all awarded to girls recently? Does the Minister share my concern that cuts in this budget to careers service budgets could undermine the work of attracting more women into science?

14:05 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, cuts to any public service budgets are to be regretted in today's climate. It is not something that helps anybody's situation. However, I would join the Member, of course, in congratulating the young women at Ysgol David Hughes on their achievements. It is a good thing that he has raised that point here. Again, those examples for women and girls in terms of sticking with STEM subjects are something we need more of.

Wel, mae toriadau i unrhyw gyllidebau gwasanaethau cyhoeddus yn destun gofid yn yr hinsawdd sydd ohoni. Nid yw'n rhywbeth sy'n helpu sefyllfa neb. Fodd bynnag, byddwn yn ymuno â'r Aelod, wrth gwrs, i longyfarch menywod ifanc Ysgol David Hughes ar eu cyflawniadau. Mae'n beth da ei fod wedi codi'r pwynt hwnnw yma. Unwaith eto, mae'r esiamplau hyn i fenywod a merched o ran dal ati â phynciau STEM yn rhywbeth y mae angen mwy ohono.

14:06 **Christine Chapman** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I was delighted to host an event at the Senedd recently to mark International Day of the Girl, which brought together young women from across south Wales to learn about a range of careers they may not otherwise have considered. As other Members said, we realise that there is still a heavy gender divide in the study of sciences and progression to scientific careers. Could you give a guarantee, Minister, that tackling this is a priority of Focus on Science and that tackling the stereotyping that may dissuade young women from science will be built into the campaign, and that you will actually look at new insights into why young women perhaps do not always stay in scientific careers when they get there?

Weinidog, roeddwn yn falch iawn o gynnal digwyddiad yn y Senedd yn ddiweddar i nodi Diwrnod Rhyngwladol y Ferch, a ddaeth â menywod ifanc o bob rhan o dde Cymru at ei gilydd i ddysgu am amrywiaeth o yrfaoedd na fyddent wedi eu hystyried fel arall o bosibl. Fel y dywedodd Aelodau eraill, rydym yn sylweddoli bod rhaniad amlwg yn dal i fodoli rhwng y rhywiau mewn astudiaethau gwyddonol ac wrth gamu ymlaen i yrfaoedd gwyddonol. A allech roi sicrwydd, Weinidog, fod mynd i'r afael â hyn yn flaenoriaeth i Ffocws ar Wyddoniaeth ac y bydd mynd i'r afael â stereoteipio a allai gymell menywod ifanc i gadw draw o wyddoniaeth yn cael ei gynnwys yn yr ymgyrch, ac y byddwch yn edrych o ddifrif ar atebion newydd ynglŷn â pham nad yw menywod ifanc bob amser yn aros mewn gyrfaoedd gwyddonol ar ôl dechrau?

14:06 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for the Cynon Valley. This has been a concern of mine going right back to my teacher training days, actually. My dissertation for my PGCE concerned the lack of take-up of science options by women and girls, all those years ago. We are still faced, particularly in physics, with a gender equity problem and a lack of take-up among girls, especially in terms of progression to A-level. I have already taken the opportunity to highlight this as part of the campaign launch on 24 October, and I will continue to do this, along with ministerial colleagues and the chief scientific adviser, as the campaign unfolds.

Diolch i'r Aelod dros Gwm Cynon. Mae hyn wedi bod yn bryder i mi ers fy nyddiau hyfforddiant dysgu, mewn gwirionedd. Roedd fy nhraethawd hir ar gyfer TAR yn ymwneud â phrinder y menywod a'r merched a oedd yn manteisio ar opsiynau gwyddoniaeth, yr holl flynyddoedd hynny yn ôl. Rydym yn dal i wynebu problem cyfartalwch rhwng y rhywiau a phrinder merched, yn enwedig ym maes ffiseg, ac wrth gamu ymlaen at lefelau A. Rwyf eisoes wedi manteisio ar y cyfle i dynnu sylw at hyn fel rhan o lansiad yr ymgyrch ar 24 Hydref, a byddaf yn parhau i wneud hyn, gyda chydweithwyr gweinidogol a'r prif gynghorydd gwyddonol, wrth i'r ymgyrch fynd rhagddi.

### Prentisiaethau

### Apprenticeships

14:07 **Jeff Cuthbert** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*5. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar brentisiaethau yng Nghymru? OAQ(4)0491(ESK)*

*5. Will the Minister make a statement on apprenticeships in Wales? OAQ(4)0491(ESK)*

14:07 **Julie James** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for Caerphilly for that important question. I am very, very proud of the apprenticeship programme in Wales. It delivers success rates of over 80% and it provides an excellent opportunity for young people to enhance and strengthen their skills base and to continue to earn while they learn.

Diolch i'r Aelod dros Gaerffili am y cwestiwn pwysig hwnnw. Rwy'n falch iawn, iawn o'r rhaglen brentisiaeth yng Nghymru. Mae ei chyfraddau llwyddiant dros 80% ac mae'n gyfle gwych i bobl ifanc wella a chryfhau eu sylfaen sgiliau a pharhau i ennill cyflog wrth ddysgu.

14:07 **Jeff Cuthbert** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that reply, Deputy Minister. Recently, I attended the Apprenticeships Awards Cymru event in Newport at which you spoke. There was a range of winners that day, including GE Aviation Wales, which employs many of my constituents and which won the large employer of the year award, and a young lady called Devon Sumner of Airbus UK who won the higher apprenticeship award. Deputy Minister, will you join me in paying tribute to these and all the other winners on the day, and will you commit to working with employers and work-based learning providers in Wales so that we can ensure that we have the best and most effective work-based learning system and so that it gets the recognition it rightly deserves?

Diolch am eich ateb, Ddirprwy Weinidog. Yn ddiweddar, mynychais ddigwyddiad Gwobrau Prentisiaethau Cymru yng Nghasnewydd lle roeddech chi'n siarad. Roedd yno nifer o enillwyr y diwrnod hwnnw, yn cynnwys GE Aviation Wales, sy'n cyflogi llawer o fy etholwyr ac a enillodd wobr cyflogwr mawr y flwyddyn, a dynes ifanc o'r enw Devon Sumner o Airbus UK a enillodd y wobr i uwchbrentisiaid. Ddirprwy Weinidog, a wnewch chi ymuno â mi i dalu teyrnged i'r rhain ac i bawb arall a enillodd wobrau, ac a wnewch chi ymrwymo i weithio gyda chyflogwyr a darparwyr dysgu seiliedig ar waith yng Nghymru fel y gallwn sicrhau bod gennym y system ddysgu seiliedig ar waith orau a mwyaf effeithiol ac er mwyn iddi gael y gydnabyddiaeth y mae'n ei haeddu?

14:08 **Julie James** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am absolutely delighted to be able to congratulate all the individuals, employers and providers who were nominated for those prestigious awards as well as those who won them. It was an extremely inspirational and enjoyable evening when they came up and collected their awards. We had a little pen portrait of each of the people winning, which brought a lump to the throat. So, I am very proud of that prestigious awards base, and we will continue to work very hard to ensure that our apprenticeship scheme remains a flagship scheme not only in Wales, but in Europe.

Pleser o'r mwyaf yw cael llongyfarch pob unigolyn, cyflogwr a darparwr a enwebwyd ar gyfer y gwobrau nodedig hynny yn ogystal â'r rhai a'u henillodd. Roedd hi'n noson hynod o ysbrydoledig a phleser oedd eu gweld yn dod i gasglu eu gwobrau. Cawsom bortread bach o bob un o'r unigolion a ddaeth i'r brig, a daeth hynny â lwmp i'r gwddf. Felly, rwy'n falch iawn o'r gwobrau llewyrchus hyn, a byddwn yn parhau i weithio'n galed iawn i sicrhau bod ein cynllun prentisiaeth yn parhau i fod yn gynllun blaenllaw, nid yn unig yng Nghymru, ond yn Ewrop.

14:09 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Deputy Minister, in your draft budget, you said that you will be able to support the Young Recruits programme, which obviously is recruited under a shared apprenticeship scheme. What happens to those people who, for one reason or another, are not able to participate in that excellent scheme?

Ddirprwy Weinidog, yn eich cyllideb ddrafft, dywedasoch y byddwch yn gallu cefnogi'r rhaglen Recriwtiaid Newydd, sy'n amlwg yn cael eu recriwtio o dan gynllun rhannu prentisiaeth. Beth sy'n digwydd i'r bobl nad ydynt, am ryw reswm neu'i gilydd, yn gallu cymryd rhan yn y cynllun rhagorol hwnnw?

14:09 **Julie James** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Young Recruits programme was put in place during the recession to meet a particular need, and it has been extremely successful and we are very proud of it. Unfortunately, the demand for it has been such that, in the current climate, we have not been able to extend it to the number of people who would like to participate. It is now restricted to people coming out of the Jobs Growth Wales scheme or, indeed, our excellent shared apprenticeship scheme. We do have a number of other programmes, though, such as the traineeship programme, that step into that gap, and we are in conversation with the Welsh European Funding Office about a number of other schemes, which we will be looking to use to replace these kinds of projects. However, it is worth saying that, in this time when the economy appears to be slowly coming out of recession, we are also expecting our employers to step up to the plate.

Rhoddwyd y rhaglen Recriwtiaid Newydd ar waith yn ystod y dirwasgiad i ddiwallu angen penodol. Mae wedi bod yn llwyddiannus dros ben ac rydym yn falch iawn ohoni. Yn anffodus, mae'r galw amdani wedi bod mor uchel fel nad ydym, yn yr hinsawdd sydd ohoni, wedi gallu ei chynnig i'r nifer o bobl a fyddai'n hoffi cymryd rhan ynddi. Mae hi bellach wedi'i chyfyngu i'r bobl sy'n dod allan o gynllun Twf Swyddi Cymru, neu'n wir, ein cynllun rhannu prentisiaeth. Mae gennym nifer o raglenni eraill, fodd bynnag, megis y rhaglen hyfforddeiaethau, sy'n llenwi'r bwlch hwnnw, ac rydym yn trafod gyda Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru ynglŷn â nifer o gynlluniau eraill y byddwn yn ceisio eu defnyddio yn lle'r mathau hyn o brosiectau. Fodd bynnag, yn y cyfnod hwn pan ymddengys bod yr economi yn graddol ddod allan o'r dirwasgiad, mae'n werth dweud ein bod hefyd yn disgwyl i'n cyflogwyr wneud eu rhan.

14:10 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Fe wnaethoch chi, yn eich ateb cyntaf, ganmol gwaith prentisiaethau'r Llywodraeth yma i'r cymylau ac ni fyddwn yn disgwyl dim gwahanol. Mae llawer i'w ganmol, wrth gwrs. Mae gwerth prentisiaethau'n ddiamheuol, ond onid yw hi'n eironig, felly, eich bod wedi penderfynu torri bron £11 miliwn o fewn y gyllideb eleni a gwneud toriadau pellach y flwyddyn nesaf? Onid yw hynny'n adlewyrchu bod cam-flaenoriaethu cyllidebol wedi bod?

In your initial response, you lauded the work of the Government here on apprenticeships and I would not expect any less. There is a great deal to be praised, of course. The value of apprenticeships is without doubt, but is it not ironic, therefore, that you decided to cut almost £11 million of this year's budget with further cuts next year? Does that not reflect that there is a problem in terms of prioritising budgets?

14:10 **Julie James** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

That is not quite right, actually. We had a very good deal with the Plaid Cymru group, which we are very proud of, and I think that we were rightly proud, as both parties, of that. In doing that deal, a very large number of apprenticeships could be put in place and I assure you that all of the apprentices that started their apprenticeships will be able to finish them. There is no issue about the cohorts finishing. In fact, because of a further budget deal, we are now able to say that we have £3.75 million more, more or less, on the base budget for apprenticeships than we had in the first year, and the rest of the deal in the second year, depending on how we line it up for employers. So, it is not true to say that we have cut the apprenticeships budget at all. What we do not have is the peak that we had during those two years, which met the demand in the worst of the recession, but the apprenticeship scheme remains a key plank of this Government's priorities.

Nid yw hynny'n hollol gywir, mewn gwirionedd. Roedd gennym gytundeb da iawn gyda grŵp Plaid Cymru. Rydym yn falch iawn o hynny, ac yn haeddu bod yn falch o hynny, yn y ddwy blaid. Wrth gytuno ar hynny, bu'n bosibl rhoi nifer fawr iawn o brentisiaethau ar waith ac rwy'n eich sicrhau y bydd pob un o'r prentisiaid a ddechreuodd ar eu prentisiaethau yn gallu eu cwblhau. Nid oes unrhyw broblem ynghylch galluogi'r cohortau i gwblhau. Mewn gwirionedd, oherwydd cytundeb cyllidebol pellach, gallwn ddweud yn awr fod gennym £3.75 miliwn yn fwy, fwy neu lai, na'r gyllideb sylfaenol ar gyfer prentisiaethau nag a oedd gennym yn y flwyddyn gyntaf, a gweddill y cytundeb yn yr ail flwyddyn, yn dibynnu ar sut y byddwn yn ei gyflwyno i gyflogwyr. Felly, nid yw'n wir dweud ein bod wedi torri'r gyllideb prentisiaethau o gwbl. Yr hyn nad oes gennym yw'r uchafswm a oedd gennym yn ystod y ddwy flynedd hynny, a oedd yn cwrdd â'r galw pan oedd y dirwasgiad ar ei waethaf, ond mae'r cynllun prentisiaeth yn parhau i fod yn elfen allweddol o flaenoriaethau'r Llywodraeth hon.

14:11 **David Rees** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Deputy Minister, I have always believed that budget schemes are a vital pathway for many people to gain both academic qualifications and work-based experience to ensure that we have the skills to drive our economy forward. However, we are also seeing that some of our major industries have a demographic range of people where a lot of people are coming to the end of their working careers and we need to get more apprenticeships in place now to develop them and ensure that those businesses can continue. What is the Welsh Government doing to work with our major companies, such as Tata Steel in my constituency, to ensure that wherever possible, a structured programme of apprenticeships is developed to ensure future sustainability?

Ddirprwy Weinidog, rwyf bob amser wedi credu bod cynlluniau cyllidebau yn llwybr hanfodol i lawer o bobl ennill cymwysterau academaidd a phrofiad seiliedig ar waith er mwyn sicrhau bod gennym y sgiliau i yrru ein heconomi yn ei blaen. Fodd bynnag, rydym hefyd yn gweld bod gan rai o'n prif ddiwydiannau amrywiaeth ddemograffig o bobl lle mae llawer o bobl yn dod i ddiwedd eu gyrfaoedd ac mae angen i ni i roi rhagor o brentisiaethau ar waith yn awr er mwyn eu datblygu a sicrhau y gall y busnesau hynny barhau. Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i weithio gyda'n prif gwmnïau, megis Tata Steel yn fy etholaeth i, er mwyn sicrhau, lle bynnag y bo modd, fod rhaglen strwythuredig o brentisiaethau yn cael ei datblygu i sicrhau cynaliadwyedd yn y dyfodol?

14:12 **Julie James** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We continue to work with all of our anchor companies, regionally important companies and other major industries to ensure that skills needs are assessed and supported, including, where appropriate, ensuring links with the appropriate FE training providers and work-based learning providers in their areas. Increasing investment in the skills system is very important, particularly from employers, and I know that Tata Steel has a very good apprenticeship programme running. It did not, perhaps, take as many apprentices as we would have liked last year, but we are working very hard with it to ensure that, in the future, it continues its valuable investment in apprenticeships.

Rydym yn parhau i weithio gyda phob un o'n cwmnïau angori, cwmnïau o bwys rhanbarthol a diwydiannau mawr eraill er mwyn sicrhau bod anghenion sgiliau yn cael eu hasesu a'u cefnogi, yn cynnwys, lle bo'n briodol, sicrhau cysylltiadau gyda'r darparwyr hyfforddiant addysg bellach priodol a darparwyr dysgu seiliedig ar waith yn eu hardaloedd. Mae cynyddu buddsoddiad yn y system sgiliau yn bwysig iawn, yn enwedig gan gyflogwyr, a gwn fod gan Tata Steel raglen brentisiaeth dda iawn. Ni chymerodd gymaint o brentisiaid y llynedd ag y byddem wedi dymuno, o bosibl, ond rydym yn gweithio'n galed iawn gyda'r cwmni i sicrhau ei fod yn parhau ei fuddsoddiad gwerthfawr mewn prentisiaethau yn y dyfodol.

## Asesu Cyrhaeddiad Plant Oed Ysgol Gynradd

## Attainment of Primary School Aged Children

14:12 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*6. A wnaiff y Gweinidog amlinellu pa fesurau sydd ar waith i asesu cyrhaeddiad plant oed ysgol gynradd? OAQ(4)0490(ESK)*

*6. Will the Minister outline what measures are in place to assess the attainment of primary school aged children? OAQ(4)0490(ESK)*

14:12 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

End of foundation phase and end of key stage 2 assessments are carried out by practitioners in accordance with statutory regulations, as they have for some years. A new profile for on-entry and continual assessment for the foundation phase is also being developed and is due to be introduced from September 2015.

Mae addysgwyr yn cynnal asesiadau diwedd cyfnod sylfaen a diwedd cyfnod allweddol 2 yn unol â rheoliadau statudol, fel y gwnaethant ers rhai blynyddoedd. Mae proffil newydd ar gyfer asesiad dechreuol ac asesiad parhaus ar gyfer y cyfnod sylfaen hefyd yn cael ei ddatblygu i'w gyflwyno o fis Medi 2015 ymlaen.

Senedd.tv Fideo Video

14:13 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Minister, freedom of information request figures obtained by a constituent of mine, highlighted a discrepancy in outcomes at the key stage 2 level in Welsh-medium schools, particularly among those who come from English-speaking homes but attended Welsh-medium education. All of these data will have been reported to your department. What have you done to look at why that gap is there and to ensure that these pupils achieve their potential, regardless of which language they are taught in?

Weinidog, mae ffigurau cais rhyddid gwybodaeth a gafodd un o fy etholwyr yn tynnu sylw at anghysondeb yng nghanlyniadau cyfnod allweddol 2 mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, yn enwedig ymhlith disgyblion sy'n dod o gartrefi Saesneg eu hiaith ond sy'n derbyn addysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd eich adran wedi cael yr holl ddata. Beth ydych chi wedi ei wneud i edrych ar y rheswm dros y bwlch ac i sicrhau bod y disgyblion hyn yn cyrraedd eu potensial, beth bynnag yw iaith y dysgu?

Senedd.tv Fideo Video

14:13 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Presiding Officer, I have to say that I am not familiar with the particular freedom of information request to which the Member refers, but I am very happy to take a close look at the problem that she has raised and write to her with some conclusions and thoughts about that.

Lywydd, rhaid i mi ddweud nad wyf yn gyfarwydd â'r cais rhyddid gwybodaeth penodol y cyfeiria'r Aelod ato, ond rwy'n hapus iawn i edrych yn fanwl ar y broblem y cyfeiriodd ati ac i ysgrifennu ati gyda rhai casgliadau a syniadau am hynny.

Senedd.tv Fideo Video

14:14 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Weinidog, dyma'r ail flwyddyn i ni gael y profion cenedlaethol yn ystod y cyfnod hwn. Mae pryder wedi codi dwywaith 'nawr, yn enwedig gyda'r profion o gwmpas y cyfnod sylfaen wrth i ddisgyblion symud yn fwy ffurfiol i mewn i addysg. A ydych chi wedi cael cyfle i edrych ar y profion a gwneud yn siŵr bod ethos ac ysbryd y cyfnod sylfaen yn cael eu diogelu gyda'r profion hyn, a bod y cydbwysedd yn iawn rhwng profi'n gadarn cyrhaeddiad plant a'r angen i ddiogelu ethos y cyfnod sylfaen?

Minister, this is the second year that we have had national tests at this key stage. Concern has been expressed twice now, particularly regarding the test surrounding the foundation phase as pupils move into more formal education. Have you had an opportunity to look at those tests and to ensure that the ethos and spirit of the foundation phase are safeguarded in these tests, and that the balance is right between robust testing of pupil attainment and the need to safeguard the ethos of the foundation phase?

Senedd.tv Fideo Video

14:14 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

We keep the lessons that we have learned from each year of testing under a spotlight and I look closely at feedback from professionals and others in terms of how the testing regime is developing. I would stress to the Member, of course, that these tests come at the end of the foundation phase and should have no impact whatsoever on the philosophy and the method of delivery of the foundation phase within schools.

Rydym yn cadw'r gwersi rydym yn eu dysgu bob blwyddyn o'r profion dan sylw ac rwy'n edrych yn ofalus ar adborth gan weithwyr proffesiynol ac eraill o ran sut y mae'r drefn brofi yn datblygu. Byddwn yn pwysleisio wrth yr Aelod, wrth gwrs, fod y profion hyn yn dod ar ddiwedd y cyfnod sylfaen ac na ddylent gael unrhyw effaith o gwbl ar athroniaeth y cyfnod sylfaen a'r dull o'i gyflwyno mewn ysgolion.

Senedd.tv Fideo Video

14:15 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I know that consortia are concentrating on attendance as a means of raising attendance, and you will be aware of the leaflet issued by the central south consortium, giving guidance to parents on when they can send their children to school when they are ill, which included saying that they are able to send their children to school even when they are suffering from illnesses such as glandular fever and tonsillitis and from infectious conditions such as conjunctivitis, slapped cheek, and hand, foot and mouth. Minister, you may not be aware that the Royal College of Paediatrics and Child Health contacted the relevant consortium asking it to withdraw this leaflet, because it relied on a table that had been taken from a Public Health England document out of context. That table gives guidance on for how long a child is likely to be infectious, not on how long it is before a child is well enough to return to school. Given that the consortium has still not withdrawn this leaflet, despite the fact that it has been shown to it to be misleading, will you now instruct it to withdraw this leaflet and to give proper guidance to parents on when a child can go to school when they are ill?

Weinidog, gwn fod consortia yn canolbwyntio ar bresenoldeb fel modd o gynyddu presenoldeb, a byddwch yn ymwybodol o'r daflen a gyhoeddwyd gan gonsortiwm canol de Cymru, sy'n rhoi arweiniad i rieni ynglŷn â phryd i anfon eu plant i'r ysgol pan fyddant yn sâl, a oedd yn dweud y gallant anfon eu plant i'r ysgol hyd yn oed pan fyddant yn dioddef o afiechydon megis twymyn y chwarennau a thonsilitis a chyflyrau heintus fel llid pilen y llygad, clefyd y foch goch, a chlefyd y dwylo, y traed a'r genau. Weinidog, efallai nad ydych yn ymwybodol fod Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant wedi cysylltu â'r consortiwm perthnasol a gofyn iddo dynnu'r daflen hon yn ôl, gan ei bod yn dibynnu ar dabl a gymerwyd allan o gyd-destun o ddogfen Public Health England. Mae'r tabl hwnnw'n rhoi arweiniad ynglŷn â pha mor hir y mae plentyn yn debygol o fod yn heintus, nid pa mor hir cyn y bydd plentyn yn ddigon da i ddychwelyd i'r ysgol. O ystyried nad yw'r consortiwm wedi tynnu'r daflen hon yn ôl, er ei bod yn gamarweiniol, a fyddwch yn awr yn ei gyfarwyddo i dynnu'r daflen hon yn ôl ac i roi arweiniad priodol i rieni ynglŷn â phryd y gall plentyn fynd i'r ysgol pan fydd yn sâl?

14:16 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, public information like this is the responsibility of the consortium. It is for it to check this stuff and get it right. I am not familiar with the conclusions of health professionals that the Member refers to. I have seen the leaflet myself and took the message very clearly from it that the real judge of whether a young person was well enough to attend school or not was always the parent. That was my reading of the leaflet, as it stood. Of course, if he is willing to hand over some comments from health professionals to me about there being inaccuracies within it, I am more than happy to take a look at medical advice and make sure that we get these things right in dialogue with the consortia.

Wel, cyfrifoldeb y consortiwm yw gwybodaeth gyhoeddus fel hon. Dylai wirio pethau fel hyn a'u cael yn iawn. Nid wyf yn gyfarwydd â chasgliadau'r gweithwyr iechyd proffesiynol y mae'r Aelod yn cyfeirio atynt. Rwyf wedi gweld y daflen fy hun ac mae'r neges yn glir iawn mai'r rhiant bob amser sy'n gallu barnu'n iawn a yw person ifanc yn ddigon da i fynychu'r ysgol ai peidio. Dyna oedd fy nealltwriaeth o'r daflen, fel ag yr oedd. Wrth gwrs, os yw'n barod i roi sylwadau i mi gan weithwyr iechyd proffesiynol ynglŷn ag unrhyw gamgymeriadau, rwy'n fwy na pharod i edrych ar gyngor meddygol a sicrhau ein bod yn cael y pethau hyn yn iawn drwy drafod â'r consortia .

## Y Gymraeg

## The Welsh Language

14:17 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*7. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i gynyddu canran y rhai sy'n gadael yr ysgol yng Nghymru sy'n gallu siarad Cymraeg? OAQ(4)0499(ESK)*

*7. What measures is the Welsh Government taking to increase the percentage of school leavers in Wales who are able to speak Welsh? OAQ(4)0499(ESK)*

14:17 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for South Wales East. The Welsh-medium education strategy outlines the actions that the Welsh Government is taking to increase the number of young people in Welsh-medium education. The strategy includes five outcomes to increase the number of learners studying through the medium of Welsh and the number of learners with higher level Welsh-language skills.

Diolch i'r Aelod dros Ddwyrain De Cymru. Mae'r strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn amlinellu'r camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gynyddu nifer y bobl ifanc mewn addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'r strategaeth yn cynnwys pum canlyniad i gynyddu nifer y dysgwyr sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg a nifer y dysgwyr gyda sgiliau iaith Gymraeg ar lefel uwch.

14:17 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch am eich ateb, Weinidog. Mae pôl piniwn yn dweud bod 63% o bobl yn cefnogi'r syniad y dylai plant fod yn gallu cyfathrebu yn ddwyieithog—yn Gymraeg ac yn Saesneg—ar ôl gadael ysgol. Beth ydych chi'n mynd i wneud, Weinidog, er mwyn sicrhau bod athrawon yn cael hyfforddiant addas fel eu bod nhw'n gallu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg?

Minister, thank you for that response. An opinion poll stated that 63% of people support the idea that children should be able to communicate bilingually—both in Welsh and in English—having left school. What are you going to do, Minister, to ensure that teachers are given appropriate training so that they can teach through the medium of Welsh?

14:18 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I, too, saw that opinion poll and actually I was rather surprised that the proportion of people was not much higher, since, if you were to ask a person in the street, 'Would you like Welsh schoolchildren to be competent in a subject area?' I would have thought that the response rate should be closer to 100%. We do not want our young people to be less than competent in any aspect of the curriculum. He is quite right, though, that, as we move towards discussing a new curriculum—and this great debate will open up in the new year—the success, or lack of it, that we may have had historically in terms of producing more Welsh speakers through the school system is going to become a matter of great debate, and key to that, he is quite right, will be how we raise and spread the skills level in the Welsh language among professionals in the school system. That is, of course, a key aspect of any forward progress.

Gwelais innau'r pôl piniwn hefyd ac mewn gwirionedd roedd yn syndod i mi braidd nad oedd y gyfran o bobl lawer yn uwch, oherwydd pe baech yn gofyn i berson ar y stryd, 'A fyddech chi'n hoffi i blant ysgol Cymru fod yn gymwys mewn maes pwnc?' byddwn wedi meddwl y byddai'r gyfradd ymateb yn agosach at 100%. Nid ydym am i'n pobl ifanc fod yn llai na chymwys mewn unrhyw agwedd ar y cwricwlwm. Mae'n hollol iawn, fodd bynnag, wrth i ni symud tuag at drafod cwricwlwm newydda bydd y drafodaeth fawr honno'n dechrau yn y flwyddyn newydd-fod y llwyddiant, neu'r diffyg llwyddiant, rydym wedi'i gael yn hanesyddol o ran cynhyrchu mwy o siaradwyr Cymraeg drwy'r system ysgolion yn mynd i fod yn destun trafod mawr. Mae'n hollol gywir y bydd y ffordd rydym yn codi lefelau ac yn ehangu sgiliau iaith Gymraeg ymhlith gweithwyr proffesiynol yn y system ysgolion, yn allweddol i hynny. Mae hynny, wrth gwrs, yn agwedd allweddol er mwyn gallu symud ymlaen.

14:19 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Weinidog, mae dyraniadau cyllideb wedi cael eu symud i roi siawns i ddulliau newydd o gynnal momentwm mewn defnyddio'r Gymraeg mewn bywyd ar ôl gadael ysgol yn hytrach na dim ond bod â'r gallu i siarad yr iaith. Sut mae'r prentisiaethau mae Julie James wedi sôn amdanyn nhw yn echdynnu a datblygu sgiliau llafar yn y Gymraeg?

Minister, financial allocations in the budget have been shifted in order to provide opportunities for new ways of maintaining momentum in using Welsh having left school, rather than just having the ability to speak the language. How do apprenticeships, which Julie James mentioned earlier, actually identify and develop Welsh-speaking skills?

14:19 **Huw Lewis** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, of course, we attempt to increase the range of options across the board in terms of what is on offer for young people, whether they are in the school system, further education or, indeed, in the apprenticeships on offer here in Wales, and the offer continues to grow year on year. My concern has been, throughout all of these developments, that actually the take-up of options through the Welsh language lags behind the actual offer in quite a number of cases, particularly in further education. This is a matter for concern in terms of instilling confidence in young people, in particular, to take on these higher level qualifications through the medium of Welsh.

Wel, wrth gwrs, rydym yn ceisio cynyddu'r ystod o opsiynau yn gyffredinol o ran yr hyn sydd ar gael i bobl ifanc, pa un a ydynt yn y system ysgolion, mewn addysg bellach neu'n wir, ar un o'r prentisiaethau yma yng Nghymru, ac mae'r hyn sy'n cael ei gynnig yn parhau i gynyddu o flwyddyn i flwyddyn. Ym mhob un o'r datblygiadau hyn, rwy'n pryderu bod y nifer sy'n dewis opsiynau drwy gyfrwng y Gymraeg mewn gwirionedd yn llai na'r hyn sy'n cael ei gynnig mewn cryn nifer o achosion, yn enwedig mewn addysg bellach. Mae'n fater o bryder o ran meithrin hyder mewn pobl ifanc, yn arbennig, i anelu am y cymwysterau lefel uwch hyn drwy gyfrwng y Gymraeg.

14:20 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister.

Diolch i chi, Weinidog.

## Cwestiynau i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth

## Questions to the Minister for Economy, Science and Transport

### Y Rhwydwaith Rheilffyrdd

### The Welsh Rail Network

14:20 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*1. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y problemau gorlenwi diweddar ar y rhwydwaith rheilffyrdd yng Nghymru? OAQ(4)0486(EST)*

*1. Will the Minister make a statement on the recent overcrowding issues on the Welsh rail network? OAQ(4)0486(EST)*

14:20 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth / The Minister for Economy, Science and Transport*

May I thank the Member for this particular question? She and a number of Members have raised this issue with me over the past few months. I do expect rail operators to provide sufficient capacity for passengers in line with their contractual obligations.

A gaf i ddiolch i'r Aelod am y cwestiwn penodol hwn? Mae hi, ynghyd â nifer o'r Aelodau, wedi codi'r mater hwn gyda mi dros y misoedd diwethaf. Rwy'n disgwyl i gwmnïau trenau ddarparu digon o le i deithwyr yn unol â'u rhwymedigaethau cytundebol.

14:21 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister. In 2008, work finished on a £30 million scheme to lengthen and, according to this Government, futureproof 42 railway stations across south Wales, paving the way for longer trains to be used. However, six years later, as you know, there are still problems with a lack of rolling stock. Do you regret now that the Government spent futureproofing money only on stations and not on the rolling stock as well, given that you have the ability to invest there, if you wish?

Diolch i chi, Weinidog. Yn 2008, gorffennodd y gwaith ar gynllun £30 miliwn i ymestyn hyd platfformau ledled de Cymru, ac yn ôl y Llywodraeth hon, ar ddiogelu 42 o orsafoedd rheilffordd at y dyfodol, gan baratoi'r ffordd i ddefnyddio trenau hirach. Fodd bynnag, chwe blynedd yn ddiweddarach, fel y gwyddoch, mae yna broblemau o hyd o ran prinder cerbydau. A ydych yn difaru erbyn hyn fod y Llywodraeth wedi gwario arian ar ddiogelu gorsafoedd at y dyfodol yn unig ac nid ar gerbydau, o ystyried bod gennych y gallu i fuddsoddi yno, pe dymunwch?

14:21 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I have no regrets about these matters. However, I do take on board the points that you have made with me with regard to the stations. I do think that we have to look for future improvements and value for money in terms of the money that is going into the system either by us or by the UK Government.

Wel, nid wyf yn edifar am y materion hyn. Fodd bynnag, rwy'n derbyn y pwyntiau rydych wedi'u gwneud o ran y gorsafoedd. Rwy'n credu bod yn rhaid i ni edrych am welliannau yn y dyfodol a gwerth am arian o ran yr arian sy'n cael ei roi mewn i'r system naill ai gennym ni neu gan Lywodraeth y DU.

14:21 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

High passenger demand has been welcomed on the Llangollen railway. In its first 10-day season 4,000 passengers were travelling on the new extension to Corwen. Of course, Welsh Government grant aid was provided for that. Originally, the Welsh Government looked at this on the basis of wider regeneration potential for Corwen as well as Llangollen and the wider area. Now, phase 2 has to be funded because the original grant funding could not be provided in full. What consideration can you and your colleagues give to supporting phase 2 for the delivery of a station in Corwen and the wider infrastructure to go with it?

Mae'r galw mawr gan deithwyr wedi cael croeso ar reilffordd Llangollen. Yn ystod ei 10 niwrnod cyntaf teithiodd 4,000 o deithwyr ar yr estyniad newydd i Gorwen. Wrth gwrs, darparodd Llywodraeth Cymru gymorth grant ar gyfer hynny. Yn wreiddiol, edrychodd Llywodraeth Cymru ar hyn ar sail y potensial adfywio ehangach ar gyfer Corwen yn ogystal â Llangollen a'r ardal ehangach. Yn awr, mae'n rhaid i gam 2 gael ei ariannu oherwydd nad oedd modd darparu'r cyllid grant gwreiddiol yn llawn. Pa ystyriaeth y gallwch chi a'ch cydweithwyr ei roi i gefnogi cam 2 ar gyfer darparu gorsaf yng Nghorwen a'r seilwaith ehangach i fynd gyda hi?

14:22 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I would love to be able to give an absolutely positive answer on this issue, but, of course, there are budgetary considerations for all of this. Not all matters on rail are devolved to us. I can assure you that if the funds become available and we see successful operations we will be able to give further consideration to make them even more successful.

Byddwn wrth fy modd pe gallwn roi ateb hollol gadarnhaol ar y mater hwn, ond wrth gwrs, mae ystyriaethau cyllidebol ynghlwm wrth hyn oll. Nid yw pob mater sy'n ymwneud â'r rheilffyrdd wedi ei ddatganoli i ni. Os daw arian ar gael a'n bod yn gweld llwyddiant y gwaith, gallaf eich sicrhau y byddwn yn gallu rhoi ystyriaeth bellach i'w gwneud hyd yn oed yn fwy llwyddiannus.

14:22 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru*

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I think that we would agree that rolling stock issues and most overcrowding issues stem from how the current franchise was drawn up and most of us in this Chamber actually would agree that the situation is unsatisfactory. Having experienced, personally, overcrowding issues on the Rhondda to Cardiff train from Arriva Trains, I can assure you that it is not a pleasant experience, and it is certainly not value for money in certain circumstances. It is essential that we do not repeat the same mistakes in the next franchise. Can you tell us, Minister, when you will be in a position to make a statement to us, in this Chamber, as to who will procure the next rail franchise?

Weinidog, credaf y byddem yn cytuno bod materion ynglŷn â cherbydau a'r rhan fwyaf o'r problemau gorlenwi yn deillio o'r modd y lluniwyd y fasnachfraint gyfredol a byddai'r rhan fwyaf ohonom yn y Siambr mewn gwirionedd yn cytuno bod y sefyllfa'n anfoddhaol. Ar ôl cael profiad personol o orlenwi ar drên Arriva Trains o'r Rhondda i Gaerdydd, gallaf eich sicrhau nad yw'n brofiad pleserus ac yn sicr nid yw'n cynnig gwerth am arian mewn rhai amgylchiadau. Mae'n hanfodol nad ydym yn ailadrodd yr un camgymeriadau gyda'r fasnachfraint nesaf. A allwch ddweud wrthym, Weinidog, pryd y byddwch mewn sefyllfa i roi datganiad i ni yn y Siambr hon ynglŷn â phwy fydd yn cael y fasnachfraint rheilffyrdd nesaf?

14:23 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I will be delighted when I am in a position to make a statement. I do not demur from any of your comments about rolling stock, because it is a big issue. Currently, when you look at some of the issues around rolling stock, we could have very old rolling stock even though we might have made improvements to the line. Negotiations are well under way with the UK Government on the future of the Wales and the border franchise. The next franchise will be starting in 2018, and we are now taking action to ensure that it delivers improved services and value for money. I can assure you, Presiding Officer, that as soon as I am able to do so, I will make a statement to the Chamber on this matter.

Pan fyddaf mewn sefyllfa i wneud datganiad byddaf wrth fy modd yn gwneud hynny. Nid wyf yn osgoi unrhyw un o'ch sylwadau am gerbydau, oherwydd mae'n fater pwysig. Ar hyn o bryd, pan edrychwch ar rai o'r materion sy'n ymwneud â cherbydau, gallem fod â cherbydau hen iawn er ein bod wedi gwneud gwelliannau i'r rheilffordd. Mae trafodaethau wedi hen ddechrau gyda Llywodraeth y DU ar ddyfodol masnachfraint Cymru a'r ffin. Bydd y fasnachfraint nesaf yn cychwyn yn 2018 ac rydym yn rhoi camau ar waith yn awr i sicrhau y bydd yn darparu gwell gwasanaethau a gwell gwerth am arian. Gallaf eich sicrhau, Lywydd, y byddaf yn gwneud datganiad i'r Siambr ar y mater hwn cyn gynted ag y bo modd i mi wneud hynny.

## Prynu Tir sy'n Gyfagos i Gefnffyrdd

## The Purchase of Land Adjoining Trunk Roads

14:24 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*2. A wnaiff y Gweinidog amlinellu beth yw blaenoriaethau Llywodraeth Cymru o ran prynu tir sy'n gyfagos i gefnffyrdd? OAQ(4)0481(EST)*

*2. Will the Minister outline what the Welsh Government's priorities are for purchasing land adjoining trunk roads? OAQ(4)0481(EST)*

14:24 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Land is acquired in line with legislative requirements and the national transport plan.

Mae tir yn cael ei gaffael yn unol â gofynion deddfwriaethol a'r cynllun trafnidiaeth cenedlaethol.

14:24 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, last week, we saw the revelation that your Government had been busy purchasing land along the preferred route of the new M4 in Newport, years before the plans were discussed here in the Assembly. However, in Flintshire, alongside the A55, I am aware that land was purchased by the Welsh Government, which has later been sold back. Does the sale of this land betray the true intentions of the Welsh Government in that you have no intention of widening the A55 and you are not willing to invest in the north Wales roads to the same degree as you are here in the south?

Weinidog, yr wythnos diwethaf, datgelwyd bod eich Llywodraeth wedi bod yn brysur yn prynu tir ar hyd y llwybr dewisol ar gyfer yr M4 newydd yng Nghasnewydd, flynyddoedd cyn i'r cynlluniau gael eu trafod yma yn y Cynulliad. Fodd bynnag, yn Sir y Fflint, ar hyd yr A55, rwy'n ymwybodol fod Llywodraeth Cymru wedi prynu tir a gafodd ei werthu'n ôl yn ddiweddarach. A yw gwerthu'r tir hwn yn bradychu gwir fwriad Llywodraeth Cymru yn yr ystyr nad oes gennych unrhyw fwriad i ledu'r A55 ac nad ydych yn barod i fuddsoddi yn ffyrdd gogledd Cymru i'r un graddau ag a wnewch yma yn y de?

14:24 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, that is clearly a very unfair question in many ways because I am prepared to invest all across Wales in terms of transport infrastructure. Do you think that we would go to the issue on property acquisition? I was looking at the A5 property acquisitions in recent years and at the large amount of money for property acquisitions, in the hope of improving that road. Also, in terms of the A55, I have actually employed consultants and agents to help me in terms of the development of the road. This is normal practice. Nothing we have said is a revelation; it happens to be the facts and it is in the public domain.

Wel, dyna gwestiwn sy'n amlwg yn annheg iawn mewn sawl ffordd gan fy mod yn barod i fuddsoddi yn y seilwaith trafnidiaeth ym mhob rhan o Gymru. A ydych o'r farn y byddem yn ymdrin â'r mater drwy gaffael eiddo? Roeddwn yn edrych ar gaffaeliadau eiddo'r A5 yn y blynyddoedd diwethaf ac ar y swm mawr o arian ar gyfer caffael eiddo, yn y gobaith o wella'r ffordd honno. Hefyd, o ran yr A55, rwyf wedi cyflogi ymgynghorwyr ac asiantau i fy helpu o ran datblygu'r ffordd. Mae hyn yn hollol arferol. Nid oes unrhyw beth rydym wedi'i ddweud yn ddatgeliad; dyma'r ffeithiau fel mae'n digwydd bod ac maent yn gyhoeddus.

14:25 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Mae mater lleol yn ardal Gwyddelwern yn sir Ddinbych. Efallai eich bod yn ymwybodol o drofa Maes Gamedd. Mae'n sicr wedi bod yn destun gofid yn lleol o safbwynt diogelwch. Cyfarfûm â swyddogion o'ch adran ryw ddwy flynedd yn ôl wrth ymweld â'r safle, ac un o'r posibiliadau yw prynu ychydig o dir i ledu'r 'junction' neu i ddod â 'junction' arall i lawr i'r briff ffordd. A wnewch chi, os gewch chi gyfle pan fyddwch yn y cyffiniau, dreulio ychydig o amser yn ymweld â'r safle, oherwydd mae wedi bod yn destun mawr? Byddem yn ddiolchgar iawn petaech yn gwneud hynny fel eich bod yn cael gweld gyda'ch llygaid eich hunan y potensial am ddamweiniau difrifol sydd ar y safle?

There is a local issue in the Gwyddelwern area in Denbighshire. You may be aware of the Maes Gamedd bend. It has certainly been the cause of some concern locally in terms of safety. I met with some of your officials some two years ago to visit the site, and one of the possibilities is to buy some land to actually widen the junction or to provide an alternative junction to the main road. Will you, when you have an opportunity to visit the area, actually visit the site, because it has been a major issue locally? I would be very grateful if you could do that so that you can see for yourself the potential for serious accidents on that site.

14:26 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think it is very important that we look at issues that Members raise with us, where there could be possibilities of serious accidents. I will assure you that, when I am in the area, I will visit the site, but I will assure you that, even better, I will have an updated note sent to you and Members regarding what officials might have been doing during the last two years on this particular matter.

Rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn i ni edrych ar y materion y mae Aelodau'n eu codi gyda ni lle gallai fod perygl o ddamweiniau difrifol. Rwy'n eich sicrhau y byddaf yn ymweld â'r safle pan fyddaf yn yr ardal, ond rwy'n eich sicrhau, hyd yn oed yn well na hynny, yr anfonaf nodyn wedi'i ddiweddaru atoch chi a'r Aelodau ynghylch yr hyn y gallai swyddogion fod wedi bod yn ei wneud yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf ar y mater penodol hwn.

14:26 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats*

Minister, I understand that there are five public toilets in Powys adjacent to the A470 that receive funding from Welsh Government—for example, in Erwood in my constituency. However, there are public toilets just off the A470, such as in Rhayader, in the main car park, as well as in Builth Wells, which would provide a safe and convenient point for motorists travelling on the A470 to stop, yet those toilets are not funded. Could you look at how your department makes decisions about what conveniences adjacent to the A470 are funded and which are not, so that we have a comprehensive network of public conveniences for those people travelling on trunk roads?

Weinidog, rwy'n deall bod pum toiled cyhoeddus ym Mhowys ger yr A470 sy'n cael cyllid gan Lywodraeth Cymru—er enghraifft, yn Erwyd yn fy etholaeth. Fodd bynnag, ceir toiledau cyhoeddus ychydig oddi ar yr A470, fel ym mhrif faes parcio Rhaeadr Gwy, yn ogystal ag yn Llanfair-ym-Muallt, a allai gynnig man aros diogel a chyfleus i fodurwyr sy'n teithio ar yr A470, ac eto nid oes cyllid yn cael ei roi ar gyfer y toiledau hynny. A wnewch chi edrych ar sut y mae eich adran yn gwneud penderfyniadau ynglŷn â pha gyfleusterau ger yr A470 sy'n cael eu hariannu a pha rai nad ydynt yn cael eu hariannu, er mwyn i ni gael rhwydwaith cynhwysfawr o gyfleusterau cyhoeddus ar gyfer y bobl sy'n teithio ar gefnffyrdd?

14:27 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I hope the leader of the Welsh Liberal Democrats is not reading my e-mails, because some of the issues that have come out on public conveniences are in my inbox at the moment, because I have asked for a list of what we should be doing, what we should not be doing, where we should be funding and where we should be signposting elsewhere. I had a list of what it would cost me and I have gone back and asked, 'Are you really sure? Are you in the real world giving me these figures?' So, I can assure the Member that matters are in hand and I would be delighted to take up her points.

Gobeithiaf nad yw arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn darllen fy e-bost, gan fod rhai o'r materion sydd wedi dod i'r amlwg ar gyfleusterau cyhoeddus yn fy mewnflwch ar hyn o bryd am fy mod wedi gofyn am restr o'r hyn y dylem fod yn ei wneud, yr hyn na ddylem fod yn ei wneud, lle dylem fod yn ariannu a lle dylem fod yn cyfeirio at fannau eraill. Roedd gen i restr o'r hyn y byddai'n ei gostio i mi ac rwyf wedi mynd yn ôl a gofyn, 'A ydych chi'n siŵr? A ydych chi yn y byd go iawn yn rhoi'r ffigurau hyn i mi?' Felly, gallaf sicrhau'r Aelod fod pethau ar y gweill a byddwn wrth fy modd yn ymdrin â'r pwyntiau y mae'n eu gwneud.

## Cwestiynau Heb Rybudd gan Lefarwyr y Pleidiau

## Questions Without Notice from Party Spokespeople

14:27 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to questions from the spokespeople. First this afternoon, we have the opposition spokesperson, Suzy Davies.

Symudwn yn awr at gwestiynau gan y llefarwyr. Yn gyntaf y prynhawn yma, cawn lefarydd yr wrthblaid, Suzy Davies.

14:27 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Lywydd. Deputy Minister, your Government accepts that its cuts to the arts council budget will have a negative impact on children and young people, people with disabilities and those from lower socioeconomic groups. Taken together with cuts that local authorities are making to their support for the arts, how will your Government deliver on its promise to widen access to the arts?

Diolch, Lywydd. Ddirprwy Weinidog, mae eich Llywodraeth yn derbyn y bydd ei thoriadau i gyllideb cyngor y celfyddydau yn cael effaith negyddol ar blant a phobl ifanc, pobl ag anableddau a phobl mewn grwpiau economaidd-gymdeithasol is. O'u cymryd gyda'r toriadau y mae awdurdodau lleol yn eu gwneud yn eu cefnogaeth i'r celfyddydau, sut y bydd eich Llywodraeth yn cyflawni ei haddewid i ehangu hygyrchedd y celfyddydau?

14:28 **Kenneth Skates** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth / The Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism*

I thank the Member for her question. First of all, I think it is worth bearing in mind that, if you take a look at the cuts to the arts here in Wales compared with those in England, you will find that the cuts in England between 2010 and 2015-16 have been at 33%, three times higher than in Wales. Here in Wales, of course, we also have some ground-breaking work that is being conducted by Baroness Kay Andrews and by Dai Smith, which will lever in resources and also better align what we already do with our anti-poverty agenda, increasing participation, particularly by children from deprived areas.

Diolch i'r Aelod am ei chwestiwn. Yn gyntaf oll, credaf ei bod yn werth cofio, os edrychwch ar y toriadau i'r celfyddydau yma yng Nghymru o'u cymharu â'r rhai yn Lloegr, y gwelwch fod y toriadau yn Lloegr yn 33% rhwng 2010 a 2015-16, dair gwaith yn uwch nag yng Nghymru. Yma yng Nghymru hefyd, wrth gwrs, mae gennym waith arloesol y Farwnes Kay Andrews a Dai Smith, a fydd yn denu adnoddau ac yn cydweddu'r hyn rydym eisoes yn ei wneud yn well â'n hagenda gwrthdlodi, gan gynyddu cyfranogiad, yn enwedig ymhlith plant o ardaloedd difreintiedig.

14:28 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that answer. Obviously, I am far more interested in what happens in Wales, rather than in England, which is why I am asking you the question that I am asking.

Diolch am eich ateb. Yn amlwg, mae mwy o ddiddordeb o lawer gennyf yn yr hyn sy'n digwydd yng Nghymru, yn hytrach nag yn Lloegr, a dyna pam y gofynnaf y cwestiwn rwy'n ei ofyn i chi.

I look forward to understanding how the levering in of further resources will actually pan out in practice. I was rather hoping that you might mention that you are looking for value for money from cultural organisations that you support at arm's length. The Welsh Books Council is able to use taxpayers' money to give bursaries to authors and promote their work. While, of course, it is completely inappropriate to make any comments about artistic choices, how do you satisfy yourself that, operationally, and in terms of meeting Government objectives, the Welsh Books Council delivers value for money?

Rwy'n edrych ymlaen at ddeall sut y bydd denu adnoddau pellach i mewn yn gweithio'n ymarferol. Roeddwn yn gobeithio y byddech yn sôn eich bod yn chwilio am werth am arian gan sefydliadau diwylliannol rydych yn eu cefnogi hyd braich. Mae Cyngor Llyfrau Cymru yn gallu defnyddio arian trethdalwyr i roi bwrsariaethau i awduron a hyrwyddo eu gwaith. Er ei bod hi wrth gwrs yn gwbl amhriodol i wneud unrhyw sylwadau am ddewisiadau artistig, sut rydych yn bodloni eich hun bod Cyngor Llyfrau Cymru, yn weithredol, yn sicrhau gwerth am arian o ran bodloni amcanion y Llywodraeth?

14:29

## Kenneth Skates Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, of course, within the remit letters, the Government makes clear what we expect from revenue-funded organisations and that the work that they conduct aligns with our priorities for tackling poverty and sustainable jobs growth.

Wel, wrth gwrs, yn y llythyrau cylch gwaith, mae'r Llywodraeth yn ei gwneud yn glir yr hyn rydym yn ei ddisgwyl gan sefydliadau sy'n cael cyllid refeniw a bod y gwaith y maent yn ei wneud yn cyd-fynd â'n blaenoriaethau ar gyfer trechu tlodi a thwf swyddi cynaliadwy.

14:29

## Suzy Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that answer, which is a relief to hear, admittedly. Over the summer, the press reported in rather negative terms that some of the work that the Arts Council of Wales had supported was 'interesting' to say the least. Members may remember an individual being paid £20,000 to make mistakes and grapple with the concept of 'thing-ness'. Again, it is completely inappropriate for a Government to interfere with artistic choices, but when you consider that the West Glamorgan Youth Theatre, which is a paragon of both quality and widening access, is so vulnerable to council cuts, would you expect arm's-length bodies, via your remit letter, to work harder to fill those local funding gaps and work harder to find money from sources other than the taxpayer?

Diolch i chi am eich ateb, sy'n rhyddhad i'w glywed, rhaid cyfaddef. Dros yr haf, adroddodd y wasg mewn termau braidd yn negyddol fod rhywfaint o'r gwaith y mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn ei gefnogi yn 'ddiddorol' a dweud y lleiaf. Efallai y bydd yr aelodau'n cofio unigolyn a gafodd £20,000 o dâl am wneud camgymeriadau a mynd i'r afael â'r cysyniad o 'beth-rwydd'. Unwaith eto, mae'n gwbl amhriodol i Lywodraeth ymyrryd â dewisiadau artistig, ond pan fyddwch yn ystyried bod Theatr Ieuenctid Gorllewin Morgannwg, sy'n baragon o ansawdd a hygyrchedd ehangach, mor agored i doriadau'r cyngor, byddech yn disgwyl i gyrff hyd braich, drwy eich llythyr cylch gwaith, weithio'n galetach i lenwi'r bylchau ariannu lleol hynny a gweithio'n galetach i ddod o hyd i arian o ffynonellau ar wahân i'r trethdalwr?

14:30

## Kenneth Skates Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I would always expect them to find ways of increasing their own revenue and becoming sustainable. I think the point that you raised just moments ago, though, justifies why I was right to write to all revenue-funded organisations, reminding them of this Government's priorities in tackling poverty and widening access to the arts.

Byddwn bob amser yn disgwyl iddynt ddod o hyd i ffyrdd o gynyddu eu refeniw eu hunain a dod yn gynaliadwy. Rwy'n meddwl bod y pwynt a godwyd gennych eiliadau'n ôl, fodd bynnag, yn cyfiawnhau pam y gwneuthum yn iawn i ysgrifennu at yr holl sefydliadau sy'n cael cyllid refeniw i'w hatgoffa am flaenoriaethau'r Llywodraeth hon o ran trechu tlodi ac ehangu mynediad at y celfyddydau.

14:30

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to the Plaid Cymru spokesperson, Rhun ap Iorwerth.

Symudwn yn awr at lefarydd Plaid Cymru, Rhun ap Iorwerth.

14:30

## Rhun ap Iorwerth Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Welsh retail consortium has published statistics for footfall and premises vacancy. One figure has gone up; one figure has gone down. Unfortunately, they are the wrong way around. Footfall has seen the biggest decline since February. A recent trend has been reversed, with vacancy rates up to over 14%. Would the Minister agree that it is time that there was a clear declaration of intent from Government to businesses, about how Government intends to help them?

Mae consortiwm manwerthu Cymru wedi cyhoeddi ystadegau ar nifer siopwyr a safleoedd gwag. Mae un ffigwr wedi codi, a'r llall wedi gostwng. Yn anffodus, maent y ffordd anghywir i'r hyn y dylent fod. Cafwyd y gostyngiad mwyaf ers mis Chwefror yn nifer y siopwyr. Mae tuedd ddiweddar wedi cael ei gwrthdroi, gyda chyfraddau safleoedd gwag dros 14%. A fyddai'r Gweinidog yn cytuno ei bod yn bryd cael datganiad clir o fwriad gan y Llywodraeth i fusnesau, ynglŷn â sut y mae'r Llywodraeth yn bwriadu eu helpu?

14:31 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Well, I think that Plaid Cymru is well aware of how we help them. In terms of the Welsh retail consortium, I am due to have a meeting with it, in fact, next week, and I discuss with it on a regular basis any useful suggestions it may be able to make on issues. One of the issues, of course, is the devolution of business rates, and how we will utilise the business rates policy more effectively.

Wel, rwy'n meddwl bod Plaid Cymru yn ymwybodol iawn o sut rydym yn eu helpu. Rwyf i fod i gyfarfod â chonsortiwm manwerthu Cymru, yr wythnos nesaf, mewn gwirionedd, a byddaf yn trafod gydag ef yn rheolaidd unrhyw awgrymiadau defnyddiol y gall eu gwneud ar faterion sy'n codi. Un o'r materion, wrth gwrs, yw datganoli ardrethi busnes a sut y byddwn yn defnyddio'r polisi ardrethi busnes yn fwy effeithiol.

14:31 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I totally agree. Certainly, looking at the figures this week, they are extremely concerning to the Welsh retail consortium—they are concerning to us, as well. It shows, I think, that the recovery, or any recovery that we are seeing, is a spreadsheet recovery. It exists on paper; it does not exist in reality. You mention business rates. You have established, of course, a business rates panel. Perhaps you could remind us how that is going to differ from the work of the three previous business rates reviews. Is it not time now to move forward with concrete plans for business rates, in advance of the devolution of business rates?

Cytunaf yn llwyr. Yn sicr, o edrych ar ffigurau'r wythnos hon, maent yn peri cryn bryder i gonsortiwm manwerthu Cymru—ac i ninnau hefyd. Rwy'n credu ei fod yn dangos mai adferiad taenlen yw unrhyw adferiad rydym yn ei weld: ar bapur y mae'n bodoli, nid mewn realiti. Rydych yn sôn am ardrethi busnes. Wrth gwrs, rydych wedi sefydlu panel trethi busnes. Efallai y gallech ein hatgoffa sut y mae hynny'n mynd i fod yn wahanol i waith y tri adolygiad blaenorol o ardrethi busnes. Onid yw'n bryd symud ymlaen bellach gyda chynlluniau pendant ar gyfer ardrethi busnes, cyn datganoli ardrethi busnes?

14:32 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Yes, it will be. The group that I have brought together now is actually looking at all the options that have emerged. It can cost all the options, they can prioritise all the options, and we can then see which business would want us to prioritise in terms of our settlements. So, it is a very practical piece of work, which I will be able to share with Members in the new year.

Yn wir, mi fydd. Mae'r grŵp rwyf wedi'i gasglu ynghyd bellach yn edrych ar yr holl opsiynau sydd wedi dod i'r amlwg. Gall gostio'r holl opsiynau, gallant flaenoriaethu'r holl opsiynau, a gallwn weld wedyn pa rai fyddai busnesau am i ni eu blaenoriaethu o ran ein setliadau. Felly, mae'n waith ymarferol iawn a byddaf yn gallu ei rannu gyda'r Aelodau yn y flwyddyn newydd.

14:32 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

What is rather frustrating, of course, is that we have review after review after review—I am counting them—and we have another panel. We do need, as I say, those concrete suggestions about a way forward. However, a million people in Wales are employed by small and medium-sized enterprises. They will be essential, obviously, to the rebuilding and the recovery of the Welsh economy. One idea that we have is to want to lift businesses with a rateable value of less than £10,000 out of the rates system all together: 70,000 Welsh businesses, we estimate. Now, in a vote here a fortnight ago, your party voted to oppose that. Will you now reconsider that?

Yr hyn sydd braidd yn rhwystredig, wrth gwrs, yw bod gennym adolygiad ar ôl adolygiad ar ôl adolygiad—rwy'n eu cyfrif—ac mae gennym banel arall. Fel y dywedais, mae angen yr awgrymiadau pendant hynny ynghylch y ffordd ymlaen. Ond mae miliwn o bobl yng Nghymru yn cael eu cyflogi gan fentrau bach a chanolig eu maint. Mae'n amlwg y byddant yn hanfodol i'r gwaith o ailadeiladu ac adfer economi Cymru. Un syniad sydd gennym yw tynnu busnesau â gwerth ardrethol o lai na £10,000 allan o'r system ardrethi yn gyfan gwbl: sef 70,000 o fusnesau yng Nghymru, yn ôl ein hamcangyfrif. Yn awr, mewn pleidlais yma bythefnos yn ôl, pleidleisiodd eich plaid i wrthwynebu hynny. A fyddwch yn ailystyried hynny yn awr?

14:32 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

That is one of the issues that we will be looking at in terms of costing, which the group will look at, and will then give 'for' and 'against' in terms of where they see we are going and the direction of travel. I know that it is very frustrating, but business rates are exceptionally complicated, and this is the problem. I would like to really, if I could, raise the threshold for small businesses. It would be lovely to go up, but you actually have to look at how it impacts on other things. So, it is a complex area, and I am not making excuses, but you will actually have the proposals and an options menu, which we will look at as a Government.

Dyna un o'r materion y byddwn yn edrych arno o ran costio, a bydd y grŵp yn edrych ar hynny, ac yna'n rhoi 'dros' ac 'yn erbyn' o ran lle maent yn ein gweld yn mynd a'r cyfeiriad teithio. Gwn ei fod yn fater rhwystredig iawn, ond mae cyfraddau busnes yn eithriadol o gymhleth, a dyna'r broblem. Yn wir, pe bawn i'n gallu, hoffwn godi'r trothwy ar gyfer busnesau bach. Byddai'n hyfryd mynd i fyny, ond rhaid i chi edrych ar y ffordd y mae'n effeithio ar bethau eraill mewn gwirionedd. Felly, mae'n faes cymhleth, ac nid wyf yn gwneud esgusodion, ond bydd yn rhaid i chi gael argymhellion a dewis o opsiynau i ni edrych arnynt fel Llywodraeth.

14:33 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Now we move to the Welsh Liberal Democrats spokesperson, and that is Eluned Parrott.

Symudwn yn awr at Eluned Parrott, llefarydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru.

14:33 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, can you tell me how many new private sector jobs have been created in the central Cardiff enterprise zone since September 2011 as a direct result of Welsh Government action?

Weinidog, a allwch ddweud wrthyf faint o swyddi newydd yn y sector preifat sydd wedi'u creu yn ardal fenter canol Caerdydd ers mis Medi 2011, o ganlyniad uniongyrchol i gamau gan Lywodraeth Cymru?

14:33 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I do not have the statistics regarding these matters easily available to me today. However, I will, obviously, look at the general way that we present on statistics, which my enterprise zone chairs wish me to do: in a more general sense, than in the sense of the individual enterprise zones.

Nid oes gennyf ystadegau ar gyfer y materion hyn wrth law heddiw. Fodd bynnag, yn amlwg, byddaf yn edrych ar y ffordd gyffredinol rydym yn perfformio o ran ystadegau, a bydd fy nghadeiryddion ardaloedd menter yn dymuno i mi wneud hynny: mewn modd mwy cyffredinol nag ar gyfer ardaloedd menter unigol.

14:34 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, Minister, I asked that specific question because that is the specific thing that you have told this Chamber that the enterprise zones were designed to do: to bring new private sector jobs to those zones. It would be unsurprising to expect the spokespeople to ask you to then give us information on that. Well, let us try another simple question: can you tell me how much public money has been spent in attracting these new private sector jobs, and how much private sector investment has been attracted to match it?

Wel, Weinidog, gofynnais y cwestiwn penodol hwnnw gan mai dyna'n benodol y dywedasoch wrth y Siambr hon y cynlluniwyd yr ardaloedd menter i'w wneud: dod â swyddi newydd yn y sector preifat i'r ardaloedd hynny. Wedyn, ni fyddai'n syndod disgwyl i'r llefarwyr ofyn i chi roi'r wybodaeth i ni am hynny. Wel, gadewch i ni roi cynnig ar gwestiwn syml arall: a allwch ddweud wrthyf faint o arian cyhoeddus a wariwyd ar ddenu'r swyddi newydd hyn yn y sector preifat, a faint o fuddsoddiadau sector preifat cyfatebol a ddenwyd?

14:34 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, at the end of the day, you recognise that some of the decisions on the help and assistance that we give to business are commercially confident—that is a well-known fact of the way Government does things. You look then at training over a period of time. I think that we have to recognise that enterprise zones have been established to attract new business in within certain areas. It is not ideal, in terms of what we are able to offer across the piece, because I cannot give enhanced capital allowances everywhere, because of the Treasury position. However, as far as I am concerned, in my discussions with my enterprise zones chairs, they are content with the approach to this. The committee itself—and I am looking at William Graham—is taking evidence from the enterprise zone chairs and others, and I am sure that these issues will be well aired in committee.

Wel, ar ddiwedd y dydd, rydych yn cydnabod bod rhai o'r penderfyniadau ar yr help a'r cymorth a roddwn i fusnesau yn fasnachol hyderus—mae honno'n ffaith wybyddus am y ffordd y mae Llywodraeth yn gwneud pethau. Rydych yn edrych wedyn ar hyfforddi dros gyfnod o amser. Credaf fod yn rhaid i ni gydnabod bod ardaloedd menter wedi'u sefydlu i ddenu busnes newydd mewn ardaloedd penodol. Nid yw'n ddelfrydol, o ran yr hyn y gallwn ei gynnig yn gyffredinol gan na allaf roi lwfansau cyfalaf uwch ym mhob man, oherwydd safbwynt y Trysorlys ar hynny. Fodd bynnag, o'm rhan i, yn fy nhrafodaethau gyda fy nghadeiryddion ardaloedd menter, maent yn fodlon ar y dull o weithredu ar hyn. Mae'r pwyllgor ei hun—ac rwy'n edrych ar William Graham—yn cymryd tystiolaeth gan gadeiryddion yr ardaloedd menter ac eraill, ac rwy'n siŵr y bydd y materion hyn yn cael eu gwyntyllu'n dda yn y pwyllgor.

14:35 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Minister, the commercial and in-confidence excuse is only really viable if the data selection is so small with so few people involved that they would be easily individually identified—that is, it is one. However, in assessing the value for money of the strategy, we need to know how much has been invested and how much of a return has been achieved. It is a basic principle. If you are continually batting away attempts at seeing both the inputs and the outputs, we will never be able to assess the success of otherwise of this policy. The Welsh Development Agency was abolished in part because it was said to be unaccountable and opaque. The running of Wales's enterprise zones is even worse. It is black-box Government of the worst kind, and if you cannot prove success, the world will have to assume that it is a failure. Will you agree, Minister, to establish an annual reporting system for the enterprise zone boards, so that they can be properly and fully held to account for the actions they take and the public money that they are spending?

Weinidog, nid yw'r esgus masnachol a chyfrinachol ond yn dal dŵr mewn gwirionedd os yw'r data a gesglir mor fach gyda chyn lleied o bobl ynghlwm wrtho fel y byddent yn hawdd eu hadnabod fel unigolion—hynny yw, mae'n un felly. Fodd bynnag, wrth asesu gwerth am arian y strategaeth, mae angen i ni wybod faint sydd wedi'i fuddsoddi a faint o enillion a sicrhawyd. Mae'n egwyddor sylfaenol. Os ydych yn ymladd ymdrechion i weld y mewnbynnau a'r allbynnau yn barhaus, ni fyddwn byth yn gallu asesu llwyddiant neu fethiant y polisi hwn. Cafodd Awdurdod Datblygu Cymru ei ddiddymu'n rhannol am ei fod yn honedig anatebol ac aneglur. Mae rhedeg ardaloedd menter Cymru hyd yn oed yn waeth. Dyma Lywodraeth 'y blwch du' o'r math gwaethaf, ac os nad ydych yn gallu profi llwyddiant, bydd yn rhaid i'r byd gymryd yn ganiataol ei fod yn fethiant. Weinidog, a wnewch chi gytuno i sefydlu system adrodd flynyddol ar gyfer byrddau'r ardaloedd menter, fel y gellir eu dwyn i gyfrif yn briodol ac yn llawn am y camau y maent yn eu cymryd a'r arian cyhoeddus y maent yn ei wario?

14:36 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I am sure that the private sector members on the board will be very interested in the comments that you are making in that regard about their integrity and the way they are dealing with matters. In terms of individual companies, it is very appropriate that I maintain a relationship with them in order to get the jobs in.

Rwy'n sicr y bydd aelodau'r sector preifat ar y bwrdd â diddordeb mawr yn y sylwadau a wnewch yn hynny o beth am eu gonestrwydd a'r ffordd y maent yn ymdrin â materion. O ran cwmnïau unigol, mae'n briodol iawn fy mod yn cynnal perthynas â hwy er mwyn denu swyddi i mewn.

14:36 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

We move now back to questions on the paper. Question 3, Suzy Davies.

Dychwelwn at y cwestiynau ar y papur yn awr. Cwestiwn 3, Suzy Davies.

14:36 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Minister, can you explain why the Welsh Government opted to channel its belated funding for supporting the high street, through local councils, complete with guidance on how it might be spent, rather than providing it directly to local business organisations, such as a business improvement district, or a chamber of commerce, which might have ideas of their own about how that money is spent?

Weinidog, a allwch egluro pam y dewisodd Llywodraeth Cymru sianelu ei chyllid hwyr ar gyfer cefnogi'r stryd fawr drwy gynghorau lleol, ynghyd â chanllawiau ar sut y gellid ei wario, yn hytrach na'i ddarparu yn uniongyrchol i sefydliadau busnes lleol, megis ardaloedd gwella busnes neu siambr fasnach, a allai fod â syniadau eu hunain ynglŷn â sut i wario'r arian?

14:36 **Russell George** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

That is not the question on the sheet.

Nid dyna'r cwestiwn ar y daflen.

14:36 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Oh, I apologise.

O, rwy'n ymddiheuro.

## Busnesau ar y Stryd Fawr

## High-street Businesses

14:36 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

*3. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gefnogaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer busnesau ar y stryd fawr? OAQ(4)0484(EST)*

*3. Will the Minister provide an update on Welsh Government support for high street businesses? OAQ(4)0484(EST)*

14:36 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Our actions to support business are wide ranging, and, as the Minister with responsibility for business rates policy, I have taken a number of steps to use the rates regime to support high streets across Wales.

Mae ein camau gweithredu i gefnogi busnesau yn amrywiol ac fel y Gweinidog sy'n gyfrifol am bolisi ardrethi busnes, rwyf wedi rhoi nifer o gamau ar waith ar gyfer defnyddio'r drefn ardrethi i gefnogi'r stryd fawr ledled Cymru.

Senedd.tv Fideo Video

14:37 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Thank you very much for that answer, Minister. I wonder what I am going to say next. [Laughter.] Perhaps you could explain why the Welsh Government opted to channel the support that I referred to earlier through local councils, rather than BIDs or chambers of commerce, where they are available, as they might have ideas as to how that money is better spent.

Diolch yn fawr iawn am eich ateb, Weinidog. Tybed beth a ddywedaf nesaf. [Chwerthin.] Efallai y gallech egluro pam y dewisodd Llywodraeth Cymru sianelu'r gefnogaeth y cyfeiriais ati yn gynharach drwy gynghorau lleol, yn hytrach nag ardaloedd gwella busnes neu siambrau masnach, lle maent ar gael, gan y gallai fod ganddynt syniadau ynglŷn â'r ffordd orau o wario'r arian hwnnw.

Senedd.tv Fideo Video

14:37 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

We decided that we would do it through that mechanism. I am not averse to looking at other options in the future, particularly with the success of any bids. We have been very successful in Swansea, and it might be something that would be worth discussing with the bodies.

Penderfynwyd y byddem yn ei wneud drwy'r mecanwaith hwnnw. Nid wyf yn gwrthwynebu edrych ar opsiynau eraill yn y dyfodol, yn enwedig o weld llwyddiant unrhyw geisiadau. Rydym wedi bod yn llwyddiannus iawn yn Abertawe, a gallai fod yn rhywbeth a fyddai'n werth ei drafod gyda'r cyrff.

Senedd.tv Fideo Video

### Cefnogaeth i Fusnesau Bach

### Support for Small Businesses

14:37 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

*4. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gefnogaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei rhoi i fusnesau bach? OAQ(4)0491(EST)*

*4. Will the Minister make a statement on Welsh Government support for small businesses? OAQ(4)0491(EST)*

Senedd.tv Fideo Video

14:37 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

We are committed to providing a broad range of information, advice and support to small businesses in Wales, accessed through the Business Wales service.

Rydym wedi ymrwymo i ddarparu ystod eang o wybodaeth, cyngor a chefnogaeth i fusnesau bach yng Nghymru, y gellir dod o hyd iddynt drwy wasanaeth Busnes Cymru.

Senedd.tv Fideo Video

14:37 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Diolch yn fawr iawn, Weinidog. Mae'n siŵr eich bod yn ymwybodol o'r adroddiad a gyhoeddwyd gan gyfrifwyr siartredig yr wythnos diwethaf, a oedd yn nodi bod trosiant mewn trefi sy'n ddibynnol i raddau helaeth ar fusnesau bach yn is nag ydyw yn y trefi hynny lle mae siopau'r stryd fawr yn bodoli. Oherwydd hynny, mae trosiant mewn siroedd fel Caerfyrddin, Ceredigion a Gwynedd ymhlith yr isaf yn y Deyrnas Unedig. A oes strategaeth gan Lywodraeth Cymru i gefnogi'r trefi marchnad hyn, gan mwyaf, a sicrhau eu bod nhw yn hwb i'r economi o'u cwmpas nhw ac yn gallu bod yn llwyddiannus?

Thank you very much, Minister. I am sure that you are aware of the report published by chartered accountants last week, which noted that turnover in towns that are dependent to a great extent on small businesses is lower than it is in those towns where there are high-street shops. As a result, turnover in counties such as Carmarthen, Ceredigion and Gwynedd are among the lowest in the United Kingdom. Does the Welsh Government have a strategy to support these, for the most part, market towns to ensure that they give a boost to the economy of the surrounding areas and to ensure that they can be successful?

Senedd.tv Fideo Video

14:38 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

I think you make a very good point. I was with accountants this morning, who give advice to businesses in a lot of areas, and there are issues around that. I think that some of the work that we have done on the local economic growth zones, particularly in Powys and the Teifi Valley, will start to look at some of the issues that you have raised. If they can make suggestions about how we can tackle some of those issues, I will be using that to generate a policy agenda on this.

Rwy'n credu eich bod yn gwneud pwynt da iawn. Roeddwn gyda chyfrifwyr y bore yma, sy'n rhoi cyngor i fusnesau mewn llawer o ardaloedd, ac mae problemau ynglŷn â hynny. Credaf y bydd rhywfaint o'r gwaith rydym wedi'i wneud ar yr ardaloedd twf economaidd lleol, yn enwedig ym Mhowys a Dyffryn Teifi, yn dechrau edrych ar rai o'r materion rydych wedi'u codi. Os gallant wneud awgrymiadau ynglŷn â sut y gallwn fynd i'r afael â rhai o'r materion hynny, byddaf yn defnyddio hynny i greu agenda bolisi ar hyn.

Senedd.tv Fideo Video

**Rhanbarthau Dinas**

**City Regions**

14:39 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

*5. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y rhanbarthau dinas yng Nghymru? OAQ(4)0487(EST)*

*5. Will the Minister provide an update on the progress of Welsh city regions? OAQ(4)0487(EST)*

Senedd.tv Fideo Video

14:39 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Yes. The Cardiff capital region and Swansea bay city region boards are continuing to meet on a regular and frequent basis.

Gwnaf. Mae byrddau dinas-ranbarthau Caerdydd a bae Abertawe yn parhau i gyfarfod yn rheolaidd ac yn aml.

Senedd.tv Fideo Video

14:39 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Thank you for that update, Minister. I return to the question of governance. I believe that we need long-term strategies, and, certainly, a city region strategy is one that takes perhaps 25 years to see results. What kind of governance structure will you establish to ensure that these institutions are as robust and as able as possible to survive the winds of political change to enable them to work?

Diolch am y newyddion diweddaraf, Weinidog. Dychwelaf at gwestiwn llywodraethu. Credaf fod arnom angen strategaethau tymor hir, ac yn sicr, mae strategaeth dinas-ranbarth yn un a allai gymryd 25 mlynedd i weld canlyniadau. Pa fath o strwythur llywodraethu y byddwch yn ei sefydlu i sicrhau bod y sefydliadau hyn mor gadarn ac mor abl â phosibl i oroesi newidiadau gwleidyddol i'w galluogi i weithio?

Senedd.tv Fideo Video

14:39 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

I think that we do have to survive the winds of political change for the city regions to work. Roger Lewis is looking at his current membership structure at the moment and at what he has got in terms of members, so we will look at the governance of that. Sir Terry has only just taken over, and I think that he has some views about how the future should flow. So, I am very hopeful that I will able to look in more detail at the governance issues around this to get a balance that does weather any political storms.

Rwy'n credu bod yn rhaid i ni oroesi newidiadau gwleidyddol er mwyn i'r dinas-ranbarthau weithio. Mae Roger Lewis yn edrych ar ei strwythur aelodaeth ar hyn o bryd ac ar yr hyn sydd ganddo o ran aelodau, felly byddwn yn edrych ar y modd y caiff hynny ei lywodraethu. Newydd gychwyn y mae Syr Terry ac rwy'n meddwl fod ganddo rai safbwyntiau ynglŷn â'r cyfeiriad yn y dyfodol. Felly, rwy'n obeithiol iawn y byddaf yn gallu edrych yn fanylach ar y materion llywodraethu sy'n ymwneud â hyn er mwyn cael cydbwysedd sy'n gwrthsefyll unrhyw stormydd gwleidyddol.

Senedd.tv Fideo Video

14:40 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Minister, Newport is building considerable momentum with its economic redevelopment, following the recession with major city-centre redevelopment, major events and conferences and new initiatives and networks. Would you agree that Newport—as one of Wales's cities and part of the capital city region, with its excellent transport and communication links and with all that work going on at the moment—is well placed to build its economy? Will you assure me that you will, in Welsh Government, work with Newport to make sure that it fulfils its potential as part of the capital city region?

Weinidog, mae Casnewydd yn adeiladu momentwm sylweddol yn ailddatblygu'n economaidd yn dilyn y dirwasgiad gyda gwaith ailddatblygu mawr ynghanol y ddinas, digwyddiadau mawr a chynadleddau a mentrau a rhwydweithiau newydd. A fyddech yn cytuno bod Casnewydd—fel un o ddinasoedd Cymru a rhan o ddinas-ranbarth y brifddinas, gyda'i chysylltiadau trafnidiaeth a chyfathrebu ardderchog a'r holl waith sy'n mynd ymlaen ar hyn o bryd—mewn sefyllfa dda i ddatblygu ei heconomi? A wnewch chi fy sicrhau y bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Chasnewydd i sicrhau ei bod yn cyflawni ei photensial fel rhan o ddinas-ranbarth y brifddinas?

Senedd.tv Fideo Video

14:40 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

I think that I have shown good faith on the part of the Welsh Government in terms of Simon Gibson. My department supported his report, looking at Newport. He has been working very well with the local authority and I think that we have got enormous opportunities in that part of the region. It is also important to recognise that it is not just about Newport; if you go to Monmouthshire, there are also issues there that are important. It is also particularly important in terms of links into Bristol for our mutual benefit.

Credaf fy mod wedi dangos ewyllys da ar ran Llywodraeth Cymru mewn perthynas â Simon Gibson. Cefnogodd fy adran ei adroddiad a edrychai ar Gasnewydd. Mae wedi bod yn gweithio'n dda iawn gyda'r awdurdod lleol ac rwy'n meddwl bod gennym gyfleoedd enfawr yn y rhan honno o'r rhanbarth. Mae hefyd yn bwysig cydnabod nad ymwneud â Chasnewydd yn unig y mae; os ewch i Sir Fynwy, mae yna faterion pwysig yno hefyd. Mae hefyd yn arbennig o bwysig o ran cysylltu â Bryste er budd pawb ohonom.

Senedd.tv Fideo Video

14:41 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Minister, I heard what you said—and you actually answered one of my questions, so you are prescient in that way. However, may I ask what discussions you have actually had with the local authority, particularly in south-east Wales, on bringing that about?

Weinidog, clywais yr hyn a ddywedasoch—ac rydych chi wedi ateb un o fy nghwestiynau mewn gwirionedd, felly rhaid eich bod yn rhagwybodol yn hynny o beth. Fodd bynnag, a gaf i ofyn pa drafodaethau rydych wedi'u cael gyda'r awdurdod lleol, yn enwedig yn ne-ddwyrain Cymru, ynglŷn â gwireddu hynny?

Senedd.tv Fideo Video

14:41 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Yes, I had a meeting with local authority leaders recently when we discussed some of those issues. I do think that it is important that we have that relationship, in the same way as we need the relationship in north Wales with Merseyside and the local authorities there. My colleague, Lesley Griffiths, who has been chairing the transport taskforce, has certainly made those links in, and I think that we have got to do more on that agenda to see mutual benefits between England and Wales.

Yn wir, cefais gyfarfod gydag arweinwyr awdurdodau lleol yn ddiweddar, pan fuom yn trafod rhai o'r materion hyn. Rwy'n credu ei bod hi'n bwysig i ni gael y berthynas honno, yn yr un modd ag y mae angen i ni gael perthynas yng ngogledd Cymru â Glannau Mersi a'r awdurdodau lleol yno. Yn bendant, mae fy nghyd-Aelod, Lesley Griffiths, a fu'n cadeirio'r tasglu trafnidiaeth, wedi creu'r cysylltiadau hynny ac rwy'n credu bod yn rhaid i ni wneud mwy ynglŷn â'r agenda honno i weld manteision i'r ddwy ochr rhwng Cymru a Lloegr.

Senedd.tv Fideo Video

14:41 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Mewn cyfarfod gyda Tata y bore yma, roeddent yn dweud sut y byddent, fel cwmni angor, yn gallu chwarae rôl strategol fel rhan o ranbarth ddinas gorllewin Cymru yn Abertawe. Hefyd o ran y cwmnïau llai sy'n eistedd o fewn Tata, sut ydych chi'n gweld eu rôl nhw yn datblygu fel eu bod yn gallu bod yn rhan strategol o ddatblygiad y cysyniad hwn o ranbarthau dinas, yn enwedig yn yr ardal honno?

In a meeting with Tata this morning, they said how they, as an anchor company, could play a strategic role as part of the city region of west Wales, based in Swansea. Also, in terms of the smaller companies that sit within Tata, how do you see their role developing so that they can play a strategic role in developing this concept of city regions, particularly in that area?

Senedd.tv Fideo Video

14:42 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Tata already plays a strategic role in terms of Government policy, given the amount of other dialogue we have with them and with the other companies that they have. It is always very difficult to get the right balance on the committee because everybody wants to be on there. If it were not Tata, and it was somebody else, somebody else would want to be on it. However, they are certainly engaged and I very much hope, with Sir Terry taking the lead there and looking at new ways of engagement and involvement, that we will make progress.

Mae Tata eisoes yn chwarae rôl strategol o ran polisi'r Llywodraeth, o ystyried faint o ddeialog arall rydym wedi'i chael gyda hwy a gyda'r cwmnïau eraill sydd ganddynt. Mae bob amser yn anodd iawn cael y cydbwysedd cywir ar y pwyllgor gan fod pawb eisiau bod yno. Pe bai'n rhywun heblaw Tata, byddai rhywun arall eisiau bod arno. Fodd bynnag, maent yn sicr yn cymryd rhan a gobeithiaf yn fawr y byddwn yn gwneud cynnydd, gyda Syr Terry yn arwain yno ac yn edrych ar ffyrdd newydd o ymwneud ac ymgysylltu.

Senedd.tv Fideo Video

### Cefnogi Busnesau yn Nhorfaen

### Support for Businesses in Torfaen

14:42 **Lynne Neagle** Bywgraffiad Biography

*6. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gefnogaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei rhoi i fusnesau yn Nhorfaen? OAQ(4)0492(EST)*

*6. Will the Minister make a statement on Welsh Government support for businesses in Torfaen? OAQ(4)0492(EST)*

Senedd.tv Fideo Video

14:42 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Yes. We are committed to providing a broad range of information, advice and support to all businesses in Wales.

Gwnaf. Rydym wedi ymrwymo i ddarparu ystod eang o wybodaeth, cyngor a chymorth i bob busnes yng Nghymru.

Senedd.tv Fideo Video

14:43 **Lynne Neagle** Bywgraffiad Biography

Thank you, Minister. I am sure that you will recall our visit to Pontypool firm, Penn Insure, last year, when you met with company directors to discuss their plans for the future. Those discussions ultimately led to a significant investment from the economic growth fund to support a £400,000 expansion. I was delighted to formally open their new office at the old court building earlier this month, where I met some of the 17 staff they have employed as a direct result of that Welsh Government support. So, will you join me today, Minister, in congratulating staff and management at Penn Insure, who have come a tremendously long way this past 12 months? Can I thank you for the support that you have given this vital local business in Pontypool?

Diolch i chi, Weinidog. Rwy'n sicr y byddwch yn cofio ein hymweliad â chwmni ym Mhont-y-pŵl, Penn Insure, y llynedd, pan gawsoch gyfarfod â chyfarwyddwyr y cwmni i drafod eu cynlluniau ar gyfer y dyfodol. Arweiniodd y trafodaethau hynny yn y pen draw at fuddsoddiad sylweddol o'r gronfa twf economaidd i gefnogi estyniad gwerth £400,000. Roeddwn wrth fy modd yn agor eu swyddfa newydd yn hen adeilad y llys yn ffurfiol yn gynharach y mis hwn, lle cyfarfûm â rhai o'r 17 aelod o staff y maent wedi'u cyflogi o ganlyniad uniongyrchol i'r gefnogaeth honno gan Lywodraeth Cymru. Felly, a wnewch chi ymuno â mi heddiw, Weinidog, i longyfarch staff a rheolwyr Penn Insure, sydd wedi teithio'n eithriadol o bell dros y 12 mis diwethaf? A gaf fi ddiolch i chi am y gefnogaeth rydych wedi'i rhoi i'r busnes lleol allweddol hwn ym Mhont-y-pŵl?

Senedd.tv Fideo Video

14:43 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

It seems hard to believe that I visited last November, when they were talking about the exciting developments, and now they are real. It is a very good company that looked to us for support, we were able to give support, and it has provided more jobs. I think that it is very important that we continue to support businesses like that across Wales.

Mae'n anodd credu fy mod wedi ymweld â hwy fis Tachwedd diwethaf pan oeddent yn siarad am y datblygiadau cyffrous, ac erbyn hyn maent yn real. Mae'n gwmni da iawn a drodd atom i ofyn am gymorth, gallasom roi cymorth, ac mae wedi creu mwy o swyddi. Credaf ei bod yn bwysig iawn i ni barhau i gefnogi busnesau fel hyn ledled Cymru.

Senedd.tv Fideo Video

14:44 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Minister, last week, the second Torfaen Women in Business event was held, attended by over 100 delegates, celebrating diversity and raising the profile of women throughout the borough. How is the Minister's department able to help that particular organisation to network to make its profile even greater?

Weinidog, yr wythnos diwethaf, cynhaliwyd ail ddigwyddiad Menywod mewn Busnes Torfaen, a daeth dros 100 o gynrychiolwyr ynghyd i ddathlu amrywiaeth a chodi proffil menywod ar draws y fwrdeistref. Sut y mae adran y Gweinidog yn gallu helpu'r mudiad arbennig hwn i rwydweithio er mwyn hybu ei broffil hyd yn oed yn fwy?

Senedd.tv Fideo Video

14:44 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

If we are not talking about financial assistance, I can certainly agree, of course, to help and assist in any way. [Laughter.] I think that there are a number of good organisations of women in business across Wales. Perhaps it is a strand of work that I should look at, linking them in to have dialogue between each other as well as dialogue with the centre, because we do want to increase the profile of women in business.

Os nad ydym yn sôn am gymorth ariannol, gallaf yn sicr gytuno, wrth gwrs, i helpu a chynorthwyo mewn unrhyw ffordd. [Chwerthin.] Credaf fod yna nifer o sefydliadau da ar gyfer merched mewn busnes ar draws Cymru. Efallai ei fod yn faes y dylwn edrych arno, gan eu cydgysylltu i greu deialog rhyngddynt a'i gilydd yn ogystal â deialog â'r canol, gan ein bod yn awyddus i godi proffil menywod mewn busnes.

Senedd.tv Fideo Video

14:44 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, your Government, in its impact assessment relating to the economic benefits of the south-east Wales metro plan, concluded that there would be significant economic benefits to investing in a city region and a metro transport network in every part of south-east Wales. Can you tell us what the business benefits would be to places like Pontypool, Garndiffaith and Blaenavon in Torfaen if you build a second M4 around Newport?

Weinidog, yn ei hasesiad effaith o fuddiannau economaidd cynllun metro'r de-ddwyrain, daeth eich Llywodraeth i'r casgliad y byddai manteision economaidd sylweddol i fuddsoddi mewn dinas-ranbarth a rhwydwaith trafnidiaeth metro ym mhob rhan o dde-ddwyrain Cymru . A allwch ddweud wrthym beth fyddai'r manteision i fusnesau llefydd fel Pont-y-pŵl, Garndiffaith a Blaenafon yn Nhorfaen os ydych yn adeiladu ail M4 o amgylch Casnewydd?

14:45 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We have to look at the economy as a whole in relation to south-east Wales. The road and the metro can both go ahead. I see the metro as being significant in terms of bringing people in to work, out to work and development. I think that the metro is very important and I hope to make an announcement, either at the end of this term or the beginning of next term, on future proposals for the metro.

Mae'n rhaid i ni edrych ar yr economi yn ei chyfanrwydd mewn perthynas â de-ddwyrain Cymru. Gellir bwrw ymlaen â'r ffordd a'r metro. Rwy'n gweld y metro fel rhywbeth arwyddocaol o ran cludo pobl i mewn i weithio, allan i weithio ac o ran datblygu. Credaf fod y metro yn bwysig iawn ac rwy'n gobeithio gwneud cyhoeddiad, naill ai ar ddiwedd y tymor hwn neu ar ddechrau'r tymor nesaf, ar argymhellion ar gyfer y metro yn y dyfodol.

### Ardaloedd Twf Lleol Powys

### Powys Local Growth Zones

14:45 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*7. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ardaloedd twf lleol Powys? OAQ(4)0485(EST)*

*7. Will the Minister provide an update on Powys local growth zones? OAQ(4)0485(EST)*

14:45 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We are making good progress on the recommendations for the growth zones. I have looked at some governance options for the Teifi valley local growth zone, and I am very pleased by the work that individuals have put into the development of this project.

Rydym yn gwneud cynnydd da ar yr argymhellion ar gyfer yr ardaloedd twf. Rwyf wedi edrych ar opsiynau llywodraethu ar gyfer ardal twf lleol ddyffryn Teifi, ac rwy'n falch iawn o'r gwaith y mae unigolion wedi ei wneud yn datblygu'r prosiect hwn.

14:45 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am grateful for that update, Minister. My experience of some of the projects being delivered locally on the ground suggests that they are delivering significant benefit. However, one area that I think could usefully be addressed is the sharing of good practice across the county and drawing together the strands of what can be learned to maximise the benefit and then potentially also to share that maybe with the Teifi growth zone or elsewhere. I wonder whether you are able to make a commitment to pull those strands together so that we can get more learning and more benefit from what is being delivered.

Diolch am y newyddion hwnnw, Weinidog. Mae fy mhrofiad o rai o'r prosiectau sy'n cael eu cyflawni'n lleol ar lawr gwlad yn awgrymu eu bod yn creu budd sylweddol. Fodd bynnag, un maes y credaf y byddai'n werth mynd i'r afael ag ef yw rhannu arfer da ar draws y sir a dwyn yr hyn y gallwn ei ddysgu ynghyd er mwyn gwneud y gorau o'r budd a hefyd, rhannu hynny o bosibl gydag ardal twf Teifi neu fannau eraill. Tybed a allwch ymrwymo i ddod â'r meysydd hynny at ei gilydd fel y gallwn ddysgu mwy a sicrhau mwy o fudd o'r hyn sy'n cael ei gyflawni.

14:46 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think that that is a very useful idea for both growth zones. I would be more than happy to facilitate a meeting between the growth zones, and perhaps open it to Assembly Members who have an interest, to discuss the mutual benefits and policy positions that are developing. It is something I will do in the new year.

Credaf fod hynny'n syniad defnyddiol iawn ar gyfer y ddwy ardal twf. Byddwn yn fwy na pharod i hwyluso cyfarfod rhwng yr ardaloedd twf, ac efallai ei agor i Aelodau'r Cynulliad sydd â diddordeb, er mwyn trafod y manteision i bawb a safbwyntiau polisi sy'n datblygu. Mae'n rhywbeth y byddaf yn ei wneud yn y flwyddyn newydd.

14:46 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Thank you for the last answer, Minister; it is very welcome. Can you tell me what support the Welsh Government is offering to businesses within the Powys local growth zone area where the property offering is very little? It does not really meet their growth needs. I think that you are nodding, so you understand my question.

Diolch i chi am yr ateb olaf, Weinidog; mae i'w groesawu'n fawr. A allwch chi ddweud wrthyf pa gymorth y mae Llywodraeth Cymru yn ei gynnig i fusnesau yn ardal twf lleol Powys, lle mae'r hyn sydd i'w gynnig o ran eiddo yn fach iawn? Nid yw'n diwallu eu hanghenion twf mewn gwirionedd. Rwy'n meddwl eich bod yn ysgwyd eich pen, felly rydych yn deall fy nghwestiwn.

Senedd.tv Fideo Video

14:47 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Yes. The property offer is a very difficult issue. I have a report that is coming to me, looking at what I need to do within Powys and mid Wales about whether we should enter the marketplace to acquire property for businesses so that they can lease, buy, et cetera—which I am prepared to do. I have had discussions with the company and which I am now offering a solution to, which will protect the business staying within mid Wales. In real terms, I have also tasked Business Wales to deliver targeted support for existing businesses and start-ups within the local growth zone, in addition to their youth enterprise activities. There is quite a good package emerging. The trouble is that we went out of that property business 20 years ago but we are going to have to get back in if we are going to keep firms firmly grounded within mid Wales.

Ydw. Mae'r hyn sydd i'w gynnig o ran eiddo yn fater anodd iawn. Mae gen i adroddiad ar y ffordd sy'n edrych ar yr hyn sydd angen i mi ei wneud ym Mhowys a chanolbarth Cymru ynglŷn ag a ddylem fynd i mewn i'r farchnad i gaffael eiddo ar gyfer busnesau fel y gallant brydlesu, prynu, ac ati—rwy'n barod i wneud hynny. Rwyf wedi cael trafodaethau gyda'r cwmni ac yn awr rwy'n cynnig ateb a fydd yn diogelu busnesau sy'n aros yng nghanolbarth Cymru. Mewn termau real, rwyf hefyd wedi gofyn i Busnes Cymru ddarparu cymorth wedi'i dargedu i fusnesau sydd eisoes yn bodoli a busnesau newydd yn yr ardal twf lleol, yn ychwanegol at eu gweithgareddau menter ieuenctid. Mae yna becyn eithaf da yn datblygu. Y drafferth yw ein bod wedi gadael y busnes eiddo 20 mlynedd yn ôl, ond rydym yn mynd i orfod mynd yn ôl i mewn os ydym yn mynd i wreiddio cwmnïau'n gadarn yng nghanolbarth Cymru.

Senedd.tv Fideo Video

14:47 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

One of the proposals in Llandrindod, in the growth zone there, was to have a town champion. I do not know, but I do not think that the person has been appointed yet; I wonder whether you can give an update on where we are on that principle and whether that is an example of the sort of development that the Teifi zone, which you also made a statement on yesterday, will be taking forward.

Un o'r argymhellion yn Llandrindod, yn yr ardal twf yno, oedd cael hyrwyddwr ar gyfer y dref. Nid wyf yn gwybod, ond nid wyf yn credu bod neb wedi'i benodi eto; tybed a allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ein sefyllfa o ran yr egwyddor honno ac a yw hynny'n enghraifft o'r math o ddatblygiad y mae ardal Teifi, y gwnaethoch ddatganiad yn ei chylch ddoe hefyd, yn bwrw ymlaen ag ef.

Senedd.tv Fideo Video

14:48 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

I think that they have just appointed the town champion, who, I think, will be starting in January. I think that it is a very good idea because, if it works there, it is something that could be replicated across the zones. It would be a useful discussion for us to have in the new year across the zones about how we can learn lessons and see how things are factored out. We have to think out of the box about how we are going to get to developing some of these areas.

Rwy'n credu eu bod newydd benodi hyrwyddwr ar gyfer y dref, a fydd yn dechrau ym mis Ionawr, rwy'n credu. Credaf ei fod yn syniad da iawn oherwydd os yw'n gweithio yno, mae'n rhywbeth y gellid ei efelychu ar draws yr ardaloedd. Byddai'n drafodaeth ddefnyddiol i ni ei chael yn y flwyddyn newydd ar draws yr ardaloedd ynglŷn â sut y gallwn ddysgu gwersi a gweld sut y mae pethau'n cael eu hystyried. Mae'n rhaid i ni feddwl y tu allan i'r bocs ynglŷn â sut rydym yn mynd i ddatblygu rhai o'r meysydd hyn.

Senedd.tv Fideo Video

### Lein Cwm Rhymni

### The Rhymney Valley Line

14:48 **Jeff Cuthbert** Bywgraffiad Biography

*8. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y ddarpariaeth o gerbydau ar gyfer gwasanaethau rheilffordd ar lein Cwm Rhymni? OAQ(4)0482(EST)*

*8. Will the Minister make a statement on the provision of rolling stock for rail services on the Rhymney Valley line? OAQ(4)0482(EST)*

Senedd.tv Fideo Video

14:48 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

I expect Arriva Trains Wales to provide sufficient rolling stock in line with its contractual obligations.

Rwy'n disgwyl i Trenau Arriva Cymru ddarparu digon o gerbydau yn unol â'i rwymedigaethau cytundebol.

Senedd.tv Fideo Video

14:48 **Jeff Cuthbert** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister, for that response. Unfortunately, in my post bag I still find many letters from constituents complaining about the poor standards on the Rhymney valley line, having to put up with overcrowded trains, particularly at peak times, despite, as has been mentioned earlier, the lengthening of platforms right from Caerphilly up to Bargoed. The operators told me they cannot invest in more rolling stock without additional funding from the Welsh Government. So, Minister, if my constituents are unlikely to see the benefits of more carriages before 2018, can you and your officials work with Arriva Trains Wales in order to ensure the most efficient use of rolling stock so that a greater number of carriages are available for my constituents during peak travel times?

Diolch i chi am eich ateb, Weinidog. Yn anffodus, yn yr ohebiaeth a gaf rwy'n dal i ddod o hyd i nifer o lythyrau gan etholwyr yn cwyno am y safonau gwael ar linell cwm Rhymni, a'u bod yn gorfod dioddef trenau gorlawn, yn enwedig yn ystod oriau brig, er bod y platfformau, fel y crybwyllwyd yn gynharach, wedi cael eu hymestyn o Gaerffili hyd at Fargoed. Mae'r gweithredwyr wedi dweud wrthyf na allant fuddsoddi mewn mwy o gerbydau heb gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru. Felly, Weinidog, os yw fy etholwyr yn annhebygol o weld manteision mwy o gerbydau cyn 2018, a allwch chi a'ch swyddogion weithio gyda Trenau Arriva Cymru i sicrhau'r defnydd mwyaf effeithlon o gerbydau fel bod nifer fwy o gerbydau ar gael ar gyfer fy etholwyr ar adegau teithio prysur?

14:49 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have to reiterate that rail infrastructure is non-devolved and is the responsibility of the UK Government. We as a Government have historically, in the last administration, been supporting something that we are not actually responsible for to try to benefit individuals. I know about the letters because I have them from you, and I have them from all across the piece. So, we continue to add additional services. We try to do what we can in terms of what is available, but we are not actually responsible for some of these issues. We take everything up with Arriva Trains at all times, because I know that, at peak times, it is absolutely chaotic on some of these lines—there are people standing all of the way. So, I just hope that I have rail devolved as soon as possible, so that we can actually get on with doing a good job on our own services.

Rhaid i mi ailadrodd fod y seilwaith rheilffyrdd yn fater heb ei ddatganoli ac yn rhan o gyfrifoldebau Llywodraeth y DU. Fel Llywodraeth, yn y weinyddiaeth ddiwethaf, buom yn cefnogi rhywbeth nad ydym yn gyfrifol amdano mewn gwirionedd er mwyn ceisio sicrhau budd i bobl. Rwy'n gwybod am y llythyrau am fy mod wedi'u cael gennych, ac rwy'n eu cael o bob cyfeiriad. Felly, rydym yn parhau i ychwanegu gwasanaethau ychwanegol. Rydym yn ceisio gwneud yr hyn a allwn o ran yr hyn sydd ar gael, ond nid ydym mewn gwirionedd yn gyfrifol am rai o'r materion hyn. Rydym yn trafod popeth gyda Trenau Arriva bob amser, gan fy mod yn gwybod ei bod hi'n gwbl ddi-drefn ar rai o'r llinellau hyn yn ystod oriau brig—mae pobl yn sefyll yr holl ffordd. Felly, rwy'n gobeithio y caf y rheilffyrdd wedi'u datganoli cyn gynted â phosibl, fel y gallwn fwrw ymlaen go iawn â gwneud gwaith da ar ein gwasanaethau ein hunain.

14:50 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I reiterate the question that the previous questioner put. The Minister is well aware of the problems with this. May I ask her to redouble her efforts in making adequate representations to the Department for Transport?

Rwy'n ailadrodd cwestiwn yr holwr blaenorol. Mae'r Gweinidog yn ymwybodol iawn o'r problemau gyda hyn. A gaf fi ofyn iddi wneud ymdrech ychwanegol i gyflwyno sylwadau digonol i'r Adran Drafnidiaeth?

14:50 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We are having good dialogue with the Department for Transport, as you know, and I will be more than happy, when I come for further scrutiny—if I have further issues in this area—to be scrutinised by the committee, when I am due, because I think that it is a very important issue for all of us. However, without the powers, and with the difficulties with budgets, how are you going to put in more money? This is an issue where you do not have devolution, yet you are expected to pick up the tab for inadequate funding.

Rydym yn cael trafodaeth dda gyda'r Adran Drafnidiaeth, fel y gwyddoch, a phan ddaw fy ngwaith gerbron y pwyllgor craffu—os byddaf yn wynebu materion eraill yn y maes hwn—byddaf yn fwy na bodlon i'r pwyllgor graffu ar fy ngwaith pan ddaw'n amser, oherwydd credaf ei fod yn fater pwysig iawn i bob un ohonom. Fodd bynnag, heb y pwerau, a chyda'r anawsterau cyllidebol, sut rydych chi'n mynd i ddarparu mwy o arian? Mae hwn yn fater nad yw wedi'i ddatganoli ond mae disgwyl i chi dalu'r cyllid annigonol.

14:50 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Obviously, I agree with you entirely there, Minister. The investment in the platforms on the Rhymney line is very much to be welcomed, because it is improving their accessibility, especially as most of the platforms currently have no toilets at all. However, as you say, the rolling stock is often old-fashioned and overcrowded, and those with disabilities are not able to use the toilets on the trains. So, could you stress with the UK Government that people with disabilities in the Rhymney valley cannot wait until 2018 to use the loo?

Yn amlwg, rwy'n cytuno'n llwyr â chi yn hynny o beth, Weinidog. Roedd y buddsoddiad yn y platfformau ar reilffordd Rhymni i'w groesawu'n fawr iawn gan ei fod yn eu gwneud yn fwy hygyrch, yn enwedig gan nad oes toiledau o gwbl ar y rhan fwyaf o'r platfformau ar hyn o bryd. Fodd bynnag, fel y dywedwch, mae'r cerbydau yn aml yn hen ffasiwn ac yn orlawn ac ni all pobl ag anableddau ddefnyddio'r toiledau ar y trenau. Felly, a allech bwysleisio wrth Lywodraeth y DU na all pobl ag anableddau yng nghwm Rhymni aros tan 2018 er mwyn defnyddio'r tŷ bach?

14:51 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have to say that I absolutely concur, but, interestingly enough, I have met with a company that does lavatories and things, and we were talking about whether we could have these facilities on stations—how you could monitor it, how you would not need to have somebody else there and how you could do it. So, I can assure you that, if I have good news on the devolution of rail powers, this will be one of the first areas that we will be looking at.

Mae'n rhaid i mi ddweud fy mod yn cytuno'n llwyr, ond yn ddiddorol ddigon, cyfarfûm â chwmni sy'n gwneud toiledau a phethau ac roeddem yn siarad ynglŷn ag a allem gael y cyfleusterau hyn yn y gorsafoedd—sut y gallech ei fonitro, sut na fyddai angen i chi gael rhywun arall yno a sut y gallech wneud hynny. Felly, gallaf eich sicrhau, os caf newyddion da ar ddatganoli pwerau rheilffyrdd, bydd hwn yn un o'r meysydd cyntaf y byddwn yn edrych arno.

## Gwasanaethau Rheilffyrdd Cwm Cynon

## Rail Services in the Cynon Valley

14:51 **Christine Chapman** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*9. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i wella gwasanaethau rheilffyrdd yng Nghwm Cynon? OAQ(4)0483(EST)*

*9. What action is the Welsh Government taking to improve rail services in the Cynon Valley? OAQ(4)0483(EST)*

14:52 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We continue to provide funding for the strengthening of peak-hour rail services on the Aberdare line.

Rydym yn parhau i ddarparu cyllid ar gyfer cryfhau gwasanaethau rheilffordd oriau brig ar linell Aberdâr.

14:52 **Christine Chapman** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister. Obviously, other Members have referred to this today. I welcome the apology from Arriva Trains Wales, but this is not good enough for what one of my constituents has referred to as a 'nightmare journey' that forced passengers to travel in cramped and unsafe conditions and left others stranded on the platform. Like others, my focus is on how we can improve this for the future. I know that the Labour Party in Westminster has spoken about creating a public sector rail operator that would lead to a better deal for passengers. I would welcome your thoughts on this and how the Welsh Government could support this in Wales.

Diolch i chi, Weinidog. Yn amlwg, mae Aelodau eraill wedi cyfeirio at hyn heddiw. Rwy'n croesawu'r ymddiheuriad gan Trenau Arriva Cymru, ond nid yw hyn yn ddigon da ar gyfer yr hyn y cyfeiriodd un o fy etholwyr ato fel 'taith hunllefus' sy'n gorfodi teithwyr i deithio mewn amodau cyfyng a pheryglus ac sy'n gadael eraill ar ôl ar y platfform. Fel eraill, rwyf am ganolbwyntio ar sut i wella hyn ar gyfer y dyfodol. Gwn fod y Blaid Lafur yn San Steffan wedi sôn am greu cwmni trenau sector cyhoeddus a fyddai'n arwain at fargen well i deithwyr. Byddwn yn croesawu eich barn am hyn a sut y gallai Llywodraeth Cymru gefnogi hyn yng Nghymru.

14:52 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Obviously, as you know, the rail issue is quite complex, and the Secretary of State is now responsible for awarding the franchise. Our negotiations with the UK Government are under way, and, if we have devolution, there are other rail issues that we also need to look at in terms of legislation. We have seen such success with people wanting to use the trains that it is very important that they have a quality service and rolling stock. I will be delighted when the day comes when any Minister here can answer and say, 'Yes, we are going to do it this way'.

Yn amlwg, fel y gwyddoch, mae rheilffyrdd yn fater eithaf cymhleth a'r Ysgrifennydd Gwladol sy'n gyfrifol am ddyfarnu'r fasnachfraint yn awr. Mae ein trafodaethau gyda Llywodraeth y DU yn mynd rhagddynt, a phe byddem yn cael datganoli, mae yna faterion eraill yn ymwneud â'r rheilffyrdd y bydd angen i ni eu hystyried o ran deddfwriaeth. Rydym wedi gweld cymaint o lwyddiant gyda phobl sydd am ddefnyddio'r trenau fel ei bod yn bwysig iawn eu bod yn cael gwasanaeth o ansawdd da a cherbydau. Byddaf wrth fy modd pan ddaw'r dydd pan fydd unrhyw Weinidog yma'n gallu ateb a dweud, 'Ydym, rydym yn mynd i'w wneud fel hyn'.

14:53 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I could endorse all the comments that have been made so far on a series of questions about the overcrowding of trains, and there is an issue about the ability of the Welsh Government, and, indeed, with Arriva Trains Wales and the franchise that it is locked into; as I understand it, the franchise had no growth capacity built into it, and maybe we should look at the original authors of that franchise. However, has there been a detailed assessment of the overcrowding of trains, particularly from the Cynon valley? Last week, obviously, Arriva Trains Wales had to offer that apology for overcrowding. It is all well and good us pointing these things out individually, but has the Government done an overall assessment of the capacity of the network and, in particular, of the rolling stock in South Wales Central to meet the ongoing demand, as there is still four years left of the franchise?

Weinidog, gallwn gefnogi'r holl sylwadau a wnaed hyd yn hyn ar gyfres o gwestiynau am orlenwi ar y trenau ac mae problem ynghylch gallu Llywodraeth Cymru, ac yn wir, gyda Trenau Arriva Cymru a'r fasnachfraint y mae'n gaeth iddi; yn ôl a ddeallaf, nid oedd y fasnachfraint wedi cynnwys unrhyw le ar gyfer twf ac efallai y dylem edrych ar awduron gwreiddiol y fasnachfraint. Fodd bynnag, a gafwyd asesiad manwl o'r gorlenwi ar y trenau, yn enwedig o gwm Cynon? Yr wythnos diwethaf, yn amlwg, bu'n rhaid i Trenau Arriva Cymru ymddiheuro am y gorlenwi. Mae'n ddigon hawdd i ni dynnu sylw at y pethau hyn yn unigol, ond a yw'r Llywodraeth wedi gwneud asesiad cyffredinol o gapasiti'r rhwydwaith ac yn benodol, o'r cerbydau yng Nghanol De Cymru i ateb y galw parhaus, gan fod pedair blynedd yn weddill ar y fasnachfraint?

14:53 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I cannot say that I have seen anything, but that does not mean that there has not been any work done in the department. However, I think that your suggestion is a good one—if work has not been done, some work should be done, which I will then share with Members.

Ni allaf ddweud fy mod wedi gweld dim byd, ond nid yw hynny'n golygu na wnaed unrhyw waith yn yr adran. Fodd bynnag, rwy'n meddwl bod eich awgrym yn un da—os nad oes gwaith wedi'i wneud, dylid gwneud rhywfaint o waith, a byddaf yn ei rannu gyda'r Aelodau wedyn.

### Datblygiad SA1

### The SA1 Development

14:54 **Mike Hedges** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*10. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y datblygiadau sy'n digwydd yn SA1? OAQ(4)0480(EST)*

*10. Will the Minister make a statement regarding the developments taking place in SA1? OAQ(4)0480(EST)*

14:54 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The SA1 development has transformed what was a disused docklands area into a dynamic, vibrant new quarter for Swansea.

Mae datblygiad SA1 wedi trawsnewid yr hyn a oedd yn rhan segur o'r dociau yn ardal newydd ddynamig a bywiog ar gyfer Abertawe.

14:54 **Mike Hedges** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I agree with the Minister; SA1, which is in my constituency, has been a tremendous success so far. Furthermore, I welcome proposed developments by University of Wales Trinity Saint David at SA1. Will the Minister provide an update on progress with this project?

Rwy'n cytuno â'r Gweinidog; mae SA1, sydd yn fy etholaeth, wedi bod yn llwyddiant ysgubol hyd yn hyn. Ar ben hynny, rwy'n croesawu datblygiadau arfaethedig gan Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yn SA1. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed ar y prosiect hwn?

14:54 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Yes, we are now undertaking a joint master-planning exercise prior to the planning application being made. Work on the new campus could actually begin towards the end of 2015, subject to obtaining planning consent. Of course, it is very important that they create a very modern campus there, and there will be an opportunity to work with the private sector, as well, for mutual benefit. If that campus and all that we aim for is there, we will hardly have any space left on SA1.

Gallaf, rydym yn awr yn cynnal ymarfer uwchgynllunio ar y cyd cyn i'r cais cynllunio gael ei gyflwyno. Gallai gwaith ar y campws newydd ddechrau tuag at ddiwedd 2015 mewn gwirionedd, yn amodol ar gael caniatâd cynllunio. Wrth gwrs, mae'n bwysig iawn eu bod yn creu campws modern iawn yno, a bydd cyfle i weithio gyda'r sector preifat hefyd, er budd pawb. Gyda'r campws a phopeth rydym yn anelu i'w gael yno, prin y bydd gennym unrhyw le ar ôl yn SA1.

Senedd.tv Fideo Video

14:55 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Thank you, Minister, for that answer to Mike Hedges. With the growth of the UK economy, the speeding up of development work at SA1 was to be welcomed, and I hope that the work that you referred to will do that. However, simple things can put off investors and visitors, such as the rather heavy-handed parking regime on site. I have had several complaints about this, so would you speak, please, to the company that the Government chose to manage parking about introducing, perhaps, a pay-on-exit scheme, rather than a pay-and-display scheme, which is very vigorously enforced and is producing quite a lot of bad feeling?

Diolch i chi, Weinidog, am eich ateb i Mike Hedges. Gyda thwf economi'r DU, roedd cyflymu'r gwaith datblygu yn SA1 i'w groesawu ac rwy'n gobeithio y bydd y gwaith y cyfeiriasoch ato yn gwneud hynny. Fodd bynnag, gall pethau syml darfu ar fuddsoddwyr ac ymwelwyr, megis y drefn barcio braidd yn llawdrwm a geir ar y safle. Rwyf wedi cael nifer o gwynion am hyn, felly a wnewch chi siarad â'r cwmni y mae'r Llywodraeth wedi'i ddewis i reoli parcio ynglŷn â chyflwyno cynllun talu wrth adael, efallai, yn hytrach na chynllun talu ac arddangos, sy'n cael ei orfodi'n llym ac sy'n creu cryn dipyn o ddrwgdeimlad?

Senedd.tv Fideo Video

14:55 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Yes, I have had quite a lot of correspondence since I have been Minister for transport and Minister for the economy about SA1. I have asked numerous questions about the contractual arrangements on this, and I would be more than delighted to take up your comments again, because I do think that there is a real issue down there, particularly for people who are disabled, and those who have not been able to park, and what has been happening is frankly not good enough.

Yn wir, rwyf wedi cael cryn dipyn o ohebiaeth ynghylch SA1 ers i mi ddod yn Weinidog trafnidiaeth a Gweinidog yr economi. Rwyf wedi gofyn nifer o gwestiynau am y trefniadau cytundebol ar hyn a byddwn yn hynod o falch i edrych ar eich sylwadau eto gan fy mod yn credu bod hon yn broblem go iawn i lawr yno, yn enwedig i bobl anabl a rhai nad ydynt wedi gallu parcio. A dweud y gwir, nid yw'r hyn sydd wedi bod yn digwydd yno yn ddigon da.

Senedd.tv Fideo Video

14:56 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Minister, you will know, of course, that as part of the budget deal with the Liberal Democrats, it was agreed that we would carry out a feasibility study on introducing new lock gates to SA1 to look at developing a marina there. How do you propose to take that forward?

Weinidog, fel rhan o'r cytundeb cyllidebol gyda'r Democratiaid Rhyddfrydol, byddwch yn gwybod, wrth gwrs, ein bod wedi cytuno i gynnal astudiaeth ddichonoldeb ar gyflwyno llifddorau newydd yn SA1 er mwyn edrych ar y posibilrwydd o ddatblygu marina yno. Sut rydych yn bwriadu bwrw ymlaen â hynny?

Senedd.tv Fideo Video

14:56 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

I have asked officials now to give me proposals for how we go ahead with the feasibility study. I would have liked to have done it internally, but I might have to do it externally because of the skills mix that is required. I will report back to Members when this has been undertaken.

Rwyf wedi gofyn yn awr i swyddogion roi argymhellion i mi ar sut y dylem fwrw ymlaen â'r astudiaeth ddichonoldeb. Byddwn wedi hoffi gwneud hyn yn fewnol, ond efallai y bydd yn rhaid i mi ei wneud yn allanol oherwydd y cymysgedd sgiliau sydd ei angen. Byddaf yn rhoi gwybod i'r Aelodau ar ôl i hyn gael ei wneud.

Senedd.tv Fideo Video

14:56 **David Rees** Bywgraffiad Biography

Minister, with the development of the new University of Wales Trinity St David campus at SA1, there will be a corridor along Fabian Way to the new second campus as well, so there is a higher education corridor. What are you doing to look at how you can support businesses that might want to take advantage of the research and development that goes on along that corridor in SA1?

Weinidog, gyda datblygu campws newydd Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yn SA1, bydd coridor ar hyd Ffordd Fabian i'r ail gampws newydd hefyd, felly mae yna goridor addysg uwch. Beth rydych yn ei wneud i edrych ar sut y gallwch gefnogi busnesau a allai fod yn awyddus i fanteisio ar y gwaith ymchwil a datblygu sy'n digwydd ar hyd y coridor hwn yn SA1?

Senedd.tv Fideo Video

14:56 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Swansea University has a good record of dealing with companies in terms of R&D. I know that, likewise, Trinity St David does in some aspects. We obviously help them in terms of innovation, but we are now looking, and the city region board is about to look, at what opportunities we can have for good, bright graduates to stay and how we can help them with business opportunities to stay in Wales and produce commercially in Wales the projects they have developed.

Mae gan Brifysgol Abertawe enw da am ddelio â chwmnïau o ran ymchwil a datblygu. Rwy'n gwybod bod gan Y Drindod Dewi Sant enw da yn yr un modd mewn rhai agweddau. Rydym yn amlwg yn eu helpu o ran arloesedd, ond rydym yn edrych yn awr, ac mae bwrdd y ddinas-ranbarth ar fin edrych, i weld pa gyfleoedd y gallwn eu cael i raddedigion da a disglair i aros yng Nghymru a sut y gallwn eu helpu gyda chyfleoedd busnes i aros yng Nghymru a chynhyrchu'n fasnachol yng Nghymru y prosiectau y maent wedi eu datblygu.

### Gwella Cysylltiadau

### Improving Links

14:57 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*11. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynglŷn ag unrhyw welliannau arfaethedig i'r cysylltiad rhwng yr A55 a phorthladd Caergybi? OAQ(4)0479(EST)*

*11. Will the Minister make a statement on any planned improvements to the link between the A55 and the port of Holyhead? OAQ(4)0479(EST)*

14:57 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I will be reviewing the business case for improving the road link between the port and the A55. Holyhead is absolutely essential in terms of the development of the north Wales economy.

Byddaf yn adolygu'r achos busnes dros wella'r cyswllt ffordd rhwng y porthladd a'r A55. Mae Caergybi yn gwbl hanfodol o ran datblygu economi gogledd Cymru.

*Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 14:57.*

*The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 14:57.*

14:57 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch yn fawr iawn am yr ymateb hwnnw. Rwy'n ymwybodol bod y Gweinidog a'i swyddogion yn ymwybodol nad yw'r A55, os liciwch chi, wedi ei chwblhau yng Nghaergybi a bod angen sicrhau'r cyswllt hwnnw rhwng y ffordd a'r porthladd ei hun. Mae'r lorïau a cheir sy'n defnyddio'r porthladd yn gorfod cystadlu â thraffig lleol mewn goleuadau traffig ar ben yr A55, ac mae damweiniau wedi bod yn agos iawn at ddigwydd. Byddwn yn gwerthfawrogi adduned y bydd y Gweinidog yn ei gwneud yn flaenoriaeth i gwblhau'r gwaith hwn er lles y porthladd a datblygiad economaidd y porthladd, a hefyd er lles y rhai sy'n byw yng Nghaergybi.

Thank you very much for that response. I am aware that the Minister and her officials are aware that the A55 has not, if you like, been completed in Holyhead and that we need to secure that link between the road and the port itself. Lorries and cars using the port have to compete with local traffic as they approach traffic lights at the end of the A55, and accidents have very nearly happened. I would appreciate a pledge that the Minister will make it a priority to complete that work for the benefit of the port and the economic development of the port, but also for the benefit of the people of Holyhead.

14:58 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am looking now at whether there is justification in moving forward this improvement, and I will report back. Obviously, we have the national transport plan, but, in terms of the port, it is integral to the operation of Hitachi and the new nuclear build, so we have to look at it in terms of economic and job opportunities.

Rwyf yn edrych yn awr i weld a ellir cyfiawnhau symud y gwelliant hwn yn ei flaen, a byddaf yn adrodd yn ôl. Yn amlwg, mae gennym y cynllun trafnidiaeth cenedlaethol, ond o ran y porthladd, mae'n hanfodol i waith Hitachi a'r orsaf niwclear newydd, felly mae'n rhaid i ni edrych arno o ran cyfleoedd economaidd a swyddi.

14:58 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am glad to hear that, Minister, because, in the words of a Labour MP in north Wales, north Wales needs a fairer deal on transport infrastructure, and there is too much of a focus on roads in south Wales. Those were the words of Mark Tami, the Labour MP for Alyn and Deeside. What other improvements will you be looking at along the A55 to make sure that the problems that we have seen this week and, indeed, over the last three years, do not continue to be repeated?

Mae'n dda gennyf glywed hynny, Weinidog, oherwydd yng ngeiriau un AS Llafur yn y Gogledd, mae Gogledd Cymru angen cael bargen decach o ran y seilwaith trafnidiaeth, ac mae gormod o ffocws ar ffyrdd yn y de. Dyna oedd geiriau Mark Tami, AS Llafur Alun a Glannau Dyfrdwy. Pa welliannau eraill y byddwch yn edrych arnynt ar hyd yr A55 i sicrhau nad yw'r problemau a welsom yr wythnos hon ac yn wir, dros y tair blynedd diwethaf, yn parhau i gael eu hailadrodd?

14:59 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Work undertaken on the A55 is sometimes for safety reasons, which is important, and we need to do essential work. Therefore, I am not going to stop any essential work if it is causing issues. Interestingly, I was on the A55 last week and swept through, as it were, in terms of undertaking my visit. I have given an absolute commitment to north Wales in terms of it. If you look at the statistics, it is the west Walians who are disadvantaged on any issues to do with transport.

Weithiau, mae gwaith yn cael ei wneud ar yr A55 am resymau diogelwch, sy'n bwysig, ac mae angen i ni wneud gwaith hanfodol. Felly, nid wyf yn mynd i atal unrhyw waith hanfodol os yw'n achosi problemau. Yn ddiddorol, roeddwn ar yr A55 yr wythnos diwethaf, yn brysio drwodd, fel petai, o ran fy ymweliad. Rwyf wedi rhoi ymrwymiad llwyr i ogledd Cymru yn ei chylch. Os edrychwch ar yr ystadegau, Cymry'r gorllewin sydd dan anfantais o ran unrhyw faterion sy'n ymwneud â thrafnidiaeth.

### Gwella Gwasanaethau Rheilffordd

### Improving Rail Services

14:59 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*12. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynglŷn â gwella gwasanaethau rheilffordd yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru? OAQ(4)0493(EST)*

*12. Will the Minister make a statement regarding improving rail services in Mid and West Wales? OAQ(4)0493(EST)*

14:59 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I would like to do more, but we are currently funding the introduction of hourly services on the Cambrian line, additional services on the Heart of Wales line from May 2015 and the additional funding of services to Fishguard. So, we are making an effort within the limits of the budget.

Hoffwn wneud mwy, ond ar hyn o bryd rydym yn ariannu'r gwaith o gyflwyno gwasanaethau bob awr ar reilffordd y Cambrian, gwasanaethau ychwanegol ar reilffordd Calon Cymru o fis Mai 2015 a chyllid ychwanegol i wasanaethau i Abergwaun. Felly, rydym yn gwneud ymdrech o fewn terfynau'r gyllideb.

15:00 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Minister. Indeed, Welsh Government is doing at least part of its job in attaining those new services. I look forward to the new service starting on the Cambrian line next May. Once that service has established, there are a couple of improvements—particularly new stations at Bow Street and Carno—which the Minister will be aware of. People in Carno are very keen to see you, Minister—as you might be aware—to discuss those projects with you. Is there a way of re-evaluating those schemes, with the new services in place, with the new use of the lines? As you said in reply to Christine Chapman earlier, once you put these services in, they get used, people do come, and they would want to support the railways. These new stations will increase the ability for commuting and also take some of the weight off some of the dangerous roads in the region.

Diolch i'r Gweinidog. Yn wir, mae Llywodraeth Cymru yn gwneud o leiaf ran o'i gwaith yn sicrhau'r gwasanaethau newydd hynny. Edrychaf ymlaen at weld y gwasanaeth newydd yn dechrau ar lein y Cambrian fis Mai nesaf. Ar ôl sefydlu'r gwasanaeth hwnnw, mae yna un neu ddau o welliannau—yn enwedig gorsafoedd newydd yn Bow Street a Charno—y bydd y Gweinidog yn ymwybodol ohonynt. Efallai eich bod yn ymwybodol, Weinidog, fod pobl Carno yn awyddus iawn i'ch gweld chi er mwyn trafod y prosiectau hynny gyda chi. A oes ffordd o ail-werthuso'r cynlluniau hynny gyda'r defnydd newydd o'r rheilffyrdd pan fydd y gwasanaethau newydd ar waith? Fel y dywedasoch mewn ateb i Christine Chapman yn gynharach, ar ôl i chi sefydlu'r gwasanaethau hyn, byddant yn cael eu defnyddio, bydd pobl yn dod a byddant yn awyddus i gefnogi'r rheilffyrdd. Bydd y gorsafoedd newydd hyn yn cynyddu'r gallu i gymudo a hefyd yn tynnu rhywfaint o'r pwysau oddi ar rai o'r ffyrdd peryglus yn y rhanbarth.

15:01 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, I think we have to recognise that, if we are going to add more services, the issue is then the quality of the service provided and the quality of the railway. I know that Ceredigion has been talking about the importance of opening Bow Street, and I am well aware of what Carno residents are saying—in more intemperate language than I would have liked to have been written to in, perhaps. So, I assure you that, at the end of the day, we will look at all these issues, but it will depend on devolution what I am able to do on franchises. So it is a much longer-term aim, but it is something that I am very committed to looking at.

Yn wir, os ydym yn mynd i ychwanegu mwy o wasanaethau, rwy'n meddwl bod yn rhaid i ni gydnabod mai ansawdd y gwasanaeth a ddarperir ac ansawdd y rheilffordd yw'r mater sy'n codi wedyn. Gwn fod Ceredigion wedi bod yn siarad am bwysigrwydd agor Bow Street ac rwy'n ymwybodol iawn o'r hyn y mae trigolion Carno yn ei ddweud—wedi'i ysgrifennu mewn iaith fwy eithafol nag y byddwn wedi hoffi, efallai. Felly, ar ddiwedd y dydd, rwy'n eich sicrhau y byddwn yn edrych ar yr holl faterion hyn ond bydd yr hyn y gallaf ei wneud ynglŷn â masnachfreintiau yn dibynnu ar ddatganoli. Felly, mae'n nod llawer mwy hirdymor, ond mae'n rhywbeth rwy'n ymrwymedig iawn i edrych arno.

### Maes Awyr Caerdydd

### Cardiff Airport

15:01 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*13. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am berfformiad Maes Awyr Caerdydd? OAQ(4)0494(EST)*

*13. Will the Minister make a statement on the performance of Cardiff Airport? OAQ(4)0494(EST)*

15:01 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes. Since the Welsh Government purchased the international airport, we have seen the position of the airport stabilise, and improvements made to the infrastructure and, certainly, the overall customer experience.

Gwnaf. Ers i Lywodraeth Cymru brynu'r maes awyr rhyngwladol, rydym wedi gweld sefyllfa'r maes awyr yn sefydlogi, a gwelliannau i'r seilwaith ac yn sicr, i brofiad y cwsmer yn gyffredinol.

15:01 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I welcome some of the recent announcements in terms of the investment and support for what is, in many ways, a vital element of the Welsh economy. I recently attended an airport operators' meeting, and it appears that there is a high degree of common interest with airports such as Bristol, Newquay and Exeter. We have a common interest in the development of flight services to areas outside the main airport hubs. Will the Minister make a statement on the development of relations with the other airports, and the opportunities for developing the interests of Cardiff and Wales by co-operating to a greater extent with the other airports in the south west?

Weinidog, rwy'n croesawu rhai o'r cyhoeddiadau diweddar o ran buddsoddiadau a chefnogaeth i'r hyn sydd, mewn sawl ffordd, yn elfen hanfodol o economi Cymru. Yn ddiweddar mynychais gyfarfod â gweithwyr y maes awyr ac mae'n ymddangos bod yna lefel uchel o ddiddordeb cyffredin rhyngddynt a meysydd awyr fel Bryste, Newquay a Chaerwysg. Mae gennym ddiddordeb cyffredin mewn datblygu gwasanaethau hedfan i ardaloedd y tu allan i'r prif ganolfannau awyr. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch datblygu cysylltiadau â meysydd awyr eraill a'r cyfleoedd i ddatblygu buddiannau Caerdydd a Chymru drwy gydweithio'n fwy helaeth â'r meysydd awyr eraill yn y de-orllewin?

15:02 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think that that is a very important point when you look at the discussions that are going on about Heathrow and capacity issues towards London. I will be discussing—. I think that I have a meeting scheduled with Lord Roe-Beddoe later this week, and I would be happy to raise those points, because I think that it is important to have dialogue with airports outside London.

Credaf fod hwnnw'n bwynt pwysig iawn pan fyddwch yn edrych ar y trafodaethau sydd ar y gweill ynghylch Heathrow a materion capasiti tuag at Lundain. Byddaf yn trafod—. Credaf fod gennyf gyfarfod wedi'i drefnu gyda'r Arglwydd Roe-Beddoe yn ddiweddarach yr wythnos hon, a byddwn yn fwy na pharod i godi'r pwyntiau hynny, oherwydd credaf ei bod yn bwysig cael deialog gyda meysydd awyr y tu allan i Lundain.

15:03 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, may I commend you for the way the Government has put forward the route development money that appears in the current budget? I appreciate that the budget still has to pass through the Chamber, but if that becomes reality, it will be a very welcome tool in the armoury of Cardiff Airport. Can you confirm today that that is entirely all new money, and will be used to develop new routes, or is the Angelsey air link tied up in that route development? The written answer you gave me on 3 October did not seem to spell out whether this was an entirely new funding stream, not tied up in existing support packages.

Weinidog, a gaf i eich cymeradwyo am y modd y mae'r Llywodraeth wedi rhyddhau'r arian datblygu llwybr sy'n ymddangos yn y gyllideb gyfredol? Rwy'n sylweddoli bod y gyllideb yn dal i orfod pasio drwy'r Siambr, ond os caiff hynny ei wireddu, bydd yn adnodd i'w groesawu'n fawr i Faes Awyr Caerdydd. A allwch gadarnhau heddiw y bydd hwnnw'n arian newydd i gyd ac y caiff ei ddefnyddio i ddatblygu llwybrau newydd, neu a yw'r cyswllt awyr ag Ynys Môn ynghlwm wrth y datblygiad llwybr hwnnw? Nid oedd yr ateb ysgrifenedig a roesoch i mi ar 3 Hydref i'w weld yn dweud yn eglur a oedd hon yn ffrwd ariannu newydd sbon, ac nad yw'n rhan o becynnau cymorth sydd eisoes yn bodoli.

15:03 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think that we have always indicated that we would have route development money that would be for new routes, but I will certainly check my paperwork for what that is going to be utilised for, which will be helpful to the Member. Thank you very much for your support for the money; I hope that we have your support for the budget now, as well.

Credaf ein bod bob amser wedi dweud y byddai gennym arian datblygu llwybr a fyddai ar gyfer llwybrau newydd, ond byddaf yn sicr yn edrych ar fy ngwaith papur i weld ar gyfer beth y caiff ei ddefnyddio, a fydd o gymorth i'r Aelod. Diolch yn fawr iawn am eich cefnogaeth i'r arian; rwy'n gobeithio y cawn eich cefnogaeth i'r gyllideb hefyd yn awr.

15:04 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Do not push it. [Laughter.]

Peidiwch â'i gwthio hi. [Chwerthin.]

## Prosiect Cysylltiad Canolbarth Cymru

## Mid Wales Connection Project

15:04 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*14. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y broses ymgynghori sy'n gysylltiedig â Phrosiect Cysylltiad Canolbarth Cymru? OAQ(4)0476(EST)*

*14. Will the Minister make a statement on the consultation process associated with the Mid Wales Connection Project? OAQ(4)0476(EST)*

15:04 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes. The latest consultation published this week by National Grid, I think, provides further clarity on the routes and the infrastructure and transport requirements.

Gwnaf. Rwy'n meddwl bod yr ymgynghoriad diweddaraf a gyhoeddwyd yr wythnos hon gan y Grid Cenedlaethol yn rhoi eglurhad pellach ar y llwybrau a'r seilwaith a gofynion trafnidiaeth.

15:04 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister, for your answer. You will, of course, be aware of the great opposition to the connection project in Montgomeryshire, and the deep unhappiness with National Grid's consultation process. There is a feeling that the Welsh Government is working with National Grid in support of the connection project, regardless of the consultation. So, could you outline what the Welsh Government's relationship is with National Grid in this regard, and would you be prepared to be open and transparent and publish all correspondence with National Grid with regard to this project?

Diolch i chi am eich ateb, Weinidog. Wrth gwrs, byddwch yn ymwybodol o'r gwrthwynebiad mawr i'r prosiect cysylltiadau yn Sir Drefaldwyn, a'r anhapusrwydd dwfn ynghylch proses ymgynghori'r Grid Cenedlaethol. Mae yna deimlad fod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Grid Cenedlaethol i gefnogi'r prosiect cysylltiadau, beth bynnag am yr ymgynghoriad. Felly, a allech ddisgrifio perthynas Llywodraeth Cymru gyda'r Grid Cenedlaethol yn hyn o beth ac a fyddech yn barod i fod yn agored ac yn dryloyw a chyhoeddi'r holl ohebiaeth â'r Grid Cenedlaethol mewn perthynas â'r prosiect hwn?

15:05 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think that we have to recognise that this is a very difficult issue, because there is an issue about grid capacity within that particular area. You know that the Welsh Government is a consultee on nationally significant energy infrastructure projects, and we continue to stress the importance to National Grid of ensuring that a robust assessment of possible impacts is undertaken prior to any decision. I will check my records, because I do take the opportunity of meeting National Grid occasionally, and I am more than happy to report on any discussions we may or may not be having with National Grid. However, I think that it is important to remember that these are matters for the UK Government.

Credaf fod yn rhaid i ni gydnabod bod hwn yn fater anodd iawn, oherwydd bod problem ynghylch capasiti'r grid yn yr ardal benodol honno. Gwyddoch fod Llywodraeth Cymru yn un o'r ymgyngoreion ar brosiectau seilwaith cenedlaethol eu harwyddocâd, ac rydym yn parhau i bwysleisio y dylai'r Grid Cenedlaethol sicrhau bod asesiad cadarn o effeithiau posibl yn cael ei gynnal cyn gwneud unrhyw benderfyniad. Byddaf yn edrych ar fy nghofnodion, gan fy mod yn manteisio ar y cyfle i gyfarfod â'r Grid Cenedlaethol o bryd i'w gilydd, ac rwy'n fwy na pharod i adrodd am unrhyw drafodaethau a gawn, neu nad ydym yn eu cael efallai, gyda'r Grid Cenedlaethol. Fodd bynnag, credaf ei bod yn bwysig cofio mai materion ar gyfer Llywodraeth y DU yw'r rhain.

15:05 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Question 15, OAQ(4)0490(EST), has been transferred for written answer by the Minister for Communities and Tackling Poverty. Thank you, Minister.

Mae cwestiwn 15, OAQ (4) 0490 (EST), wedi'i drosglwyddo i'w ateb yn ysgrifenedig gan y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi. Diolch i chi, Weinidog.

15:05

## Cynnig i Gymeradwyo Cyllideb Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2015-16

## Motion to Approve the Assembly Commission's Budget 2015-16

Senedd.tv Fideo Video

**Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

I call the Presiding Officer to move the motion on behalf of the Commission.

Galwaf ar y Llywydd i gynnig y cynnig ar ran y Comisiwn.

Cynnig NDM5621 Rosemary Butler

Motion NDM5621 Rosemary Butler

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 20.16:

To propose that the National Assembly for Wales in accordance with Standing Order 20.16:

Yn cytuno ar gyllideb Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2015-16, fel y pennir yn Nhabl 1 'Cynigion Cyllideb Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2015-16', a osodwyd gerbron y Cynulliad ar 12 Tachwedd 2014 a'i bod yn cael ei hymgorffori yn y Cynnig Cyllidebol Blynyddol o dan Reol Sefydlog 20.26(ii).

Agrees the budget of the Assembly Commission for 2015-16, as specified in Table 1 of the 'National Assembly for Wales Assembly Commission Budget 2015-16', laid before the Assembly on 12 November 2014 and that it be incorporated in the Annual Budget Motion under Standing Order 20.26(ii).

15:05 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much, Deputy Presiding Officer. I welcome this opportunity to move the Commission's budget for next year and to ask for it to be incorporated in the annual budget motion. From the outset, and with the full support of the Assembly, the Commission set a clear strategy for the fourth Assembly. Our budgets for the three years have included a targeted investment programme to enhance the capacity and quality of services to the Assembly, and this budget builds on that investment.

Diolch yn fawr iawn, Ddirprwy Lywydd. Croesawaf y cyfle hwn i gynnig cyllideb y Comisiwn ar gyfer y flwyddyn nesaf ac i ofyn am iddi gael ei hymgorffori yn y cynnig cyllidebol blynyddol. O'r cychwyn cyntaf, a chyda chefnogaeth lawn y Cynulliad, gosododd y Comisiwn strategaeth glir ar gyfer y pedwerydd Cynulliad. Mae ein cyllidebau ar gyfer y tair blynedd wedi cynnwys rhaglen fuddsoddi wedi'i thargedu i wella gallu ac ansawdd gwasanaethau i'r Cynulliad, ac mae'r gyllideb hon yn adeiladu ar y buddsoddiad hwnnw.

In this budget for 2015-16, the Commission is seeking £50.9 million. Compared with last year, this represents a real-terms cut of 1%. It is fully in line with the indicative figure that we published last year. This budget will be sufficient to enable the Commission to deliver the standard of parliamentary support that every Assembly Member needs and to ensure that the preparatory work for the transition to the fifth Assembly is progressed with pace. It is vital that you, as elected Members, have the right support and tools to do your job effectively, and it is the Commission's job to provide those for you.

Yn y gyllideb hon ar gyfer 2015-16, mae'r Comisiwn yn gofyn am £50.9 miliwn. O gymharu â'r llynedd, mae'n cynrychioli toriad o 1% mewn termau real. Mae'n cyd-fynd yn llwyr â'r ffigur dangosol a gyhoeddwyd gennym y llynedd. Bydd y gyllideb hon yn ddigonol i alluogi'r Comisiwn i ddarparu cefnogaeth seneddol o'r safon sydd ei hangen ar bob Aelod o'r Cynulliad ac i sicrhau bod y gwaith paratoi ar gyfer trosglwyddo i'r pumed Cynulliad yn symud ymlaen yn gyflym. Mae'n hanfodol eich bod chi, fel Aelodau etholedig, yn cael y gefnogaeth a'r adnoddau cywir i wneud eich swydd yn effeithiol a gwaith y Comisiwn yw darparu'r rheiny ar eich cyfer.

As a result of our continuous improvement approach and our value-for-money programme, we can be confident that, despite the 1% reduction in funding, the budget will be sufficient for us to deliver our goals and priorities. The Commission introduced corporate performance indicators so that we could ensure that the results we expect are being achieved and that a high standard of service is delivered while, at the same time, costs are being contained. The budget before you reflects this work. A success of particular note is the ICT future services project. This project successfully delivered the transition from an outsourced to an in-house ICT service. It delivered improvements to the ICT service levels as well as significant savings.

O ganlyniad i'n dull o weithredu drwy wella'n barhaus a'n rhaglen werth am arian, gallwn fod yn hyderus, er gwaethaf y gostyngiad o 1% yn y cyllid, y bydd y gyllideb yn ddigonol i ni allu cyflawni ein nodau a'n blaenoriaethau. Cyflwynodd y Comisiwn ddangosyddion perfformiad corfforaethol fel y gallem sicrhau bod y canlyniadau a ddisgwyliwn yn cael eu cyflawni a bod gwasanaeth o safon uchel yn cael ei ddarparu gan gadw costau i lawr ar yr un pryd. Mae'r gyllideb o'ch blaen yn adlewyrchu'r gwaith hwn. Un llwyddiant arbennig yw prosiect gwasanaethau TGCh i'r dyfodol. Llwyddodd y prosiect i gyflawni'r trawsnewid o wasanaeth ar gontract allanol i wasanaeth TGCh mewnol. Sicrhaodd welliannau i'r lefelau gwasanaeth TGCh yn ogystal ag arbedion sylweddol.

I would like to thank the Finance Committee and its Chair, Jocelyn Davies, for their scrutiny and report on our budget. We have formally responded to the committee as well as including additional information in the final budget before you today. The Finance Committee made five recommendations in its report on our budget. We were able to act on three of the recommendations straight away—for the estimate of pre-election costs, corporate performance measures and the travel subsidy for visits to the Assembly. The remaining two recommendations relate to ongoing matters: the potential purchase of the freehold of Tŷ Hywel and planning for the fifth Assembly. The Commission welcomes the Finance Committee's support in relation to the purchase of the freehold of Tŷ Hywel and we will certainly seek to do this when the opportunity next arises.

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor Cyllid a'i Gadeirydd, Jocelyn Davies am eu gwaith yn craffu ac yn adrodd ar ein cyllideb. Rydym wedi ymateb yn ffurfiol i'r pwyllgor yn ogystal â chynnwys gwybodaeth ychwanegol yn y gyllideb derfynol ger eich bron heddiw. Gwnaeth y Pwyllgor Cyllid bum argymhelliad yn ei adroddiad ar ein cyllideb. Gallasom weithredu ar dri o'r argymhellion ar unwaith—ar yr amcangyfrif o gostau cyn etholiad, mesurau perfformiad corfforaethol a'r cymhorthdal teithio ar gyfer ymweliadau â'r Cynulliad. Roedd y ddau argymhelliad sy'n weddill yn ymwneud â materion parhaus: pryniant posibl rhydd-ddaliad Tŷ Hywel a chynlluniau ar gyfer y pumed Cynulliad. Mae'r Comisiwn yn croesawu cefnogaeth y Pwyllgor Cyllid mewn perthynas â phrynu rhydd-ddaliad Tŷ Hywel a byddwn yn sicr yn ceisio gwneud hyn pan fydd y cyfle'n codi nesaf.

Work has begun on planning for the fifth Assembly and the challenges the Assembly will face in the future. We will provide updates to the Finance Committee as our plan develops. The Commission is committed to operating in an open and transparent manner. It is entirely appropriate that our plans and performance are subject to rigorous scrutiny. We are always happy to help provide the Finance Committee, and other committees, with information about our work.

Mae gwaith wedi dechrau ar gynlluniau ar gyfer y pumed Cynulliad a'r heriau y bydd y Cynulliad yn eu hwynebu yn y dyfodol. Byddwn yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Cyllid wrth i'n cynllun ddatblygu. Mae'r Comisiwn wedi ymrwymo i weithredu mewn modd agored a thryloyw. Mae'n gwbl briodol fod ein cynlluniau a'n perfformiad yn destun craffu trylwyr. Rydym bob amser yn hapus i helpu i ddarparu gwybodaeth am ein gwaith i'r Pwyllgor Cyllid, a phwyllgorau eraill.

So, in summary, the Commission's proposed budget remains at 0.3% of the Welsh block of £15 billion. The operational budget of £50.9 million is a real-terms cut of 1% and maintains the course we set out in our original spending plans for the fourth Assembly. It builds on the three-year investment programme and delivers the level of service that Members and the Assembly require. At the same time, it is a prudent and balanced budget that we believe delivers value for money. I ask Members to support this motion.

Felly, yn gryno, mae cyllideb arfaethedig y Comisiwn yn parhau'n 0.3% o floc Cymru o £15 biliwn. Mae'r gyllideb weithredol o £50.9 miliwn yn doriad o 1% mewn termau real ac mae'n cynnal y cyfeiriad a nodwyd gennym yn ein cynlluniau gwariant gwreiddiol ar gyfer y pedwerydd Cynulliad. Mae'n adeiladu ar y rhaglen fuddsoddi dair blynedd ac yn darparu gwasanaeth ar y lefel y mae'r Aelodau a'r Cynulliad ei hangen. Ar yr un pryd, mae'n gyllideb ddarbodus a chytbwys sy'n cynnig gwerth am arian yn ein barn ni. Gofynnaf i'r Aelodau gefnogi'r cynnig hwn.

15:09 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I call Jocelyn Davies to speak on behalf of the Finance Committee.

Galwaf ar Jocelyn Davies i siarad ar ran y Pwyllgor Cyllid.

15:09 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I would like to thank the Assembly officials for attending the Finance Committee to discuss the Commission's budget for 2015-16. I would particularly like to thank the Presiding Officer for appearing before the committee at very short notice to deliver the budget. Her competence and candid answering of our questions was greatly appreciated by the entire committee and we thank her for stepping in, as Angela Burns was not able to present on this occasion. The committee has always been very impressed with Angela's approach to the Commission budget and we are very pleased to find that it continues, despite her recent absence.

Hoffwn ddiolch i swyddogion y Cynulliad am ddod i'r Pwyllgor Cyllid i drafod cyllideb y Comisiwn ar gyfer 2015-16. Hoffwn yn arbennig ddiolch i'r Llywydd am ymddangos gerbron y pwyllgor ar fyr rybudd i gyflwyno'r gyllideb. Roedd ei chymhwysedd a'i hatebion gonest i'n cwestiynau yn cael ei werthfawrogi'n fawr gan y pwyllgor cyfan a diolch iddi am gamu i mewn, gan nad oedd Angela Burns yn gallu bod yn bresennol ar yr achlysur hwn. Mae agwedd Angela tuag at gyllideb y Comisiwn bob amser wedi creu argraff fawr ar y pwyllgor ac rydym yn falch iawn o'i weld yn parhau, er gwaethaf ei habsenoldeb yn ddiweddar.

This is the first budget produced by the Commission following its three-year investment plan, and is therefore the first budget to keep pace with changes to the Welsh block. As a committee, we were pleased to see a reasonable and sensible budget that aimed to deliver with less money.

Dyma'r gyllideb gyntaf a gynhyrchwyd gan y Comisiwn yn dilyn ei gynllun buddsoddi tair blynedd, ac felly dyma'r gyllideb gyntaf i gydredeg â'r newidiadau i floc Cymru. Fel pwyllgor, roeddem yn falch o weld cyllideb resymol a synhwyrol a anelai i ddarparu gwasanaeth gyda llai o arian.

The committee has made five recommendations that are aimed at ensuring that the Commission is as transparent and open as possible, and achieves maximum value for the Welsh public purse. Our first recommendation calls for additional information on pre-election costs, for which the Commission has initially allocated £500,000 in this budget. A breakdown of these costs will help to explain how the sum was arrived at and the necessary costs that are incurred as part of the election. We also recommended that the Commission provides the committee with an update on its plans for the fifth Assembly. This will be an incredibly significant period of development for Wales as we gain new financial powers, and we are keen to ensure that the Assembly is ready to deal with these powers effectively.

Mae'r pwyllgor wedi gwneud pum argymhelliad gyda'r nod o sicrhau bod y Comisiwn mor dryloyw ac agored ag y bo modd, ac yn sicrhau'r gwerth gorau am arian cyhoeddus yng Nghymru. Mae ein hargymhelliad cyntaf yn galw am ragor o wybodaeth am gostau cyn etholiad, ac i gychwyn mae'r Comisiwn wedi dyrannu £500,000 ar gyfer hyn yn y gyllideb. Bydd dadansoddiad o'r costau yn helpu i egluro sut y penderfynwyd ar y swm a'r costau angenrheidiol sy'n codi yn rhan o'r etholiad. Argymellasom hefyd fod y Comisiwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor am ei gynlluniau ar gyfer y pumed Cynulliad. Bydd hwn yn gyfnod hynod o arwyddocaol o ddatblygiad i Gymru wrth i ni gael pwerau ariannol newydd ac rydym yn awyddus i sicrhau bod y Cynulliad yn barod i ddelio â'r pwerau hyn yn effeithiol.

The committee has been pleased with the approach of the Commission to producing and developing performance indicators, although, we would like to see these published in future alongside the draft budget to enhance the scrutiny of the information. In previous budgets, the committee raised concerns about ensuring that the Commission's engagement, particularly with schools, reaches across the whole of the country. We saw an improved picture in this respect, with a good geographical spread of schools either visiting the Assembly or being visited by us. We hope that the Commission is able to explore options to maximise the value of the travel subsidy, and facilitate as many schools as possible to visit the Assembly building.

Mae'r pwyllgor wedi bod yn fodlon â dull y Comisiwn o gynhyrchu a datblygu dangosyddion perfformiad, er y byddem yn hoffi gweld y rhain yn cael eu cyhoeddi yn y dyfodol ochr yn ochr â'r gyllideb ddrafft i wella'r broses o graffu ar y wybodaeth. Mewn cyllidebau blaenorol, mynegodd y pwyllgor bryderon ynglŷn â sicrhau bod ymgysylltiad y Comisiwn, yn enwedig gydag ysgolion, yn cyrraedd pob rhan o'r wlad. Gwelsom ddarlun gwell yn hyn o beth, gyda lledaeniad daearyddol da o ysgolion naill ai'n ymweld â'r Cynulliad neu'n cael ymweliad gennym. Gobeithiwn y bydd y Comisiwn yn gallu archwilio opsiynau i sicrhau'r gwerth mwyaf o'r cymhorthdal teithio, ac yn hwyluso ymweliadau cynifer o ysgolion â phosibl ag adeilad y Cynulliad.

Finally, the committee noted that the Commission has looked into purchasing Tŷ Hywel, but has been unable to secure the required funds. We believe that this is a classic example of investing to save, which is a key part of Government policy, and it would be in the best interest of the Welsh taxpayer, because savings would be realised in a very reasonable time. Therefore, we fully support the Commission in its attempts to purchase the freehold and would like to see the Government provide the necessary support to facilitate this at the next opportunity. I have no hesitation in commending the Commission's budget to this Assembly.

Yn olaf, nododd y pwyllgor fod y Comisiwn wedi edrych ar y posibilrwydd o brynu Tŷ Hywel, ond ei fod wedi methu â sicrhau'r arian sydd ei angen. Credwn fod hon yn enghraifft glasurol o fuddsoddi i arbed, sy'n rhan allweddol o bolisi'r Llywodraeth, a fyddai er budd gorau trethdalwyr Cymru, am y byddai arbedion yn cael eu gwireddu mewn amser rhesymol iawn. Felly, rydym yn llwyr gefnogi'r Comisiwn yn ei ymdrechion i brynu'r rhydd-ddaliad a hoffwn weld y Llywodraeth yn darparu'r gefnogaeth angenrheidiol i hwyluso hyn ar y cyfle cyntaf. Nid wyf yn petruso rhag cymeradwyo cyllideb y Comisiwn i'r Cynulliad hwn.

15:12

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call the Presiding Officer to reply.

Galwaf ar y Llywydd i ymateb.

15:12

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I would like to thank the committee again for its careful consideration of the Commission's budget, its support of our continued plans and your gentle treatment of me when I appeared before the committee.

Hoffwn ddiolch i'r pwyllgor unwaith eto am ystyried cyllideb y Comisiwn yn ofalus, am gefnogi ein cynlluniau parhaus ac am eich triniaeth dyner pan ymddangosais gerbron y pwyllgor.

I would like to assure you that the Commission takes its role in scrutinising and overseeing the management of the budget very seriously. Where improvements are needed, we work with our officials to deliver those. We ensure that sound financial arrangements exist to deliver value-for-money savings where possible, realise efficiencies, contain costs and invest where needed. For 2015-16, the Commission will maintain this approach.

Hoffwn eich sicrhau bod y Comisiwn o ddifrif ynglŷn â'i swyddogaeth yn goruchwylio a chraffu ar y modd y caiff y gyllideb ei rheoli. Lle mae angen gwelliannau, rydym yn gweithio gyda'n swyddogion i'w cyflawni. Rydym yn sicrhau bod trefniadau ariannol cadarn ar gael i sicrhau arbedion gwerth am arian lle bo modd, gwireddu arbedion, cyfyngu ar gostau a buddsoddi lle bo angen. Ar gyfer 2015-16, bydd y Comisiwn yn parhau â'r dull hwn.

Those of us who are formally responsible and accountable under the Government of Wales Act 2006 for the Commission's work are committed to acting in the best interests of the Assembly. We are here to support the Assembly and Assembly Members and recognise the challenges that Members face. The Commission believes that the legislative, financial and scrutiny responsibilities of elected Members are unique and paramount. We have invested time and effort in developing our vision for the support we provide to Members. Through the budget that you are voting on today, we will help make the Assembly a strong, accessible and forward-looking institution that delivers effectively for the people of Wales. I commend this budget to Members.

Mae'r rhai ohonom sy'n ffurfiol gyfrifol ac atebol o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 am waith y Comisiwn wedi ymrwymo i weithredu er budd gorau'r Cynulliad. Rydym yma i gefnogi'r Cynulliad ac Aelodau'r Cynulliad a chydnabod yr heriau y mae'r Aelodau yn eu hwynebu. Mae'r Comisiwn yn credu bod cyfrifoldebau deddfwriaethol, ariannol a chraffu'r Aelodau etholedig yn benodol ac yn hollbwysig. Rydym wedi buddsoddi amser ac ymdrech i ddatblygu ein gweledigaeth ar gyfer y gefnogaeth a ddarparwn i'r Aelodau. Drwy'r gyllideb rydych yn pleidleisio arni heddiw, byddwn yn helpu i sicrhau bod y Cynulliad yn sefydliad cryf, hygyrch a blaengar sy'n darparu'n effeithiol ar gyfer pobl Cymru. Rwy'n cymeradwyo'r gyllideb hon i'r Aelodau.

15:14

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? There is no objection. The motion is agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad. Mae'r cynnig wedi'i dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

# Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Pobl Hŷn

*Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliant 1 yn enw Aled Roberts a gwelliant 2 yn enw Elin Jones.*

# Welsh Conservatives Debate: Older People

*The following amendments have been selected: amendment 1 in the name of Aled Roberts, and amendment 2 in the name of Elin Jones.*

15:14 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Galwaf ar Janet Finch-Saunders i wneud y cynnig.

Cynnig NDM5624 Paul Davies

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod y cyfraniad hanfodol y mae pobl hŷn yn ei wneud i les cymdeithasol ac economaidd Cymru a phwysigrwydd sicrhau bod hawliau pobl hŷn yn cael eu hadlewyrchu mewn polisïau a deddfwriaeth Llywodraeth Cymru.

2. Yn nodi cyhoeddi'r ddogfen 'Lle i'w Alw'n Gartref', adolygiad gan y Comisiynydd Pobl Hŷn o ofal pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal yng Nghymru.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda'r Comisiynydd Pobl Hŷn i fwrw ymlaen â'r argymhellion yn yr adolygiad.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i asesu a nodi gofynion hyfforddiant sylfaenol ar gyfer gweithwyr cartref gofal sy'n ymgorffori egwyddorion urddas a pharch.

I call on Janet Finch-Saunders to move the motion.

Motion NDM5624 Paul Davies

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Recognises the vital contribution older people make to Wales's social and economic well-being and the importance of ensuring the rights of older people are reflected in Welsh Government policies and legislation.

2. Notes the publication of 'A Place to Call Home', a review by the Older People's Commissioner into the care of older people living in care homes in Wales;

3. Calls on the Welsh Government to work with the Older People's Commissioner to take forward the recommendations contained within the review.

4. Further calls on the Welsh Government to assess and specify minimum training requirements for care home employees which incorporate the principles of dignity and respect.

15:14 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I move the motion.

On 26 October, the clocks went back, days became shorter and nights became longer. Even we are not too keen when that happens, but so many of the older generation in our society, day or night, day in, day out, week in, week out, face extreme loneliness, isolation, discrimination, poverty, vulnerability and exploitation. This is out of sync with the normalities of life that we take for granted, and this is through no fault of their own. By 2035, predictions are that one third of people living in Wales will be in this age category. We should be proud of our older generation, ever mindful of their important role in our society. These are the people who have brought us up, taught us, treated us and even fought for us and our country. It is imperative that the rights of our older people are reflected and enshrined as regards all Welsh Government policy, legislation and delivery. Growing old gracefully does not and must not mean that the contribution of our older people is over, and nor must we ever allow them to become the forgotten generation.

Many of the country's voluntary services would not be running today if it were not for the dedication of many of the over-65s, with many of them having committed previous years of service and many still active. Our cherished grandparents alone save Welsh parents £259 million a year as well as providing comfort, support and guardianship. We must never allow any terminology or suggestion that these are a burden on our society. Too often, though, our elderly are referred to as bedblockers, and this is through no fault of their own.

Cynigiaf y cynnig.

Ar 26 Hydref, aeth y clociau'n ôl, aeth y dyddiau'n fyrrach a'r nosweithiau'n hirach. Nid ydym yn rhy frwd ein hunain phan ddigwydd hynny, ond mae cynifer o'r genhedlaeth hŷn yn ein cymdeithas, ddydd a nos, ddydd ar ôl dydd, wythnos ar ôl wythnos, yn wynebu unigrwydd, arwahanrwydd, gwahaniaethu a thlodi eithafol ac yn agored i niwed a cham-fanteisio . Mae hyn yn gwrthdaro â'r bywyd normal rydym yn ei gymryd yn ganiataol, ac mae'n digwydd heb fod unrhyw fai arnynt hwy. Erbyn 2035, rhagwelir y bydd un rhan o dair o'r bobl sy'n byw yng Nghymru yn y categori oedran hwn. Dylem fod yn falch o'n cenhedlaeth hŷn, gan gofio bob amser am eu rôl bwysig yn ein cymdeithas. Dyma'r bobl a'n magodd ni, a'n dysgodd ni, a roddodd driniaeth i ni ac a ymladdodd drosom ni a'n gwlad hyd yn oed. Mae'n hanfodol fod hawliau ein pobl hŷn yn cael eu hadlewyrchu a'u hymgorffori ym mhob polisi, deddfwriaeth a darpariaeth gan Lywodraeth Cymru. Ni ddylai mynd yn hen gydag urddas olygu bod cyfraniad ein pobl hŷn ar ben, ac ni ddylem byth adael iddynt fynd yn genhedlaeth angof.

Ni fyddai llawer o wasanaethau gwirfoddol y wlad yn weithredol heddiw oni bai am ymroddiad llawer o bobl dros 65 oed, gyda llawer ohonynt wedi cyflawni blynyddoedd o wasanaeth yn flaenorol a llawer yn dal yn weithredol. Mae ein neiniau a'n teidiau annwyl eu hunain yn arbed £259 miliwn y flwyddyn i rieni Cymru yn ogystal â darparu cysur, cymorth a gwarcheidiaeth. Ni ddylem byth ganiatáu unrhyw derminoleg neu awgrym fod y rhain yn faich ar ein cymdeithas. Yn rhy aml, fodd bynnag, cyfeirir at ein pobl hŷn fel blocwyr gwelyau, a hynny heb fod unrhyw fai arnynt hwy.

Earlier this year, Age Cymru reported that 75,000 over-65s in Wales describe themselves as 'always' or 'often' lonely. Two in five say that their tv or pet is their main source of company. One in seven feels completely cut off from our society. Modern technologies and forms of new technical communication have exacerbated this problem. People of all ages are now expected to be fully computer literate, yet what does this Welsh Government do? It withdraws the funding and support for training and support in IT. The recent funding withdrawals by the Welsh Labour Government facing our rural communities that have been seen by our Welsh communities as regards public transport have led to many older people in these communities becoming even more isolated. Even services that are available across a constituency are forbidden fruit to those living outside the urban strip.

Yn gynharach eleni, dywedodd Age Cymru fod 75,000 o bobl dros 65 oed yng Nghymru yn dweud eu bod yn unig 'drwy'r amser' neu 'yn aml'. Mae dau o bob pump yn dweud mai eu teledu neu eu hanifail anwes yw eu prif gwmni. Mae un o bob saith yn teimlo'u bod wedi'u hynysu'n llwyr oddi wrth ein cymdeithas. Mae technolegau modern a ffurfiau newydd technegol o gyfathrebu wedi gwaethygu'r broblem hon. Erbyn hyn mae disgwyl i bobl o bob oed fod yn hyddysg mewn cyfrifiadura, eto beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud? Mae'r cyllid sydd wedi'i dynnu'n ôl yn ddiweddar gan Lywodraeth Lafur Cymru ar drafnidiaeth gyhoeddus yn ein cymunedau gwledig yng Nghymru wedi golygu bod llawer o bobl hŷn yn y cymunedau hyn yn cael eu hynysu fwy byth. Mae hyd yn oed gwasanaethau sydd ar gael mewn rhannau eraill o'r etholaeth wedi'i wahardd i rai sy'n byw y tu allan i'r ardaloedd trefol.

More must be done to ensure that our society and our Government value older people while appreciating their talents and experience. Age discrimination has no place in our Welsh society. Age Concern reports one of the driving factors behind this as the perceived start of old age. In Greece, people are not perceived as old until the age of 68. Those who have visited that beautiful country will have noticed that they very much cherish, respect, support and protect each generation and its individuality, yet, in the UK, age discrimination is far more prevalent and the average perception of old age is just 59. I am not looking around this Chamber.

Mae'n rhaid gwneud mwy i sicrhau bod ein cymdeithas a'n Llywodraeth yn gweld gwerth pobl hŷn ac yn gwerthfawrogi eu doniau a'u profiad. Nid oes lle i wahaniaethu ar sail oedran yn ein cymdeithas yng Nghymru. Mae Age Concern yn dweud mai yn un o'r ffactorau sy'n ysgogi hyn yw'r canfyddiad o'r oed y mae henaint yn dechrau. Yng Ngwlad Groeg, nid yw pobl yn cael eu hystyried yn hen hyd nes eu bod yn 68 oed. Bydd y rhai sydd wedi ymweld â'r wlad brydferth honno wedi sylwi eu bod yn hoffi, yn parchu, yn cefnogi ac yn gwarchod pob cenhedlaeth a'i hunigolrwydd yn fawr, ond yn y DU, mae gwahaniaethu ar sail oed yn llawer mwy cyffredin a'r oedran y mae pobl yn ystyried y bydd henaint yn dechrau yw 59, ar gyfartaledd. Nid wyf yn edrych ar neb yn y Siambr hon.

Cold callers and the senders of junk mail are allowed to entice the recipient to buy what appears to be a bargain, yet can often turn out to be exactly the opposite. There are cowboy builders preying needlessly on those who live alone and welcome someone knocking on their door. In 2010, Cardiff estate agent Sean White was jailed for what was described as the systematic swindling of a dying old lady. He laundered £115,000 from Anne Cornock, a 76-year-old widow from the Vale of Glamorgan. Mrs Cornock's son David said that Sean White and his friends had destroyed the last year of his mother's life and that she was too ashamed and intimidated to tell anyone, which had a huge impact on her health. The family has never recovered from that. Age Cymru has been very proactive in its approach to these issues, but the Welsh Government must stand up to stamp out these horrendous practices.

Mae galwyr diwahoddiad a rhai sy'n anfon post sothach yn cael caniatâd i ddenu'r sawl sy'n eu derbyn i'r hyn sy'n ymddangos yn fargen, ond yn aml gall fod yn groes i hynny'n llwyr. Mae adeiladwyr cowboi yn pigo'n ddiangen ar bobl sy'n byw ar eu pen eu hunain ac sy'n croesawu rhywun yn cnocio ar eu drws. Yn 2010, carcharwyd Sean White, gwerthwr tai o Gaerdydd, am yr hyn a ddisgrifiwyd fel ymgais systematig i dwyllo hen wraig yn marw. Gwyngalchodd £115,000 gan Anne Cornock, gwraig weddw 76-oed o Fro Morgannwg. Dywedodd mab Mrs Cornock, David, fod Sean White a'i ffrindiau wedi dinistrio'r flwyddyn olaf o fywyd ei fam a bod arni ormod o gywilydd ac ofn dweud wrth unrhyw un, a chafodd hynny effaith fawr ar ei hiechyd. Nid yw'r teulu erioed wedi gwella o hynny. Mae Age Cymru wedi bod yn rhagweithiol iawn yn ei agwedd tuag at y materion hyn, ond rhaid i Lywodraeth Cymru wneud safiad i gael gwared ar yr arferion erchyll hyn.

The reality is that 84,000 older people in Wales are now living in poverty and 50,000 of them in severe poverty. This has a dramatic impact on what they are able to do or not do. Some 36% of retired households have reported cutting back on the amount and quality of food that they consume. There is a clear lack of awareness of their basic entitlements—£168 million of unclaimed pension credit. As a Welsh Government, what are you doing about this? Too many older people—[Interruption.] I know that it is not devolved, but you have a responsibility to ensure that the people of Wales receive their entitlements. It is called good governmentship.

Y realiti yw bod 84,000 o bobl hŷn yng Nghymru bellach yn byw mewn tlodi a 50,000 ohonynt mewn tlodi difrifol. Mae hyn yn cael effaith ddramatig ar yr hyn y gallant, neu na allant ei wneud. Mae tua 36% o aelwydydd pobl wedi ymddeol wedi cwtogi ar faint o fwyd y maent yn ei fwyta, ac ar ansawdd eu bwyd. Mae yna ddiffyg ymwybyddiaeth amlwg o'u hawliau sylfaenol —£168 miliwn o gredyd pensiwn heb ei hawlio. Fel Llywodraeth Cymru, beth rydych chi'n ei wneud ynglŷn â hyn? Mae gormod o bobl hŷn—[Torri ar draws.] Rwy'n gwybod nad yw wedi'i ddatganoli, ond mae gennych gyfrifoldeb i sicrhau bod pobl Cymru yn cael eu hawliau. Llywodraethu da yw'r enw amdano.

Look at the difficulties faced by those requiring disabled facilities grants and improvements. In the time that I have been here I am aware of three inquiry reports, yet no improvement. Last year, the average wait was 326 days. It does not seem like you are in any urgency to sort those problems out. It is absolutely shameful and unacceptable. Disabled people must be given and allowed access to their own property, and they must be assured that they feel safe and that they are free from danger. How much is it to ask for this in the twenty-first century? Forty per cent of those aged 65 and over in Wales say that their health is either fair or poor, and one in six over-80s have dementia.

Edrychwch ar yr anawsterau a wynebir gan y rhai sydd angen grantiau cyfleusterau i'r anabl a gwelliannau. Yn yr amser y bûm yma, rwy'n ymwybodol o dri adroddiad ymchwiliad, ac eto nid oes unrhyw welliant. Y llynedd, roedd yr amser aros ar gyfartaledd yn 326 diwrnod. Nid yw'n ymddangos eich bod ar unrhyw frys i ddatrys y problemau hyn. Mae'n gwbl gywilyddus ac yn annerbyniol. Rhaid i bobl anabl allu mynd i mewn i'w heiddo eu hunain ac mae'n rhaid iddynt gael sicrwydd o allu teimlo'n ddiogel a'u bod yn rhydd o berygl. Faint yw hynny i'w ofyn yn yr unfed ganrif ar hugain? Mae pedwar deg y cant o bobl 65 oed a hŷn yng Nghymru yn dweud bod eu hiechyd naill ai'n weddol neu'n wael, ac mae un o bob chwech o bobl dros 80 oed yn dioddef o ddementia.

Illness, infirmity and the increasing prevalence of dementia mean that the Welsh Government has to start taking stock of its own priorities. Many of these people would be able to stay in their own homes with the right level of assistance and support, and the relevant qualified care workers. These people are able to enter into the homes of the elderly and the most vulnerable, and they do an exceptional job. However, the fact remains that there is a lack of regulation in this area and a lack of adequate training. I would ask the Minister for Health and Social Services to actually get to grips with this.

Mae salwch, gwendid a chynnydd yn yr achosion o ddementia yn golygu bod Llywodraeth Cymru wedi dechrau cymryd sylw o'i blaenoriaethau ei hun. Byddai llawer o'r bobl hyn yn gallu aros yn eu cartrefi eu hunain gyda'r lefel gywir o gymorth a chefnogaeth, a'r gweithwyr gofal perthnasol cymwys. Mae'r bobl hyn yn gallu mynd i mewn i gartrefi'r henoed a'r rhai mwyaf agored i niwed, ac maent yn gwneud gwaith eithriadol. Fodd bynnag, erys y ffaith bod diffyg rheoleiddio yn y maes hwn a diffyg hyfforddiant digonol. Hoffwn ofyn i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol fynd i'r afael â hyn yn iawn.

Sheltered accommodation is one way forward that we would all really like to see as a supportive means, yet there is not a one-size-fits-all case. Many still need the comfort and protection of residing in a care home. However, entitled 'A Place to Call Home?', the report by the older people's commissioner, Sarah Rochira, has confirmed many of the worries about care homes felt by this side of the Chamber. It exposed the failure of so many care homes in Wales to provide for more than the most basic of older people's needs and the homes' total disregard for their own personal identity and individuality. That is shocking. Questionnaire responses include statements such as, 'Since I've been here all my teeth have fallen out. I'm so ashamed and afraid to speak or smile'. There are descriptions of help at mealtimes as 'being left to fend for oneself'. Too often, people are left in hospital without basic nutrition and hydration and basic support at mealtimes. Between 2003 and 2012, 1,158 residents of care homes in Wales and England suffered dehydration-related deaths. More must be done by the Welsh Government to ensure that reports are not written up in this way that Sarah Rochira has had to do, and spoken of in Plenary, and that recommendations are not followed in the new policy and outcomes.

Mae llety gwarchod yn un ffordd ymlaen y byddem i gyd yn hoffi ei weld fel modd o gefnogi, eto nid oes un ateb sy'n addas i bawb. Mae llawer yn dal i fod angen cysur a diogelwch byw mewn cartref gofal. Fodd bynnag, mae'r adroddiad 'Lle i'w Alw'n Gartref?' gan Sarah Rochira, y comisiynydd pobl hŷn, wedi cadarnhau llawer o'r pryderon am gartrefi gofal a deimlir gan yr ochr hon i'r Siambr. Tynnodd sylw at fethiant cymaint o gartrefi gofal yng Nghymru i ddarparu ar gyfer mwy nag anghenion mwyaf sylfaenol pobl hŷn a diffyg ystyriaeth lwyr cartrefi o hunaniaeth ac unigolrwydd personol. Mae hynny'n syfrdanol. Mae ymatebion i holiaduron yn cynnwys datganiadau fel, 'Ers i mi fod yma mae fy holl ddannedd wedi disgyn allan. Mae gen i gymaint o gywilydd ac mae arnaf ofn siarad neu wenu'. Ceir disgrifiadau o help adeg amser bwyd fel 'cael fy ngadael i ofalu amdanaf fy hun'. Yn rhy aml, caiff pobl eu gadael yn yr ysbyty heb faeth a hylif sylfaenol, a heb gymorth sylfaenol yn ystod amser bwyd. Rhwng 2003 a 2012, dioddefodd 1,158 o breswylwyr cartrefi gofal yng Nghymru a Lloegr farwolaethau'n gysylltiedig â diffyg hylif. Rhaid i Lywodraeth Cymru wneud mwy i sicrhau nad yw adroddiadau yn cael eu hysgrifennu yn y ffordd y bu'n rhaid i Sarah Rochira ei wneud, a'u trafod yn y Cyfarfod Llawn, ac argymhellion nad ydynt yn cael eu dilyn yn y polisïau a'r canlyniadau newydd.

Look at the 2012 health committee's inquiry into residential care for older people. Little appears to have improved since then or there would not have been so many recommendations in the older people's commissioner's report. I would like to ask this: will the Minister advise how the Welsh Government will incorporate the recommendations put forward by the older people's commissioner, so that we know, as Assembly Members, that these reports are not a waste of someone's time and a waste of money, and actually not able to bring about change?

Edrychwch ar ymchwiliad y pwyllgor iechyd yn 2012 i ofal preswyl ar gyfer pobl hŷn. Ychydig sydd i'w weld wedi gwella ers hynny, neu ni fyddai cymaint o argymhellion wedi'u cynnwys yn adroddiad y comisiynydd pobl hŷn. Hoffwn ofyn hyn: a wnaiff y Gweinidog roi gwybod sut y bydd Llywodraeth Cymru yn ymgorffori argymhellion y comisiynydd pobl hŷn, er mwyn i ni, fel Aelodau Cynulliad, wybod nad yw'r adroddiadau hyn yn wastraff amser ac arian, ac na allant sicrhau newid mewn gwirionedd?

I would like to see all care home employees undertake basic dementia training, as recommended by Sarah Rochira; that there is an increase in staff numbers with the right skills to meet the physical and emotional needs of residents; and that the residents' healthcare needs are fully met. Goodness me; that is the least that we can ask. Sarah Rochira concluded the review by saying that, in the years to come, the failure to act will expose public bodies and independent providers to litigation and reputational damage, and will increase pressures upon the NHS and social services. However, I feel that the failure to act will be a sad indictment of this Welsh Labour Government.

Hoffwn weld pob gweithiwr mewn cartref gofal yn cael hyfforddiant dementia sylfaenol, fel yr argymhellwyd gan Sarah Rochira, cynnydd yn nifer y staff â'r sgiliau cywir i ddiwallu anghenion corfforol ac emosiynol preswylwyr ac anghenion gofal iechyd y preswylwyr yn cael eu diwallu'n llawn. Mawredd, dyna'r lleiaf y gallem ei ofyn. Gorffennodd Sarah Rochira yr adolygiad drwy ddweud y bydd methiant i weithredu yn y blynyddoedd i ddod yn gwneud cyrff cyhoeddus a darparwyr annibynnol yn agored i gamau cyfreithiol a niwed i enw da, ac yn cynyddu'r pwysau ar y GIG a gwasanaethau cymdeithasol. Fodd bynnag, teimlaf fod y methiant i weithredu yn feirniadaeth drist o'r Llywodraeth Lafur hon.

It is hoped that by specifying minimum training requirements for care home employees, residents will feel more respected and more valued. Enshrined in the United Nations principles for older people, adopted in 1991, older persons should have independence, remain integrated in community life, be self-fulfilled and have dignity. As Members, we will know, all too often, where this is not happening. The Welsh Government most uphold these principles and do more to combat the extreme loneliness, isolation, discrimination, poverty, vulnerability, exploitation and inadequate care of our older people in Wales.

Drwy bennu gofynion hyfforddiant sylfaenol ar gyfer gweithwyr cartrefi gofal, y gobaith yw y bydd preswylwyr yn teimlo eu bod yn cael mwy o barch a gwerthfawrogiad. Fel sydd wedi'i gynnwys yn egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer pobl hŷn, a fabwysiadwyd yn 1991, dylai pobl hŷn gael annibyniaeth, parhau i fod wedi'u hintegreiddio ym mywyd y gymuned, ac ymdeimlad o hunangyflawniad ac urddas. Fel Aelodau, cawn wybod yn rhy aml nad yw hyn yn digwydd. Rhaid i Lywodraeth Cymru gynnal yr egwyddorion hyn a gwneud mwy i fynd i'r afael ag unigrwydd, arwahanrwydd, tlodi eithafol a gwahaniaethu yn erbyn pobl hŷn Cymru sy'n agored i niwed, camdriniaeth a gofal annigonol.

As the older people's commissioner pointed out, there are still things that older people want to do and things that matter to them. These activities should not be hampered by a person's age, their frailty or where they live. The older people of Wales need our help. Their needs must be recognised and it is the Welsh Government that must act now to address them.

Fel y nododd y comisiynydd pobl hŷn, mae yna bethau y mae pobl hŷn yn dal i fod eisiau eu gwneud a phethau sy'n dal yn bwysig iddynt. Ni ddylai oedran pobl, na pha mor fregus ydynt na lle maent yn byw eu rhwystro rhag cyflawni'r gweithgareddau hyn. Mae pobl hŷn Cymru angen ein help. Rhaid cydnabod eu hanghenion a rhaid i Lywodraeth Cymru weithredu yn awr i'w diwallu.

15:25 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rwyf wedi dethol y ddau welliant i'r cynnig. Galwaf ar Kirsty Williams i gynnig gwelliant 1 a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts.

I have selected the two amendments to the motion. I call on Kirsty Williams to move amendment 1 tabled in the name of Aled Roberts.

*Gwelliant 1—Aled Roberts*

*Amendment 1—Aled Roberts*

*Cynnwys pwynt 3 newydd ac ail-rifo yn unol â hynny:*

*Insert as new point 3 and renumber accordingly:*

*Yn nodi bod cyfran gynyddol o bobl yng Nghymru dros 65 oed ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod cynllunio ar gyfer iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn rhoi ystyriaeth i hyn.*

*Notes that a growing proportion of people in Wales are aged over 65 and calls on the Welsh Government to ensure that planning for health and social services takes this into account.*

15:25 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 1.

Cynigiaf welliant 1.

The amendment is self-explanatory. We know that the proportion of people over the age of 65 is set to grow in Wales, and will grow very dramatically in certain parts of the country. In my own constituency, Brecon and Radnorshire, the proportion of people living over the age of 80 is set to grow very much higher. We need to be planning now, as Welsh Government, local authorities and health boards, to ensure that we have the services and the professional workforce to respond to that growing demand. In doing so, we sometimes, I know, make these points almost in a negative tone. It is a public policy challenge, yes, but we should be glad that more and more people can look forward to a long and happy retirement after their working life has come to an end. However, for many, the prospect of old age is not necessarily a happy one and their anxieties can be wide-ranging. 'How will I be cared for and where will I be cared for if I cannot remain in my own home or living with my family?' often tops their lists of concerns.

Mae'r gwelliant yn egluro'i hun. Gwyddom fod cyfran y bobl dros 65 oed yn mynd i dyfu yng Nghymru, a bydd yn tyfu'n ddramatig iawn mewn rhai rhannau o'r wlad. Yn fy etholaeth fy hun, Brycheiniog a Sir Faesyfed, mae cyfran y bobl sy'n byw dros 80 oed yn debygol o godi'n llawer uwch. Mae angen i ni wneud cynlluniau yn awr, fel Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a byrddau iechyd, er mwyn sicrhau bod gennym y gwasanaethau a'r gweithlu proffesiynol i ymateb i'r galw cynyddol. Wrth wneud hynny, gwn ein bod weithiau yn gwneud y pwyntiau hyn bron mewn goslef negyddol. Mae'n her i bolisi cyhoeddus, ydy, ond dylem fod yn falch y gall mwy a mwy o bobl edrych ymlaen at ymddeoliad hir a hapus ar ôl i'w bywyd gwaith ddod i ben. Fodd bynnag, i lawer, nid yw'r rhagolwg o henaint yn un hapus o reidrwydd a gall eu pryderon amrywio'n fawr. Mae 'Sut y byddaf yn cael gofal a lle byddaf yn cael gofal os na allaf aros yn fy nghartref fy hun neu fyw gyda fy nheulu?' yn aml ar frig eu rhestr o bryderon.

Now, let us be clear, there are some examples within this report of very good care for elderly people who find themselves in the residential sector. Often, residential care can be the answer to an older person's problems with regard to loneliness and with regard to having less stress, in terms of living in an environment where you are no longer responsible for the maintenance and the utility bills. It can be a freeing sensation when you are no longer responsible for all of that, especially if you have not been able to keep on top of those things while living in your own home. However, while it can be a very positive thing—and there are positive examples of well-run care homes—too much of this report focuses on where we are going wrong, and, for me, the fundamental problem is that so many people who find themselves moving into residential care lose their voices and any control that they had over their lives.

Yn awr, gadewch i ni fod yn glir, ceir rhai enghreifftiau yn yr adroddiad hwn o ofal da iawn i bobl oedrannus yn y sector preswyl. Yn aml, gofal preswyl fydd yr ateb i broblemau pobl hŷn o ran unigrwydd a straen, ac o ran byw mewn amgylchedd lle nad ydych bellach yn gyfrifol am y gwaith cynnal a chadw a'r biliau cyfleustodau. Gall fod yn rhyddhad peidio â gorfod bod yn gyfrifol am hynny i gyd, yn enwedig os nad ydych wedi gallu ymdopi â'r pethau hyn wrth fyw yn eich cartref eich hun. Fodd bynnag, er y gall fod yn beth cadarnhaol iawn—ac mae enghreifftiau cadarnhaol o gartrefi gofal sy'n cael eu rheoli'n dda— mae gormod o'r adroddiad yn canolbwyntio ar ein camgymeriadau, ac i mi, y broblem sylfaenol yw bod cymaint o bobl sy'n symud i ofal preswyl yn colli eu llais a'u rheolaeth dros eu bywydau.

Only yesterday, I raised in the Chamber the example of a constituent whose family came to my office this week. By agreement, he and his family, along with his social worker and GP, had come to the conclusion that he needed to move into residential care. He agreed and hoped to move into the residential care home in Glynneath. That would have allowed him to pay his daily visit to the library, where he loves to read the newspapers, use the computers to keep in touch with people, and borrow his books. It would have allowed him to continue to visit his church twice a week. When he was little bit younger, he often visited people at the home, so he knows some of the residents and he knows the staff who work there. He was looking forward to moving in. On the very day his placement was supposed to start, he and his family were informed by Powys County Council that because the home was over the border, he could not go there. Instead, he was taken to a different residential home within the county. Now, that home is a fine home. I know that many of my constituents are very happy there and receive good care. But not this constituent, because it took him away from all the social networks that he had. It stopped him enjoying the lifestyle that he had. However, his choice and his options were completely removed by bureaucracy and by an authority that was simply looking to what its needs were rather than his needs. This, I think, sums up the challenges we are facing.

Ddoe ddiwethaf, cyfeiriais yn y Siambr at un enghraifft o deulu etholwr a ddaeth i fy swyddfa yr wythnos hon. Drwy gytundeb, roedd ef a'i deulu, ynghyd â'i weithiwr cymdeithasol a'i feddyg teulu, wedi dod i'r casgliad fod angen iddo symud i ofal preswyl. Cytunodd ac roedd yn gobeithio symud i'r cartref gofal preswyl yng Nglyn-nedd. Byddai hynny wedi caniatáu iddo barhau â'i ymweliad dyddiol â'r llyfrgell, lle mae wrth ei fodd yn darllen y papurau newydd, yn defnyddio'r cyfrifiaduron i gadw mewn cysylltiad â phobl, ac yn benthyg llyfrau. Byddai wedi caniatáu iddo barhau i fynychu ei eglwys ddwywaith yr wythnos. Pan oedd ychydig yn iau, byddai'n aml yn ymweld â phobl yn y cartref, felly mae'n adnabod rhai o'r preswylwyr a staff sy'n gweithio yno. Roedd yn edrych ymlaen at symud i mewn. Ar yr union ddiwrnod yr oedd i fod i symud, hysbyswyd ef a'i deulu gan Gyngor Sir Powys na allai fynd i'r cartref am ei fod dros y ffin. Yn lle hynny, cafodd ei symud i gartref preswyl gwahanol o fewn y sir. Yn awr, mae'r cartref hwnnw'n gartref da. Gwn fod llawer o fy etholwyr yn hapus iawn yno ac yn cael gofal da. Ond nid yr etholwr hwn, gan ei fod yn ei amddifadu o'r holl rwydweithiau cymdeithasol a oedd ganddo. Roedd yn ei atal rhag mwynhau'r ffordd o fyw a oedd ganddo. Fodd bynnag, cafodd ei ddewis a'i opsiynau eu dwyn oddi wrtho'n gyfan gwbl gan fiwrocratiaeth a chan awdurdod a edrychai'n syml ar beth oedd ei anghenion ef fel awdurdod yn hytrach nag anghenion fy etholwr. Rwy'n credu bod hyn yn crisialu'r heriau sy'n ein hwynebu.

I am particularly interested in the 21 recommendations that the older persons' commissioner makes for Welsh Government, the first of which is to establish a national plan for care, and also recommendation 6.1, which calls on the Welsh Government to establish a single outcomes framework of quality of life and care.

Mae gennyf ddiddordeb arbennig yn y 21 o argymhellion y mae'r comisiynydd pobl hŷn yn eu gwneud ar gyfer Llywodraeth Cymru, a'r cyntaf o'r rhain yw sefydlu cynllun cenedlaethol ar gyfer gofal, a hefyd argymhelliad 6.1, sy'n galw ar Lywodraeth Cymru i sefydlu un fframwaith canlyniadau ar gyfer ansawdd bywyd a gofal.

Now, I appreciate that this report comes at a time when the Government is looking to reform the way in which we measure quality and provide assurance that our residential care homes are up to standard. I hope that, when that regulation Bill comes forward, it will look to move away from what is regarded in this report as a tick-box exercise, which does not necessarily give us a strong sense of what is going on in a home and what life really feels like for a resident, and that we can move to the single outcomes framework.

Yn awr, rwy'n gwerthfawrogi bod yr adroddiad hwn yn dod ar adeg pan fo'r Llywodraeth yn ystyried diwygio'r ffordd rydym yn mesur ansawdd ac yn rhoi sicrwydd bod ein cartrefi gofal preswyl yn cyrraedd y safon. Pan gyflwynir y Bil rheoleiddio hwnnw, gobeithio y bydd yn ceisio symud i ffwrdd o'r hyn y mae'r adroddiad hwn yn ei weld fel ymarfer ticio blychau, nad yw o reidrwydd yn rhoi ymdeimlad cryf i ni o'r hyn sy'n digwydd mewn cartref a sut beth yw bywyd i breswylydd, a symud tuag at un fframwaith canlyniadau .

However, the key to this is ensuring that we have a stable, well-trained, and, indeed, well-paid workforce within this sector. I know that those issues are not within the control of the Government, but, unless we crack that, I think that we are going to struggle to provide the care that I—and, I am sure, the Welsh Government—would want to provide.

Fodd bynnag, yr allwedd i hyn yw sicrhau bod gennym weithlu sefydlog, wedi'i hyfforddi'n dda, ac yn wir, sy'n cael ei dalu'n dda yn y sector hwn. Rwy'n gwybod nad yw'r materion hynny o fewn rheolaeth y Llywodraeth, ond oni bai ein bod yn goresgyn hynny, credaf ein bod yn mynd i'w chael hi'n anodd darparu'r gofal y byddwn ia Llywodraeth Cymru, rwy'n siŵr-am ei darparu .

15:31

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Galwaf ar Lindsay Whittle i gynnig gwelliant 2, a gyflwynwyd yn enw Elin Jones.

I call on Lindsay Whittle to move amendment 2, tabled in the name of Elin Jones.

*Gwelliant 2—Elin Jones*

*Amendment 2—Elin Jones*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael ag amodau a chyflog isel a gwella cyfleoedd hyfforddiant a gyrfa i weithwyr mewn cartrefi gofal.*

*Calls on the Welsh Government to tackle low pay and conditions, and improve training and career opportunities for care home employees.*

15:31

## Lindsay Whittle Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 2 in the name of my colleague, Elin Jones.

Cynigiaf welliant 2 yn enw fy nghyd-Aelod, Elin Jones.

Plaid Cymru will be supporting the motion today, and I have to say that the first part of the motion is very welcome indeed. Older people do, indeed, make a fantastic contribution to Wales, including the substantial economic contribution that Janet Finch-Saunders—I am sure that you have been looking at my notes, Janet—mentioned in free childcare provided to grandchildren. You did not mention, I do not think, Janet—but forgive me if you did—the £496 million in volunteering, among many other contributions. All too often, there is an implied assumption that an ageing population is a problem, because of its alleged burden on services. So, it is good to see that the Conservatives have acknowledged that we should be challenging this negative assumption at every opportunity, and Janet Finch-Saunders again mentioned that—as proof that she has been looking at my notes.

Bydd Plaid Cymru yn cefnogi'r cynnig heddiw ac mae'n rhaid i mi ddweud bod rhan gyntaf y cynnig i'w groesawu'n fawr yn wir. Mae pobl hŷn yn bendant yn gwneud cyfraniad gwych i Gymru, gan gynnwys y cyfraniad economaidd sylweddol y soniodd Janet Finch-Saunders amdano—rwy'n siŵr eich bod wedi bod yn edrych ar fy nodiadau, Janet—ym maes gofal plant am ddim a ddarperir i wyrion. Nid wyf yn credu eich bod wedi sôn, Janet—maddeuwch i mi os gwnaethoch—am y £496 miliwn mewn gwaith gwirfoddol, ymhlith llawer o gyfraniadau eraill. Yn rhy aml, ceir rhagdybiaeth fod poblogaeth sy'n heneiddio yn broblem oherwydd y baich honedig ar wasanaethau. Felly mae'n dda gweld bod y Ceidwadwyr wedi cydnabod y dylem achub ar bob cyfle i herio'r rhagdybiaeth negyddol hon, ac unwaith eto crybwyllodd Janet Finch-Saunders hynny—fel prawf ei bod wedi bod yn edrych ar fy nodiadau.

So, for me, providing good public services that help to keep people healthy and living independently for as long as possible, and then providing good care when that is no longer possible, is a moral obligation for Government, and is one of the basics of the social contract. Sadly, the older people's commissioner's report—a good report—is yet another piece of evidence that demonstrates that Government is not fulfilling its side of the contract.

Felly, i mi, mae darparu gwasanaethau cyhoeddus da sy'n helpu i gadw pobl yn iach ac i fyw'n annibynnol am gyn hired ag y bo modd, ac yna darparu gofal da pan nad yw hynny bellach yn bosibl, yn rhwymedigaeth foesol ar y Llywodraeth, ac mae'n un o hanfodion sylfaenol y contract cymdeithasol. Yn anffodus, mae adroddiad y comisiynydd pobl hŷn—adroddiad da—yn dystiolaeth arall sy'n dangos nad yw'r Llywodraeth yn cyflawni ei hochr hi o'r contract.

The report catalogues a series of practices in some care homes that cumulatively amount to a culture of abuse—let us call it what it is. I doubt that any member of this institution could honestly read the report and say, with confidence, that they would want themselves, or a family member, to be living in such an environment. Well, if it is not good enough for us, it should not be good enough for those who are less wealthy, articulate, or privileged. If we are truly honest, this failure stretches back decades now, and stems from both the main parties in Westminster, which have not prioritised or planned for how to provide decent care for those who need it and for funding it properly. Indeed, the report highlights that:

Mae'r adroddiad yn rhestru cyfres o arferion mewn rhai cartrefi gofal sydd gyda'i gilydd yn creu diwylliant o gamdriniaeth—gadewch i ni ei alw yr hyn ydyw. Go brin y gallai unrhyw aelod o'r sefydliad hwn ddarllen yr adroddiad a dweud yn onest, gyda hyder, y byddent eisiau byw mewn amgylchedd o'r fath eu hunain neu weld aelod o'u teulu'n byw mewn amgylchedd o'r fath. Wel, os nad yw'n ddigon da i ni, ni ddylai fod yn ddigon da i rai llai cefnog, huawdl neu freintiedig. Os ydym yn wirioneddol onest, mae'r methiant hwn yn mynd yn ôl ddegawdau bellach, ac yn deillio o'r ddwy brif blaid yn San Steffan, nad ydynt wedi blaenoriaethu na chynllunio ar gyfer darparu gofal gweddus i'r rhai sydd ei angen ac ar gyfer ei ariannu'n iawn. Yn wir, mae'r adroddiad yn tynnu sylw at y pwyntiau canlynol:

'Care work currently has a particularly low social status, reflected by low pay, long working hours, poor working conditions and a lack of opportunities for professional development and career progression.'

'Ar hyn o bryd statws cymdeithasol arbennig o isel sydd i waith gofal, sy'n cael ei adlewyrchu gan gyflog isel, oriau gwaith hir, amodau gwaith gwael a phrinder cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol a dilyniant mewn gyrfa.'

However, the report does note that many of the best care homes are those with high morale among care staff and a low staff turnover. We agree, hence why we have amended the motion to call on Welsh Government to tackle low pay and conditions, which is something, with respect, that is missing from the Conservative motion, but, ultimately, is a crucial part of improving the situation. This also includes tackling the continuing disgrace of zero-hours contracts.

Fodd bynnag, mae'r adroddiad yn nodi mai'r cartrefi gofal gorau yw'r rhai sydd â morâl uchel ymysg staff gofal a throsiant staff isel. Rydym yn cytuno, a dyna pam rydym wedi gwella'r cynnig i alw ar Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â chyflogau isel ac amodau gwael, sy'n rhywbeth, gyda pharch, sydd ar goll o gynnig y Ceidwadwyr, ond yn y pen draw, mae'n rhan hanfodol o'r gwaith o wella'r sefyllfa. Mae hyn hefyd yn cynnwys mynd i'r afael â gwarth parhaus contractau dim oriau.

It is clear that the Welsh Government does need to take far more responsibility for driving up standards in the sector, and it should improve on the frequencies of inspections, the methods used during those inspections, and support independent advocacy to ensure that we identify problems and correct them sooner. This must include taking direct control over care homes that are not providing decent standards of care. It must also involve police investigations, and prosecutions, where standards fall to this disgraceful level of abuse.

Mae'n amlwg bod angen i Lywodraeth Cymru ysgwyddo llawer mwy o'r cyfrifoldeb dros wella safonau yn y sector, a dylai sicrhau arolygiadau mwy mynych, gwella'r dulliau a ddefnyddir yn yr arolygiadau hynny a chefnogi eiriolaeth annibynnol i sicrhau ein bod yn nodi problemau ac yn eu cywiro yn gynt. Rhaid i hyn gynnwys cymryd rheolaeth uniongyrchol dros gartrefi gofal nad ydynt yn darparu safon foddhaol o ofal. Rhaid iddo hefyd gynnwys ymchwiliadau'r heddlu, ac erlyniadau, lle mae safonau'n disgyn i'r lefel warthus hon o gamdriniaeth.

Let us hope that, this time, the older people's commissioner has produced a report that leads to action—she has done her job; the report, of course, is a good report—not like her predecessor's report on dignified care in hospitals, where many of the recommendations were left on the shelf, only to be repeated in the Andrews report into Abertawe Bro Morgannwg University Local Health Board, which would never have been necessary had the Government driven through the required changes in the first place. Let us hope that, in a few years' time, Sarah Rochira will not be able to give us such a report, and that the report will be a positive report that we can all take pride in, and that we do not have a repeat of this debate. However, well done, Sarah Rochira.

Gadewch i ni obeithio, y tro hwn, fod y comisiynydd pobl hŷn wedi cynhyrchu adroddiad sy'n arwain at weithredu—mae hi wedi gwneud ei gwaith; mae'r adroddiad, wrth gwrs, yn adroddiad da—nid fel adroddiad ei rhagflaenydd ar ofal gydag urddas mewn ysbytai, lle cafodd llawer o'r argymhellion eu gadael ar y silff, i gael eu hailadrodd yn adroddiad Andrews ar Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, na fyddai byth ei angen pe bai'r Llywodraeth wedi cyflawni'r newidiadau angenrheidiol yn y lle cyntaf. Ymhen ychydig flynyddoedd, gadewch i ni obeithio na fydd Sarah Rochira yn gallu cyflwyno adroddiad o'r fath i ni ac y bydd yr adroddiad yn un cadarnhaol y gallwn i gyd ymfalchïo ynddo, ac na fydd y ddadl hon yn cael ei hailadrodd. Beth bynnag, da iawn, Sarah Rochira.

15:35 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

The Commissioner for Older People in Wales's report 'A Place to Call Home' concluded that many older people living in care homes in Wales have an unacceptable quality of life. Care Forum Wales has said that:

Daw adroddiad Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, 'Lle i'w Alw'n Gartref' i'r casgliad fod ansawdd bywyd llawer o bobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal yng Nghymru yn annerbyniol. Mae Fforwm Gofal Cymru wedi dweud:

'Radical reform of the planning and delivery of services is long overdue and we need to create a culture where the independent sector works in true partnership with public sector bodies.'

'Mae'n hen bryd sicrhau bod gwaith cynllunio a darparu gwasanaethau yn cael ei ddiwygio'n radical ac mae angen i ni greu diwylliant lle mae'r sector annibynnol yn gweithio mewn partneriaeth go iawn gyda chyrff y sector cyhoeddus.'

It added:

Ychwanegodd:

'If we have that shift, we can achieve a great deal, but, if we don't, I'm afraid that we are going to fall short and this will be deeply disappointing for those requiring services.'

'Os cawn newid o'r fath, gallwn gyflawni llawer iawn, ond os na chawn, rwy'n ofni ein bod yn mynd i fethu â chyrraedd y safonau a bydd hyn yn siomedig iawn o safbwynt y rhai sydd angen gwasanaethau.'

One of the cases investigated by the older people's commissioner was that of a constituent whose father died in great pain in a nursing home. She showed me disturbing photographic evidence of neglect: 'They told me that the home had received good inspection reports prior to their complaint and that seven further cases were now being investigated.' Her father, the Reverend Raymond Lewis Edwards, had vascular dementia, cancers, spinal stenosis and was deaf and blind. His daughter told me that her father was left without pain control and would cry out in pain. Her father, an old dying man in pain, was served with an eviction notice because his family was seen as a nuisance, and an apology came from the managing director only after he was contacted by a reporter, although everything had previously been raised with him or the manager. The daughter asked how Care and Social Services Inspectorate Wales did not see all of these things during its inspections, which were not patient focused. When I wrote to the former Deputy Minister for Social Services about this case, she replied that it would be inappropriate for her to comment, as an independent adult protection practice review was underway.

Un o'r achosion a archwiliwyd gan y comisiynydd pobl hŷn oedd etholwr y bu ei dad farw mewn poen enfawr mewn cartref nyrsio. Dangosodd dystiolaeth ffotograffig erchyll i mi o esgeulustod: 'Dywedwyd wrthyf fod y cartref wedi cael adroddiadau arolwg da cyn iddynt wneud eu cwyn a bod saith achos pellach yn cael eu harchwilio erbyn hyn.' Roedd ei thad, y Parchedig Raymond Lewis Edwards, yn dioddef o ddementia fasgwlaidd, canserau, stenosis yr asgwrn cefn ac yn fyddar a dall. Dywedodd ei ferch wrthyf i'w thad gael ei adael heb feddyginiaeth rheoli poen ac y byddai'n gweiddi mewn poen. Cyflwynwyd rhybudd troi allan i'w thad, hen ddyn yn marw mewn poen, am fod ei deulu'n cael eu hystyried yn niwsans ac ni ddaeth ymddiheuriad gan y rheolwr gyfarwyddwr tan ar ôl i ohebydd gysylltu ag ef, er bod popeth wedi cael ei ddwyn i'w sylw ef neu'r rheolwr cyn hynny. Gofynnodd y ferch pam nad oedd Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru wedi gweld pob un o'r pethau hyn yn ystod ei harolygiadau, nad oeddent yn canolbwyntio ar y claf. Pan ysgrifennais at y cyn Ddirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol am yr achos hwn, atebodd y byddai'n amhriodol iddi wneud sylwadau, gan fod adolygiad annibynnol o ymarfer amddiffyn oedolion ar y gweill.

Reverend Edwards's daughter subsequently told me: 'We'd not been told anything about the findings in the feedback meeting. We specifically asked CSSIW, protection of vulnerable adults and health what their findings were and how the home had been run. No-one told us about the areas of non-compliance or their serious findings.' She also told me that, when they had raised concerns with POVA and CSSIW, it took over two months for CSSIW to inspect. As she said, that was two months of residents possibly suffering further pain and neglect. She added that CSSIW is supposed to publish its reports online for the public to view, but the 2012-13 reports were not put up until she rang and wrote to the inspectors. The February 2014 report was not put online until this month, and only after it had been contacted by ITV Wales. As she said, 'What did they have to hide?'

Dywedodd merch y Parchedig Edwards wrthyf wedyn: 'Ni chawsom wybod dim am y canfyddiadau yn y cyfarfod adborth. Gofynasom yn benodol i AGGCC, Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed (POVA) a'r gwasanaeth iechyd beth oedd eu canfyddiadau a sut roedd y cartref wedi bod yn cael ei redeg. Ni ddywedodd neb wrthym am y meysydd lle ceid diffyg cydymffurfiaeth na'u canfyddiadau difrifol.' Dywedodd wrthyf hefyd ei bod wedi cymryd dros ddau fis i AGGCC archwilio wedi iddynt leisio'u pryderon wrth POVA ac AGGCC. Fel y dywedodd, roedd hynny'n gyfnod o ddau fis pan oedd preswylwyr o bosibl yn dioddef poen ac esgeulustod pellach. Ychwanegodd fod AGGCC i fod i gyhoeddi ei adroddiadau ar-lein i'r cyhoedd eu gweld, ond ni chafodd adroddiadau 2012-13 eu cyhoeddi nes iddi ffoniodd ac ysgrifennu at yr arolygwyr. Ni chafodd adroddiad Chwefror 2014 ei roi ar-lein tan y mis hwn, a dim ond ar ôl i ITV Wales gysylltu â'r Arolygiaeth. Fel y dywedodd, 'Beth oedd ganddynt i'w guddio?'

The July 2013 CSSIW report on this care home found 10 areas where the service was not compliant, including failure by the registered person to make any suitable arrangements or measures to prevent people at the service being harmed or suffering abuse or being placed at risk of harm or abuse. The follow-up report in February 2014 found two further areas where the service was non-compliant: failure by the registered persons to manage the home with sufficient skill and competence, and failure to ensure that people working in the home were fit to do so. It also reported numerous ongoing protection of vulnerable adults processes, a carer with criminal convictions appointed without a robust selection process, and three other carers without the required documentation.

Daeth adroddiad AGGCC Gorffennaf 2013 ar y cartref gofal hwn o hyd i 10 maes lle nad oedd y gwasanaeth yn cydymffurfio, yn cynnwys methiant y person cofrestredig i wneud unrhyw drefniadau neu roi mesurau addas ar waith i atal pobl yn y gwasanaeth rhag cael niwed neu ddioddef camdriniaeth neu gael eu rhoi mewn perygl o niwed neu gamdriniaeth. Daeth yr adroddiad dilynol ym mis Chwefror 2014 o hyd i ddau faes pellach lle nad oedd y gwasanaeth yn cydymffurfio: methiant gan y personau cofrestredig i reoli'r cartref gyda digon o sgiliau a chymhwysedd, a methiant i sicrhau bod pobl a weithiai yn y cartref yn gymwys i wneud hynny . Soniodd hefyd am nifer o brosesau amddiffyn oedolion agored i niwed a oedd ar y gweill, gofalwr â chollfarnau troseddol a benodwyd heb broses ddethol gadarn, a thri gofalwr arall heb y dogfennau angenrheidiol.

As my constituent's advocate told me, 'The failings often happen when the focus is only on people who hold strategic positions. This is why cultures remain the same and why family members continue to be silent in bringing forward their concerns.' She added, 'The dreadful things that were witnessed have still not been heard in the way they should have been. Actions that should have been taken immediately were not. The culture continues regardless of statements to the contrary.'

Fel y dywedodd eiriolwr fy etholwr wrthyf, 'Mae'r methiannau'n aml yn digwydd pan fydd y ffocws ar bobl mewn swyddi strategol yn unig. Dyma pam y mae diwylliannau'n aros yr un fath a pham y mae aelodau teuluoedd yn dal i fod yn amharod i gyflwyno eu pryderon.' Ychwanegodd, 'Mae'r pethau ofnadwy y tystiwyd iddynt yn dal heb eu clywed yn y ffordd y dylent fod wedi cael eu clywed. Ni roddwyd camau ar waith y dylid bod wedi'u rhoi ar waith ar unwaith. Mae'r diwylliant yn parhau beth bynnag am y datganiadau i'r gwrthwyneb.'

Adult protection strategy meeting minutes for another resident, Kathleen Owen, recorded that she had hurt her arm and that an ambulance had taken her to hospital. The subsequent minutes recorded that Mrs Owen had since passed away, and that, when admitted to hospital, she had a urine infection, a chest infection and blood sugar levels off the scale. Mrs Owen's daughter asked why, despite annual CSSIW inspections, social services and health reviews, it had taken a family member to raise the concerns before anything was done. Those are two cases from one care home. There are many, many more, as the older people's commissioner has highlighted.

Mae cofnodion cyfarfod strategaeth amddiffyn oedolion ar gyfer preswylydd arall, Kathleen Owen, yn nodi ei bod wedi brifo ei braich a bod ambiwlans wedi mynd â hi i'r ysbyty. Mae'r cofnodion dilynol yn nodi bod Mrs Owen wedi marw ers hynny, a bod ganddi haint wrin, haint ar y frest a lefelau siwgr yn y gwaed oddi ar y raddfa pan gafodd ei derbyn i'r ysbyty. Gofynnodd merch Mrs Owen pam y bu'n rhaid i aelod o'r teulu leisio'r pryderon hyn cyn i unrhyw beth gael ei wneud, er gwaethaf arolygiadau AGGCC blynyddol, ac arolygon gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd. Dyna ddau achos o un cartref gofal. Mae yna lawer, llawer mwy, fel yr amlygodd y comisiynydd pobl hŷn.

Let me leave the final words to Reverend Edwards's daughter, who keeps saying, 'Evil prevails when good people do nothing.' Well, if we are good people in this Chamber, let us do something.

Gadewch i mi adael i ferch y Parchedig Edwards gael y gair olaf, 'Mae drygioni'n digwydd pan fo pobl dda yn gwneud dim.' Wel, os ydym yn bobl dda yn y Siambr hon, gadewch i ni wneud rhywbeth.

15:40

## Jenny Rathbone Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I find the contributions from Mark Isherwood and Janet Finch-Saunders very disappointing because, while it is always going to be possible to point to instances where things have not gone well, there are also huge numbers of instances where things are going very well for people in care homes. Naturally, we should expect the same standards of all of our care homes as we do of our schools. We want good schools and we want good care homes.

Rwy'n siomedig ynghylch cyfraniadau Mark Isherwood a Janet Finch-Saunders oherwydd, er ei bod bob amser yn mynd i fod yn bosibl tynnu sylw at enghreifftiau lle nad yw pethau wedi mynd yn dda, mae yna hefyd nifer fawr o achosion lle mae pethau'n mynd yn dda iawn i bobl mewn cartrefi gofal. Yn naturiol, dylem ddisgwyl yr un safonau ym mhob un o'n cartrefi gofal fel y gwnawn yn ein hysgolion. Rydym eisiau ysgolion da ac rydym eisiau cartrefi gofal da.

However, to argue that one bad apple is an example of the current state of care homes is really unsatisfactory. In fact, care homes are a really positive option for those whose family cannot or will not adapt their homes, for the person who becomes too frail to live on their own or, indeed, to be able to safely live in sheltered accommodation. For other people, it can be a life-saver in terms of the loneliness that people can suffer when they lose their nearest and dearest, who may well have been the person who did the cooking and, therefore, they find it very difficult to live on their own.

Fodd bynnag, mae dadlau bod un afal drwg yn enghraifft o sefyllfa bresennol cartrefi gofal yn wirioneddol anfoddhaol. Yn wir, mae cartrefi gofal yn ddewis cadarnhaol iawn i rai y mae eu teuluoedd yn methu neu'n gwrthod addasu eu cartrefi ar eu cyfer, neu i bobl sy'n mynd yn rhy fregus i allu byw ar eu pennau eu hunain, neu'n wir, i allu byw'n ddiogel mewn llety gwarchod. I bobl eraill, gall achub bywydau o ran yr unigrwydd y gall pobl ei ddioddef pan fyddant yn colli eu hanwyliaid, sef y person a wnâi'r coginio o bosibl, ac felly, maent yn ei chael yn anodd iawn i fyw ar eu pen eu hunain.

So, I really welcome the older persons' commissioner's emphasis on quality of life because I think that it is really important that care homes are not waiting rooms for the dying, but are lively places where both people and organisations are firmly linked into their communities. For example, in my constituency, Ysgol y Berllan Deg regularly goes to sing at Tŷ Enfys, which is a large care home nearby. I know that other places will organise trips to Bath, Weston-super-Mare and other places in the summer, and that is absolutely important, but I want to use the time available to look specifically at the provision of GP services in nursing homes, which is one of the issues that the older persons' commissioner's report deals with.

Felly, rwy'n croesawu'n fawr y pwyslais y mae'r comisiynydd pobl hŷn yn ei roi ar ansawdd bywyd oherwydd fy mod yn credu ei bod hi'n bwysig iawn nad ystafelloedd aros ar gyfer pobl sy'n marw yw cartrefi gofal, ond llefydd bywiog lle mae pobl a sefydliadau mewn cysylltiad cadarn â'u cymunedau. Er enghraifft, yn fy etholaeth i, mae Ysgol y Berllan Deg yn mynd yn rheolaidd i ganu yn Nhŷ Enfys, sef cartref gofal mawr gerllaw. Gwn y bydd mannau eraill yn trefnu teithiau i Gaerfaddon, Weston-super-Mare a llefydd eraill yn yr haf, ac mae hynny'n bwysig iawn, ond rwyf am ddefnyddio'r amser sydd ar gael i edrych yn benodol ar ddarpariaeth gwasanaethau meddygon teulu mewn cartrefi nyrsio, sy'n un o'r materion y mae adroddiad y comisiynydd pobl hŷn yn ymdrin ag ef.

She says that too many older people are living in care homes and are lacking access to the basic screening and primary healthcare that would be available to them if they were living in their own homes. So, this is a really important issue. She points out that there are significant variations in how older people living in care homes actually access the normal services that we all expect. However, I can tell you that, in my constituency, there are very good arrangements in many of the care homes that I have got. There are places like Burges House, which used to be run by Southern Cross, which, as you will recall, folded because it could not make ends meet, and has improved hugely since it was taken over by another organisation. It has good links with three local surgeries and emphasises the need for patient choice so that people can retain their GP when they go into a care home. It has a particularly good relationship with one surgery and the doctor does a weekly round and that is fantastic. Of course, on evenings and weekends, it has to use the out-of-hours number just like everybody else. There, it depends very much on the quality of the GP practice highlighting to the out-of-hours service who is ill, what treatment they are getting, and what needs to be done if they are towards the end of their life.

Mae hi'n dweud bod gormod o bobl hŷn yn byw mewn cartrefi gofal a heb fynediad i sgrinio sylfaenol a gofal iechyd sylfaenol a fyddai ar gael iddynt pe baent yn byw yn eu cartrefi eu hunain. Felly, mae hwn yn fater pwysig iawn. Mae hi'n nodi bod amrywiadau sylweddol o ran y modd y mae pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal yn cael mynediad at y gwasanaethau arferol rydym oll yn eu disgwyl. Fodd bynnag, a gaf i ddweud wrthych fod trefniadau da iawn yn llawer o'r cartrefi gofal yn fy etholaeth i. Mae llefydd fel Burges House, a arferai gael ei redeg gan Southern Cross a ddaeth i ben, fel y cofiwch, am na allai ddal dau ben llinyn ynghyd, ac mae wedi gwella'n aruthrol ers iddo ddod o dan reolaeth sefydliad arall. Mae ganddo gysylltiadau da gyda thair meddygfa leol ac mae'n pwysleisio'r angen i roi dewis i gleifion fel y gall pobl gadw eu meddyg teulu wrth fynd i gartref gofal. Mae ganddo berthynas arbennig o dda gydag un feddygfa ac mae'r meddyg yn gwneud rownd wythnosol, sy'n wych. Wrth gwrs, gyda'r nos ac ar benwythnosau, mae'n rhaid iddo ddefnyddio'r rhif y tu allan i oriau fel pawb arall. Yn hynny o beth, mae'n dibynnu'n fawr ar ansawdd y practis meddyg teulu yn tynnu sylw'r gwasanaeth y tu allan i oriau at bwy sy'n sâl, pa driniaeth y maent yn ei chael a'r hyn sydd angen ei wneud os ydynt yn dod tuag at ddiwedd eu hoes.

Nazareth House is an exemplary example of a care home run on a not-for-profit basis. It has had a 27-year relationship with its GP and, if the residents are acutely ill, the GP will come out. It discusses in advance with the residents what their wishes are if they become critically ill and that enables them not to be sent to hospital if they are at the very end of their life and that is what they wish.

Mae Nazareth House yn enghraifft ragorol o gartref gofal sy'n cael ei redeg ar sail ddielw. Mae wedi cael perthynas 27 mlynedd gyda'i feddyg teulu ac os yw'r preswylwyr yn ddifrifol wael, bydd y meddyg teulu yn dod allan. Mae'n trafod ymlaen llaw gyda'r preswylwyr beth yw eu dymuniadau os ydynt yn mynd yn ddifrifol wael ac mae hynny'n eu galluogi i beidio â'u hanfon i'r ysbyty os ydynt wedi cyrraedd diwedd eu hoes ac mai dyna beth y maent yn ei ddymuno.

At Tŷ Enfys, a very large nursing home with 100 residents—some nursing home and some care home—there is a paid agreement with two separate surgeries and, once again, the doctor comes every week and that is very good, given the nature of the residents. They are likely to need more attention than some other parts of the population. Equally, in Sunrise care home, which covers the elderly, mentally ill and is residential, and which has just won the national dementia care award for the best dementia team, they have a very good relationship with Llanedeyrn surgery.

Yn Nhŷ Enfys, cartref nyrsio mawr iawn gyda 100 o breswylwyr—rhai'n breswylwyr cartref nyrsio a rhai'n breswylwyr cartref gofal—ceir cytundeb am dâl gyda dwy feddygfa ar wahân ac unwaith eto, daw'r meddyg bob wythnos ac mae hynny'n dda iawn, o gofio natur y preswylwyr. Maent yn debygol o fod angen mwy o sylw na rhai rhannau eraill o'r boblogaeth. Yn yr un modd, yng nghartref gofal Sunrise, cartref preswyl sy'n cynnwys yr henoed a phobl â salwch meddwl, ac sydd newydd ennill y wobr gofal dementia genedlaethol i'r tîm dementia gorau, mae ganddynt berthynas dda iawn gyda meddygfa Llanedern.

15:45

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Finish now.

Gorffennwch yn awr.

15:45

## Jenny Rathbone Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

This is absolutely crucial, in my view, to ensure that people are not dumped in hospital when they become ill.

Mae hyn yn gwbl hanfodol, yn fy marn i, er mwyn sicrhau nad yw pobl yn cael eu gadael yn yr ysbyty pan fyddant yn mynd yn sâl.

15:45

## Suzy Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I have to say, Dirprwy Lywydd, that it has come as something of a shock to me to realise that, according to the Welsh Government, I am now an older person. I am quite aware, of course, that I have been keeping my hair colourist in foreign holidays for some years now, and maybe I should have realised when the title of my son's GCSE history coursework was 'teenagers in the 1960s'. I hope that the Government curriculum review will encourage consideration of the difference between history and what I would consider to be current affairs. [Laughter.]

Rhaid i mi ddweud, Ddirprwy Lywydd, ei bod yn dipyn o sioc i mi sylweddoli fy mod, yn ôl Llywodraeth Cymru, yn awr yn berson hŷn. Rwy'n eithaf ymwybodol, wrth gwrs, fy mod wedi bod yn cadw fy lliwiwr gwallt mewn gwyliau tramor ers rhai blynyddoedd bellach, ac efallai y dylwn fod wedi sylweddoli wrth weld mai teitl gwaith cwrs Hanes TGAU fy mab yw 'pobl ifanc yn eu harddegau yn y 1960au'. Gobeithiaf y bydd adolygiad y Llywodraeth o'r cwricwlwm yn ysgogi ystyriaeth o'r gwahaniaeth rhwng hanes a'r hyn y byddwn i'n ei ystyried yn faterion cyfoes. [Chwerthin.]

The debate, quite rightly, has centred on the lives of who we tend to call, just in society, 'the elderly' in Wales, but let us remember that these are individual men and women, with individual needs that we expect to be met through a variety of interventions and support—though, of course, Lindsay and Mark Isherwood have both given us bad examples of how the standards of those interventions really are not what we should expect on some occasions.

Mae'r ddadl, yn gwbl briodol, wedi canolbwyntio ar fywydau'r bobl y tueddwn i'w galw, yn y gymdeithas, yn 'henoed' yng Nghymru, ond gadewch i ni gofio mai unigolion yw'r dynion a'r menywod hyn, gydag anghenion unigol y disgwyliwn iddynt gael eu diwallu drwy amrywiaeth o ymyriadau a chymorth—er, wrth gwrs, mae Lindsay a Mark Isherwood ill dau wedi rhoi enghreifftiau gwael i ni o sut nad yw safon yr ymyriadau hynny yr hyn y dylem ei ddisgwyl ar rai adegau.

There is no disagreement in this Chamber that fuel poverty, poor care, loneliness, bedblocking, a lack of social interaction and intellectual stimulation, and the inconsistency of access to simple instruments of dignity, such as public toilets, should not be the hallmarks of the lives of our oldest individuals here in Wales. With a growing elderly population, we recognise that strategic intervention from public, private and third sectors, and even the very valuable work of the commissioner, can only ever be complementary to the numberless acts of compassion that we see every day in our communities. Even then, we may still be found wanting. That is why I just want to say a few words about the importance of older people not becoming old before their time—and I am even tempted to say 'our' time.

Ni cheir anghytundeb yn y Siambr hon na ddylai bywydau ein hunigolion hynaf yng Nghymru gael eu nodweddu gan dlodi tanwydd, gofal gwael, unigrwydd, blocio gwelyau, diffyg rhyngweithio cymdeithasol ac ysgogiad deallusol, ac anghysondeb o ran mynediad at ffyrdd syml o gynnal urddas, fel toiledau cyhoeddus. Gyda phoblogaeth hŷn sydd ar gynnydd, rydym yn cydnabod na all ymyrraeth strategol gan y sector preifat, y trydydd sector a'r sector cyhoeddus, a hyd yn oed gwaith gwerthfawr iawn y comisiynydd, byth â bod yn fwy nag ategiad i weithredoedd dirifedi o dosturi a welwn bob dydd yn ein cymunedau. Hyd yn oed wedyn, efallai y byddwn yn dal i fethu â chyrraedd y nod. Dyna pam rwyf eisiau dweud ychydig eiriau am bwysigrwydd sicrhau nad yw pobl hŷn yn mynd yn hen cyn eu hamser—ac rwy'n cael fy nhemtio i ddweud 'ein hamser'.

The Ageing Well in Wales programme is aimed at the over-50s. That is quite a few of us, even in this Chamber. It is a new programme, but it caught my attention because it seeks to reduce inequality and discrimination, and to promote inclusion and support employers to retain expertise and knowledge. We have no hesitation in this Chamber talking about the value of work, not just to the economy and a person's pocket, but to their sense of worth and wellbeing—and not just for individuals either, but for the communities in which they live.

Mae'r rhaglen Heneiddio'n Dda yng Nghymru wedi'i hanelu at bobl dros 50 oed. Mae hynny'n cynnwys eithaf tipyn ohonom, hyd yn oed yn y Siambr hon. Mae'n rhaglen newydd, ond daliodd fy sylw am ei bod yn ceisio lleihau anghydraddoldeb a gwahaniaethu, a hyrwyddo cynhwysiant a chefnogi cyflogwyr i gadw arbenigedd a gwybodaeth. Nid ydym yn petruso rhag sôn am werth gwaith yn y Siambr, nid yn unig i'r economi a phocedi pobl, ond i'w hymdeimlad o werth a lles—ac nid i unigolion yn unig, ond i'r cymunedau y maent yn byw ynddynt.

Yet, three times as many people between the age of 50 and pension age are NEET—not in employment, education or training—as young people. Some 45% of jobless men over 50 are still out of work a year later; it is about 18% of younger men—and we know that our youth unemployment figures are nothing to write home about either. Younger women are twice as likely as women over 50 to find a job within a year. Of course, the majority of work programmes are aimed at young people and we all understand why, but when employers are offered incentives to take on young people—the Young Recruits programme, modern apprenticeships and so on—how can older people compete for those opportunities? Jobs Growth Wales itself is not age blind, so where is the equality and avoidance of discrimination that is required by the Ageing Well in Wales programme?

Eto i gyd, mae tair gwaith cymaint o bobl rhwng 50 oed ac oedran pensiwn nag sydd o bobl ifanc yn NEET—rhai nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant. Mae tua 45% o ddynion di-waith dros 50 oed yn dal i fod yn ddi-waith flwyddyn yn ddiweddarach; mae'r un peth yn wir am 18% o ddynion ifanc—a gwyddom nad yw ein ffigurau diweithdra ymhlith pobl ifanc yn ddim i frolio yn eu cylch ychwaith. Mae menywod iau ddwywaith yn fwy tebygol na merched dros 50 i ddod o hyd i swydd o fewn blwyddyn. Wrth gwrs, mae'r rhan fwyaf o raglenni gwaith yn cael eu hanelu at bobl ifanc ac mae pob un ohonom yn deall pam, ond pan fydd cyflogwyr yn cael cynnig cymhellion i gyflogi pobl ifanc—Rhaglen Recriwtiaid Newydd, prentisiaethau modern ac yn y blaen—sut y gall pobl hŷn gystadlu am gyfleoedd o'r fath? Nid yw Twf Swyddi Cymru ei hun yn ddall i oedran, felly lle mae'r cydraddoldeb a'r osgoi gwahaniaethu sy'n ofynnol yn rhaglen Heneiddio'n Dda yng Nghymru?

Ros Altmann, England's new champion for the over-50s in the workforce, claims that there is every point in taking on and even re-training older people, as they are likely to remain with an employer, rather than move on as you might expect a younger person to do. In particular, she points to the care sector itself, where older people may be very well equipped in terms of energy and life experience to look after much older people. I look forward to seeing how the Ageing Well in Wales programme will support employers to retain, as well as maybe recruit, expertise and knowledge.

Mae Ros Altmann, hyrwyddwr newydd Lloegr ar gyfer pobl dros 50 oed yn y gweithlu, yn honni bod gwerth mawr mewn cyflogi a hyd yn oed ail-hyfforddi pobl hŷn, gan eu bod yn debygol o aros gyda chyflogwr yn hytrach na symud ymlaen fel y byddech yn disgwyl i berson ifanc ei wneud. Yn benodol, mae'n cyfeirio at y sector gofal ei hun, lle gallai pobl hŷn fod wedi'u paratoi'n dda iawn o ran egni a phrofiad bywyd i ofalu am bobl llawer hŷn. Rwy'n edrych ymlaen at weld sut y bydd rhaglen Heneiddio'n Dda yng Nghymru yn cynorthwyo cyflogwyr i gadw arbenigedd a gwybodaeth pobl hŷn, yn ogystal â'u recriwtio o bosibl.

Jobs Growth Wales has given £6,000 to 249 young people to set up their own businesses. Older people do not have access to that help in the same way, yet far more over-50s are engaged in entrepreneurial activity than 18 to 29-year-olds. I accept that, for some, that is going to be a life choice. I do understand that, but, for many, it is still a matter of necessity. On that, I want to pay tribute to Prime Cymru, the Prince of Wales's initiative for mature enterprise in Wales, a charity and the only organisation in Wales dedicated to providing practical support to people aged 50 and over who want to become and remain economically active. I happily declare an interest in this as a former mentor for them, and I commend it for its work in what could be called the ultimate scrap-heap challenge, because almost 0.25 million people in Wales are aged between 50 and pension age and are out of work. Many of them are on benefits, and many articulate their fears that they are on the scrap heap—their words, not mine. They recognise early slides into mental and physical health problems, poor confidence, high alcohol use, isolation and poverty. So, lack of economic activity for the over-50s can suddenly, in some cases, make you old before your time. I hope that Welsh Government does not underestimate the personal and financial cost of that.

Mae Twf Swyddi Cymru wedi rhoi £6,000 i 249 o bobl ifanc i sefydlu eu busnesau eu hunain. Nid yw pobl hŷn yn cael mynediad at y cymorth hwnnw yn yr un ffordd, eto mae llawer mwy o bobl dros 50 oed yn cymryd rhan mewn gweithgaredd entrepreneuraidd na rhai rhwng 18 a 29 oed. Rwy'n derbyn mai dewis bywyd i rai yw hynny'n mynd i fod. Rwy'n deall hynny, ond, i lawer, mae'n dal i fod yn fater o anghenraid. O ran hynny, rwyf am dalu teyrnged i'r elusen Prime Cymru, cynllun Tywysog Cymru ar gyfer mentrau aeddfed yng Nghymru, yr unig sefydliad yng Nghymru sy'n ymroddedig i ddarparu cymorth ymarferol i bobl 50 oed a hŷn sydd am ddod, a pharhau i fod yn economaidd weithgar. Rwy'n hapus i ddatgan buddiant yn hyn fel cyn fentor ar eu rhan, ac rwy'n cymeradwyo ei waith yn yr hyn y gellid ei alw'n her domen sgrap go iawn, gan fod bron i 0.25 miliwn o bobl yng Nghymru rhwng 50 oed ac oedran pensiwn ac allan o waith. Mae llawer ohonynt yn cael budd-daliadau, ac mae llawer yn mynegi pryder eu bod ar y domen sgrap—eu geiriau hwy, nid fy rhai i. Maent yn gyfarwydd â'r llithro cynnar i mewn i drafferthion iechyd meddwl a chorfforol, diffyg hyder, gorddefnyddio alcohol, unigrwydd a thlodi. Felly, yn sydyn gall diffyg gweithgarwch economaidd i bobl dros 50 oed eich gwneud yn hen cyn eich amser. Rwy'n gobeithio nad yw Llywodraeth Cymru yn tanbrisio cost bersonol ac ariannol hynny.

15:50

## Lynne Neagle [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I really welcome this report, and I congratulate the older people's commissioner on focusing on an area that, perhaps, has not received the public and political attention that it has deserved in the past. I believe that it gives us a comprehensive blueprint—a road-map—so that we can develop and deliver the kind of residential care sector here in Wales that we all want to see for the future.

Rwy'n croesawu'r adroddiad hwn yn fawr, ac rwy'n llongyfarch y comisiynydd pobl hŷn ar ganolbwyntio ar faes nad yw efallai wedi cael y sylw cyhoeddus a gwleidyddol a haedda yn y gorffennol. Rwy'n credu ei fod yn rhoi glasbrint cynhwysfawr i ni—map ffordd—fel y gallwn ddatblygu a darparu'r math o sector gofal preswyl yma yng Nghymru yr hoffai pawb ohonom ei weld yn y dyfodol.

Like the previous reports we have seen from the commissioner, it is a real strength that its recommendations are broken down into specific action points, with clear timescales, backed up by the commissioner's legal powers, if necessary. This gives us the same impetus for improvement that we saw in response to 'Dignified Care?', a report that I believe did succeed in delivering change. The Welsh Government should have nothing to fear from this report. I do not think that it should see it as an attack or as a stick to beat it with, and I have no doubt that, if a similar spotlight were thrust on the sector in England or Scotland, it would come to many of the same conclusions. However, it does have a responsibility, along with the regulators and the residential care sector more widely, to now embrace this report now and take the opportunity to deliver the radical change in approach that we so clearly need, particularly when there is so much good practice highlighted that we can learn from.

Fel yr adroddiadau blaenorol a gawsom gan y comisiynydd, mae'n gryfder gwirioneddol fod ei argymhellion yn cael eu rhannu'n bwyntiau gweithredu penodol, gydag amserlenni clir, wedi'u hategu gan bwerau cyfreithiol y comisiynydd, os oes angen. Mae hyn yn rhoi'r un ysgogiad i ni sicrhau gwelliant ag a welsom mewn ymateb i 'Gofal gydag Urddas?' adroddiad a lwyddodd i sicrhau newid yn fy marn i. Ni ddylai fod gan Lywodraeth Cymru ddim i'w ofni o'r adroddiad hwn. Nid wyf yn credu y dylai ei weld fel ymosodiad nac fel ffon i'w churo, ac nid oes gennyf amheuaeth pe bai sylw tebyg yn cael ei roi i'r sector yn Lloegr neu'r Alban, y byddai'n dod i lawer o'r un casgliadau. Fodd bynnag, mae gan y Llywodraeth gyfrifoldeb, gyda'r rheoleiddwyr a'r sector gofal preswyl ehangach, i groesawu'r adroddiad hwn yn awr a manteisio ar y cyfle i gyflawni'r newid radical yn y dull o weithredu rydym yn amlwg ei angen, yn enwedig gan ei fod wedi tynnu sylw at gymaint o arfer da i ni allu dysgu ohoni.

As someone who has recently visited a number of care homes in a personal capacity, I can honestly say that I struggled to find a single word I disagreed with in this report. Given that it is very wide ranging, it will be nigh on impossible to do justice to it in five minutes. However, above all, for me, it is that emphasis running through the report that is the important message: this is about quality of life, not just ensuring that people's basic needs are met and that minimum standards are being adhered to. As the commissioner puts it,

Fel rhywun sydd wedi ymweld â nifer o gartrefi gofal yn ddiweddar at ddibenion personol, gallaf ddweud yn onest fy mod wedi'i chael yn anodd dod o hyd i un gair rwy'n anghytuno ag ef yn yr adroddiad hwn. O ystyried ei fod yn eang iawn, bydd hi bron yn amhosibl gwneud cyfiawnder ag ef mewn pum munud. Fodd bynnag, yn anad dim, i mi, y pwyslais sy'n rhedeg drwy'r adroddiad yw'r neges bwysig: ymwneud ag ansawdd bywyd y mae hyn, nid sicrhau bod anghenion sylfaenol pobl yn cael eu diwallu'n unig a bod y safonau gofynnol yn cael eu dilyn. Fel y mae'r comisiynydd yn ei roi,

'Care delivered without abuse or neglect is not the same as good care'.

'Nid yw gofal a ddarperir heb gam-drin neu esgeulustod yn gyfystyr â gofal da.'

If we undermine that basic principle, we simply run the risk of dehumanising older people. Clearly, much of the responsibility for that lies with the workforce—from the people commissioning services and running care homes right down to the nurses and care assistants on the front line. Indeed, I was particularly concerned, but not surprised, to read the Royal College of Nursing's evidence on the disparity in standards between NHS nurses and those in care homes. It is no wonder, frankly, given the issues highlighted: the limited clinical supervision, the lack of peer support and professional development, and, above all, the low pay and poor working conditions that have, for too long, blighted the sector. However, whatever it takes, we simply must ensure that care homes are staffed by people equipped with the skills to cope with the needs of their residents. For example, the report is absolutely right to say that all care home staff should, as an absolute minimum, receive basic dementia training, and the fact that this is not happening already serves to underline the scale of the problem.

Os byddwn yn tanseilio'r egwyddor sylfaenol honno, rydym yn wynebu'r risg o ddad-ddyneiddio pobl hŷn. Yn amlwg, cyfrifoldeb y gweithlu yw llawer o hynny-o'r bobl sy'n comisiynu gwasanaethau ac yn rhedeg cartrefi gofal i lawr at y nyrsys a'r cynorthwywyr gofal ar y rheng flaen. Yn wir, testun pryder arbennig i mi, er nad yw'n syndod, oedd darllen tystiolaeth Coleg Brenhinol y Nyrsys ar y gwahaniaeth rhwng safonau nyrsys y GIG a nyrsys mewn cartrefi gofal. Nid yw'n syndod, a dweud y gwir, o ystyried y materion a amlygwyd: yr oruchwyliaeth glinigol gyfyngedig, diffyg cefnogaeth gan gymheiriaid a datblygiad proffesiynol, ac yn anad dim, y cyflog isel a'r amodau gwaith gwael sydd wedi andwyo'r sector yn rhy hir. Fodd bynnag, beth bynnag y bydd ei angen, rhaid i ni sicrhau bod cartrefi gofal yn cael eu staffio gan bobl sydd â'r sgiliau i ymdopi ag anghenion eu preswylwyr. Er enghraifft, mae'r adroddiad yn llygad ei le i ddweud y dylai pob aelod o staff cartref gofal gael hyfforddiant dementia, fan lleiaf, ac mae'r ffaith nad yw hyn yn digwydd eisoes yn tanlinellu maint y broblem.

The lack of national planning highlighted in the report is clearly fundamental, too. We have to ensure that we have the right number and types of homes in the places people need them, and I agree wholeheartedly that we need a national plan now in place for future supply. That plan must take into account information on self-funders in residential care, about whom it is clear from this report that there is a serious lack of information across the board. I believe that it must also be a plan that addresses the chronic overdependence on the private sector. That is touched upon briefly in this report, but, for me, that is at the root of many of the issues highlighted.

Mae'r diffyg cynllunio cenedlaethol a amlygwyd yn yr adroddiad yn amlwg yn sylfaenol, hefyd. Mae'n rhaid i ni sicrhau bod gennym y nifer a'r mathau cywir o gartrefi yn y llefydd y mae pobl eu hangen, ac rwy'n cytuno'n llwyr fod angen i ni gael cynllun cenedlaethol ar waith bellach ar gyfer y ddarpariaeth yn y dyfodol. Rhaid i'r cynllun ystyried gwybodaeth am bobl sy'n hunanariannu gofal preswyl, y dengys yr adroddiad hwn yn amlwg fod diffyg gwybodaeth mawr yn eu cylch yn gyffredinol. Rwy'n credu hefyd y dylai fod yn gynllun sy'n mynd i'r afael â'r orddibyniaeth gronig ar y sector preifat. Sonnir yn fyr am hynny yn yr adroddiad hwn, ond i mi, mae hynny'n greiddiol i lawer o'r materion a amlygwyd.

I always think back to the closure, with just three months' notice, of St Dunstan's care home in my constituency, which had been operated by HC-One, which itself had taken over the home when Southern Cross Healthcare collapsed. The health board and the local authority were exemplary in the way they handled the situation, as was the older people's commissioner herself and the then-Deputy Minister, Gwenda Thomas, but it just felt plain wrong that private sector providers, which, in the end, are answerable only to shareholders, could just cut and run with three months' notice, leaving residents without a home, staff without a job, and relatives worried sick. Tragically, but, I understand, commonplace when care homes close, there were residents who died, in part at least as a consequence of that terrible upheaval. For me, that raises a huge fundamental question as to whether we can continue to allow the lives of some of the most vulnerable people in society to be dictated by the cold and brutal reality of a profit and loss sheet.

Rwyf bob amser yn meddwl yn ôl at gau cartref gofal St Dunstan yn fy etholaeth, gyda dim ond tri mis o rybudd. HC-One a arferai redeg y cartref, a'r cwmni hwnnw a oedd wedi cymryd meddiant o'r cartref pan aeth Southern Cross Healthcare i'r wal. Roedd y bwrdd iechyd a'r awdurdod lleol yn rhagorol o ran y modd yr aethant i'r afael â'r sefyllfa, fel y comisiynydd pobl hŷn ei hun a Gwenda Thomas, y Dirprwy Weinidog ar y pryd, ond teimlai'n gwbl anghywir y gallai darparwyr yn y sector preifat, a oedd ond yn atebol i'w cyfranddalwyr yn y pen draw, roi'r gorau iddi gyda dim ond tri mis o rybudd, gan adael preswylwyr heb gartref, aelodau o staff heb swydd, a pherthnasau'n poeni eu hunain yn sâl. Yn drasig, ond yn gyffredin pan fydd cartrefi gofal yn cau yn ôl yr hyn a ddeallaf, bu farw preswylwyr, yn rhannol, o leiaf, o ganlyniad i'r cyffro ofnadwy hwnnw. I mi, mae hynny'n codi cwestiwn sylfaenol enfawr, sef a allwn barhau i ganiatáu i fywydau rhai o'r bobl fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas gael eu harwain gan realiti oer a chreulon y fantolen elw a cholled.

15:55

## Nick Ramsay [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Thank you, Deputy Presiding Officer, for the opportunity to contribute to this debate today. It is true that the Welsh Conservatives have brought a delicate and difficult topic to the Chamber today for discussion. Let us face it: the way in which we treat our oldest people is a reflection of the level of civilisation that we have reached—or not reached, as the case may be—as they represent some of the most vulnerable in our society, a society that they have invested in and contributed to, which means that we should be proud of them.

Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd, am y cyfle i gyfrannu at y ddadl hon heddiw. Mae'n wir fod y Ceidwadwyr Cymreig wedi cyflwyno pwnc cymhleth ac anodd i'w drafod ger bron y Siambr heddiw. Gadewch i ni wynebu'r gwir: mae'r ffordd rydym yn trin ein pobl hynaf yn adlewyrchu'r lefel o wareiddiad rydym wedi'i chyrraedd—neu heb ei chyrraedd, efallai—gan mai hwy yw rhai o'r bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas, cymdeithas y maent wedi buddsoddi ynddi ac wedi cyfrannu ati, sy'n golygu y dylem fod yn falch ohonynt.

As Janet Finch-Saunders said in opening our debate, we should be proud of our older people. That is at the heart of this debate today. What does that mean? Well, it means respect, but not just respect for older people, which is a very easy thing to say in the Chamber; it is about recognising that older people are actually a large number of individual people who can be seen as a whole, but are also individuals. Anyone who looks through this hefty and thorough report will see that the importance of protecting the individual and the individual rights of older people is at the heart of it. You cannot take the individual out of this equation and expect to solve the problems that we are talking about.

Fel y dywedodd Janet Finch-Saunders wrth agor ein dadl, dylem fod yn falch o'n pobl hŷn. Hynny sydd wrth wraidd y ddadl hon heddiw. Beth yw ystyr hynny? Wel, mae'n golygu parch, ond nid parch at bobl hŷn yn unig, sy'n beth hawdd iawn i'w ddweud yn y Siambr; mae'n ymwneud â chydnabod mai nifer fawr o unigolion mewn gwirionedd yw pobl hŷn a gellir eu gweld fel un elfen gyfan, ond maent hefyd yn unigolion. Bydd unrhyw un sy'n edrych drwy'r adroddiad hir a thrylwyr hwn yn gweld bod pwysigrwydd gwarchod yr unigolyn a hawliau unigol pobl hŷn yn ganolog iddo. Ni allwch dynnu'r unigolyn allan o'r hafaliad a disgwyl datrys y problemau rydym yn sôn amdanynt.

You would, of course, hope that many of the flaws and problems identified in the report are down to common sense. Sadly, common sense does not always prevail, and it does require a steer and political willpower from the centre, from the Government, to try to get things right. The older people's commissioner says at the outset of the report that it is unapologetically hard-hitting.

Wrth gwrs, byddech yn gobeithio mai mater o synnwyr cyffredin yw llawer o'r gwendidau a'r problemau a nodwyd yn yr adroddiad. Yn anffodus, nid yw synnwyr cyffredin yw bob amser yn ennill y dydd, ac mae'n galw am arweiniad a grym ewyllys gwleidyddol o'r canol, gan y Llywodraeth, i geisio cael pethau'n iawn. Mae'r comisiynydd pobl hŷn yn dweud ar ddechrau'r adroddiad ei fod yn ddigyfaddawd o llawdrwm.

I have heard in the Chamber some Members criticise the framing of our debate and saying that our motion is focusing on the negatives. Well, yes, we do not deny that there is, of course, good practice out there, and there is good practice that we would want to enhance. However, unless you put the focus on the negative aspects of what is going on, as this report has done, then you will never deal with them. As we have heard from Members this afternoon, this is what has gone wrong with previous attempts to deal with problems in the health service and problems in the services affecting older people in the past. Older people have to have confidence that reports like this, when they come along, are not just talked about at the time and they do not just go on a shelf and disappear into the dark recesses of bureaucracy on the fifth floor, but that the problems are actually got out there and dealt with.

Rwyf wedi clywed rhai Aelodau yn y Siambr yn beirniadu'r modd y cafodd ein dadl ei fframio ac yn dweud bod ein cynnig yn canolbwyntio ar y pethau negyddol. Wel, yn wir, nid ydym yn gwadu fod yna arfer da i'w gael, wrth gwrs, ac mae yna arfer da y byddem am ei wella. Fodd bynnag, oni bai eich bod yn rhoi'r ffocws ar agweddau negyddol yr hyn sy'n digwydd, fel y mae'r adroddiad hwn wedi'i wneud, yna ni wnewch byth fynd i'r afael â hwy. Fel y clywsom gan Aelodau y prynhawn yma, dyma sydd wedi mynd o'i le gydag ymdrechion blaenorol i ddelio â phroblemau yn y gwasanaeth iechyd a phroblemau yn y gwasanaethau sy'n effeithio ar bobl hŷn yn y gorffennol. Rhaid i bobl hŷn gael hyder nad yw adroddiadau fel hyn, pan gânt eu llunio, yn ddim mwy na thestun siarad ar y pryd, ac na chânt eu rhoi ar silff i ddiflannu i ddyfnderoedd tywyll biwrocratiaeth ar y pumed llawr, ond bod y problemau yn cael eu hamlygu a'u datrys.

The line of the report that struck me most and is hard-hitting was

Y llinell o'r adroddiad a'm tarodd fwyaf yw'r frawddeg galed:

'If we fail to deliver the change...we fail older people.'

'Os byddwn yn methu â chyflawni'r newid...byddwn yn gwneud cam â phobl hŷn.'

It has been put in very simplistic language. I think that one asset to the way in which the commissioner has framed this is that it is in clear, understandable language. It is that simple: if we fail to deliver change, we fail older people.

Mae wedi cael ei roi mewn iaith syml iawn. Credaf mai un rhinwedd o ran y ffordd y mae'r comisiynydd wedi fframio hyn yw ei fod mewn iaith glir ddealladwy. Mae mor syml â hynny: os byddwn yn methu â chyflawni'r newid, byddwn yn gwneud cam â phobl hŷn.

The report is called 'A Place to Call Home?', as Janet Finch-Saunders said at the start, because that is what residential homes are. It is too easy to use the term 'residential home' and think, 'Well, that's it', and that an older person has moved on from their lifelong home, existing home, or wherever they were, and are now in an institution. Of course, it has to be institutionally based, but the whole way that that home presents itself to the older people should not be like that. Their individuality has to be respected, and that home has to try to be a proper replacement home for the place from which they have come.

Enw'r adroddiad yw 'Lle i'w Alw'n Gartref?', a hynny, fel y dywedodd Janet Finch-Saunders ar y dechrau, oherwydd mai dyna yw cartrefi preswyl. Mae'n rhy hawdd defnyddio'r term 'cartref preswyl' a meddwl, 'Wel, dyna ni', a bod person hŷn wedi symud ymlaen o'u cartref gydol oes, eu cartref presennol, neu lle bynnag yr oeddent, a'u bod bellach mewn sefydliad. Wrth gwrs, rhaid i hyn fod yn seiliedig ar sefydliad, ond ni ddylai'r holl ffordd y mae'r cartref yn cyflwyno'i hun i'r bobl hyn fod felly. Rhaid parchu eu hunaniaeth, a rhaid i'r cartref geisio bod yn gartref priodol yn lle'r man y daethant ohono.

They are homes to a very large number of people, and an increasing number of people. We know full well that, with an ageing population and with more of us going into the older age bracket all the time, then this problem will only get worse if it is not dealt with. The sooner the Welsh Government gets to grips with some of those problems and uses best practice to improve the other areas, the better it will be for everyone.

Maent yn gartrefi i nifer fawr iawn o bobl, a nifer sy'n cynyddu. Gyda phoblogaeth sy'n heneiddio a mwy ohonom drwy'r amser yn mynd i mewn i'r categori oedran hŷn, gwyddom yn iawn mai mynd yn waeth a wna'r broblem hon os nad awn i'r afael â hi. Gorau po gyntaf er lles pawb y bydd Llywodraeth Cymru yn ymdrin â rhai o'r problemau hynny ac yn defnyddio arfer gorau i wella'r meysydd eraill.

Minimum training standards have been mentioned by a number of Members and, again, this is something that most people would think would be happening anyway, but sadly it is not. I think that Lynne Neagle said that you definitely need minimum training standards, and yes, you do also need to make sure that those staff are properly respected themselves, that the difficulties and challenges that they are facing are respected and that they are paid properly for the important service that they provide, not just to the older people there but for us as well and for society in general. It is a double-edged sword: you need the proper payment and the proper respect for them, but, at the same time, you need to provide them with the opportunities for that training standard, if that is their chosen area to work in.

Crybwyllwyd safonau hyfforddiant gofynnol gan nifer o Aelodau ac unwaith eto, mae hyn yn rhywbeth y byddai'r rhan fwyaf o bobl yn meddwl ei fod yn digwydd beth bynnag, ond yn anffodus nid yw hynny'n wir. Credaf fod Lynne Neagle wedi dweud fod angen safonau hyfforddiant gofynnol yn bendant, ac oes, mae angen gwneud yn siŵr hefyd fod y staff hynny'n cael eu parchu'n iawn eu hunain, bod yr anawsterau a'r heriau y maent yn eu hwynebu yn cael eu parchu a'u bod yn cael eu talu'n iawn am y gwasanaeth pwysig y maent yn ei ddarparu, nid yn unig i'r bobl hŷn yno, ond i ni yn ogystal ac i gymdeithas yn gyffredinol. Mae dwy ochr i'r geiniog: rhaid i chi roi tâl cywir a pharch priodol iddynt, ond ar yr un pryd, rhaid i chi roi cyfle iddynt anelu am safon hyfforddiant, os mai dyna'r maes y maent yn dewis gweithio ynddo.

So, there is chronic over-reliance on the private sector, but it is currently filling a gap that the public sector has not been fully equipped to fulfil.

Felly, mae gorddibyniaeth gronig ar y sector preifat, ond ar hyn o bryd mae'n llenwi bwlch nad yw'r sector cyhoeddus wedi cael ei gyfarparu'n llawn i'w lenwi.

16:00

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Galwaf ar y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Mark Drakeford.

I call on the Minister for Health and Social Services, Mark Drakeford.

16:00

## Mark Drakeford Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services*

Diolch yn fawr, Ddirprwy Lywydd. I want to begin by thanking those who have brought today's motion for debate to the floor of the National Assembly. I do not regard it as a negative motion at all. I think it puts before us a number of very important issues which is right that we debate. On the Government side, we have been anxious not to divide the National Assembly on a matter of such importance. We will therefore support the motion before us this afternoon, and the amendments laid to it.

Diolch yn fawr, Ddirprwy Lywydd. Rwyf am ddechrau drwy ddiolch i'r rhai sydd wedi cyflwyno cynnig heddiw i'w drafod ar lawr y Cynulliad Cenedlaethol. Nid wyf yn ystyried ei fod yn gynnig negyddol o gwbl. Rwy'n credu ei fod yn rhoi nifer o faterion pwysig iawn ger ein bron ac mae'n iawn i ni eu trafod.  Ar ochr y Llywodraeth, rydym wedi bod yn awyddus i beidio â rhannu'r Cynulliad Cenedlaethol ar fater mor bwysig. Felly, byddwn yn cefnogi'r cynnig sydd ger ein bron y prynhawn yma, a'r gwelliannau a gyflwynwyd iddo.

I want to begin by doing what I have heard the older persons' commissioner do repeatedly in interviews and in places where I have heard her talk about the report, and that is to put her findings into perspective. The report is based on unannounced visits to 100 residential care homes in Wales. As the commissioner says, its findings balance the numerous examples of excellent quality of care that her review found in some places against the deficiencies it found in too many. The focus of the report is on raising quality and expectations and, in doing that, the commissioner, as Kirsty Williams in her thoughtful contribution said, goes out of her way to restate the positive choice that residential care can be for many people.

Rwyf am ddechrau drwy wneud yr hyn rwyf wedi clywed y comisiynydd pobl hŷn yn ei wneud dro ar ôl tro mewn cyfweliadau ac mewn mannau lle clywais i hi'n siarad am yr adroddiad, sef rhoi ei chanfyddiadau mewn persbectif. Mae'r adroddiad wedi'i seilio ar ymweliadau dirybudd â 100 o gartrefi gofal preswyl yng Nghymru. Fel y mae'r comisiynydd yn dweud, mae canfyddiadau'r adroddiad yn cydbwyso enghreifftiau niferus o ofal o ansawdd rhagorol a welodd ei hadolygiad mewn rhai llefydd yn erbyn y diffygion a welodd mewn gormod o lefydd. Mae ffocws yr adroddiad ar godi ansawdd a disgwyliadau ac wrth wneud hynny, fel y dywedodd Kirsty Williams yn ei chyfraniad meddylgar, mae'r comisiynydd yn mynd allan o'i ffordd i ailddatgan y dewis cadarnhaol y gall gofal preswyl ei gynnig i lawer o bobl.

Nick Ramsay, in an interesting contribution, made one factual error, which is an error that is often shared by other people. He said that the number of people in residential care homes in Wales was rising and set to go on rising. In fact, it has fallen every year for the last 10 years and is due to go on falling at least until the end of this Assembly term. In 2002, 30 people out of every 1,000 aged over 65 in Wales were in a residential care home. In 2012, that had fallen to 20 out of every 1,000, and that is because of the success of our local authorities and policies pursued in this Assembly to reinforce the services that we provide in people's own homes to keep people there for much longer.

Yn ei gyfraniad diddorol, gwnaeth Nick Ramsay un camgymeriad ffeithiol, sef camgymeriad y bydd llawer o bobl eraill yn ei wneud. Dywedodd fod nifer y bobl mewn cartrefi gofal preswyl yng Nghymru yn codi ac yn mynd i barhau i godi. Mewn gwirionedd, mae wedi gostwng bob blwyddyn dros y 10 mlynedd diwethaf a disgwylir iddo barhau i ostwng o leiaf tan ddiwedd tymor y Cynulliad hwn. Yn 2002, roedd 30 o bob 1,000 o bobl dros 65 oed yng Nghymru mewn cartref gofal preswyl. Yn 2012, roedd wedi gostwng i 20 o bob 1,000 o bobl, a hynny oherwydd llwyddiant ein hawdurdodau lleol a pholisïau'r Cynulliad hwn i gryfhau'r gwasanaethau a ddarparwn i bobl yn eu cartrefi eu hunain i gadw pobl yno'n llawer hirach.

16:02 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for taking the intervention. I am sorry if I was not clear; I meant to say that the number of people in the older age bracket of over 50 was increasing, but I was not entirely clear. However, I am sure that the Minister would agree that, regardless of the numbers in those homes, we have to make sure that these flaws are put right, because every one of those people is an individual and they matter massively?

Diolch i chi am gymryd yr ymyriad. Mae'n ddrwg gennyf os nad oeddwn yn glir; fy mwriad oedd dweud bod nifer y bobl yn y categori oedran hŷn sef dros 50 oed yn cynyddu, ond nid oeddwn yn gwbl glir. Fodd bynnag, rwy'n siŵr y byddai'r Gweinidog yn cytuno, beth bynnag yw niferoedd y bobl yn y cartrefi hynny, rhaid i ni wneud yn siŵr bod y diffygion hyn yn cael eu hunioni, gan fod pob un o'r bobl hynny yn unigolion ac yn aruthrol o bwysig.

16:03 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Absolutely; I completely agree with that point. The fact that the number of older people is growing while the number of people going into residential care is falling makes that even more remarkable. However, what it does, as the older persons' commissioner says, is to change the nature of the population in residential care. The average age of someone entering residential care in Wales today is 86 and rising. That person will be frail. They will have many challenges that they face in their lives, and residential care has to change in order to meet those things.

Yn hollol; cytunaf yn llwyr â'r pwynt hwnnw. Mae'r ffaith bod nifer y bobl hŷn yn cynyddu wrth i nifer y bobl sy'n mynd i mewn i ofal preswyl ostwng yn gwneud hynny hyd yn oed yn fwy rhyfeddol. Fodd bynnag, yr hyn y mae'n ei wneud, fel y dywedodd y comisiynydd pobl hŷn, yw newid natur y boblogaeth mewn gofal preswyl. Oedran cyfartalog rhywun sy'n mynd i mewn i ofal preswyl yng Nghymru heddiw yw 86 ac mae'r oedran hwnnw'n codi. Bydd y person hwnnw'n fregus. Byddant yn wynebu llawer o heriau yn eu bywydau, a rhaid i ofal preswyl newid er mwyn goresgyn yr heriau hynny.

I was very struck by the individual case that Kirsty Williams raised yesterday and today. She will know that quite soon following the introduction of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014, the previous Deputy Minister took powers to make sure that direct payments for the first time will be available to people in residential care. The individual that Kirsty mentioned will not have to rely in future on Powys County Council to make the decision. They could take the direct payment themselves and make a decision so much more aligned with their own needs.

Roedd yr achos unigol y soniodd Kirsty Williams amdano ddoe a heddiw yn peri cryn syndod i mi. Yn fuan ar ôl cyflwyno Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, cymerodd y Dirprwy Weinidog blaenorol bwerau i wneud yn siŵr y bydd taliadau uniongyrchol ar gael am y tro cyntaf i bobl mewn gofal preswyl. Ni fydd yn rhaid i'r unigolyn y soniodd Kirsty amdano ddibynnu ar Gyngor Sir Powys yn y dyfodol i wneud y penderfyniad. Gallent gymryd y taliad uniongyrchol eu hunain a gwneud penderfyniad sy'n gweddu'n well i'w hanghenion eu hunain.

CSSIW, in its inspection, found that 75% of care homes meet all their requirements and that 25% need further work. It means that, in most cases most of the time, people get care that is right for their needs. As Suzy Davies said, it is important that we begin by putting on record the fact that there are committed, dedicated and successful services that provide good quality-care for older people in our residential homes every single day in Wales.

Yn ei arolwg, gwelodd AGGCC fod 75% o gartrefi gofal yn bodloni eu holl ofynion, a bod 25% angen gwaith pellach. Yn y rhan fwyaf o achosion y rhan fwyaf o'r amser, mae'n golygu fod pobl yn cael gofal sy'n briodol i'w hanghenion. Fel y dywedodd Suzy Davies, mae'n bwysig ein bod yn dechrau drwy gofnodi'r ffaith bod gwasanaethau ymrwymedig, ymroddedig a llwyddiannus ar gael sy'n darparu gofal o ansawdd da i bobl hŷn yn ein cartrefi preswyl bob dydd o'r flwyddyn yng Nghymru.

That brings me to my second point and, I thought, the most important point of all in the commissioner's report, and that is her clear message that achieving improvement in the care of older people in Wales is everybody's business. It is certainly the business of the national health service, as Jenny Rathbone highlighted, to make sure that basic primary care services are secured for residents in care. It is not something, as the commissioner makes clear, that can be left to one organisation or one group. It really is, as Nick Ramsay said at the start of his contribution, something that requires each of us as citizens, and as a society, to think about the responsibilities that we are prepared to shoulder—not what local authorities should do, or providers, or even the Welsh Government, but what each one of us, collectively and individually, as a society, are prepared to do in this field. It simply will not work and we will not get the improvements that the commissioner looks for if, as a community, we think that we can hand over the responsibility for the care of older people to a residential care sector, to take very little interest in it from there on, and then just throw our hands up in horror when things go wrong.

Daw hynny â mi at fy ail bwynt ac rwy'n meddwl, at y pwynt pwysicaf oll yn adroddiad y comisiynydd, sef ei neges glir fod gwella gofal pobl hŷn Cymru yn fusnes i bawb. Mae'n sicr yn fusnes i'r gwasanaeth iechyd gwladol, fel y pwysleisiodd Jenny Rathbone, i sicrhau bod gwasanaethau gofal sylfaenol ar gael i breswylwyr cartrefi gofal. Fel yr amlygodd y comisiynydd, nid yw'n rhywbeth y gellir ei adael i un sefydliad neu un grŵp yn unig. Fel y dywedodd Nick Ramsay ar ddechrau ei gyfraniad, mae'n rhywbeth sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i bob un ohonom fel dinasyddion, ac fel cymdeithas, feddwl mewn gwirionedd am y cyfrifoldebau rydym yn barod i'w hysgwyddo—nid beth y dylai awdurdodau lleol ei wneud, neu ddarparwyr, neu Lywodraeth Cymru hyd yn oed, ond yr hyn y mae pob un ohonom, ar y cyd ac yn unigol, fel cymdeithas, yn barod i'w wneud yn y maes hwn. Yn syml, ni fydd yn gweithio ac ni fyddwn yn cael y gwelliannau y mae'r comisiynydd yn edrych amdanynt os credwn, fel cymuned, y gallwn drosglwyddo'r cyfrifoldeb am ofalu am bobl hŷn i sector gofal preswyl a dangos ond ychydig iawn o ddiddordeb yn y mater o hynny ymlaen, a chodi ein dwylo mewn arswyd pan fydd pethau'n mynd o chwith.

One of the key ways in which we have attempted in Wales to address this issue in the post-devolution era has been through new ways of amplifying the collective voice of older people, recognising, as the motion says, the contribution that older people make themselves to life here in Wales. Wales was the first part of the United Kingdom to publish a strategy for older people as long ago as 2003. We remain the only part of the United Kingdom to have an older persons' commissioner. We have the very effective Welsh Senate of Older People, which influences the work of local fora at council level, and our national debates. When we listen carefully to older people and include them directly and equally in conversations about the future, then solutions do emerge.

Un ffordd allweddol rydym wedi ceisio mynd i'r afael â'r mater hwn yng Nghymru ers datganoli yw drwy ddulliau newydd o wneud llais cyfunol pobl hŷn yn fwy hyglyw, gan gydnabod, fel y mae'r cynnig yn ei ddweud, y cyfraniad y mae pobl hŷn eu hunain yn ei wneud i fywyd yma yng Nghymru. Cymru oedd y rhan gyntaf o'r Deyrnas Unedig i gyhoeddi strategaeth ar gyfer pobl hŷn mor bell yn ôl â 2003. Rydym yn parhau i fod yr unig ran o'r Deyrnas Unedig sydd â chomisiynydd pobl hŷn. Mae gennym Senedd Pobl Hŷn Cymru effeithiol iawn, sy'n dylanwadu ar waith y fforymau lleol ar lefel y cynghorau, a'n trafodaethau cenedlaethol. Pan fyddwn yn gwrando'n ofalus ar bobl hŷn ac yn eu cynnwys yn uniongyrchol ac yn gyfartal mewn trafodaethau am y dyfodol, yna daw atebion i'r amlwg.

Dirprwy Lywydd, we have heard about the scourge of loneliness and isolation in the lives of older people. In Llanelli, where they have remodelled the service that they provide in domiciliary care services, and where they have a multi-disciplinary team that goes to the person's home and asks them, 'What would make the most difference to you? You tell us, and then we will provide it', what they find is that loneliness and isolation are the things that older people raise, and there are simple things that can often be done to reconnect them to the lives of the community around them. As we have also heard this afternoon, there is some good news in residential care services too, because, in some ways, we have seen part of the future and we know that it works. An increasing number of Members of this Assembly will now have extra-care facilities in their own constituencies. You will know from your visits just how much those sorts of residential care facilities incorporate the principles we would wish to see for the future: providing help when it is needed while promoting independence to the maximum extent; and allowing people to live their own lives while providing every day opportunities for the company of others and socialisation in common tasks.

Ddirprwy Lywydd, rydym wedi clywed am falltod unigrwydd ac arwahanrwydd ym mywydau pobl hŷn. Yn Llanelli, lle maent wedi ailfodelu'r gwasanaeth y maent yn ei ddarparu ym maes gwasanaethau gofal cartref, a lle mae ganddynt dîm amlddisgyblaethol sy'n mynd i gartref yr unigolyn ac yn gofyn, 'Beth fyddai'n gwneud y gwahaniaeth mwyaf i chi? Dywedwch chi wrthym a byddwn yn ei ddarparu', yr hyn y maent yn ei ganfod yw mai unigrwydd ac arwahanrwydd yw'r pethau y mae pobl hŷn yn sôn amdanynt, ac mae yna bethau syml y gellir eu gwneud yn aml i'w hailgysylltu â bywyd y gymuned o'u cwmpas. Fel rydym hefyd wedi clywed y prynhawn yma, mae rhywfaint o newyddion da ym maes gwasanaethau gofal preswyl hefyd, oherwydd, mewn rhai ffyrdd, rydym wedi gweld cipolwg ar y dyfodol a gwyddom ei fod yn gweithio. Bellach, bydd gan nifer cynyddol o Aelodau'r Cynulliad hwn gyfleusterau gofal ychwanegol yn eu hetholaethau eu hunain. Byddwch yn gwybod o'ch ymweliadau i ba raddau y mae'r mathau hynny o gyfleusterau gofal preswyl yn ymgorffori'r egwyddorion y byddem yn dymuno eu gweld ar gyfer y dyfodol: darparu cymorth pan fo'i angen gan hyrwyddo cymaint â phosibl o annibyniaeth; a chaniatáu i bobl fyw eu bywydau eu hunain gan ddarparu cyfleoedd bob dydd i gael cwmni pobl eraill a chymdeithasu wrth wneud tasgau cyffredin.

I would like to say just a few things on the issues of the workforce. The people who work in social care are the sector's principal asset. It is their dedication that can turn indifferent care into excellent care. It is a sector with real challenges too—in turnover, in pay and in the way that staff are treated. There is a 25% to 30% turnover every year of staff in residential care. When we come to reply as a Government, as we must, within three months to the commissioner's report, I hope to have more to say on that topic and on the way our regulation and inspection Bill will respond to a number of the points that the commissioner makes, and to respond in full to her other recommendations.

Hoffwn ddweud ychydig o bethau ar fater y gweithlu. Y bobl sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol yw prif ased y sector. Eu hymroddiad hwy sy'n gallu troi gofal diddrwg-didda yn ofal ardderchog. Mae'n sector sy'n wynebu heriau gwirioneddol hefyd—o ran trosiant staff, o ran cyflogau a'r ffordd y mae staff yn cael eu trin. Mae trosiant staff gofal preswyl yn 25% i 30% bob blwyddyn. Pan ddaw'n bryd i ni ateb fel Llywodraeth, fel y bydd rhaid i ni, o fewn tri mis i adroddiad y comisiynydd, rwy'n gobeithio y bydd gennyf ragor i'w ddweud ar y pwnc hwnnw ac ar y ffordd y bydd ein Bil rheoleiddio ac arolygu yn ymateb i nifer o'r pwyntiau y mae'r comisiynydd yn eu gwneud, a byddaf yn ymateb yn llawn i'w hargymhellion eraill.

16:09

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Galwaf ar Andrew R.T. Davies i ymateb i'r ddadl.

I call on Andrew R.T. Davies to respond to the debate.

16:09

## Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. May I thank everyone who has contributed to the debate today? The spirit in which the Welsh Conservatives tabled this debate was constructive, to try to allow Members the opportunity to comment on the report that the older persons' commissioner brought before the Assembly and the public last week, and, above all, to celebrate the contribution that older people make to our life here in Wales and the positive contribution they make. I think that that was highlighted in many Members' contributions, from Kirsty Williams to Lindsay, bringing in the points about the positive aspects, economically, that older people bring.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu at y ddadl heddiw. Roedd yr ysbryd y cyflwynodd y Ceidwadwyr Cymreig y ddadl hon yn adeiladol, er mwyn ceisio rhoi cyfle i'r Aelodau roi sylwadau ar yr adroddiad y cyflwynodd y comisiynydd pobl hŷn gerbron y Cynulliad a'r cyhoedd yr wythnos diwethaf, ac yn anad dim, i ddathlu cyfraniad bod pobl hŷn i'n bywyd yma yng Nghymru a'r cyfraniad cadarnhaol y maent yn ei wneud. Credaf fod hynny wedi'i amlygu yng nghyfraniadau llawer o Aelodau, o Kirsty Williams i Lindsay, gan gynnwys y pwyntiau am yr agweddau cadarnhaol, yn economaidd, y mae pobl hŷn yn eu cyfrannu.

Also, we heard from Jenny, the Member for Cardiff Central, about how important the care home network is when we have such an ageing population. The last census clearly showed an increase of 25% in people over 90 in Wales between 2001 and 2011, which really does show some of the challenges that policy makers will face in providing that whole-aspect approach to looking after an ageing population. However, that does not mean that we should be inhibited in our ambition to create as many opportunities as possible for older people. As Suzy Davies touched on, she is classified by the terms of the Welsh Government's classification as an older person now. I am certain that most people would not regard Suzy Davies as an older person, but, ultimately, that shows the depth and scope you have to deal with when you are dealing with the whole policy arena that the Minister touched on in his closing remarks. That is the difficulty in some respects.

Hefyd, clywsom gan Jenny, yr Aelod dros Ganol Caerdydd, am bwysigrwydd y rhwydwaith cartrefi gofal pan fo gennym gymaint o boblogaeth hŷn. Roedd y cyfrifiad diwethaf yn dangos cynnydd clir o 25% yn nifer y bobl dros 90 oed yng Nghymru rhwng 2001 a 2011, sy'n dangos rhai o'r heriau y bydd llunwyr polisi yn eu hwynebu wrth ddarparu ymagwedd hollgynhwysol i ofalu am boblogaeth sy'n heneiddio. Fodd bynnag, nid yw hynny'n golygu y dylem fod yn ochelgar yn ein huchelgais i greu cynifer o gyfleoedd â phosibl i bobl hŷn. Fel y crybwyllodd Suzy Davies, mae hi'n cael ei chategoreiddio yn ôl dosbarthiad Llywodraeth Cymru fel person hŷn yn awr. Rwy'n sicr na fyddai'r rhan fwyaf o bobl yn ystyried Suzy Davies yn berson hŷn, ond yn y pen draw, mae'n dangos dyfnder a chwmpas yr hyn sy'n rhaid i chi ddelio ag ef wrth ymdrin â'r holl arena polisi y cyfeiriodd y Gweinidog ati yn ei sylwadau i gloi. Dyna'r anhawster mewn rhai ffyrdd.

Yesterday, we were talking about the children's commissioner's annual report and the importance of putting young people's views at the centre of policy development. Today we are talking about the older people's commissioner's report into care homes, a specific aspect of policy that Government also has to consider. This is a real challenge, obviously, for the resource of Government, and that is why it is important. I dispute the point that the Member for Torfaen, Lynne Neagle, made about the role of the independent sector in providing care homes. There are many good examples of exemplary care, especially in Alzheimer's and dementia care. I will gladly take the intervention.

Ddoe, roeddem yn sôn am adroddiad blynyddol y comisiynydd plant a phwysigrwydd rhoi barn pobl ifanc wrth wraidd datblygu polisi. Heddiw, rydym yn sôn am adroddiad y comisiynydd pobl hŷn ar gartrefi gofal, agwedd benodol arall ar bolisi sy'n rhaid i'r Llywodraeth ei hystyried. Mae hon yn her wirioneddol o ran adnoddau'r Llywodraeth, mae'n amlwg, a dyna pam y mae'n bwysig. Rwy'n anghytuno â'r pwynt a wnaeth Lynne Neagle, yr Aelod dros Dorfaen, am rôl y sector annibynnol yn darparu cartrefi gofal. Mae llawer o enghreifftiau da o ofal rhagorol, yn enwedig ym maes gofal Alzheimer a gofal dementia. Rwy'n falch o dderbyn yr ymyriad.

16:11 **Lynne Neagle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Would you concede that I was not saying that there were not examples of good care in the private sector but that the fact that the vast majority of our care depends on the private sector is a weakness, I think, and one that we need to plan for the future to deal with?

A fyddech yn derbyn nad oeddwn yn dweud nad oedd enghreifftiau o ofal da yn y sector preifat, ond bod y ffaith bod y mwyafrif helaeth o'n gofal yn dibynnu ar y sector preifat yn wendid, rwy'n credu, ac yn un y mae angen i ni gynllunio ar ei gyfer at y dyfodol?

16:11 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, I recognise that the majority of the care is provided by the independent sector, but I think that you used the phrase that you were 'ideologically opposed' to such development. However, there is a huge issue with the provision, and ultimately even the industry itself recognises that it needs to make advances, especially in the specialist care it offers so that it too can work with Government to meet the recommendations of this report. As Janet Finch-Saunders touched on in her opening remarks, we need to be positively engaged in promoting the positive aspects of what older people can offer to us economically and socially, especially taking the simple example of childcare where many grandparents are the extension of the family and provide that opportunity by looking after the grandchildren so that the parents can go out to work and create a whole new aspect of that family environment.

Ydw, rwy'n cydnabod bod y rhan fwyaf o'r gofal yn cael ei ddarparu gan y sector annibynnol, ond credaf eich bod wedi defnyddio'r ymadrodd yr eich bod yn 'ideolegol wrthwynebus' i ddatblygiad o'r fath. Fodd bynnag, mae yna broblem fawr gyda'r ddarpariaeth, ac yn y pen draw, mae hyd yn oed y diwydiant ei hun yn cydnabod bod angen iddo ddatblygu, yn enwedig o ran y gofal arbenigol y mae'n ei gynnig fel ei fod hefyd yn gallu gweithio gyda'r Llywodraeth i gyflawni argymhellion yr adroddiad hwn. Fel y crybwyllodd Janet Finch-Saunders yn ei sylwadau agoriadol, mae angen i ni fod yn rhan gadarnhaol o'r gwaith o hyrwyddo agweddau cadarnhaol yr hyn y gall pobl hŷn ei gynnig i ni yn economaidd ac yn gymdeithasol, yn enwedig o gymryd enghraifft syml gofal plant lle mae llawer o neiniau a theidiau yn ymestyniad o'r teulu ac yn cynnig cyfle drwy edrych ar ôl yr wyrion fel y gall y rhieni fynd allan i weithio a chreu agwedd newydd sbon ar yr amgylchedd teuluol.

Nick and Mark touched on the issues of individuals. In particular, Mark touched on constituents he has helped with problems they had found with the care that they had been offered in certain care homes. Nick's contribution touched on the point that there has been a move away from people getting the extended care within the care home environment, and that is now provided in the home. That is not always the best option for a lot of people because, especially with Alzheimer's and dementia, the stimulation and wraparound care that dedicated Alzheimer's specialists can offer people is something we need to focus on and expand.

Cyffyrddodd Nick a Mark ar faterion unigolion. Yn benodol, soniodd Mark am yr etholwyr y mae wedi'u helpu gyda phroblemau a gawsant gyda'r gofal y cawsant ei gynnig mewn rhai cartrefi gofal. Soniodd cyfraniad Nick am y symud a fu oddi wrth ofal estynedig i bobl yn amgylchedd y cartref gofal, a bod gofal o'r fath bellach yn cael ei ddarparu yn y cartref. Nid dyna'r dewis gorau bob amser i lawer o bobl, yn enwedig pobl sy'n dioddef o glefyd Alzheimer a dementia, oherwydd mae'r ysgogiad a'r gofal cofleidiol y gall arbenigwyr Alzheimer ymroddedig ei gynnig i bobl yn rhywbeth y mae angen i ni ganolbwyntio arno a'i ehangu.

What we have got to be focused on is the positive agenda over this expanding area of our community here in Wales and, ultimately, the positive net contribution that older people make to the economy, but equally the responsibility we as policy makers and as Government have to commission services to help people lead as full a life as possible, especially in retirement. I am pleased to hear that the Government is supporting the motion today, and we shall be supporting both the amendments that have been tabled by Plaid Cymru and the Liberal Democrats.

Yr hyn y mae'n rhaid i ni ganolbwyntio arno yw'r agenda gadarnhaol dros y maes hwn sy'n ehangu yn ein cymuned yma yng Nghymru ac yn y pen draw, cyfraniad net cadarnhaol pobl hŷn i'r economi, ond yr un mor bwysig, y cyfrifoldeb sydd gennym fel llunwyr polisi ac fel Llywodraeth i gomisiynu gwasanaethau sy'n helpu pobl i fyw bywyd mor llawn â phosibl, yn enwedig ar ôl ymddeol. Rwy'n falch o glywed bod y Llywodraeth yn cefnogi'r cynnig heddiw, a byddwn yn cefnogi'r gwelliannau a gyflwynwyd gan Blaid Cymru a'r Democratiaid Rhyddfrydol.

16:14 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Y cwestiwn yw y dylid derbyn y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw wrthwynebiad? Nid oes gwrthwynebiad, felly derbynnir y cynnig heb ei ddiwygio yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

The question is that the motion without amendment be agreed. Does any Member object? There is no objection. The motion without amendment is therefore agreed in accordance with Standing Order 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

# Dadl Plaid Cymru: Costau Cyfleustodau

# Plaid Cymru Debate: Utility Costs

*Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliant 1 yn enw Aled Roberts, gwelliant 2 yn enw Jane Hutt, a gwelliannau 3, 4 a 5 yn enw Paul Davies.*

*The following amendments have been selected: amendment 1 in the name of Aled Roberts, amendment 2 in the name of Jane Hutt, and amendments 3, 4 and 5 in the name of Paul Davies.*

16:14

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I call on Llyr Gruffydd to move the motion.

Galwaf ar Llyr Gruffydd i gynnig y cynnig.

Cynnig NDM5622 Elin Jones

Motion NDM5622 Elin Jones

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn credu bod costau cyfleustodau yn annerbyniol o uchel ac yn nodi'r anawsterau penodol y mae hyn yn eu hachosi ar gyfer cymunedau gwledig, busnesau, a'r rhai ar incwm isel.

1. Believes that utility costs are unacceptably high and notes the particular difficulties this creates for rural communities, businesses, and those on low incomes.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi cynllun gweithredu i liniaru costau cyfleustodau uchel.

2. Calls on the Welsh Government to publish an action plan to alleviate high utility costs.

16:14

## Llyr Gruffydd [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Diolch yn fawr, Ddirprwy Lywydd. Rwy’n codi i gyflwyno’r cynnig yn enw Plaid Cymru.

Thank you very much, Deputy Presiding Officer. I move the motion in the name of Plaid Cymru.

Nid oes prin wythnos yn mynd heibio heb fod sôn yn rhywle am gostau cyfleustodau. Mae’r ffocws pennaf yn y blynyddoedd diwethaf, efallai, wedi bod ar ynni. Mae adroddiadau cyson yn y cyfryngau ynglŷn â chynnydd y biliau i gynhesu cartrefi. Mae costau cyfleustodau yn effeithio nid yn unig ar unigolion a theuluoedd, sef y ffocws yn amlach na pheidio, ond ar fusnesau. Maent nid yn unig yn cael effaith o safbwynt y gost ei hun, sy’n gallu bod yn ddigon beichus yn ariannol i deulu, ond hefyd mae goblygiadau ehangach i hynny o safbwynt gwresogi cartrefi a goblygiadau ar iechyd o safbwynt methu â chael mynediad i fand eang oherwydd y gost, a hynny’n arwain at fwy o allgáu digidol ac effaith posibl ar gyrhaeddiad addysgiadol, ac yn y blaen.

Hardly a week goes by without mention somewhere of utility costs. The main focus over the past few years has perhaps been on energy. There are regular reports in the media on the increasing cost of keeping people’s homes warm. Utility costs impact not only on individuals and families, which is usually the focus, but also on businesses. Not only do they have an impact in terms of the cost, which can be onerous enough financially to the family, but there are also wider implications in terms of heating homes and health implications in terms of failing to get broadband access because of the cost, which leads to more digital exclusion and potential impact on educational attainment, and so on.

Fodd bynnag, rwyf am ganolbwyntio ar un agwedd benodol wrth agor y ddadl y prynhawn yma, sef tlodi tanwydd. Mae tlodi tanwydd yn cael ei gydnabod fel mater o iechyd cyhoeddus o bwys. Roedd yn gyfrifol am gyfradd marwolaethau ychwanegol o bron i 2,000 o bobl yn ystod gaeaf 2010-11. Y mae, yn sicr, yn cyfrannu’n sylweddol tuag at greu problemau iechyd, megis cyflyrau anadlu, problemau a chymhlethdodau ychwanegol i ddioddefwyr canser a phroblemau cylchrediad gwaed hefyd.

However, I want to focus on one specific aspect in opening the debate this afternoon, namely fuel poverty. Fuel poverty is recognised as an important matter of public health. It was responsible for an additional death rate of nearly 2,000 people during the winter of 2010-11. It certainly contributes significantly towards creating health problems, such as respiratory conditions, additional problems and complications for cancer sufferers and also blood circulation problems.

Mae tlodi tanwydd, wrth gwrs, yn cyfeirio at gartrefi sy’n gorfod gwario mwy na 10% o’u hincwm i sicrhau bod eu cartrefi wedi gwresogi’n ddigonol. Ond, y realiti ar gyfer aelwydydd sydd yn dioddef o dlodi tanwydd, yw bod tai oer, fel roeddwn yn awgrymu gynnau, yn arwain at broblemau iechyd, a hefyd aelwydydd sydd â phroblemau ariannol, sydd wedi’u creu o ganlyniad i filiau uchel.

Fuel poverty, of course, refers to households that have to spend more than 10% of their income on adequately heating their homes. However, the reality for households that suffer from fuel poverty, is that cold housing, as I suggested earlier, leads to health problems, and also to households with financial problems, created as a result of high bills.

Daw'r dadansoddiad ystadegol mwyaf cynhwysfawr a chywir o arolwg Byw yng Nghymru yn 2008, a oedd yn amcangyfrif bod 26% o aelwydydd yng Nghymru mewn tlodi tanwydd. Yn 2012, roedd y Gynghrair Tlodi Tanwydd yn amcangyfrif bod rhyw 320,000 o aelwydydd mewn tlodi tanwydd, yn bennaf oherwydd y cynnydd yn ddiweddar ym mhrisiau ynni.

The most comprehensive and accurate statistical analysis comes from the Living in Wales survey of 2008, which estimated that 26% of Welsh households were in fuel poverty. In 2012, the Fuel Poverty Coalition estimated that some 320,000 households were in fuel poverty, mainly because of the recent rise in energy prices.

Although fuel poverty can affect anybody, and low household incomes are a major factor in whether someone is fuel poor, the lack of infrastructure is a particular problem in rural Wales, where alternative fuels to mains gas are often more expensive and less regulated. Twenty-one per cent of homes in Wales do not use mains gas, the vast majority of them, as you would expect, in rural parts of Wales. Rural consumers are particularly likely to use non-mains gas heating fuels. Heating oil, for example, is used to heat 46% of remote rural homes in Wales and that, interestingly, is compared to just over a third in England and just beneath a third in Scotland.

Er y gall tlodi tanwydd effeithio ar unrhyw un, ac mae incwm isel aelwydydd yn ffactor pwysig wrth bennu a yw rhywun yn wynebu tlodi tanwydd, mae'r diffyg seilwaith yn broblem arbennig yng nghefn gwlad Cymru, lle mae tanwydd amgen yn lle prif gyflenwad nwy yn aml yn ddrutach ac wedi'i reoleiddio'n llai trylwyr. Nid yw un ar hugain y cant o gartrefi Cymru yn defnyddio nwy o'r prif gyflenwad, ac mae'r mwyafrif helaeth ohonynt, fel y byddech yn ei ddisgwyl, mewn rhannau gwledig o Gymru. Mae defnyddwyr gwledig yn arbennig o debygol o ddefnyddio tanwydd gwresogi nad yw'n cynnwys nwy o'r prif gyflenwad. Defnyddir olew gwresogi, er enghraifft, i gynhesu 46% o gartrefi gwledig anghysbell yng Nghymru, ac mae hynny, yn ddiddorol, yn cymharu ag ychydig dros draean yn Lloegr ac ychydig o dan draean yn yr Alban.

Homes reliant on non-gas heating fuels have much lower energy efficiency standards than gas-heated homes. Sixty per cent of non-gas heated homes in Wales are F and G rated on the energy performance certificate scale, which basically means that they are at the bottom of that scale. So, we find that fuel poverty is much higher among consumers of non-gas heating fuels than it is among gas heating consumers.

Mae safonau arbed ynni yn llawer is mewn cartrefi sy'n dibynnu ar danwydd gwresogi nad yw'n cynnwys nwy o'r prif gyflenwad na chartrefi sy'n cael eu cynhesu gan nwy. Mae chwe deg y cant o gartrefi nad ydynt yn cael eu gwresogi gan nwy yng Nghymru yn cael gradd F a G ar y raddfa dystysgrif perfformiad ynni, sydd yn y bôn yn golygu eu bod ar waelod y raddfa honno. Felly, gwelwn fod tlodi tanwydd yn llawer uwch ymhlith defnyddwyr tanwyddau gwresogi ar wahân i nwy nag ymysg pobl sy'n defnyddio nwy ar gyfer gwresogi.

In Wales in general, we pay an average of 5% to 10% more for our energy than elsewhere. This is due to poorer energy infrastructure, particularly, as I explained earlier, for rural and post-industrial areas as well. It is partly due to the failure of competition to work in the market. There is also poor digital infrastructure, meaning that those who are digitally excluded cannot very often access the best deals, and there is a general sense that switching is not the answer, leading to monopoly-type practices of energy companies.

Yng Nghymru yn gyffredinol, rydym yn talu 5% i 10% yn fwy ar gyfartaledd am ein hynni na phobl mewn mannau eraill. Y rheswm am hyn yw bod y seilwaith ynni'n salach, yn enwedig, fel yr eglurais yn gynharach, mewn ardaloedd gwledig ac ôl-ddiwydiannol. Mae'n deillio'n rhannol o fethiant cystadleuaeth i weithio yn y farchnad. Mae'r seilwaith digidol yn wael hefyd, sy'n golygu'n aml iawn na all pobl sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol gael gafael ar y bargeinion gorau ac mae teimlad cyffredinol nad newid yw'r ateb, gan arwain at arferion monopolistaidd cwmnïau ynni.

For off-grid consumers, of course, poor practices by energy companies are particularly prevalent due to the lack of power that Ofgem has in regulating the alternative fuels market. In relation to off-grid customers, very often, people who are off-grid are ineligible for energy efficiency schemes, because, to qualify, the person applying has to be claiming one benefit. Hence, those in fuel poverty, but who may be in work with a reasonable income, will not qualify, despite having high energy bills.

I ddefnyddwyr oddi ar y grid, wrth gwrs, mae arferion gwael cwmnïau ynni yn arbennig o gyffredin oherwydd diffyg grym Ofgem i reoleiddio'r farchnad danwydd amgen. Mewn perthynas â chwsmeriaid oddi ar y grid, yn aml iawn, mae pobl sydd oddi ar y grid yn anghymwys ar gyfer cynlluniau arbed ynni am fod yn rhaid i'r person sy'n gwneud y cais fod yn hawlio un budd-dal er mwyn bod yn gymwys. Felly, ni fydd rhai pobl mewn tlodi tanwydd, ond a allai fod mewn gwaith gydag incwm rhesymol, yn gymwys, er bod eu biliau ynni'n uchel.

The Welsh Government's fuel poverty projection tool noted that energy efficiency measures installed in Wales over the time period since 1999 had reduced the projected number of households in fuel poverty in 2012 by just three percentage points, and that against a backdrop in which the numbers in fuel poverty had risen from 10% to 30% in a decade.

Nododd amcanestyniad tlodi tanwydd Llywodraeth Cymru fod mesurau arbed ynni a osodwyd yng Nghymru dros y cyfnod ers 1999 wedi gostwng y nifer amcanestynedig o aelwydydd mewn tlodi tanwydd yn 2012 o dri phwynt canran yn unig, a hynny yn erbyn cefndir lle mae'r niferoedd sy'n wynebu tlodi tanwydd wedi codi o 10% i 30% mewn degawd.

The Welsh Government simply does not have the powers available to tackle rising fuel bills in all contexts. In this context, retrofitting is only ever going to be a mitigating act. The Fuel Poverty Coalition has been critical of what the Welsh Government is doing to mitigate fuel poverty. It said recently that it is therefore extremely concerning that the number of households receiving energy efficiency measures through the Welsh Government's main fuel poverty schemes has dropped from an average 15,000 households a year under the home energy efficiency scheme to fewer than 5,000 households in the second year under NEST, at a time when around 386,000 households were estimated to be in fuel poverty in Wales in 2012. This drop in the number of households receiving help makes the 2018 target seem less achievable than ever.

Yn syml, nid oes pwerau gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â biliau tanwydd uwch ym mhob cyd-destun. Yn y cyd-destun hwn, gweithred liniarol yn unig fydd ôl-osod. Mae'r Gynghrair Tlodi Tanwydd wedi bod yn feirniadol o'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i liniaru tlodi tanwydd. Yn ddiweddar, dywedodd ei bod yn hynod o bryderus felly fod nifer y cartrefi sy'n derbyn mesurau arbed ynni drwy brif gynlluniau tlodi tanwydd Llywodraeth Cymru wedi gostwng o 15,000 o gartrefi ar gyfartaledd bob blwyddyn o dan y cynllun effeithlonrwydd ynni cartref i lai na 5,000 o gartrefi yn yr ail flwyddyn o dan Nyth, ar adeg pan amcangyfrifwyd bod oddeutu 386,000 o aelwydydd mewn tlodi tanwydd yng Nghymru yn 2012. Mae'r gostyngiad yn nifer yr aelwydydd sy'n cael cymorth yn gwneud i darged 2018 ymddangos yn llai cyraeddadwy nag erioed.

We have regularly called for upscaling of retrofitting projects, and research by Friends of the Earth and WWF has suggested the need to improve around 400,000 houses in Wales, which equates to a third of the current stock, over the next 10 years to a level that cuts carbon emissions by more than 60% if we are to meet some of the targets set by the Welsh Government. Improving 4,800 houses a year for 10 years will not come close to achieving what is required. The Welsh Government's efforts are somewhat dwarfed, I have to say, by the Scottish Government, which plans a £2 billion investment over 10 years towards upgrading the Scottish housing sector. This is more than twice the combined estimates of Welsh Government and private sector activity here.

Rydym wedi galw'n gyson am uwchraddio prosiectau ôl-osod, ac mae ymchwil gan Gyfeillion y Ddaear a WWF wedi awgrymu bod angen gwella tua 400,000 o dai yng Nghymru, sy'n cyfateb i un rhan o dair o'r stoc bresennol, dros y 10 mlynedd nesaf i lefel sy'n lleihau allyriadau carbon o dros 60% os ydym i gyrraedd rhai o'r targedau a osodwyd gan Lywodraeth Cymru. Ni fydd gwella 4,800 o dai y flwyddyn am 10 mlynedd yn dod yn agos at gyflawni'r hyn sydd ei angen. Mae ymdrechion Llywodraeth Cymru i'w gweld yn fychan iawn, rhaid i mi ddweud, o gymharu â Llywodraeth yr Alban, sy'n cynllunio i fuddsoddi £2 biliwn dros 10 mlynedd ar uwchraddio'r sector tai yn yr Alban. Mae hyn yn fwy na dwywaith amcangyfrifon cyfunol Llywodraeth Cymru a gweithgarwch y sector preifat yma.

In a debate on fuel poverty a while ago, the then Minister, John Griffiths, noted that the research suggested that the maximum percentage of households that could be taken out of poverty through energy efficiency measures alone is 95% and that the cost, at 2008 prices, is around £2.4 billion. That, I think, suggests, or at least outlines, the scale of the challenge ahead. Potentially, £2.4 billion is the price tag to take 95% of people out of fuel poverty. That is some £240 million a year for 10 years or £120 million a year for 20 years. The £200 million increase in health spending demonstrates that such a sum could be found if priority was given to tackling fuel poverty over other areas. That is probably a whole other debate, but I think that it does put it in context. Furthermore, of course, the health benefits of tackling fuel poverty demonstrate the business case for spending money on this, in my view, and it would be investing in tackling the causes of ill health—a preventative investment—not just paying to deal with the consequences.

Mewn dadl ar dlodi tanwydd beth amser yn ôl, nododd John Griffiths, y Gweinidog ar y pryd, fod ymchwil yn awgrymu bod y ganran uchaf o gartrefi y gellid eu codi allan o dlodi drwy fesurau arbed ynni yn unig yn 95% a bod y gost, yn ôl prisiau 2008, oddeutu £2.4 biliwn. Mae hynny, rwy'n meddwl, yn awgrymu, neu o leiaf yn amlinellu, maint yr her sydd o'n blaenau. O ran potensial, £2.4 biliwn yw'r pris ar gyfer codi 95% o bobl allan o dlodi tanwydd. Dyna tua £240 miliwn y flwyddyn am 10 mlynedd neu £120 miliwn y flwyddyn am 20 mlynedd. Mae'r cynnydd o £200 miliwn yn y gwariant ar iechyd yn dangos y gellid dod o hyd i swm o'r fath pe rhoddid blaenoriaeth i drechu tlodi tanwydd ar draul meysydd eraill. Mae honno'n debygol o fod yn ddadl arall yn llwyr, ond credaf ei fod yn ei roi mewn cyd-destun. Ar ben hynny, wrth gwrs, mae'r manteision iechyd o drechu tlodi tanwydd yn dangos yr achos busnes dros wario arian ar hyn, yn fy marn i, a byddai'n cael ei fuddsoddi yn y gwaith o ymladd achosion afiechyd—buddsoddiad ataliol—nid talu i fynd i'r afael â'r canlyniadau yn unig.

Green jobs are also a key part of solving our economic problems, and the United Nations environment programme has outlined the economic benefits of investing in green jobs. Its report into energy efficiency noted that for every €1 million spent on energy efficiency programmes, focusing on home insulation particularly, between 11.3 and 13.5 full-time equivalent jobs were created. Jobs, of course, are created directly in SMEs, as over 90% of firms in this particular industry have fewer than 10 employees. The jobs are, very often, local. Around 80% of the companies operating in Wales under Arbed, for example, were Welsh companies. There is a further indirect benefit, because money saved on bills and as a result of energy efficiency is very often spent and invested locally. So, we need to be looking to do more in relation to this potential. It would, obviously, help to solve fuel poverty, but also demonstrate that green policies are good for the economy, contrary to what some people might be saying.

Mae swyddi gwyrdd hefyd yn rhan allweddol o'r gwaith o ddatrys ein problemau economaidd, ac mae rhaglen amgylcheddol y Cenhedloedd Unedig wedi amlinellu manteision economaidd buddsoddi mewn swyddi gwyrdd. Nododd ei adroddiad ar arbed ynni fod rhwng 11.3 a 13.5 o swyddi cyfwerth ag amser llawn yn cael eu creu am bob €1 miliwn a werir ar raglenni arbed ynni, gan ganolbwyntio ar inswleiddio cartrefi yn arbennig. Caiff swyddi eu creu yn uniongyrchol, wrth gwrs, mewn busnesau bach a chanolig, gan fod dros 90% o gwmnïau yn y diwydiant penodol hwn â llai na 10 o weithwyr. Yn aml, swyddi lleol ydynt. Mae tua 80% o'r cwmnïau sy'n gweithredu yng Nghymru o dan Arbed, er enghraifft, yn gwmnïau Cymreig. Mae mantais anuniongyrchol bellach, gan fod arian sy'n cael ei arbed ar filiau ac o ganlyniad i arbed ynni yn aml iawn yn cael ei wario a'i fuddsoddi'n lleol. Felly, mae angen i ni geisio gwneud mwy mewn perthynas â'r potensial hwn. Yn amlwg, byddai'n helpu i ddatrys tlodi tanwydd, ond byddai hefyd yn dangos bod polisïau gwyrdd yn dda i'r economi, yn groes i'r hyn y mae rhai pobl yn ei ddweud.

Bydd rhai ohonoch chi'n ymwybodol bod Plaid Cymru wedi lansio ymgyrch yn ddiweddar, sef ymgyrch oddi ar y grid. Mae'r ymgyrch honno i helpu aelwydydd sydd oddi ar y grid yn seiliedig ar gynllun tri phwynt. Y pwynt cyntaf yw ymgyrch i gynyddu cysylltedd, neu 'connectivity'—hynny yw, drwy gofrestru aelwydydd sy'n dymuno cael eu cysylltu â'r grid nwy er mwyn gwneud achos busnes dichonadwy ar gyfer ymestyn y rhwydwaith nwy hwnnw, er mwyn eu cysylltu nhw â'r prif gyflenwad. Byddai hynny'n golygu biliau rhatach. Rydym hefyd yn awyddus i ymestyn cylch gwaith Ofgem, fel ei fod yn rheoleiddio tanwydd oddi ar y grid—rhywbeth nad yw'n digwydd ar hyn o bryd. Byddai hynny'n cryfhau rheolaeth ar y farchnad o safbwynt prisiau a hefyd yn rhoi gwell amddiffyniad i ddefnyddwyr. Y drydedd agwedd, wrth gwrs, yw, drwy ddod â'r bobl hyn at ei gilydd i brynu ar y cyd, mae'n bosibl negodi gostyngiadau ar brisiau tanwydd. Mae llawer o gyfleoedd allan yna i wneud hynny drwy nifer o gynlluniau sy'n bodoli'n barod.

Some of you will be aware that Plaid Cymru launched a campaign recently, namely the off-grid campaign. That campaign to help homes that are off-grid is based on a three-point plan. The first point is a campaign to increase connectivity—by registering homes that wish to be linked to the gas grid to make a feasible business case to extend the grid in order that they may link to the mains. That would mean lower bills. We are also eager to extend the remit of Ofgem, so that it regulates off-grid fuel, which does not happen at present. That would increase control of the market in terms of prices and would also offer better protection to consumers. The third aspect, of course, is that by bringing these people together to buy collectively, it is possible to negotiate reductions in fuel prices. There are many opportunities out there to do that through a number of schemes that are already in existence.

Felly, mae llawer y gellid ei wneud i daclo costau cyfleustodau a hefyd i daclo canlyniadau costau cyfleustodau. Rwy'n edrych ymlaen at glywed syniadau gan yr holl gyfrannwyr i'r ddadl hon y prynhawn yma.

Therefore, there is a great deal that could be done to tackle utility costs and also the outcomes of those costs. I look forward to hearing ideas from all contributors to this debate this afternoon.

16:24

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rwyf wedi dethol y pum gwelliant i'r cynnig. Galwaf ar William Powell i gynnig gwelliant 1, a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts.

I have selected the five amendments to the motion. I call on William Powell to move amendment 1, tabled in the name of Aled Roberts.

*Gwelliant 1—Aled Roberts*

*Amendment 1—Aled Roberts*

*Cynnwys pwynt 2 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:*

*Insert as new point 2 and renumber accordingly:*

*Yn nodi'r gronfa 'Cheaper Energy Together' a lansiwyd gan Adran Llywodraeth y DU ar Ynni a Newid Hinsawdd (DECC) i gefnogi newid cyflenwyr ar y cyd, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda DECC i hyrwyddo newid cyflenwyr ar y cyd ledled Cymru i leihau biliau defnyddwyr.*

*Notes the Cheaper Energy Together fund launched by the UK Government's Department of Energy and Climate Change (DECC) to support collective switching, and calls on the Welsh Government to work with DECC to promote collective switching across Wales to reduce consumer bills.*

16:24

## William Powell Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 1.

Cynigiaf welliant 1.

I am very pleased indeed to be taking part in this important debate today, and I am grateful to Plaid Cymru for bringing it forward. With winter upon us, this is a very timely debate and it is perhaps no coincidence that, just this morning, the Environment and Sustainability Committee had a very stimulating session with Alan Simpson, who described himself as 'a recovering politician'—a former Labour MP—but he brought some very valuable lessons that I think that we should learn in this regard. In recent years, it has been impossible not to notice the burden that falls on all of us in terms of our rising utility bills. Be they water, gas or electricity, they seem to be ever higher and they are placing an increasing burden on monthly expenses at a time when we are all still very much feeling the pinch. This is especially true—as Llyr Gruffydd has already referred to—in the rural communities of Wales, no more so than in my own region of Mid and West Wales, where the housing stock is often older, the properties larger, and the connection and transportation costs all the greater.

Rwy'n falch iawn o gymryd rhan yn y ddadl bwysig hon heddiw, ac rwy'n ddiolchgar i Blaid Cymru am ei chyflwyno. Gyda'r gaeaf ar ein gwarthaf, mae hon yn ddadl amserol iawn ac efallai nad yw'n gyd-ddigwyddiad fod y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd wedi cael sesiwn ddiddorol iawn y bore yma gan Alan Simpson, a ddisgrifiodd ei hun fel 'gwleidydd sy'n dod ato'i hun'—cyn-Aelod Seneddol Llafur—ond rhoddodd rai gwersi gwerthfawr iawn y credaf y dylem eu dysgu yn hyn o beth. Yn y blynyddoedd diwethaf, mae wedi bod yn amhosibl peidio â sylwi ar y baich ar bob un ohonom o ran y cynnydd yn ein biliau cyfleustodau. Boed yn ddŵr, nwy neu drydan, maent i'w gweld yn mynd yn uwch ac yn faich cynyddol ar gostau misol ar adeg pan ydym i gyd yn teimlo'r esgid yn gwasgu. Mae hyn yn arbennig o wir—fel y mae Llyr Gruffydd eisoes wedi sôn—yng nghymunedau gwledig Cymru, ac yn bendant felly yn fy rhanbarth i, sef Canolbarth a Gorllewin Cymru, lle mae'r stoc tai yn aml yn hŷn, yr eiddo'n fwy o faint a'r costau cysylltu a dosbarthu cymaint yn uwch.

Laying the blame wholly on Government, on the energy companies or, indeed, on the regulators alone is unfair. We must get past the simple blame game if we are to tackle the problem and ensure that families are lifted out of fuel poverty rather than driven further into it. That is why our solutions must be twofold. First, we must inform and empower citizens and consumers to take more control over the utilities and ensure that the system is more reflective of their needs. Secondly, we need to change our fuel and energy networks and indeed the whole infrastructure so that they become more resilient and less dependent upon increasingly scarce and expensive foreign and non-renewable sources, particularly at this time, when we face so many global challenges around security. Neither of these is easy nor can they be fully addressed by the Welsh Government alone. That is why our amendment seeks to focus on the need to work across Governments to bring a concerted approach to tackle the problem and to further empower communities and consumers.

Mae'n annheg gosod y bai yn gyfan gwbl ar y Llywodraeth, ar y cwmnïau ynni, neu'n wir, ar y rheoleiddwyr. Rhaid i ni roi'r gorau i ddim ond gweld bai os ydym am fynd i'r afael â'r broblem a sicrhau bod teuluoedd yn cael eu codi allan o dlodi tanwydd yn hytrach na'u gwthio ymhellach i mewn. Dyna pam y mae'n rhaid i'n hateb fod yn ddeublyg. Yn gyntaf, rhaid i ni hysbysu a grymuso dinasyddion a defnyddwyr i gymryd mwy o reolaeth dros y cyfleustodau a sicrhau bod y system yn adlewyrchu eu hanghenion yn well. Yn ail, mae angen i ni newid ein rhwydweithiau tanwydd ac ynni ac yn wir y seilwaith cyfan fel eu bod yn dod yn fwy gwydn ac yn llai dibynnol ar ffynonellau tramor ac anadnewyddadwy mwyfwy prin a drud, yn enwedig ar adeg fel hon, a ninnau'n wynebu cymaint o heriau byd-eang yn ymwneud â diogelwch. Nid yw'r un o'r rhain yn hawdd ac ni fydd Llywodraeth Cymru ar ei phen ei hun yn gallu mynd i'r afael â hwy'n llawn. Dyna pam y mae ein gwelliant yn ceisio canolbwyntio ar yr angen i weithio ar draws y Llywodraeth er mwyn cyflwyno dull ar y cyd o fynd i'r afael â'r broblem ac i rymuso cymunedau a defnyddwyr ymhellach.

The UK Government's Cheaper Energy Together fund allocated £5 million among local authorities in 2012 to encourage local collective purchasing and switching schemes to reduce overall consumer costs. Cyd Cymru—Wales Together is already doing similar work much closer to home, and it has been stated that thus far 1,500 people across Wales have been helped to switch to a cheaper energy tariff and, in doing so, have saved, on average, per household, over £180. Further to this, we have also seen the launch of the Welsh Government's Club Cosy pilot scheme in Ceredigion to the value of almost £60,000. Co-ordinated by Ymlaen Ceredigion, it will look at collective purchasing schemes for heating oil while also promoting local sustainability options. Such programmes act as a vital empowerment tool across Wales, and indeed the wider UK, and are especially important to the rural households that remain off-grid and, therefore, as I said earlier, face greater purchasing costs.

Dyrannodd cronfa Cheaper Energy Together Llywodraeth y DU £5 miliwn i awdurdodau lleol yn 2012 i annog prynu ar y cyd yn lleol a chynlluniau newid cyflenwyr i leihau costau cyffredinol i ddefnyddwyr. Mae Cyd Cymru—Wales Together eisoes yn gwneud gwaith tebyg yn llawer nes at adref, a dywedwyd bod 1,500 o bobl ledled Cymru hyd yma wedi cael cymorth i newid i dariff ynni rhatach a thrwy wneud hynny, wedi arbed, ar gyfartaledd, dros £180 y cartref. Yn ogystal â hyn, rydym hefyd wedi gweld lansio cynllun peilot Clwb Clyd Llywodraeth Cymru yng Ngheredigion sy'n werth bron i £60,000. Wedi'i gydlynu gan Ymlaen Ceredigion, bydd yn edrych ar gynlluniau prynu ar y cyd ar gyfer olew gwresogi a hefyd yn hyrwyddo dewisiadau cynaliadwy lleol. Mae rhaglenni o'r fath yn offer grymuso hanfodol ar draws Cymru, ac yn wir yn y DU yn ehangach, ac maent yn arbennig o bwysig i'r aelwydydd gwledig sy'n parhau i fod oddi ar y grid ac felly, fel y dywedais yn gynharach, yn wynebu costau prynu uwch.

The key thing about all of these programmes, and also the wider switch to ever cheaper renewable energy infrastructure, is that they offer long-term solutions, which will fundamentally change the way that we generate, buy and use our utilities. As I said before, this is not about quick fixes. That is why my party remains sceptical about the proposals that are coming forward ahead of the general election to implement a short-term energy price freeze. All that this will do, in our view, is to force sharp price rises both sides of the freeze, cut infrastructure spending, and potentially reduce the capacity of energy companies to respond to price fluctuations. This will do little in terms of the wider consumer experience in the long term. It also muddies the water between public and private. There are many in this Chamber and beyond who call for the taking of all utilities back into public ownership. There is a debate to be had and I look forward to taking my part in that debate. However, that is for another day and it will require a far greater change to be effective than a potentially damaging short-term freeze to grab headlines ahead of May.

Y peth allweddol am bob un o'r rhaglenni hyn, a hefyd y newid ehangach i seilwaith ynni adnewyddadwy rhatach fyth, yw eu bod yn cynnig atebion hirdymor a fydd yn newid yn sylfaenol y ffordd rydym yn cynhyrchu, yn prynu ac yn defnyddio ein cyfleustodau. Fel y dywedais o'r blaen, nid materion i'w datrys drwy atebion sydyn yw'r rhain. Dyna pam y mae fy mhlaid yn dal yn amheus ynglŷn â'r cynigion sy'n cael eu cyflwyno cyn yr etholiad cyffredinol i rewi prisiau ynni yn y tymor byr. Y cyfan y byddai hynny'n ei wneud, yn ein barn ni, fyddai gorfodi prisiau uchel cyn ac ar ôl y rhewi, torri gwariant ar seilwaith ac o bosibl, lleihau gallu'r cwmnïau ynni i ymateb i amrywiadau mewn prisiau. Ni wnaiff fawr ddim o ran profiad ehangach defnyddwyr yn y tymor hir. Mae hefyd yn creu aneglurder rhwng cyhoeddus a phreifat. Mae llawer yn y Siambr hon a thu hwnt sy'n galw am ddod â'r holl gyfleustodau yn ôl i berchnogaeth gyhoeddus. Mae dadl i'w chael ac edrychaf ymlaen at gymryd rhan yn y ddadl honno. Fodd bynnag, dadl ar gyfer rhywbryd eto yw hi ac i fod yn effeithiol, bydd angen llawer mwy o newid na rhewi tymor byr a allai fod yn niweidiol er mwyn gallu bachu'r penawdau blaen cyn mis Mai.

16:29

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Galwaf ar y Gweinidog Cyfoeth Naturiol i gynnig yn ffurfiol welliant 2, a gyflwynwyd yn enw Jane Hutt.

I call on the Minister for Natural Resources to formally move amendment 2, tabled in the name of Jane Hutt.

*Gwelliant 2—Jane Hutt*

*Amendment 2—Jane Hutt*

*Cynnwys pwynt 2 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:*

*Insert as new point 2 and renumber accordingly:*

*Yn galw ar Lywodraeth y DU i rewi prisiau ynni.*

*Calls on the UK Government to implement an energy price freeze.*

16:29

## Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol / The Minister for Natural Resources*

I move amendment 2.

16:29

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Galwaf ar Antoinette Sandbach i gynnig gwelliannau 3, 4 a 5, a gyflwynwyd yn enw Paul Davies.

I call on Antoinette Sandbach to move amendments 3, 4 and 5, tabled in the name of Paul Davies.

*Gwelliant 3—Paul Davies*

*Amendment 3—Paul Davies*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i edrych ar gostau cysylltiad â'r grid a'u heffaith ar filiau cyfleustodau, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.*

*Calls on the Welsh Government to look at grid connection costs and their impact on utility bills, particularly in rural areas.*

*Gwelliant 4—Paul Davies*

*Amendment 4—Paul Davies*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno sylwadau i'r Grid Cenedlaethol i sicrhau ei fod yn edrych ar Gymru yn ei chyfanrwydd wrth gyfrifo sut y mae trydan yn cael ei allforio pan gaiff cyfrifiadau prisio eu gwneud er mwyn sicrhau gwerth am arian i ddefnyddwyr.*

*Calls on the Welsh Government to make representations to the National Grid to ensure it looks at Wales as a whole when calculating how electricity is exported when pricing calculations are made to ensure value for money for consumers.*

*Gwelliant 5—Paul Davies*

*Amendment 5—Paul Davies*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ystyried pa mor agored i gynnydd mewn prisiau y mae cwsmeriaid nad ydynt ar y grid, lle mae opsiynau ar gyfer newid yn gyfyngedig, neu lle nad yw marchnadoedd yn cael eu rheoleiddio.*

*Calls on the Welsh Government to consider the vulnerability of 'off-grid' customers to price rises, where switching options are limited or where markets are unregulated.*

16:29

## Antoinette Sandbach Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I move amendments 3, 4 a 5.

Cynigiaf welliannau 3, 4 a 5.

I am very pleased to contribute to this debate today. These topics are ones that I have raised consistently over the last three years in the National Assembly. It is clear—and I am slightly surprised that Llyr Huws Gruffydd did not propose some more radical solutions to the energy issues that we are facing. As he will know, and as many others will know, from my period on the Environment and Sustainability Committee, the potential for anaerobic digestion in the rural areas of Wales is huge. It would not require the gas energy networks to build their mains supply from the coast inland, but it would allow a far more localised network to be created.

Rwy'n falch iawn o gyfrannu at y ddadl hon heddiw. Mae'r pynciau hyn yn rhai rwyf wedi'u codi'n gyson dros y tair blynedd diwethaf yn y Cynulliad Cenedlaethol. Mae'n glir—ac rwy'n synnu braidd na chynigiodd Llyr Huws Gruffydd atebion mwy radical i'r problemau ynni rydym yn eu hwynebu. Fel y bydd yn gwybod, ac fel y bydd llawer o bobl eraill yn gwybod ers fy nghyfnod ar y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, mae'r potensial ar gyfer treulio anaerobig yn ardaloedd gwledig Cymru yn enfawr. Ni fyddai gofyn i'r rhwydweithiau ynni nwy adeiladu eu prif gyflenwad o'r arfordir i mewn i'r tir, ond byddai'n caniatáu i rwydwaith llawer mwy lleol gael ei greu.

Minister, I know that you are listening intently to this debate, but one of the real problems we have in tackling the energy efficiency side of things is the fact that we have not had a proper survey of our Welsh housing stock. Only once that survey has been completed, and the real problem areas identified, can the issue of both fuel poverty and energy efficiency properly be tackled.

Weinidog, gwn eich bod yn gwrando'n astud ar y ddadl hon, ond un o'r problemau real sydd gennym wrth fynd i'r afael ag agweddau arbed ynni yw'r ffaith nad ydym wedi cael arolwg iawn o'n stoc tai yng Nghymru. Dim ond ar ôl cwblhau'r arolwg hwnnw a nodi'r meysydd problemus go iawn y gellir mynd i'r afael yn briodol â thlodi tanwydd ac arbed ynni.

You will have heard no doubt that the four representatives of the big six energy companies who came to us last week said to us, 'We would like to move into rural areas and we would like to do a wholesale programme in rural areas, so that we deal with every household there, rather than trying to pick and choose which households we are trying to make energy efficiency improvements to.' As we do not have that survey of Welsh housing stock, what that means is that we are not leveraging in our opportunities under ECO. We are not getting the solutions here in Wales that we could do if we could identify where the serious problems are and direct the energy companies to carry out their efficiency programmes in those areas. That, I would say, would be an important first step.

Mae'n siŵr y byddwch wedi clywed bod y pedwar cynrychiolydd o'r chwe chwmni ynni mawr a ddaeth atom yr wythnos diwethaf wedi dweud, 'Hoffem fynd i mewn i ardaloedd gwledig a hoffem drefnu rhaglen ar raddfa fawr mewn ardaloedd gwledig, fel ein bod yn delio â phob cartref yno, yn hytrach na cheisio dewis a dethol pa gartrefi yr hoffem wneud gwelliannau arbed ynni iddynt.' Gan nad oes gennym yr arolwg hwnnw o stoc tai Cymru, mae hynny'n golygu nad ydym yn manteisio ar ein cyfleoedd o ran ECO. Nid ydym yn cael yr atebion y gallem eu cael yma yng Nghymru pe baem yn gallu nodi lle mae'r problemau difrifol a chyfeirio'r cwmnïau ynni i gyflawni eu rhaglenni arbed ynni yn yr ardaloedd hynny. Byddwn yn dweud fod hwnnw'n gam cyntaf pwysig.

The second step, as you will see from my amendments, is to enable grid connection more easily and cheaply. This is one of the major barriers to taking up renewables, which would be very efficient for low-income householders because they could pay back through their bills, and it would not cost them any more. However, what it does mean is that they would be, in effect, buying the electricity cheaper than it would be if it was sold to them from the grid. There are lots of opportunities with renewables, particularly in relation to photovoltaic cells. The Green Deal has its problems. I accept that it has its problems and the UK Government has got some serious thinking to do to address the problems with the Green Deal. However, connection costs into our district network providers are an absolutely critical and key barrier to the take-up of small-scale renewables.

Yr ail gam, fel y gwelwch o fy ngwelliannau, yw sicrhau cysylltiad grid yn fwy rhwydd ac yn rhatach. Dyma un o'r prif rwystrau i ddefnyddio ynni adnewyddadwy a fyddai'n effeithlon iawn i ddeiliaid tai ar incwm isel am y gallent ad-dalu drwy eu biliau ac ni fyddai'n costio rhagor iddynt. Fodd bynnag, yr hyn y mae'n ei olygu yw y byddent, i bob pwrpas, yn prynu'r trydan yn rhatach na phe bai'n cael ei werthu iddynt o'r grid. Mae llawer o gyfleoedd i'w cael o ran ynni adnewyddadwy, yn enwedig mewn perthynas â chelloedd ffotofoltäig. Mae gan y Fargen Werdd ei phroblemau. Rwy'n derbyn bod ganddi ei phroblemau ac mae angen i Lywodraeth y DU feddwl o ddifrif er mwyn mynd i'r afael â phroblemau'r Fargen Werdd. Fodd bynnag, mae costau cysylltu â'n darparwyr rhwydwaith ardal yn hollbwysig ac yn rhwystr cwbl allweddol o ran y nifer sy'n defnyddio ynni adnewyddadwy ar raddfa fach.

Like William Powell, I was really enthused by the briefing that we had today to the Environment and Sustainability Committee, because what it showed was that, in Germany, they are getting round the requirements to build big power stations by looking at small-scale district distribution, where householders are, in effect, feeding into the grid through smart grids. We need to be looking at those solutions, because with the size of our population, we do have an opportunity to do this here in Wales, and we are not making the most of that opportunity.

Fel William Powell, roedd y cyflwyniad a gawsom heddiw i'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd yn ddiddorol iawn, gan ei fod yn dangos fod yr Almaen yn ymdopi â gofynion i adeiladu gorsafoedd ynni mawr drwy edrych ar ddosbarthu i ardaloedd bach, lle mae deiliaid tai, i bob pwrpas, yn cyflenwi trydan i'r grid drwy gridiau clyfar. Mae angen i ni edrych ar yr atebion hynny, oherwydd gyda maint ein poblogaeth, mae cyfle i ni ei wneud yma yng Nghymru ac nid ydym yn gwneud y gorau o'r cyfle hwnnw.

Some of these issues, particularly around feed-in tariffs, are UK Government issues and are not devolved. Do not worry, Minister, I will direct my attention that way for the improvements that I think need to be made. However, it is clear that you could look at, for example, some of the examples that we were given, like the KfW bank, which is providing very cheap loans to householders, at 1%, allowing them to choose and make the improvements that they need to do to their homes. That system has led to an enormous amount of home improvements in housing stock that would otherwise not have received those improvements and that energy efficiency.

Mae rhai o'r materion hyn, yn enwedig tariffau cyflenwi trydan, yn faterion i Lywodraeth y DU ac nid ydynt wedi'u datganoli. Peidiwch â phoeni, Weinidog, byddaf yn cyfeirio fy sylw at y fan honno ar gyfer y gwelliannau sydd angen eu gwneud yn fy marn i. Fodd bynnag, mae'n amlwg y gallech edrych ar rai o'r enghreifftiau a roddwyd i ni, megis y banc KfW, sy'n darparu benthyciadau rhad iawn i ddeiliaid tai, ar 1%, sy'n eu caniatáu i ddewis a gwneud y gwelliannau angenrheidiol i'w cartrefi. Mae'r system honno wedi arwain at lawer iawn o welliannau i gartrefi yn y stoc tai na fyddai wedi cael eu gwella ac na fyddai'n arbed ynni yn y fath fodd fel arall.

I know that Mark Isherwood is going to deal with the fuel poverty side of matters, so I will not be dealing with that in my contribution, you will be pleased to hear. However, I do agree with the points raised by Llyr Huws Gruffydd about being off-grid, and you will see that that is why we tabled our amendment 5 about the particular vulnerability of off-grid customers, particularly in terms of electricity price rises, when they do not have the opportunity to switch and where the other markets, such as oil and gas, are largely unregulated. I do hope the Welsh Government will be supporting our amendment.

Gwn fod Mark Isherwood yn mynd i ymdrin â thlodi tanwydd, felly ni fyddaf yn ymdrin â hynny yn fy nghyfraniad, byddwch yn falch o glywed. Fodd bynnag, rwy'n cytuno â'r pwyntiau a godwyd gan Llyr Huws Gruffydd am fod oddi ar y grid, a byddwch yn gweld mai dyna pam y cyflwynasom ein gwelliant 5 am beryglon penodol cwsmeriaid oddi ar y grid, yn enwedig o ran y cynnydd ym mhrisiau trydan, pan nad ydynt yn cael cyfle i newid cyflenwr a lle nad yw marchnadoedd eraill, megis olew a nwy, yn cael eu rheoleiddio fawr ddim. Rwy'n gobeithio y bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi ein gwelliant.

16:34

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Galwaf Rhun ap Iorwerth.

Galwaf ar Rhun ap Iorwerth.

16:34

## Rhun ap Iorwerth Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Ddirprwy Lywydd, am y cyfle i siarad. Byddaf yn gwneud hynny o safbwynt effaith costau ynni uchel ar ddefnyddwyr cyffredin, ac ar allu busnesau yng Nghymru i fuddsoddi i dyfu. Mae data gan Lais Defnyddwyr Cymru, sef data defnyddwyr, cyn iddo ddod yn rhan o Gyngor ar Bopeth, yn dangos bod cost trydan yng Nghymru, yn enwedig yn ne Cymru fel mae'n digwydd, yn uwch nag yn y rhan fwyaf o rannau eraill o Brydain. Mae bil trydan ar gyfartaledd i gwsmer domestig yn ne Cymru ar dariff credyd cyffredin yn £467 y flwyddyn, £455 yn y gogledd, a £461 i Gymru gyfan. Y ffigurau ar gyfer yr Alban a Lloegr yw £455 a £439. Mae pris trydan, mae'n werth nodi, yn cael ei ddylanwadu, fel pob marchnad arall, gan bwerau 'supply and demand'. Ond, er bod Cymru'n cynhyrchu mwy o drydan nac yr ydym yn ei ddefnyddio, nid yw hynny'n cael ei adlewyrchu yn y pris rydym yn ei dalu am ein trydan.

Thank you, Deputy Presiding Officer, for the opportunity to speak. I will be doing so from the perspective of the impact of high energy costs on normal users, and on the ability of business in Wales to invest in order to grow. The data from Consumer Focus Wales, which is consumer data, before it became a part of Citizens Advice, shows that electricity costs in Wales, particularly in south Wales as it so happens, is higher than in most other parts of Britain. The average electricity bill for a domestic customer on the normal credit tariff in south Wales is £467 a year, while it is £455 in north Wales and £461 for the whole of Wales. The figures for Scotland and England are £455 and £439 respectively. It is worth noting that the price of electricity is influenced, as is the case in every other market, by supply and demand. However, even though Wales produces more electricity than is used here, that is not reflected in the price that we pay for electricity.

Yr hyn sy'n fwy trawiadol am y ffigurau a'r gost yw bod y dull o dalu yn gwneud gwahaniaeth mawr i gost y trydan. Cofiwch y ffigurau y soniais amdanynt funud yn ôl: y bil ar gyfartaledd i Gymru yw £461 ar dariff cyffredin. Ond, os trefnwch chi eich ynni a thalu ar-lein drwy ddebyd uniongyrchol, mae biliau i ddefnyddwyr domestig yng Nghymru yn £360. Mae hynny'n cymharu â £350 yn yr Alban a £333 yn Lloegr. Felly, tra bo'r gwahaniaeth ym mhris y trydan ei hun yn gwneud gwahaniaeth i filiau, mae'r ffigur uwch hwn, sef £100 yn uwch y flwyddyn, dim ond oherwydd y dull o dalu, yn ffactor llawer iawn mwy mewn tlodi tanwydd yng Nghymru—yn enwedig pan rydych yn ystyried bod y £100 yn llawer mwy tebygol o gael ei basio ymlaen i bobl sy'n gallu ei fforddio leiaf.

What is more striking about the figures and the cost of electricity is that the method of payment makes a huge difference. To refer to the figures I mentioned earlier, the average bill in Wales is £461 on a normal tariff. However, if you arrange your energy and pay online, bills for domestic customers in Wales are £360, compared with £350 in Scotland and £333 in England. Therefore, while the difference in the price of electricity itself does make a difference to bills, the higher figure, which is £100 higher per year purely as a result of the method of payment, is a far bigger factor in fuel poverty in Wales—particularly when you consider that the £100 is more likely to be passed on to people who can least afford it.

Mae'r ffigurau hyn yn tanlinellu'r problemau systemig yn y math o farchnad rydym wedi ei chael gan y naill Lywodraeth ar ôl y llall yn San Steffan, sydd wedi anghofio am les y bobl gyffredin hynny y maen nhw fod i'w gwasanaethu, a chaniatáu i rywbeth tebyg iawn i fonopolïau ddatblygu a chymylu unrhyw syniad o farchnad go iawn.

These figures underline the systemic problems in the kind of market that we have inherited from successive Westminster Governments, who seem to have forgotten about the wellbeing of the ordinary people they are supposed to serve by allowing something akin to monopolies to develop, thereby clouding any idea of a proper market.

16:37 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will you take an intervention on that point?

A wnewch chi dderbyn ymyriad ar y pwynt hwnnw?

16:37 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Certainly.

Yn sicr.

16:37 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Can you tell me what the One Wales Government did to address this issue, because it is around how National Grid calculates how we export our electricity east-west?

A allwch chi ddweud wrthyf beth a wnaeth Llywodraeth Cymru'n Un i fynd i'r afael â'r mater hwn, gan ei fod yn ymwneud â sut y mae'r Grid Cenedlaethol yn cyfrifo sut rydym yn allforio ein trydan o'r dwyrain i'r gorllewin?

16:37 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Shall we look at how we can break the monopoly at the moment, which is denying people any semblance of real choice? Even though the Conservative Government or Conservative ideology seems to suggest that just shifting from one monopoly to another somehow solves the problem, you know full well that it does not.

A gawn ni edrych ar sut y gallwn dorri'r monopoli ar hyn o bryd, sy'n amddifadu pobl rhag unrhyw arlliw o ddewis go iawn? Er bod y Llywodraeth Geidwadol neu ideoleg y Ceidwadwyr i'w gweld fel pe bai'n awgrymu fod dim ond symud o un monopoli i'r llall yn datrys y broblem rywsut, gwyddoch yn iawn nad yw'n gwneud hynny.

Yn erbyn y gefnlen honno rydym yn gweld yr angen i newid y ffordd rydym yn ymwneud â pholisi ynni yng Nghymru; newid y ffordd o gynhyrchu, dod â mwy o berchnogaeth gyhoeddus a chymunedol i ynni, edrych eto ar sut rydym yn dosbarthu ynni. Mae hynny i gyd yn codi cwestiynau am y ffyrdd rydym yn rheoleiddio ynni yng Nghymru ac ym Mhrydain ar hyn o bryd.

It is against that backdrop that we see the need to change the way we deal with energy policy in Wales; to change the means of production, to introduce more public and community ownership of energy, to look again at how we distribute energy. All that raises questions about the way we currently regulate energy in Wales and in Britain.

I droi at fusnesau, mae costau gweithredu neu 'overheads' busnes yn gwbl hanfodol pan maen nhw'n gwneud penderfyniadau ynglŷn â sefydlu, lleoli neu adleoli. Wrth i gostau ynni gynyddu, mae'n cael effaith uniongyrchol ar 'overheads' cwmni. Y mwyaf o ynni mae cwmni yn ei ddefnyddio, y mwyaf yw'r ystyriaeth ynglŷn â'r dyfodol. Rydym wedi gweld beth gall effaith hynny fod yn ddiweddar.

Turning to businesses, operating costs or overheads are a vital consideration when businesses make decisions on establishing, locating or relocating. As energy costs rise, they have a direct impact on a company's overheads. The more energy a company uses, the greater the consideration about the future. We have recently seen what effect that can have.

Only in July, the head of Tata Steel said that 400 jobs were going from the Port Talbot site. One factor cited by the company chief executives in relation to that was the uncompetitive energy costs that the company is facing. On a different scale, thousands of companies the length and breadth of Wales are facing similar issues with rising energy costs.

Mor ddiweddar â mis Gorffennaf, dywedodd pennaeth Tata Steel fod 400 o swyddi yn cael eu colli o safle Port Talbot. Un ffactor a nodwyd gan brif weithredwyr y cwmni mewn perthynas â hynny oedd y costau ynni anghystadleuol y mae'r cwmni yn eu hwynebu. Ar raddfa wahanol, mae miloedd o gwmnïau ar hyd a lled Cymru yn wynebu problemau tebyg gyda chostau ynni cynyddol.

Let us look for answers. Plaid Cymru, as you well know, has long talked about having a publicly owned energy company—not for dividend, which is different to not for profit—reinvesting profits made in our energy infrastructure in Wales and subsiding bills for the poorest in society and for Welsh businesses that want to grow. That is one way forward. Labour wants to freeze energy bills; that has been rubbished by pretty much everybody. The Conservatives, as I said, just want people to switch providers. We need a new approach to energy policy and we must put at the core of that energy policy for Wales the people who use that energy, making sure that families are not given a raw deal and that businesses are offered fair prices to allow them to invest.

Gadewch i ni chwilio am atebion. Mae Plaid Cymru, fel y gwyddoch yn dda, wedi bod yn sôn ers amser am gael cwmni ynni sy'n eiddo cyhoeddus-di-ddifidend, sy'n wahanol i ddielw-gan ail-fuddsoddi elw a wneir yn ein seilwaith ynni yng Nghymru a rhoi cymorthdaliadau tuag at filiau'r bobl dlotaf mewn cymdeithas ac i fusnesau yng Nghymru sydd eisiau tyfu. Dyna un ffordd ymlaen. Mae Llafur yn awyddus i rewi biliau ynni; cafodd hynny ei wfftio gan bawb fwy neu lai. Eisiau i bobl newid cyflenwyr y mae'r Ceidwadwyr, fel y dywedais, a dim mwy na hynny. Mae angen i ni gael agwedd newydd tuag at y polisi ynni a rhaid i ni roi'r bobl sy'n defnyddio'r ynni wrth wraidd polisi ynni Cymru, gan wneud yn siŵr nad yw teuluoedd yn cael bargen wag, a bod busnesau'n cael cynnig prisiau teg i'w galluogi i fuddsoddi .

16:40 **David Rees** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I welcome Plaid Cymru's debate this afternoon on the impact of high utility costs, especially energy costs, on the cost of living, particularly for families on low incomes. While I recognise the importance that Plaid Cymru has placed on rural communities in this motion, I wish to stress that families in many Valleys and urban communities, including those in my constituency—I think that Llyr Gruffydd did acknowledge that the percentage is outside rural areas—also experience such difficulties as they face decisions as to which bills they will pay this week. Additionally, Valleys communities are also unable to benefit from a wide range of products, as in the rural areas; sometimes, there are restrictions on the types of energy product that they can have because of the grid issues, which do not affect just rural areas, but Valleys areas too.

Rwy'n croesawu dadl Plaid Cymru y prynhawn yma ar effaith costau cyfleustodau uchel, yn enwedig costau ynni, ar gostau byw, i deuluoedd ar incwm isel yn benodol. Er fy mod yn cydnabod y pwyslais y mae Plaid Cymru wedi'i roi ar gymunedau gwledig yn y cynnig hwn, hoffwn bwysleisio bod teuluoedd mewn nifer o'r Cymoedd a chymunedau trefol, gan gynnwys y rhai yn fy etholaeth i—rwy'n meddwl bod Llyr Gruffydd wedi cydnabod bod y ganran y tu allan i ardaloedd gwledig—hefyd yn profi anawsterau o'r fath wrth iddynt wynebu penderfyniadau ynglŷn â pha filiau i'w talu yr wythnos hon. Yn ogystal, mae cymunedau'r Cymoedd hefyd yn methu ag elwa ar ystod eang o gynhyrchion, fel yn yr ardaloedd gwledig; weithiau, mae cyfyngiadau ar y mathau o gynnyrch ynni y gallant eu cael oherwydd materion yn ymwneud â'r grid, sy'n effeithio ar ardaloedd fel y Cymoedd hefyd, nid ardaloedd gwledig yn unig.

It is clear, Minister, that there is an effect on the cost of living crisis that exists across the UK as we see energy bills soar—something that the Labour Party has highlighted in recent years and something that will be addressed if we see a Labour Government in Westminster after the elections in 2015. Even though Rhun ap Iorwerth said that it has been rubbished, the people who will benefit from an energy-bill freeze will not rubbish that promise.

Mae'n amlwg, Weinidog, fod effaith ar yr argyfwng costau byw ar draws y DU wrth i ni weld biliau ynni'n codi i'r entrychion—rhywbeth y mae'r Blaid Lafur wedi tynnu sylw ato yn y blynyddoedd diwethaf a rhywbeth a fydd yn cael sylw os gwelwn Lywodraeth Lafur yn San Steffan ar ôl etholiad 2015. Er bod Rhun ap Iorwerth wedi dweud ei fod wedi cael ei wfftio, ni fydd y bobl a fydd yn elwa o rewi biliau ynni yn wfftio'r addewid hwnnw.

At present, the legislative levers for controlling energy prices are with Westminster, but it is important to record that the Welsh Labour Government has contributed to the Ofgem consultations on reform of the retail energy market, and has welcomed proposals to reduce the number of energy tariffs to make it easier for consumers to choose the best tariff for them and enhance competition in the market.

Ar hyn o bryd, gan San Steffan y mae'r ysgogiadau deddfwriaethol ar gyfer rheoli prisiau ynni, ond mae'n bwysig cofnodi bod Llywodraeth Lafur Cymru wedi cyfrannu at ymgynghoriad Ofgem ar ddiwygio'r farchnad manwerthu ynni, ac wedi croesawu argymhellion i leihau nifer y tariffau ynni i'w gwneud yn haws i ddefnyddwyr ddewis y tariff gorau iddynt hwy a gwella cystadleuaeth yn y farchnad.

The continual upward trend in energy prices means that we must do all that we can to help householders on the lowest incomes and those who live in the most energy-inefficient homes. I believe that the Welsh Government is targeting this through the Nest and Arbed schemes, which is important as approximately a third of our housing stock is pre-1919, which clearly has an impact on the energy efficiency of those properties.

Mae'r duedd barhaus ar i fyny mewn prisiau ynni yn golygu bod yn rhaid i ni wneud popeth a allwn i helpu aelwydydd ar yr incwm isaf a'r rhai sy'n byw yn y cartrefi mwyaf aneffeithlon o ran y defnydd o ynni. Credaf fod Llywodraeth Cymru yn targedu hyn drwy gynlluniau Nyth ac Arbed, sy'n bwysig gan fod tua thraean o'n stoc tai wedi'i adeiladu cyn 1919, sy'n amlwg yn cael effaith ar allu'r eiddo hynny i arbed ynni.

However, we need to look at other approaches to help to reduce those costs. I wish to focus my remaining contribution on the Liberal Democrats' amendment, which highlights the community collective purchasing schemes that can be developed. Referring to the Tory-led UK Government's Cheaper Energy Together fund in its amendment to the motion, when no funding was actually given to any Welsh project, reflects poorly on the Liberal Democrats; in fact, it is the Welsh Labour Government that has helped to deliver collective schemes in Wales through the support for the Cyd Cymru/Wales Together initiative.

Fodd bynnag, mae angen i ni edrych ar ddulliau eraill o helpu i leihau'r costau hynny. Hoffwn ganolbwyntio gweddill fy nghyfraniad ar welliant y Democratiaid Rhyddfrydol, sy'n tynnu sylw at y cynlluniau prynu cymunedol ar y cyd y gellir eu datblygu. Mae cyfeirio at gronfa Cheaper Energy Together Llywodraeth y DU dan arweiniad y Toriaid yn ei welliant i'r cynnig, pan na roddwyd unrhyw gyllid i unrhyw brosiect yng Nghymru mewn gwirionedd, yn adlewyrchu'n wael ar y Democratiaid Rhyddfrydol; yn wir, Llywodraeth Lafur Cymru sydd wedi helpu i gyflwyno cynlluniau ar y cyd yng Nghymru drwy gyfrwng y gefnogaeth i gynllun Cyd Cymru/Wales Together.

As William Powell indicated in his speech, collective switching is effectively bulk-buying products in order to get a better price. The larger the number of households getting involved, the more attractive a group of customers is likely to be to energy suppliers. I know that Llyr Huws Gruffydd said that switching is not the answer, but it is one possible example of help that can be offered if we can get larger numbers involved.

Fel y nododd William Powell yn ei araith, mae newid cyflenwyr ar y cyd i bob pwrpas yn gyfystyr â swmp-brynu nwyddau er mwyn cael pris gwell. Po fwyaf o aelwydydd sy'n cymryd rhan, y mwyaf deniadol y mae grŵp o gwsmeriaid yn debygol o fod i gyflenwyr ynni. Gwn fod Llyr Huws Gruffydd wedi dweud nad newid cyflenwyr yw'r ateb, ond mae'n un enghraifft bosibl o help y gellir ei gynnig os gallwn gael niferoedd mwy o bobl i wneud hynny.

It can be seen that many schemes across the UK have taken that up, but the take-up by people who express interest in those schemes is low, and that is a concern. We must, therefore, make the schemes more attractive. Last year, the Cyd Cymru scheme helped over 1,500 people save between £87 and £239 a year on their energy bills. I want to see this number grow. It is still a low percentage; in the first year, approximately 16% of people who expressed an interest made the switch. Sometimes, we find that people who switch are not necessarily the ones who cannot afford the bills; they can afford the bills, usually, but it is the people who are on low incomes who are in trouble.

Gellir gweld bod llawer o gynlluniau ar draws y DU wedi mabwysiadu hynny, ond ymhlith y bobl sy'n mynegi diddordeb yn y cynlluniau hyn, mae'r nifer sy'n newid cyflenwyr yn isel, ac mae hynny'n peri pryder. Rhaid i ni wneud y cynlluniau'n fwy deniadol felly. Y llynedd, helpodd cynllun Cyd Cymru dros 1,500 o bobl i arbed rhwng £87 a £239 y flwyddyn ar eu biliau ynni. Rwyf am weld y nifer hwn yn tyfu. Mae'n dal i fod yn ganran isel; yn y flwyddyn gyntaf, newidiodd tua 16% o'r bobl a fynegodd ddiddordeb eu cyflenwr. Weithiau, gwelwn nad y bobl sy'n newid cyflenwr o reidrwydd yw'r rhai nad ydynt yn gallu fforddio'r biliau; gallant fforddio'r biliau, fel arfer, ond y bobl sydd ar incwm isel sy'n cael trafferth.

We need to look at how we can help to expand Cyd Cymru. One way is to include credit unions as a partner in the process, so that we can not only negotiate a tariff that is suitable for families but we can put social clauses into any agreement with an energy supplier. The introduction of credit unions as partners can become critical if a scheme wants to include more families on low incomes and those who have financial difficulties that result in debt, because people in debt are, sometimes, excluded from being able to transfer to different schemes.

Mae angen i ni edrych ar sut y gallwn helpu i ehangu Cyd Cymru. Un ffordd yw cynnwys undebau credyd fel partner yn y broses, fel y gallwn gynnwys cymalau cymdeithasol mewn cytundeb gyda chyflenwr ynni yn ogystal â thrafod tariff sy'n addas ar gyfer teuluoedd. Gall cyflwyno undebau credyd fel partneriaid fod yn hanfodol os yw cynllun yn awyddus i gynnwys mwy o deuluoedd ar incwm isel a phobl ag anawsterau ariannol sy'n arwain at ddyled, gan fod pobl sydd mewn dyled weithiau'n cael eu heithrio rhag gallu trosglwyddo i gynlluniau gwahanol.

We need to help people off pre-paid metering tariffs, if they wish to move off them, and transfer to quarterly billing. Anyone with a debt of £500 or above is not allowed to transfer, so could credit unions come in to take some of that debt off people and help them with loans so that they can become part of a scheme and get involved in that process? I think that that is one way in which we need to be going forward. In fact, staff in my office have been working with Neath Port Talbot Credit Union and NPT Homes, and they have had discussions with Cyd Cymru operators to that end.

Mae angen i ni helpu pobl i adael tariffau mesuryddion rhagdaledig os ydynt yn dymuno, a newid i filiau chwarterol. Nid oes neb sydd â dyled o £500 neu fwy yn cael trosglwyddo, felly a allai undebau credyd ddod i mewn i gymryd rhywfaint o'r ddyled oddi ar bobl a'u helpu gyda benthyciadau er mwyn eu cynnwys mewn cynllun a chymryd rhan yn y broses honno? Credaf fod hynny'n un ffordd o symud ymlaen. Yn wir, mae staff fy swyddfa wedi bod yn gweithio gydag Undeb Credyd Castell-nedd Port Talbot ac NPT Homes, ac maent wedi cael trafodaethau gyda gweithwyr Cyd Cymru i'r perwyl hwnnw.

In relation to collective schemes for oil and gas products that are moved by tanker, there is an issue. The Cornwall Together scheme actually found that there was a problem, because the suppliers did not want to supply more than 20 in a collective because the tankers carried only a certain amount and therefore they wanted to send only one tanker out on a particular scheme. So, there are some issues that we need to look at when we have products that are delivered not through the grid but by physical means, such as tankers. We need to address that system.

Mae yna broblem gyda chynlluniau ar y cyd ar gyfer cynhyrchion olew a nwy sy'n cael eu cludo mewn tanceri. Gwelodd cynllun Cornwall Together fod yna broblem gan nad oedd y cyflenwyr yn awyddus i gyflenwi i fwy nag 20 ar y cyd am mai dim ond hyn a hyn oedd y tanceri'n ei gario ac felly nid oeddent yn awyddus i anfon mwy nag un tancer allan ar gynllun penodol. Felly, mae rhai materion y mae angen i ni edrych arnynt pan fydd gennym gynhyrchion sy'n cael eu darparu drwy ddulliau ffisegol, fel tanceri, yn hytrach na thrwy'r grid. Mae angen i ni fynd i'r afael â'r system honno.

16:45 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Finish now.

Gorffennwch yn awr.

16:45 **David Rees** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

In conclusion, therefore, Deputy Presiding Officer, we need to tackle fuel poverty in Welsh households. We are moving forward with it and I support a more innovative approach to collective purchasing through those schemes.

I gloi felly, Ddirprwy Lywydd, mae angen i ni fynd i'r afael â thlodi tanwydd yng nghartrefi Cymru. Rydym yn symud ymlaen â'r peth ac rwy'n cefnogi dull mwy arloesol o brynu ar y cyd drwy gynlluniau o'r fath.

16:45 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I want to focus my comments on the health effects of fuel costs. I think that we would all accept here that health spending alone does not determine the health of a nation, and fuel poverty, in fact, is a major public health issue and one that we must tackle effectively in order to take a joined-up, holistic approach to improving the health of the people of Wales.

Rwyf am ganolbwyntio fy sylwadau ar effeithiau iechyd costau tanwydd. Credaf y byddem i gyd yn derbyn yma nad gwariant iechyd ar ei ben ei hun sy'n pennu iechyd cenedl, ac mae tlodi tanwydd, mewn gwirionedd, yn fater iechyd cyhoeddus o bwys ac yn un sy'n rhaid i ni fynd i'r afael ag ef yn effeithiol er mwyn sicrhau bod gennym ddull cydgysylltiedig a holistaidd o wella iechyd pobl Cymru.

With the costs of utilities soaring, and more and more people living in fuel poverty, there are two ways in which rising fuel costs are having a serious impact on health: first, by contributing to an existing problem with the quality of housing, particularly in the private rented sector, where poor conditions are all too common, and, secondly, by forcing people to choose between paying their energy bills and other essentials. So, fuel poverty adds to problems like poor diet.

Gyda chostau cyfleustodau yn codi i'r entrychion, a mwy a mwy o bobl yn byw mewn tlodi tanwydd, mae costau tanwydd cynyddol yn cael effaith ddifrifol ar iechyd mewn dwy ffordd: yn gyntaf, mae'n cyfrannu at broblem sy'n bodoli eisoes mewn perthynas ag ansawdd y tai, yn enwedig yn y sector rhentu preifat, lle mae adeiladau mewn cyflwr gwael yn rhy gyffredin, ac yn ail, drwy orfodi pobl i ddewis rhwng talu eu biliau ynni a hanfodion eraill. Felly, mae tlodi tanwydd yn ychwanegu at broblemau megis deiet gwael.

When a property falls below a decent standard, people's health and wellbeing suffer and poor quality housing right across the country is a serious problem. Damp, condensation, poor insulation and cold are all-too-common problems within our housing stock. Children who live in houses that are poorly heated and damp are more than twice as likely to suffer from chest and breathing problems like asthma and bronchitis, and these problems are likely to persist well into adulthood. This is why it is so worrying that almost a third of parents on low incomes told Save the Children recently that they will not be able to afford their winter energy bills this year, even if they cut back on other essentials. Over half of parents are worried that their children's health will suffer because their house is too cold.

Pan fydd eiddo'n disgyn yn is na safon weddus, mae iechyd a lles pobl yn dioddef ac mae tai o ansawdd gwael ar draws y wlad yn broblem ddifrifol. Mae lleithder, anwedd, inswleiddio gwael ac oerfel yn broblemau llawer rhy gyffredin yn ein stoc dai. Mae plant sy'n byw mewn tai llaith nad ydynt yn cael eu gwresogi'n iawn dros ddwywaith yn fwy tebygol o ddioddef o broblemau'r frest ac anadlu fel asthma a broncitis, ac mae'r problemau hyn yn debygol o barhau ymhell wedi iddynt dyfu'n oedolion. Dyma pam y mae'n gymaint o achos pryder fod bron i draean o rieni ar incwm isel wedi dweud wrth Achub y Plant yn ddiweddar na fyddant yn gallu fforddio eu biliau ynni yn ystod y gaeaf eleni, hyd yn oed os ydynt yn torri'n ôl ar hanfodion eraill. Mae dros hanner y rhieni'n poeni y bydd iechyd eu plant yn dioddef oherwydd bod eu cartref yn rhy oer.

Fuel poverty is making living conditions in Wales worse as families find that they are unable to afford to keep their homes warm, but, for some, turning the heating down is not enough to be able to afford to pay those bills. The same Save the Children survey found that almost half of parents said that they are considering cutting back on food in order to pay their energy bills this year. Spending less on food can leave families struggling to have a healthy diet, risking ill health, obesity and malnutrition. A poor diet can cause a number of serious illnesses, including diabetes and some cancers. Now, with the NHS creaking under the weight of increases in these conditions, failing to take preventative action, I think, is short-sighted. Cuts in the activity of Nest, the Government's scheme to upgrade private housing, are therefore worrying. Funding the installation of insulation in homes is an excellent way of improving living conditions and cutting utility bills, but financial pressures have left Nest focusing only on the poorest households. That misses those households where there is in-work poverty and poor housing, and in-work poverty and poor housing form a dangerous combination. So, increases to the health budget are very welcome, but, unless we take a broader approach to improving health and start to understand that health and wellbeing are affected by more than just health service spending, we are taking too much of a short-term approach, and we must begin to understand that fuel poverty is a public health issue.

Mae tlodi tanwydd yn gwneud amodau byw yng Nghymru yn waeth wrth i deuluoedd sylweddoli nad ydynt yn gallu fforddio cadw eu cartrefi'n gynnes, ond i rai, nid yw troi'r gwres i lawr yn ddigon i allu fforddio talu'r biliau hynny. Gwelodd yr un arolwg gan Achub y Plant fod bron i hanner y rhieni yn dweud eu bod yn ystyried torri'n ôl ar fwyd er mwyn talu eu biliau ynni eleni. Gall gwario llai ar fwyd olygu bod teuluoedd yn ei chael yn anodd bwyta deiet iach, gan greu risg o afiechyd, gordewdra a diffyg maeth. Gall deiet gwael achosi nifer o afiechydon difrifol, yn cynnwys diabetes a rhai mathau o ganser. Yn awr, gyda'r GIG yn gwichian dan bwysau'r cynnydd yn y cyflyrau hyn, mae methu â rhoi camau ataliol ar waith yn annoeth yn fy marn i. Mae toriadau yng ngweithgaredd Nyth, cynllun y Llywodraeth i uwchraddio tai preifat, yn destun pryder felly. Mae cyllido'r gwaith o inswleiddio cartrefi yn ffordd wych o wella amodau byw a thorri biliau cyfleustodau, ond mae pwysau ariannol wedi golygu mai dim ond ar y cartrefi tlotaf yn unig y mae Nyth yn canolbwyntio. Mae hynny'n colli'r cartrefi hynny lle ceir tlodi mewn gwaith a thai gwael, ac mae tlodi mewn gwaith a thai gwael yn gyfuniad peryglus. Felly, mae cynnydd yn y gyllideb iechyd i'w groesawu, ond oni bai ein bod yn mabwysiadu ymagwedd ehangach at wella iechyd a dechrau deall bod mwy na gwariant ar y gwasanaeth iechyd yn unig yn effeithio ar iechyd a lles, mae ein dull o weithredu yn rhy fyrdymor, a rhaid i ni ddechrau deall bod tlodi tanwydd yn fater iechyd y cyhoedd.

16:48

## Mick Antoniw Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I agree with many of the speeches today that have dealt with the whole issue of collective purchasing and also raise a whole series of issues, particularly some of those that were raised, interestingly, by Alan Simpson today in the Environment and Sustainability Committee. I think there is a strong, common, cross-party view in terms of the whole concept of mutual or common ownership of the supply of energy and the need for there to be very significant change. I do not intend, therefore, to go through all of those areas that have been discussed and raised today.

Rwy'n cytuno â llawer o'r areithiau heddiw sydd wedi delio â holl fater prynu ar y cyd ac sydd hefyd yn codi cyfres o faterion, yn enwedig y rhai a godwyd, yn ddiddorol, gan Alan Simpson heddiw yn y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd. Rwy'n credu bod barn gyffredin drawsbleidiol gref o ran yr holl gysyniad o berchnogaeth gydfuddiannol neu gyffredin ar y cyflenwad ynni a'r angen am newid sylweddol iawn. Felly, nid wyf yn bwriadu mynd drwy bob un o'r meysydd sydd wedi cael eu trafod a'u codi heddiw.

With regard to the comments that Rhun made, well, of course, I agreed very much with a lot of what you said until you came to the point where you suddenly opposed the whole concept of a price freeze, because, when we talk about the most immediate issues in terms of energy prices and the way in which they are affecting individuals, you said that the whole issue had been rubbished. Well, I do not think that it has been rubbished.

O ran y sylwadau a wnaeth Rhun, wel wrth gwrs, roeddwn yn cytuno'n fawr iawn gyda llawer o'r hyn a ddywedasoch nes i chi ddod at y pwynt lle roeddech chi'n sydyn yn gwrthwynebu'r holl gysyniad o rewi prisiau, oherwydd pan soniwn am y materion mwyaf uniongyrchol o ran prisiau ynni a'r modd y maent yn effeithio ar unigolion, dywedasoch fod yr holl fater wedi cael ei wfftio. Wel, nid wyf yn credu ei fod wedi cael ei wfftio.

16:49 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Just to clarify, if an energy freeze was the best that we could do, well, why not? However, I do not think that that is the best that we can do; I think that we can go further in bringing prices down. Also, there is a very real fear that what the energy companies would do would be to put up prices in advance, which would cancel out any freeze in the long term.

Hoffwn egluro hyn: os mai rhewi prisiau ynni yw'r gorau y gallem ei wneud, yna pam ddim? Fodd bynnag, nid wyf yn credu mai dyna'r gorau y gallwn ei wneud; rwy'n credu y gallwn fynd ymhellach i ostwng prisiau. Hefyd, mae yna ofn gwirioneddol mai'r hyn y byddai'r cwmnïau ynni yn ei wneud fyddai codi prisiau ymlaen llaw, a fyddai'n dileu effaith unrhyw rhewi yn y tymor hir.

16:50 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I do appreciate the clarification, but, of course, what you did say was very clear, that a price freeze had been rubbished, and that implied very clearly that Plaid is opposed to an energy price freeze. I do not think—[Interruption.] I do not think that anyone would say that a price freeze was the be-all and end-all, but, for the most immediate impact on the poorest people being affected by what has been overcharging by the energy companies, it is a very significant step forward. I do hope that Plaid will change its position on that, because otherwise it puts itself in the same camp as the Lib Dems and the same camp as the Tories, and that is, basically, to support a system where the six big energy companies—

Rwy'n gwerthfawrogi'r eglurhad, ond wrth gwrs, roedd yr hyn a ddywedasoch yn glir iawn, sef bod rhewi prisiau wedi cael ei wfftio ac roedd hynny'n awgrymu'n eglur iawn fod Plaid Cymru yn gwrthwynebu rhewi prisiau ynni. Nid wyf yn credu—[Torri ar draws.] Nid wyf yn credu y byddai neb yn dweud bod rhewi prisiau yn ateb i bopeth ond o ran yr effaith fwyaf uniongyrchol ar y bobl dlotaf sy'n cael eu heffeithio gan gwmnïau ynni'n gosod prisiau rhy uchel, mae'n gam arwyddocaol iawn ymlaen. Rwy'n gobeithio y bydd y Blaid yn newid ei safbwynt ar hynny, oherwydd fel arall, mae'n rhoi ei hun yn yr un cae â'r Democratiaid Rhyddfrydol a'r un cae â'r Torïaid, ac yn y bôn, dyna sy'n cynnal system lle mae'r chwe chwmni ynni mawr—

16:50 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

16:50 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

No, I have taken one.

Na, rwyf wedi derbyn un.

16:50 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

16:50 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

No, I will not. The six major energy companies have clearly been overcharging, and therefore a freeze on prices is a way of at least restoring that balance while we start looking at the fundamental problem, and that is the monopoly that the six big energy companies have. I know it is disappointing to Plaid to find that it is in a position in alliance again with the Tories and the Lib Dems—

Na wnaf. Mae'n amlwg fod y chwe phrif gwmni ynni wedi bod yn codi gormod ac felly mae rhewi prisiau yn ffordd o adfer y cydbwysedd o leiaf tra byddwn yn dechrau edrych ar y broblem sylfaenol, sef y monopoli sydd gan y chwe chwmni ynni mawr. Rwy'n gwybod ei bod yn siom i Blaid Cymru ganfod ei hun mewn cynghrair gyda'r Torïaid a'r Democratiaid Rhyddfrydol eto—

16:51 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

16:51 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have already said 'no'. And have taken opposition—

Rwyf eisoes wedi dweud 'na'. Ac wedi cymryd—

16:51 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

16:51 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order. Order, order. He is quite clearly not going to take an intervention. It is the second time you have requested—

Trefn. Trefn, trefn. Mae'n amlwg nad yw'n mynd i dderbyn ymyriad. Dyna'r ail dro i chi ofyn—

16:51 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

It is meant to be a debate, Deputy Presiding Officer.

Dadl yw hon i fod, Ddirprwy Lywydd.

16:51 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order. I know exactly what it is and you will hear both sides of the argument—or all sides of the argument. [Interruption.] I have not finished. There are two speakers to be called from the Plaid Cymru side yet. You will have plenty of time to rebut, if that is what you want to do. I call Mick Antoniw.

Trefn. Rwy'n gwybod yn union beth yw hi a byddwch yn clywed y ddwy ochr i'r ddadl—neu bob ochr i'r ddadl. [Torri ar draws.] Nid wyf wedi gorffen. Mae dau siaradwr i gael eu galw o ochr Plaid Cymru eto. Byddwch yn cael digon o amser i wrthbrofi, os mai dyna beth rydych am ei wneud. Galwaf ar Mick Antoniw.

16:51 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I do understand why Plaid gets embarrassed about the fact that it is now in the Tory camp and the Lib Dem camp, and that it is clearly opposing Labour's proposed price freeze, and it will be reminded of that. It is very similar to the fact that it will not take a position on the higher rate of tax. It is also the case that it will not take a position that it would not, in 2016, form an alliance with the Tories. The rightward shift of Plaid is clearly identifiable from what is being said.

Nid wyf yn deall pam y mae'r Blaid yn teimlo embaras am y ffaith ei bod yn awr yn yr un cae â'r Torïaid a'r Democratiaid Rhyddfrydol a'i bod yn amlwg yn gwrthwynebu cynnig Llafur i rewi prisiau, a bydd yn cael ei hatgoffa o hynny. Mae'n debyg iawn i'r ffaith nad yw am fynegi safbwynt ar y gyfradd uwch o dreth. Mae hefyd yn wir nad yw am fynegi na fydd yn ffurfio cynghrair gyda'r Torïaid yn 2016. Mae symudiad y Blaid i'r dde yn amlwg o'r hyn sy'n cael ei ddweud.

What is important to us is that we actually start to look at the measures that we can take in the most immediate position, and also that we support the price freeze as something that will make a real difference to people's lives, and that we do actually start looking at the devolution of energy, which is important, and how we can break up the monopoly and start to move to a system of common ownership of energy supply.

Yr hyn sy'n bwysig i ni yw ein bod yn dechrau edrych mewn gwirionedd ar y camau y gallwn eu cymryd yn fwyaf uniongyrchol, a hefyd ein bod yn cefnogi'r rhewi prisiau fel rhywbeth a fydd yn gwneud gwahaniaeth go iawn i fywydau pobl, a'n bod yn dechrau mynd ati i edrych ar ddatganoli ynni, sy'n bwysig, a sut y gallwn dorri'r monopoli a dechrau symud at system o berchnogaeth gyffredin ar y cyflenwad ynni.

16:52 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We would like to hear from the Minister exactly what the UK Labour Government did previously on this agenda, as opposed to bickering about this issue now, because we have positive ideas to put forward. I would like to bring that optimism to the table in terms of how we can potentially work with utility companies to change their working practices. We all know that they overcharge and we all know that people are struggling.

Byddem yn hoffi clywed gan y Gweinidog beth yn union a wnaeth Llywodraeth Lafur y DU yn flaenorol ar yr agenda hon, yn hytrach na chweryla am y mater yn awr gan fod gennym syniadau cadarnhaol i'w cyflwyno. Hoffwn ddod â'r optimistiaeth honno at y bwrdd o ran y posibilrwydd o weithio gyda chwmnïau cyfleustodau i newid eu harferion gweithio. Rydym i gyd yn gwybod eu bod yn codi gormod ac rydym i gyd yn gwybod bod pobl yn ei chael hi'n anodd.

However, in a visit last week to Swalec in Cardiff Gate, I was surprised in a good way about some of the work that it is trying to do as a company to encourage customers to understand their bills, and to talk through those issues with them. Of course, I went there to talk about my Financial Education and Inclusion (Wales) Bill, and I think that is something that companies should be looking at. If you are in debt with your utility company, it tells us quite often that you are in debt in other elements of your life. In the particular call centre that I went to, there was a dedicated department where they trained staff in that debt element, so that, when they are in a call with a vulnerable customer, they can talk through those particular options. What I found heartening in this particular regard was that Citizens Advice chairs a customer forum, which is an independent chair. The customer forum has said, for example—I know that this has nothing in particular to do with utility costs—if a customer is waiting to speak to someone for over 20 minutes, they are paid something back so that they can be appreciated for waiting that long to speak to a customer call centre staff member. Also, with regard to debt, they will talk to the customer in a different way, they will perhaps go and visit them, and they will engage with them in a different manner. I think that it is what utility companies have to grow up and face doing, because they have the same type of label, potentially, as estate agents and politicians at the moment—seen as the bad guys. We need to be working with them from the inside to make sure that, when they are delivering this type of information, people fully understand this and what they do.

Fodd bynnag, mewn ymweliad yr wythnos diwethaf â Swalec ym Mhorth Caerdydd, cefais syndod ar yr ochr orau ynglŷn â pheth o'r gwaith y mae'n ceisio ei wneud fel cwmni i annog cwsmeriaid i ddeall eu biliau, ac i drafod y materion hynny gyda hwy. Wrth gwrs, euthum yno i siarad am fy Mil Addysg a Chynhwysiant Ariannol (Cymru), a chredaf fod hynny'n rhywbeth y dylai cwmnïau fod yn edrych arno. Os ydych mewn dyled i'ch cwmni cyfleustodau, mae'n aml yn dweud wrthym eich bod mewn dyled mewn perthynas ag agweddau eraill ar eich bywyd. Yn y ganolfan alwadau benodol yr ymwelais â hi, roedd adran arbennig lle roeddent yn hyfforddi staff ar ddyled, fel eu bod yn gallu trafod opsiynau penodol wrth ateb galwad gan gwsmer agored i niwed. Yr hyn a oedd yn galonogol yn hyn o beth oedd bod Cyngor ar Bopeth yn cadeirio fforwm cwsmeriaid, sy'n gadeiryddiaeth annibynnol. Mae'r fforwm cwsmeriaid wedi dweud, er enghraifft—gwn nad oes gan hyn ddim i'w wneud â chostau cyfleustodau'n benodol—os yw cwsmer yn aros dros 20 munud i siarad â rhywun, cânt rywfaint o ad-daliad er mwyn dangos gwerthfawrogiad eu bod wedi aros cyhyd i siarad ag aelod o staff y ganolfan alwadau cwsmeriaid. Hefyd, o ran dyled, byddant yn siarad â'r cwsmer mewn ffordd wahanol, byddant o bosibl yn ymweld â hwy, a byddant yn ymgysylltu â hwy mewn ffordd wahanol. Rwy'n credu ei fod yn rhywbeth sydd angen i gwmnïau cyfleustodau dyfu fyny a wynebu ei wneud, oherwydd cânt eu labelu, o bosibl, yn yr un ffordd â gwerthwyr tai a gwleidyddion ar hyn o bryd—fel y bobl ddrwg. Mae angen i ni weithio gyda hwy o'r tu mewn i wneud yn siŵr bod pobl yn deall hyn a'r hyn y maent yn ei wneud pan fyddant yn darparu gwybodaeth o'r fath.

As has been said earlier, the ECO scheme, for example, which is paid through bills, they have proposed should be paid for through taxation, because that takes account of income, meaning that the least able to pay are sheltered from the burden. This also has implications for off-gas rural customers who pay, in effect, twice for these schemes. On fairer pricing, we have heard about the charges that Wales incurs, and I think that that is something that we should all be highly aware of.

Fel y dywedwyd yn gynharach, argymhellwyd y dylai'r cynllun ECO, er enghraifft, a delir drwy filiau, gael ei dalu drwy drethi, gan fod hynny'n ystyried incwm, sy'n golygu bod y lleiaf abl i dalu yn cael eu gwarchod rhag y baich. Mae goblygiadau'n codi o hyn i gwsmeriaid gwledig nad ydynt yn cael nwy o'r prif gyflenwad ac sy'n talu ddwywaith am y cynlluniau hyn i bob pwrpas. Ar fater prisio tecach, rydym wedi clywed am y prisiau sy'n cael eu codi yng Nghymru, a chredaf fod hynny'n rhywbeth y dylem i gyd fod yn ymwybodol iawn ohono.

I think that what is important for us in Wales, looking at new ways of creating energy—for example, the tidal lagoon in Swansea—is that we need to be looking at how we can decrease the costs for people living in those areas, because they have the development on their doorstep. How can we create an environment where they can see and feel the benefits via their bills? I think that that not only goes for the tidal industry; it goes for the windfarm industry, solar, and so forth. If people can see that they can benefit directly from those schemes, then people will be more inclined to support them. I will finish on this point—we know that Edwina Hart, as Minister, has an energy group, and that she talks to businesses, and I understand that Centrica sits around the table there. We need to ensure that other utility companies, and bodies such as Ofgem and so forth, are all around the same table, because we know the frustrations with power with regard to the utility sector here in Wales. If we are to make a real difference and real changes on this particular issue, then everybody has to be sitting around the table, and, at the moment, I understand that they are not. How do we then get to the bottom of the problem where people are paying too much for their bills, and double-paying for certain schemes that they do not benefit from, if they are not at the seat of the Welsh Government or the UK Government, because this is such an important issue?

Credaf mai'r hyn sy'n bwysig i ni yng Nghymru, wrth edrych ar ffyrdd newydd o greu ynni—er enghraifft, y morlyn llanw yn Abertawe—yw bod angen i ni weld sut y gallwn leihau'r costau i bobl sy'n byw yn yr ardaloedd hynny, gan mai ar garreg eu drws hwy y mae'r datblygiad. Sut y gallwn greu amgylchedd lle gallant weld a theimlo'r manteision drwy eu biliau? Credaf nad yn y diwydiant llanw'n unig y dylai hynny ddigwydd; dylai fod yn digwydd hefyd yn y diwydiant ffermydd gwynt, solar, ac yn y blaen. Os yw pobl yn gallu gweld fod modd iddynt elwa'n uniongyrchol o'r cynlluniau hynny, yna byddant yn fwy parod i'w cefnogi. Rwyf am gloi ar y pwynt hwn—rydym yn gwybod bod grŵp ynni gan Edwina Hart, fel Gweinidog, a'i bod yn siarad â busnesau, ac rwy'n deall bod Centrica yn aelod o'r bwrdd. Mae angen i ni sicrhau bod cwmnïau cyfleustodau eraill, a chyrff fel Ofgem ac yn y blaen, i gyd yn aelodau o'r un bwrdd, oherwydd gwyddom am y rhwystredigaethau o ran pŵer yn y sector cyfleustodau yma yng Nghymru. Os ydym am wneud gwahaniaeth go iawn a newidiadau gwirioneddol ar y mater penodol hwn, yna rhaid i bawb fod wrth y bwrdd, ac ar hyn o bryd, rwy'n deall nad yw hynny'n digwydd. Sut y gallwn fynd i wraidd y broblem fod pobl yn talu gormod am eu biliau, yn talu ddwywaith am rai cynlluniau nad ydynt yn cael budd ohonynt, os na chânt eu cynrychioli yn Llywodraeth Cymru neu Lywodraeth y DU, gan fod hwn yn fater mor bwysig?

16:57

## Mark Isherwood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Smart meter UK survey results published in June found that 43% of households in Wales were concerned that they are paying for more gas and electricity than they consume, and 52% of those living in Wales do not trust their energy supplier. The Competition and Markets Authority review of the energy market is in fact on the agenda for next Wednesday's cross-party group on fuel poverty; this is being investigated very seriously, and I urge Members to come and question the CMA directly themselves if they have concerns. The cross-party secretariat is provided by National Energy Action Cymru and Citizens Advice. In June 2014, the energy regulator, Ofgem, referred the retail energy market to the Competition and Markets Authority, starting the biggest investigation to date into competition in the UK energy market. This followed a review of competition in the sector that showed increasing distrust of the big six energy suppliers. The CMA is due to publish its results by the end of next year, and the meeting will consider the process of the investigation and how the CME is engaging stakeholders in Wales. Ofgem will also provide an overview of its future plans to protect vulnerable customers. So, please come, listen, and question and see where things are at the moment.

Gwelodd canlyniadau arolwg y DU o fesuryddion clyfar a gyhoeddwyd ym mis Mehefin fod 43% o gartrefi yng Nghymru yn pryderu eu bod yn talu am fwy o nwy a thrydan nag y maent yn ei ddefnyddio, ac nid yw 52% o'r rhai sy'n byw yng Nghymru yn ymddiried yn eu cyflenwr ynni. Mewn gwirionedd, mae arolwg yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd o'r farchnad ynni ar agenda cyfarfod y grŵp trawsbleidiol ar dlodi tanwydd ddydd Mercher nesaf; mae hyn yn cael ei archwilio yn ddifrifol iawn ac rwy'n annog yr Aelodau i ddod i holi'r Awdurdod yn uniongyrchol os oes ganddynt bryderon. Mae'r ysgrifenyddiaeth drawsbleidiol yn cael ei darparu gan National Energy Action Cymru a Chyngor ar Bopeth. Ym mis Mehefin 2014, cyfeiriodd y rheoleiddiwr ynni, Ofgem, y farchnad manwerthu ynni at yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd, gan roi cychwyn ar yr ymchwiliad mwyaf hyd yn hyn i gystadleuaeth yn y farchnad ynni yn y DU. Daeth hyn yn sgîl adolygiad o gystadleuaeth yn y sector a ddangosai ddiffyg ymddiriedaeth gynyddol yn y chwe chyflenwr ynni mawr. Mae'r Awdurdod i fod i gyhoeddi ei ganlyniadau erbyn diwedd y flwyddyn nesaf a bydd y cyfarfod yn ystyried proses yr ymchwiliad a sut y mae'r Awdurdod yn ymgysylltu â rhanddeiliaid yng Nghymru. Bydd Ofgem hefyd yn darparu trosolwg o'i gynlluniau yn y dyfodol i warchod cwsmeriaid sy'n agored i niwed. Felly, dewch i wrando a holi cwestiynau a gweld lle mae pethau arni ar hyn o bryd.

As chair of the cross-party group on fuel poverty, I sponsored the October 2013 National Energy Action Cymru and Npower Assembly event to showcase the Health Through Warmth scheme, which is available for people with long-term health problems who may not be eligible for Welsh or UK Government schemes. It supports vulnerable people—who have benefitted from £73.5 million-worth of heating and insulation measures, including £8.6 million from the health through warmth crisis fund, and £1.7 million from charity funds—but they wanted to increase the numbers of referrals in Wales to ensure that maximum use is made of the support available. In July, I sponsored a British Gas Assembly event as the number of smart meters installed by British Gas in homes across Wales passed the 1 million mark, including nearly 17,000 households and businesses in north Wales, and 50,000 across Wales, benefitting from increased control over energy bills.

Fel cadeirydd y grŵp trawsbleidiol ar dlodi tanwydd, noddais ddigwyddiad National Energy Action Cymru ac Npower y Cynulliad ym mis Hydref 2013 i arddangos y cynllun Iechyd trwy Gynhesrwydd, sydd ar gael i bobl â phroblemau iechyd hirdymor nad ydynt yn gymwys ar gyfer Cynlluniau Llywodraeth Cymru neu Lywodraeth y DU. Mae'n cefnogi pobl agored i niwed—sydd wedi elwa o werth £73.5 miliwn o fesurau gwresogi ac inswleiddio, yn cynnwys £8.6 miliwn o gronfa argyfwng iechyd trwy gynhesrwydd a £1.7 miliwn o gronfeydd elusennol—ond roeddent yn awyddus i gynyddu nifer yr atgyfeiriadau yng Nghymru i sicrhau bod y defnydd mwyaf posibl yn cael ei wneud o'r gefnogaeth sydd ar gael. Ym mis Gorffennaf, noddais ddigwyddiad Nwy Prydain y Cynulliad wrth i nifer y mesuryddion clyfar a osodwyd gan Nwy Prydain mewn cartrefi ledled Cymru groesi'r 1 miliwn, yn cynnwys bron i 17,000 o gartrefi a busnesau yn y gogledd, a 50,000 ar draws Cymru, sy'n elwa o fwy o reolaeth dros eu biliau ynni.

In September, I sponsored the Warm Wales tenth anniversary celebration in the Assembly. Established in 2004, Warm Wales was one of the first community interest companies in the UK, and the first set up to tackle fuel poverty by implementing energy saving measures, working to provide homes with affordable warmth and to alleviate fuel poverty. It works closely with the public and private sectors. I sponsored the Assembly event two weeks ago on the Energy Best Deal, delivered in England and Wales by members of the regional financial capability fora.

Ym mis Medi, noddais ddathliad dengmlwyddiant Cymru Gynnes yn y Cynulliad. Sefydlwyd Cymru Gynnes yn 2004, yn un o'r cwmnïau buddiannau cymunedol cyntaf yn y DU, a'r cyntaf i'w sefydlu er mwyn mynd i'r afael â thlodi tanwydd drwy weithredu mesurau arbed ynni, gan weithio i ddarparu gwres fforddiadwy i gartrefi ac i leddfu tlodi tanwydd. Mae'n gweithio'n agos gyda'r sectorau cyhoeddus a phreifat. Bythefnos yn ôl, noddais ddigwyddiad y Cynulliad, Ynni: y Fargen Orau, a gyflawnir yng Nghymru a Lloegr gan aelodau o'r fforymau gallu ariannol rhanbarthol.

Ofgem and Citizens Advice have been working together since 2008, developing and delivering face-to-face consumer advice through the scheme, getting people off expensive tariffs and onto the best energy deals available, with sessions aimed at low-income consumers, and front-line staff working with people at risk of fuel poverty who could be signposted to a range of further help with issues such as fuel debt, benefits entitlement and energy efficiency. At a British Gas event sponsored by Eluned Parrott here last week, we heard about free loft and cavity insulation available to 90% of homes. We heard about the need to ensure that people are on the best gas and electricity tariffs, about extra support from the UK Government and energy suppliers if people meet criteria for the warm home discount—just under 38,000 homes in Wales have. They are then eligible for a further £135 discount, rising to £140 this year. We heard about the independent charitable British Gas Energy Trust, offering advice and support for people struggling with household bills.

Mae Ofgem a Chyngor ar Bopeth wedi bod yn cydweithio ers 2008 ar ddatblygu a darparu cyngor wyneb yn wyneb i ddefnyddwyr drwy gyfrwng y cynllun, gan dynnu pobl oddi ar dariffau drud a sicrhau'r bargeinion ynni gorau sydd ar gael, gan anelu sesiynau at ddefnyddwyr ar incwm isel a staff rheng flaen sy'n gweithio gyda phobl mewn perygl o wynebu tlodi tanwydd y gellid eu cyfeirio at ystod o gymorth pellach gyda materion megis dyledion tanwydd, hawl i fudd-daliadau ac arbed ynni. Mewn digwyddiad Nwy Prydain yma yr wythnos diwethaf a noddwyd gan Eluned Parrott, clywsom am gynlluniau inswleiddio atigau a waliau dwbl am ddim sydd ar gael i 90% o gartrefi. Clywsom am yr angen i sicrhau bod pobl ar y tariffau nwy a thrydan gorau, am gymorth ychwanegol gan Lywodraeth y DU a chyflenwyr ynni os yw pobl yn cwrdd â'r meini prawf i gael y gostyngiad cartref cynnes—mae ychydig o dan 38,000 o gartrefi yng Nghymru wedi'i gael. Maent wedyn yn gymwys i gael £135 o ostyngiad pellach, sy'n codi i £140 eleni. Clywsom am yr ymddiriedolaeth elusennol annibynnol, Ymddiriedolaeth Ynni Nwy Prydain sy'n cynnig cyngor a chymorth i bobl sy'n ei chael hi'n anodd talu biliau'r cartref.

The UK fuel poverty monitor 2013-14 states that there is currently no action plan for the eradication of fuel poverty in Wales. It said that the Welsh Government should evaluate the lessons learned from the failure to make progress against interim targets, and outline how it intends to prioritise vulnerable households and those in social housing. It said that the Welsh Government should re-establish the ministerial advisory group on fuel poverty alongside those elsewhere in the UK. We welcome the Welsh Government schemes Arbed and Nest, but they will only ever reach 1% to 2% of fuel-poor households in Wales annually. In evidence to the Communities, Equality and Local Government Committee only last week, the Bevan Foundation said that fuel poverty should have a higher profile—

Mae monitor tlodi tanwydd y Deyrnas Unedig 2013-14 yn datgan nad oes cynllun gweithredu ar gael ar hyn o bryd ar gyfer dileu tlodi tanwydd yng Nghymru. Dywedodd y dylai Llywodraeth Cymru werthuso'r gwersi a ddysgwyd o'r methiant i wneud cynnydd yn erbyn targedau interim ac amlinellu sut y mae'n bwriadu blaenoriaethu cartrefi sy'n agored i niwed a phobl mewn tai cymdeithasol. Dywedodd y dylai Llywodraeth Cymru ailsefydlu grŵp cynghori'r Gweinidog ar dlodi tanwydd ochr yn ochr â'r rheini mewn rhannau eraill o'r DU. Rydym yn croesawu cynlluniau Arbed a Nyth Llywodraeth Cymru, ond ni fyddant ond yn gallu cyrraedd 1% i 2% o aelwydydd tlawd o ran tanwydd yng Nghymru bob blwyddyn. Mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol yr wythnos diwethaf, dywedodd Sefydliad Bevan y dylai fod proffil uwch i dlodi tanwydd—

17:01

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Conclude with this, please.

Gorffennwch gyda hyn, os gwelwch yn dda.

17:02

## Mark Isherwood Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

[Continues.]—in the tackling poverty action plan, because it is a fundamental human need to have a warm home.

[Yn parhau.]—yn y cynllun gweithredu ar gyfer trechu tlodi, am fod cael cartref cynnes yn angen dynol sylfaenol.

17:02

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Conclude.

Gorffennwch.

17:02

## Mark Isherwood Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We need co-ordination, not control, and cross-sector co-production. Thank you.

Mae angen cydgysylltu, nid rheoli, a chyd-gynhyrchu traws-sector. Diolch.

17:02

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Galwaf ar y Gweinidog Cyfoeth Naturiol, Carl Sargeant.

I call the Minister for Natural Resources, Carl Sargeant.

17:02

## Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol / The Minister for Natural Resources*

Thank you, Deputy Presiding Officer. We recognise the points raised in this motion and are all too aware of the pressures they place on communities, businesses and individuals. We will be supporting all the amendments tabled to the motion today. That is why Welsh Government is already taking real and positive action around the key utilities, water, ICT and energy, issues that Members have raised in the Chamber today. Ensuring access to affordable water and sewerage services is a key priority for Welsh Government in line with our objectives to tackle poverty. To support this, we have put in a number of measures to tackle affordability issues. We offer guidance on the provision of a social tariff to water companies and on the introduction of a social tariff to the water regulator, Ofwat. We have also worked on the development of the bad debt regulations. This has resulted in HelpU, the new social tariff from Dŵr Cymru. This is the first tariff that caps the bills for everyone on the lowest incomes here in Wales and across the border.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Rydym yn cydnabod y pwyntiau a godwyd yn y cynnig hwn ac yn ymwybodol iawn o'r pwysau y maent yn ei roi ar gymunedau, busnesau ac unigolion. Byddwn yn cefnogi pob un o'r gwelliannau a gyflwynwyd i'r cynnig heddiw. Dyna pam y mae Llywodraeth Cymru eisoes yn cymryd camau real a chadarnhaol mewn perthynas â chyfleustodau allweddol, dŵr, TGCh ac ynni, materion y mae'r Aelodau wedi'u codi yn y Siambr heddiw. Mae sicrhau mynediad at wasanaethau dŵr a charthffosiaeth fforddiadwy yn flaenoriaeth allweddol i Lywodraeth Cymru yn unol â'n hamcanion i drechu tlodi. I gefnogi hyn, rydym wedi cyflwyno nifer o fesurau i fynd i'r afael â materion fforddiadwyedd. Rydym yn cynnig arweiniad ar ddarparu tariff cymdeithasol i gwmnïau dŵr ac ar gyflwyno tariff cymdeithasol i'r rheoleiddiwr dŵr, Ofwat. Rydym hefyd wedi gweithio ar ddatblygu'r rheoliadau dyledion drwg. Mae hyn wedi arwain at HelpU, y tariff cymdeithasol newydd gan Dŵr Cymru. Dyma'r tariff cyntaf sy'n capio biliau i bawb ar yr incwm isaf yma yng Nghymru ac ar draws y ffin.

Our superfast Cymru project covers around 700,000 premises, or 50% of all Wales, benchmarking against the cost of superfast broadband in major cities across the UK. Energy, whether as electricity or heat, is the utility that has the greatest effect across Wales. We face particularly difficult challenges in tackling fuel poverty in Wales. Energy prices are rising year on year and incomes are not keeping pace, a situation not helped by welfare reform, and a large proportion of older traditionally built homes, many of which are off-gas and reliant on expensive fuels, add to the challenge, as Members have said in the Chamber today.

Mae ein prosiect Cyflymu Cymru yn cwmpasu tua 700,000 safle, neu 50% o Gymru gyfan, gan feincnodi yn erbyn cost band eang cyflym iawn mewn dinasoedd mawr ar draws y DU. Ynni, ar ffurf trydan neu wres, yw'r cyfleustod sy'n cael yr effaith fwyaf ar draws Cymru. Rydym yn wynebu heriau arbennig o anodd o ran trechu tlodi tanwydd yng Nghymru. Mae prisiau ynni yn codi o flwyddyn i flwyddyn ac nid yw incwm yn codi yn yr un modd, sefyllfa nad yw'n cael ei helpu gan ddiwygio lles, ac mae cyfran fawr o gartrefi hŷn a adeiladwyd yn y ffyrdd traddodiadol, gyda llawer ohonynt yn ddibynnol ar danwydd drud a heb eu cysylltu â'r prif gyflenwad, yn ychwanegu at yr her, fel y mae'r Aelodau wedi'i ddweud yn y Siambr heddiw.

Unlike the UK Government, Deputy Presiding Officer, which has ended its grant funding support for home energy efficiency improvements, the Welsh Government has not just maintained its energy efficiency and fuel poverty budgets but significantly increased those budgets, despite wider cuts to Government funding. In 2013-14 alone, our energy efficiency programme improved more than 9,100 homes, with estimated savings on energy bills as a result of those improvements averaging around £500 per year. Our programme is making a real difference in rural areas. Last year, nearly half of the households supported through our fuel poverty scheme, Nest, were in rural areas, an increase of 8% on the previous year. I noted Jocelyn Davies's comment earlier on the Nest scheme. Just to clarify, the Nest budget has not been cut. It is targeted at the people on the lowest incomes, it is means tested and is for people living in the most energy-inefficient homes. It is something that we are committed to continuing.

Yn wahanol i Lywodraeth y DU, Ddirprwy Lywydd, sydd wedi dod â'i gymorth cyllid grant ar gyfer gwelliannau arbed ynni cartref i ben, mae Llywodraeth Cymru nid yn unig wedi cadw ei chyllidebau arbed ynni a thlodi tanwydd, ond wedi cynyddu'r cyllidebau hynny yn sylweddol, er gwaethaf y toriadau ehangach i gyllid y Llywodraeth. Yn 2013-14 yn unig, mae ein rhaglen arbed ynni wedi gwella mwy na 9,100 o gartrefi, gyda thua £500 y flwyddyn o arbedion amcangyfrifedig ar filiau ynni o ganlyniad i'r gwelliannau hynny. Mae ein rhaglen yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol mewn ardaloedd gwledig. Y llynedd, roedd bron i hanner y cartrefi a gefnogwyd drwy ein cynllun tlodi tanwydd, Nyth, mewn ardaloedd gwledig, cynnydd o 8% o'r flwyddyn flaenorol. Nodais sylwadau Jocelyn Davies yn gynharach am gynllun Nyth. Hoffwn egluro nad yw cyllideb Nyth wedi'i thorri. Mae wedi'i thargedu at y bobl ar yr incwm isaf, yn ddibynnol ar brawf modd ac ar gyfer pobl sy'n byw yn y cartrefi lleiaf effeithlon o ran y defnydd o ynni. Mae'n rhywbeth yr ydym wedi ymrwymo i'w barhau.

We are also supporting rural communities through Arbed, including Nantlle in Gwynedd, where not only have households received energy efficiency improvements, but we have managed to connect the community to the gas network, taking away dependence on much more expensive and carbon-intensive fuels, such as oil.

Rydym hefyd yn cefnogi cymunedau gwledig drwy Arbed, yn cynnwys Nantlle yng Ngwynedd, lle gwnaed gwelliannau arbed ynni i aelwydydd, a lle rydym hefyd wedi llwyddo i gysylltu'r gymuned â'r rhwydwaith nwy, gan gael gwared ar y ddibyniaeth ar danwydd llawer mwy costus a drud-ar-garbon fel olew.

I launched earlier this year the Resource Efficient Wales service on 21 October. It provides the people of Wales—domestic, business, community, third and public sector audiences—with a consistent and trusted place to come for information and advice on all matters concerning resource efficiency. As well as providing information on saving energy and water and reducing waste, the service signposts users to appropriate schemes, and refers callers to an in-depth advice service provided by Welsh Government.

Yn gynharach eleni, ar 21 Hydref, lansiais wasanaeth Cymru Effeithlon. Mae'n cynnig man sefydlog i bobl Cymru—cynulleidfaoedd domestig, busnes, cymunedol, trydydd sector a sector cyhoeddus—allu ymddiried ynddo i ddod i gael gwybodaeth a chyngor ar bob mater sy'n ymwneud â defnyddio adnoddau'n effeithlon. Yn ogystal â darparu gwybodaeth ar arbed ynni a dŵr a lleihau gwastraff, mae'r gwasanaeth yn cyfeirio defnyddwyr at gynlluniau priodol ac yn cyfeirio galwyr at wasanaeth cyngor manwl a ddarparir gan Lywodraeth Cymru.

However, let us be clear: the responsibility for rising utility prices rests with the UK Government. It has the solution in its hands. That is why we are moving an amendment today calling on it to do what my party will do when it becomes the UK Government in May: freeze energy prices. I do hope that all Members in the Chamber today can support that. The energy market that it created when it privatised our public assets is broken. It simply is not working for ordinary families and businesses. Energy bills have risen by almost £300 per family under this Government: twice as fast as inflation, four times as fast as wages and faster than in almost any other country in the developed world.

Fodd bynnag, gadewch i ni fod yn glir: Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am y cynnydd ym mhrisiau cyfleustodau. Mae'r ateb ganddi yn ei dwylo. Dyna pam rydym yn cynnig gwelliant heddiw yn galw arni i wneud yr hyn y bydd fy mhlaid yn ei wneud pan ddaw'n Llywodraeth y DU ym mis Mai: rhewi prisiau ynni. Rwy'n gobeithio y gall pob Aelod yn y Siambr heddiw gefnogi hynny. Mae'r farchnad ynni a greodd pan breifateiddiodd ein hasedau cyhoeddus wedi torri. Yn syml iawn, nid yw'n gweithio i deuluoedd a busnesau cyffredin. Mae biliau ynni wedi codi bron i £300 y teulu o dan y Llywodraeth hon: ddwywaith mor gyflym â chwyddiant, bedair gwaith mor gyflym â chyflogau ac yn gyflymach nag yn unrhyw wlad arall yn y byd datblygedig.

The next UK Labour Government—and Bethan Jenkins asked me what we are going to do—will freeze energy prices until 2017, saving the average household around £120 and reforming the energy market for the future. That freeze, along with the tougher regulatory environment for energy companies that we will introduce, will work in partnership with the Welsh Government's positive programmes to provide the fairness in energy prices that this Tory Government is denying the people of Wales.

Bydd Llywodraeth nesaf y DU, sef Llywodraeth Lafur—a gofynnodd Bethan Jenkins i mi beth rydym yn mynd i'w wneud—yn rhewi prisiau ynni tan 2017, gan arbed tua £120 y cartref ar gyfartaledd a diwygio'r farchnad ynni ar gyfer y dyfodol. Bydd rhewi o'r fath, ynghyd ag amgylchedd rheoleiddio llymach i gwmnïau ynni y byddwn yn ei gyflwyno, yn gweithio mewn partneriaeth â rhaglenni cadarnhaol Llywodraeth Cymru i ddarparu'r prisiau ynni teg y mae'r Llywodraeth Dorïaidd yn eu gwrthod i bobl Cymru.

We will support all amendments, as tabled today, Deputy Presiding Officer. It has been a welcome debate to bring this matter to the forefront in this Chamber and to Members.

Byddwn yn cefnogi'r holl welliannau, fel y cawsant eu cyflwyno heddiw, Ddirprwy Lywydd. Mae wedi bod yn ddadl i'w chroesawu er mwyn dod â'r mater hwn i sylw'r Siambr hon a'r Aelodau.

17:07

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Galwaf ar Llyr Gruffydd i ymateb i'r ddadl.

I call on Llyr Gruffydd to reply to the debate.

17:07

## Llyr Gruffydd Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

A gaf, yn y lle cyntaf, ddiolch i bawb am eu cyfraniadau i'r ddadl hon y prynhawn yma? Nid wyf am restru pawb sydd wedi cyfrannu, ond byddwn yn licio dweud bod y pwyntiau a wnaeth David Rees ynglŷn â Chyd Cymru ac undebau credyd yn rhai yr wyf i'n cyd-fynd â nhw yn llwyr. Er tegwch i Jocelyn Davies, mewn ymateb i'r hyn a ddywedodd y Gweinidog, rwy'n meddwl mai cyfeirio oedd hi at y ffaith bod rhai cynlluniau'n methu pobl dlawd sydd mewn gwaith. Dyan oedd y pwynt a oedd yn cael ei wneud. Yn sicr, mae'r effaith ar iechyd cyhoeddus yn glir o safbwynt tlodi tanwydd.

May I, first of all, thank everyone for their contributions to this debate this afternoon? I am not going to list everyone who has contributed, but I would like to say that the points made by David Rees about Cyd Cymru—Wales Together, and credit unions are ones that I agree with entirely. In fairness to Jocelyn Davies, in response to the Minister's comments, I think that she was referring to the fact that some schemes were failing poor people who are in work. That was the point being made. Certainly, there is a clear impact on public health in terms of fuel poverty.

I gyfeirio at y gwelliannau, byddwn yn cefnogi gwelliant 1, oherwydd bod unrhyw ymdrechion, yn fy marn i, i ddod â defnyddwyr at ei gilydd i sicrhau gwell prisiau yn rhai y dylem eu croesawu. O safbwynt gwelliant 2, sydd wedi bod yn destun tipyn o gynnwrf yn y ddadl hon y prynhawn yma, rwy'n falch bod cydnabyddiaeth na fydd rhewi prisiau yn ateb hirdymor. Mae cymhariaeth wedi cael ei gwneud â 'sticking plaster' cyn nawr. Mae'r farchnad ynni, fel y dywedodd y Gweinidog, yn 'broken'. Mae'n drueni na wnaeth Ed Miliband rywbeth mwy am y peth pan oedd yn Weinidog ynni. Nid wyf yn siŵr a fydd rhewi prisiau'n cael effaith ar bobl sydd oddi ar y grid. Fy nealltwriaeth i oedd na fyddai, felly mae rhywbeth yn y fan honno sydd angen mynd i'r afael ag ef. Ond, ni fyddwn yn gwrthwynebu'r gwelliant.

To refer to the amendments, we will be supporting amendment 1, because any attempts to bring users together to secure better prices are to be welcomed, in my opinion. In terms of amendment 2, which has caused some debate here this afternoon, I am pleased that there is recognition that a price freeze will not be a long-term solution. Comparisons have been made with sticking plasters before now. The energy market, as the Minister said, is 'broken'. It is a shame that Ed Miliband did not do more about that issue when he was Minister for energy. I do not know whether a price freeze will have an impact on those who are off-grid. My understanding is that it would not, so there is an issue there that needs to be addressed. However, we will not be opposing the amendment.

Mick, I think maybe that you thought you saw a hare running across the Chamber and the adrenaline was pumping and you started shooting from the hip. Well, maybe you need to be a bit more careful, because, as I say, we will be supporting Labour's amendment, so—

Mick, rwy'n credu efallai eich bod yn meddwl i chi weld ysgyfarnog yn rhedeg ar draws y Siambr ac roedd yr adrenalin yn pwmpio a dechreuasoch saethu o'r glun. Wel, efallai y bydd angen i chi fod ychydig yn fwy gofalus, oherwydd fel y dywedais, byddwn yn cefnogi gwelliant Llafur, felly—

17:08

## Mick Antoniw Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I welcome the u-turn.

Rwy'n croesawu'r tro pedol.

17:08 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

No, I think you should make sure that the hare is what you think it is; otherwise, you run the risk of shooting next door's cat. [Laughter.] It is just as well that you did not have a very good aim, but there we are; that is another matter.

Na, rwy'n meddwl y dylech chi wneud yn siŵr fod yr ysgyfarnog yr hyn y credwch yw hi; fel arall, rydych mewn perygl o saethu cath drws nesaf. [Chwerthin.] Mae'n beth da nad oedd eich llygad ar y nod, ond dyna ni; mater arall yw hwnnw.

Mae angen atebion llawer mwy ystyrlon a phellgyrhaeddol. Wrth gwrs, mae sawl cyfeiriad wedi bod at y rhaglen Energiewende yn yr Almaen, lle mae'r pedwar mawr yn yr Almaen, bellach, ddim ond yn darparu 5% o ynni yn y wlad honno, gan fod solar, gwynt, hydro, biothermal a ffynonellau eraill yn golygu bod dros 2 filiwn o 'entities' yn bwydo i mewn i'r grid yn yr Almaen, yn gymunedau, yn unigolion, yn ffermwyr, yn fusnesau mawr sy'n cynhyrchu eu hynni ei hunain a rhai bach. Mae hynny, wrth gwrs, wedi gyrru prisiau i lawr yn sylweddol, sydd yn ddatrysiad, fel yr ydym i gyd yn cydnabod, rwy'n gwybod. Mae'n ddatrysiad llawer mwy cynaliadwy yn yr hirdymor.

We need far more considered and far-reaching solutions. Of course, there have been numerous references to the Energiewende programme in Germany, where the big four in Germany, now provide only 5% of energy in that country, because solar, wind, hydro, biothermal and other sources mean that over 2 million entities feed into the grid in Germany, be they communities, individuals, farmers, large businesses producing their own energy and smaller businesses. That, of course, has driven the prices down significantly, which is a solution, as I know we all acknowledge. It is far more sustainable solution in the longer term.

Byddwn hefyd yn cefnogi gwelliant 3 sy'n ymwneud â chostau cysylltu â'r grid. Yn amlwg, mae hyn yn rhan allweddol o'r ymgyrch 'off-grid' yn enwedig, ond mae'r gost o gysylltu ffynonellau ynni, fel yr ydym wedi clywed, yn aruthrol o ddrud ac yn effeithio yn aml iawn ar hyfywedd cynlluniau i gynhyrchu ynni ar fferm, yn enwedig, fel y clywsom ni yn ystod y ddadl.

We will also be supporting amendment 3 in relation to grid connection costs. Clearly, this is a crucial part of the off-grid campaign particularly, but the cost of linking up with energy sources, as we have heard, is exceptionally high and very often has an impact on the viability of energy production schemes, particularly on-farm, as we heard during the debate.

Ystadegyn difyr arall a glywsom yng nghyfarfod y pwyllgor amgylchedd y bore yma oedd bod y Grid Cenedlaethol yn creu tua 24% o elw ar ei fuddsoddiad ar hyn o bryd, y ganran uchaf o unrhyw ran o'r gadwyn ynni, ac felly, yn amlwg, nid oes llawer o 'incentive' i symud at grid llawer mwy smart a hefyd at fodel o gridiau lleol a gridiau cymunedol, sy'n rhan ganolog o'r llwyddiant y maent wedi ei weld yn yr Almaen.

Another interesting statistic that we heard at the environment committee meeting this morning was that the National Grid generates some 24% of profit on its investment at present, the highest percentage of any part of the energy chain, so, clearly, there is not a great incentive to shift to a far smarter grid and a model of localised and community grids, which is a central part of the success that they have seen in Germany.

Byddwn ni'n cefnogi'r pedwerydd gwelliant hefyd, er na fyddwn i'n teimlo o reidrwydd mai lle Llywodraeth Cymru ydyw i gyflwyno sylwadau i'r Grid Cenedlaethol. Byddwn i'n licio gweld y Grid Cenedlaethol yn cael ei ddatganoli. Byddai'n well gyda fi fod y Grid Cenedlaethol yn gorfod dod at Lywodraeth Cymru i gyflwyno sylwadau ond, ta waeth, rydym o blaid y gwelliant oherwydd mae'r pwynt, rwy'n meddwl, yn un dilys.

We will be supporting the fourth amendment also, although I would not necessarily believe that it is the place of the Welsh Government to make representations to the National Grid. I would like to see the National Grid devolved. I would far prefer to see the National Grid having to come and make representations to the Welsh Government, but we are nonetheless in favour of the amendment, because the point is a valid one.

Byddwn ni hefyd yn cefnogi'r pumed gwelliant, wrth gwrs, oherwydd y ffocws ar fod oddi ar y grid.

We will also support the fifth amendment, of course, because of the focus on the off-grid issues.

Energiewende has been very much a recurring theme in the discussion and debate this afternoon, where the big four, as I mentioned, have now become 2 million energy suppliers. I think that we actually need a similar energy revolution in Wales to rebalance the market away from the big six towards the small millions.

Mae Energiewende wedi bod yn thema gyson iawn yn y drafodaeth a'r ddadl y prynhawn yma, lle mae'r pedwar mawr, fel y soniais, yn awr wedi dod yn 2 filiwn o gyflenwyr ynni. Credaf fod angen chwyldro ynni tebyg arnom yng Nghymru i ail-gydbwyso'r farchnad i ffwrdd oddi wrth y chwe chwmni mawr tuag at y miliynau bach.

17:11 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw wrthynebiad? Mae gwrthwynebiad, felly gohiriaf pob pleidlais ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

The question is that the motion be agreed without amendment. Is there any objection? There is objection, so all voting on this item will be deferred until voting time.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

*Daeth y Llywydd i'r Gadair am 17:11.*

*The Presiding Officer took the Chair at 17:11.*

## Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru: Y Gymunded Drawsryweddol

*The following amendments have been selected: amendments 1 and 2 in the name of Paul Davies, and amendment 3 in the name of Elin Jones.*

## Welsh Liberal Democrats Debate: The Transgender Community

*Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliannau 1 a 2 yn enw Paul Davies, a gwelliant 3 yn enw Elin Jones.*

17:11 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on Peter Black to move the motion.

Cynnig NDM5623 Aled Roberts

Motion NDM5623 Aled Roberts

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn cydnabod bod pobl drawsryweddol yng Nghymru ymhlith y rhai mwyaf agored i arwahanrwydd cymdeithasol a rhagfarn.

1. Recognises that transgender people in Wales are among the most vulnerable to social isolation and prejudice.

2. Yn nodi bod y ddarpariaeth o wasanaethau ar gyfer y gymuned drawsryweddol yng Nghymru yn annigonol mewn nifer o feysydd, gan gynnwys cyflogaeth, hyfforddiant, gofal iechyd a thai.

2. Notes that there is inadequate service provision in Wales for the transgender community in a number of areas, including employment and training, healthcare and housing.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

3. Calls on the Welsh Government to:

a) pennu Gweinidog i gymryd cyfrifoldeb am y materion y mae'r gymuned drawsryweddol yn eu hwynebu;

a) identify a Minister to take responsibility for the issues faced by the trans community;

b) llunio cynllun gweithredu ar gyfer canfod rhagfarn sefydliadol, gwella mynediad at wasanaethau cyhoeddus a mynd i'r afael â stigma cymdeithasol, aflonyddu a bwlio ar gyfer y grŵp hwn; ac

b) formulate an action plan for identifying institutionalised prejudice, improving access to public services and tackling social stigmatisation, harassment and bullying for this group; and

c) adrodd yn ôl i'r Cynulliad o fewn 6 mis i'r dyddiad y caiff y Gweinidog ei benodi.

c) report back to the Assembly within 6 months of the Minister being appointed.

17:11 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move the motion.

Cynigiaf y cynnig.

I am very pleased to be opening this debate today, particularly because it marks the first time that this important issue will have been debated in any detail in this Chamber. I wanted to start by welcoming members of the trans community to the public gallery here today.

Rwy'n falch iawn o gael agor y ddadl hon heddiw, yn enwedig gan mai dyma'r tro cyntaf i ni drafod y mater pwysig hwn yn fanwl yn y Siambr. Roeddwn am ddechrau drwy groesawu aelodau o'r gymuned drawsryweddol i'r oriel gyhoeddus yma heddiw.

I will begin by giving an overview of some of the issues and define a few terms that are relevant to this debate. We will be using 'trans' as an umbrella term for individuals whose sexual identity changes or challenges traditional gender definitions. It can refer to a person whose gender identity or gender expression differs from the sex that they were assigned at birth. It can be used to refer to male-to-female transsexuals, who were assigned the male sex at birth but identify as female, or to female-to male transsexuals, who were assigned the female sex at birth but identify as male. 'Trans' can also be used to refer to someone who is genderqueer, meaning that they do not identify with either sex, move between two or more genders, or experience an overlapping or blurred gender orientation. It is also important to note that a transgender individual may or may not seek to undergo gender reassignment through surgery or hormonal treatment. While some trans people will choose to transition from the sex that they were assigned at birth to the one that they identify with, many others will not choose to transition.

Dechreuaf drwy gynnig trosolwg o rai o'r materion a diffinio rhai o'r termau sy'n berthnasol i'r ddadl hon. Byddwn yn defnyddio 'trawsryweddol' fel term cyffredinol ar gyfer unigolion y mae eu hunaniaeth rywiol yn newid neu'n herio diffiniadau rhyw traddodiadol. Gall gyfeirio at berson y mae ei hunaniaeth ryweddol neu fynegiant rhyweddol yn wahanol i'r rhyw a bennwyd iddynt ar eu genedigaeth. Gellir ei ddefnyddio i gyfeirio at bobl drawsryweddol gwryw i fenyw, y pennwyd y rhyw wrywaidd iddynt ar eu genedigaeth ond sy'n ystyried eu hunain yn fenywod, neu bobl drawsryweddol benyw i wryw, y pennwyd y rhyw fenywaidd iddynt ar eu genedigaeth ond sy'n ystyried eu hunain yn ddynion. Gellir defnyddio 'trawsryweddol' hefyd i gyfeirio at rywun sy'n 'genderqueer', sy'n golygu nad ydynt yn uniaethu â'r naill ryw neu'r llall, eu bod yn symud rhwng dau neu fwy o rywiau, neu eu bod yn profi cyfeiriadedd rhywiol sy'n gorgyffwrdd neu'n aneglur. Mae hefyd yn bwysig nodi y gall unigolyn trawsryweddol geisio newid rhyw drwy lawdriniaeth neu driniaeth hormonaidd, neu gall beidio â gwneud hynny. Er y bydd rhai pobl drawsryweddol yn dewis newid o'r rhyw a bennwyd iddynt ar eu genedigaeth i'r un y maent yn uniaethu ag ef, bydd sawl un arall yn dewis peidio â newid.

It is important not to confuse gender identity with sexual orientation. Despite the fact that trans issues are often mixed in with being gay, lesbian or bisexual, as with 'LGBT', this is not always helpful in terms of differentiating between the two issues. Gender identity is the way in which an individual self-identifies with a gender category, and this can be distinct from biological sex. This is distinct from sexual orientation, which refers to whether an individual is sexually attracted to men, women, both, or neither. It can, however, sometimes be conflated with gender identity issues, perhaps predominantly because of the stereotypes associated with our understanding of gender norms. However, most people would agree that organisations that advocate for gay, lesbian, bisexual or transgender people benefit from working together.

Mae'n bwysig peidio â drysu rhwng hunaniaeth o ran rhywedd a chyfeiriadedd rhywiol. Er gwaethaf y ffaith bod dryswch rhwng materion trawsryweddol yn aml a bod yn hoyw, lesbiaidd neu ddeurywiol, fel gydag 'LHDT', nid yw hyn bob amser yn ddefnyddiol o ran gwahaniaethu rhwng y ddau fater. Hunaniaeth o ran rhywedd yw'r ffordd y mae unigolyn yn uniaethu â chategori rhywedd, a gall hyn fod yn wahanol i ryw biolegol. Mae'n wahanol i gyfeiriadedd rhywiol, sy'n cyfeirio at a yw unigolyn yn cael ei ddenu'n rhywiol at ddynion, merched, y ddau, neu'r un ohonynt. Fodd bynnag, weithiau bydd rhai'n drysu rhwng cyfeiriadedd rhywiol a materion hunaniaeth o ran rhywedd, yn bennaf, efallai, oherwydd y stereoteipiau sy'n gysylltiedig â'n dealltwriaeth o normau rhywedd. Fodd bynnag, byddai'r rhan fwyaf o bobl yn cytuno bod sefydliadau sy'n eirioli dros bobl hoyw, lesbiaidd, deurywiol neu drawsryweddol yn elwa o weithio gyda'i gilydd.

Unfortunately, in spite of a growing awareness of trans issues, prejudice and social stigmatisation are prevalent, and many people from the trans community are subjected to abuse and hate crime in many areas of their lives. This can be prejudice or bullying at work, a lack of understanding within the health service or hate crime within the community. We want to highlight these issues today and would like more to be done to address them by appointing a Minister to take responsibility for trans issues within their portfolio.

Yn anffodus, er gwaethaf ymwybyddiaeth gynyddol o faterion trawsryweddol, mae rhagfarn a stigma cymdeithasol yn gyffredin ac mae llawer o bobl o'r gymuned drawsryweddol yn cael eu cam-drin ac yn dioddef troseddau casineb mewn sawl agwedd o'u bywydau. Gall fod yn rhagfarn neu fwlio yn y gwaith, diffyg dealltwriaeth o fewn y gwasanaeth iechyd neu droseddau casineb yn y gymuned. Rydym yn awyddus i dynnu sylw at y materion hyn heddiw ac yn dymuno gweld mwy yn cael ei wneud i ymdrin â hwy drwy benodi Gweinidog i fod yn gyfrifol am faterion trawsryweddol o fewn ei bortffolio.

For too long, the difficulties faced by the trans community have been allowed to remain inadequately tackled or, sometimes, largely hidden. We accept that there are many reasons for this, not least because it is often so hard for a trans person to speak openly about their experiences that they stay concealed or buried, but this is all the more reason to do all that we can to ensure that people who identify as transgender are accepted within all areas of our society, and that provision is made so that their specific needs are met.

Am gyfnod rhy hir, mae'r anawsterau y mae'r gymuned drawsryweddol yn eu hwynebu wedi cael eu gadael heb eu datrys yn ddigonol, neu weithiau, wedi cael eu cuddio i raddau helaeth. Rydym yn derbyn bod nifer o resymau am hyn, yn bennaf oherwydd ei bod yn aml mor anodd i berson trawsryweddol siarad yn agored am eu profiadau fel eu bod yn aros yn gudd neu wedi'u claddu, ond mae hyn yn fwy o reswm byth dros wneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau bod pobl sy'n ystyried eu hunain yn drawsryweddol yn cael eu derbyn ym mhob rhan o'n cymdeithas, a bod darpariaeth ar gael ar gyfer diwallu eu hanghenion penodol.

Another one of the primary reasons for bringing forward this debate today is because of the severe lack of public service provision, which we know that the trans community faces in Wales. This is yet another area where Wales falls short of the rest of the UK, and there are too many people who find themselves in circumstances where local service providers cannot cater for their needs and individual cases are left to fall between the cracks.

Un arall o'r prif resymau dros gyflwyno'r ddadl hon heddiw yw'r prinder difrifol o wasanaethau cyhoeddus y gwyddom sy'n wynebu'r gymuned drawsryweddol yng Nghymru. Mae hwn yn faes arall eto lle mae Cymru ar ei hôl hi o gymharu â gweddill y DU, ac mae gormod o bobl mewn amgylchiadau lle na all darparwyr gwasanaethau lleol ddarparu ar gyfer eu hanghenion a chaiff achosion unigol eu gadael i syrthio rhwng y craciau.

We will be supporting the amendments from Plaid Cymru and the Conservatives today, and I am grateful that the important issue of hate crimes has been highlighted. Our response from the transgender community, following the tabling of this debate, has been both significant and very telling. There has been a lot of interest, and a number of organisations have welcomed the debate and have been very keen to share the wealth of information that they have gathered over the years.

Byddwn yn cefnogi gwelliannau Plaid Cymru a'r Ceidwadwyr heddiw, ac rwy'n ddiolchgar bod mater pwysig troseddau casineb wedi cael ei amlygu. Mae ein hymateb o'r gymuned drawsryweddol, yn sgîl cyflwyno'r ddadl hon, wedi bod yn sylweddol ac yn arwyddocaol iawn. Roedd yna lawer o ddiddordeb ac mae nifer o sefydliadau wedi croesawu'r ddadl ac wedi bod yn awyddus iawn i rannu'r cyfoeth o wybodaeth a gasglwyd ganddynt dros y blynyddoedd.

I would like to highlight at this early point in the debate the excellent work that many of these organisations carry out on a daily basis across Wales, often providing a lifeline for people who otherwise have no support network at all. Transgender Awareness Wales, FTM Wales, the Unity Project Wales and Unique Transgender Network are to name just a few. However, these charities and voluntary organisations should not be the only source of advocacy and support available to trans people in Wales. Investment in public services and local networks should mean that these services are of a high quality and are accessible to all those who need them.

Hoffwn dynnu sylw yn y fan hon yn gynnar yn y ddadl at y gwaith ardderchog y mae llawer o'r sefydliadau hyn yn ei wneud yn ddyddiol ledled Cymru, gan ddarparu cymorth i bobl heb unrhyw rwydwaith cymorth fel arall o gwbl. Yn eu plith mae Transgender Awareness Cymru, FTM Cymru, Prosiect Undod Cymru a Rhwydwaith Thrawsryweddol Unique i enwi ond ychydig. Fodd bynnag, ni ddylai'r elusennau a'r sefydliadau gwirfoddol hyn fod yr unig ffynhonnell o eiriolaeth a chymorth sydd ar gael i bobl drawsryweddol yng Nghymru. Dylai buddsoddi mewn gwasanaethau cyhoeddus a rhwydweithiau lleol olygu bod y gwasanaethau hyn o ansawdd uchel ac yn hygyrch i bawb sydd eu hangen.

There has not been enough trans-related research in Wales—nor UK-wide for that matter—so, we do not have many statistics that we can draw on from this debate. We would like to see a greater investment in research into trans-related studies so that these discussions can be better informed and that policy decisions based on clear evidence can be implemented. This needs to happen soon.

Ni chafwyd digon o ymchwil mewn perthynas â thrawsrywedd yng Nghymru—nac yn y DU o ran hynny—felly nid oes gennym lawer o ystadegau y gallwn eu cyflwyno'n rhan o'r ddadl hon. Byddem yn hoffi gweld mwy o fuddsoddi mewn ymchwil i astudiaethau trawsrywedd fel y gall y trafodaethau hyn fod yn fwy goleuedig ac er mwyn gallu seilio penderfyniadau polisi ar dystiolaeth glir. Mae angen i hyn ddigwydd yn fuan.

17:16 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will the Member give way?

A wnaiff yr Aelod ildio?

17:16 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, Simon.

Gwnaf, Simon.

17:16 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am grateful to the Member. Just on that point, when I asked the Government why there was no transgender clinic, for example, available in Wales, I was told that there was no critical mass for this. However, this underlines, surely, the need to better understand the community's needs and to understand the depth of that across all age ranges as well.

Rwy'n ddiolchgar i'r Aelod. Ar y pwynt hwnnw, pan ofynnais i'r Llywodraeth pam nad oedd clinig trawsryweddol, er enghraifft, ar gael yng Nghymru, dywedwyd wrthyf nad oedd màs critigol ar gyfer hyn. Fodd bynnag, rhaid bod hyn yn tanlinellu'r angen i ddeall anghenion y gymuned yn well ac i ddeall hynny mewn dyfnder ar draws pob ystod oedran hefyd.

17:17 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, absolutely. Kirsty Williams will address that when she comes to make her contribution. However, I was just about to mention that there has been some epidemiological research, which was published in the 2012 WHSSC report on the Specialised Gender Identity Services Project. The research sets out to make an accurate estimate of how many trans people there were in Wales. The Gender Identity Research and Education Society updated previous estimates with new data to suggest that the incidence of transitioning transgender people is 0.2% of the population—over 6,000 people in Wales. The overall figure for people who identify as trans, including those who will and will not transition, is estimated at over 31,000, which is about 1% of the population. However, if you talk to the trans people here today, they would say that the figure is actually higher than that. Not only this, but there is a growth rate of 15% per annum in the number of people presenting as transgender, meaning that the number of new cases will approximately double every five years. While these are not firm figures, there is no denying that this is a significant proportion of the population in Wales, many of whom desperately require access to public services, which are currently inadequate or, in some cases, non-existent.

Yn hollol. Bydd Kirsty Williams yn ymdrin â hynny pan fydd yn gwneud ei chyfraniad. Fodd bynnag, roeddwn ar fin sôn bod rhywfaint o ymchwil epidemiolegol wedi'i gyhoeddi yn adroddiad Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru 2012 ar y Prosiect Gwasanaethau Arbenigol Hunaniaeth o ran Rhywedd. Mae'r ymchwil yn mynd ati i gynnig amcangyfrif cywir o nifer y bobl drawsryweddol yng Nghymru. Roedd Cymdeithas Ymchwil ac Addysg Hunaniaeth o ran Rhywedd wedi diweddaru amcangyfrifon blaenorol gyda data newydd i awgrymu bod nifer yr achosion o bobl drawsryweddol sy'n newid eu rhyw yn 0.2% o'r boblogaeth-dros 6,000 o bobl yng Nghymru. Amcangyfrifwyd bod y ffigur cyffredinol ar gyfer pobl sy'n ystyried eu hunain yn bobl drawsryweddol, yn cynnwys rhai a fydd yn newid eu rhyw a rhai na fydd yn newid eu rhyw, dros 31,000, sef tua 1% o'r boblogaeth. Fodd bynnag, os siaradwch â'r bobl drawsryweddol yma heddiw, byddent yn dweud bod y ffigur yn uwch na hynny mewn gwirionedd. Nid yn unig hynny, ond mae cyfradd twf o 15% y flwyddyn yn nifer y bobl sy'n galw eu hunain yn drawsryweddol, sy'n golygu y bydd nifer yr achosion newydd fwy neu lai yn dyblu bob pum mlynedd. Er nad yw'r rhain yn ffigurau cadarn, ni ellir gwadu ei bod yn gyfran sylweddol o'r boblogaeth yng Nghymru, a llawer ohonynt â dirfawr angen cael mynediad at wasanaethau cyhoeddus, sydd ar hyn o bryd yn annigonol neu, mewn rhai achosion, heb fod ar gael.

Presiding Officer, that is the introduction to this debate. My colleagues will deal with these issues in more detail. I have tried to set this in context and I hope that we can have a very well informed debate that will take this issue forward. Thank you.

Lywydd, dyna'r cyflwyniad i'r ddadl hon. Bydd fy nghydweithwyr yn ymdrin â'r materion hyn yn fwy manwl. Rwyf wedi ceisio gosod hyn yn ei gyd-destun ac rwy'n gobeithio y gallwn gael dadl wybodus iawn a fydd yn symud y mater hwn yn ei flaen. Diolch.

17:18 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you. I have selected the three amendments to the motion. I call on Mohammad Asghar to move amendments 1 and 2, tabled in the name of Paul Davies.

Diolch. Rwyf wedi dethol y tri gwelliant i'r cynnig. Rwy'n galw ar Mohammad Asghar i gynnig gwelliannau 1 a 2, a gyflwynwyd yn enw Paul Davies.

*Gwelliant 1—Paul Davies*

*Amendment 1—Paul Davies*

*Cynnwys is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 3:*

*Insert new sub point at end of point 3:*

*'codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o droseddau casineb yn erbyn pobl drawsryweddol, er mwyn annog dioddefwyr i roi gwybod am achosion o'r fath.'*

*'raise public awareness of transgender hate crime, to encourage reporting of incidents by victims.'*

*Gwelliant 2—Paul Davies*

*Amendment 2—Paul Davies*

*Cynnwys is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 3:*

*Insert new sub point at end of point 3:*

*'sicrhau bod pobl drawsryweddol sy'n dioddef troseddau casineb yn cael mynediad at wasanaethau cymorth cynhwysfawr a hawdd eu cyrraedd.'*

*'ensure that transgender victims of hate crime have access to comprehensive and easily accessible support services.'*

17:18 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. I move amendments 1 and 2, tabled in the name of my colleague, Paul Davies.

Diolch i chi, Lywydd. Cynigiaf welliannau 1 a 2, a gyflwynwyd yn enw fy nghyd-Aelod, Paul Davies.

I am grateful to the Liberal Democrats for bringing forward this debate today to highlight the issues facing transgender people in Wales. While there has been progress over the past 10 years on attitudes to transgender people, too many still face prejudice, discrimination and bullying in Wales. Sadly, these experiences start at an early age. Schools should be a safe place and supportive environment for children to learn in. However, over 70% of boys and girls who expressed the gender-variant behaviours are subject to bullying at school. Being a victim of bullying adversely affects a child's educational development. We need to raise awareness in our schools and colleges of the challenges faced by transgender people. Training must be provided so that the sign of bullying can be identified, and guidance must be issued to support headteachers in tackling transphobic bullying, whether or not it takes place on school premises. A child's education has a great influence on their life chances as they enter the labour market.

Rwy'n ddiolchgar i'r Democratiaid Rhyddfrydol am gyflwyno'r ddadl hon heddiw er mwyn tynnu sylw at y materion sy'n wynebu pobl drawsryweddol yng Nghymru. Er y gwnaed cynnydd dros y 10 mlynedd diwethaf o ran agweddau at bobl drawsryweddol, mae gormod ohonynt yn dal i wynebu rhagfarn, gwahaniaethu a bwlio yng Nghymru. Yn anffodus, mae'r profiadau hyn yn dechrau pan fyddant yn ifanc. Dylai ysgolion fod yn lleoedd diogel a chefnogol i blant ddysgu ynddynt. Fodd bynnag, mae dros 70% o fechgyn a merched a fynegodd batrymau ymddygiad rhywedd gwahanol yn cael eu bwlio yn yr ysgol. Mae bod yn ddioddefwr bwlio yn effeithio'n andwyol ar ddatblygiad addysgol plentyn. Mae angen i ni godi ymwybyddiaeth yn ein hysgolion a'n colegau o'r heriau y mae pobl drawsryweddol yn eu hwynebu. Rhaid darparu hyfforddiant fel bod modd nodi arwyddion o fwlio, a rhaid cyhoeddi canllawiau i gynorthwyo penaethiaid i fynd i'r afael â bwlio trawsffobig, pa un a yw'n digwydd ar dir yr ysgol ai peidio. Mae addysg plant yn cael dylanwad mawr ar eu cyfleoedd bywyd wrth iddynt fynd i mewn i'r farchnad lafur.

Discrimination at work can take place in many forms: bullying in terms of harassment or bullying in terms of being overlooked for promotion and pay rises. In a recent survey, nearly half of transgender employees reported experiencing discrimination or harassment at their workplaces. Eighty-eight per cent of respondents said that ignorance of transgender issues was the biggest challenge they faced in employment. Presiding Officer, one of the most significant triggers for discrimination was transition at work. Prospective employers must be provided with guidance and support on employing transgender people. Workplaces that are more inclusive and transgender-friendly are more productive than those where there is discrimination and hatred.

Gall gwahaniaethu yn y gwaith ddigwydd ar sawl ffurf: bwlio o ran aflonyddu neu fwlio o ran cael eich anwybyddu ar gyfer dyrchafiad a chodiad cyflog. Mewn arolwg diweddar, nododd bron i hanner y cyflogeion trawsryweddol eu bod yn dioddef gwahaniaethu neu aflonyddu yn eu gweithleoedd. Dywedodd wyth deg wyth y cant o'r ymatebwyr mai anwybodaeth ynghylch materion trawsryweddol oedd yr her fwyaf a wynebent yn eu gwaith. Lywydd, un o'r ysgogiadau mwyaf arwyddocaol i wahaniaethu oedd trawsnewid yn y gwaith. Mae'n rhaid i ddarpar gyflogwyr gael arweiniad a chefnogaeth ar gyflogi pobl drawsryweddol. Mae gweithleoedd sy'n fwy cynhwysol ac ystyriol o bobl drawsryweddol yn fwy cynhyrchiol na rhai lle ceir gwahaniaethu a chasineb.

Transgender people must be allowed to make a full contribution to society and to the economy. The barriers that prevent them from doing so must be removed. The Welsh Government must work in partnership with employers and public services, particularly the health service, to achieve this. Research indicates that transgender people face persistent challenges in accessing public services. More than half of respondents said that the health service was their most significant area of concern. The EHRC report 'How fair is Britain?' found that one in seven transgender people felt that they had been adversely treated by healthcare professionals because of their transgender status.

Mae'n rhaid i bobl drawsryweddol gael yr hawl i wneud cyfraniad llawn i gymdeithas ac i'r economi. Rhaid dileu'r rhwystrau sy'n eu hatal rhag gwneud hynny. Rhaid i Lywodraeth Cymru weithio mewn partneriaeth â chyflogwyr a gwasanaethau cyhoeddus, yn enwedig y gwasanaeth iechyd, er mwyn cyflawni hyn. Mae ymchwil yn dangos bod pobl drawsryweddol yn wynebu heriau parhaus wrth ddefnyddio gwasanaethau cyhoeddus. Dywedodd mwy na hanner yr ymatebwyr mai'r gwasanaeth iechyd yn eu hardal oedd yn achosi'r pryder mwyaf iddynt. Gwelodd adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol 'Pa mor deg yw Prydain?' fod un o bob saith o bobl drawsryweddol yn teimlo eu bod wedi cael eu trin yn anffafriol gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol oherwydd eu statws trawsryweddol.

Transgender people may face isolation, which can lead to depression and anxiety. They are also much more likely to contemplate suicide. Again, 'How fair is Britain?' reported that 34% of respondents had attempted suicide at least once in their lifetime. Transgender people have the right to expect their needs to be considered and met by public services. The Welsh Government must ensure that the public sector equality duty is vigorously applied to eliminate discrimination and to advance the equality of opportunity.

Gall pobl drawsryweddol wynebu arwahanrwydd, sy'n gallu arwain at iselder a phryder. Maent hefyd yn llawer mwy tebygol o ystyried hunanladdiad. Unwaith eto, mae 'Pa mor deg yw Prydain?' yn dweud bod 34% o ymatebwyr wedi ceisio lladd eu hunain o leiaf unwaith yn ystod eu hoes. Mae gan bobl drawsryweddol hawl i ddisgwyl i'w hanghenion gael eu hystyried a'u diwallu gan y gwasanaethau cyhoeddus. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus yn cael ei chymhwyso'n gadarn i ddileu gwahaniaethu a hybu cyfle cyfartal.

Presiding Officer, the survey revealed that transgender people are significantly more fearful of becoming a victim of crime than non-transgender people. This is particularly true in relation to violent crime, sexual crime and harassment. They also tend to be less satisfied with the perceived job that the police are doing in their local area. This could lead to significant underreporting of hate crime among transgender victims. More needs to be done to increase the confidence of transgender hate crime victims that reporting an incident is the right thing to do. Comprehensive and easily accessible emotional and practical support must be provided to the victims if they are to tackle this form of hate crime.

Lywydd, datgelodd yr arolwg fod pobl drawsryweddol yn llawer mwy ofnus eu bod yn mynd i ddioddef trosedd na phobl nad ydynt yn drawsryweddol. Mae hyn yn arbennig o wir mewn perthynas â throseddau treisgar, troseddau rhywiol ac aflonyddwch. Maent hefyd yn tueddu i fod yn llai bodlon â'r gwaith yr ystyriant y mae'r heddlu yn ei wneud yn eu hardal leol. Gallai hyn olygu bod troseddau casineb yn erbyn dioddefwyr trawsryweddol yn cael eu tangofnodi'n sylweddol. Mae angen gwneud mwy i wella hyder dioddefwyr troseddau casineb trawsryweddol mai rhoi gwybod am ddigwyddiad yw'r peth iawn i'w wneud. Rhaid darparu cymorth emosiynol ac ymarferol cynhwysfawr a hygyrch i'r dioddefwyr os ydynt am fynd i'r afael â'r math hwn o drosedd casineb.

Once again, Presiding Officer, I thank the Liberal Democrats for bringing this motion forward. We all fully support it.

Unwaith eto, Lywydd, diolch i'r Democratiaid Rhyddfrydol am gyflwyno'r cynnig hwn. Rydym i gyd yn ei gefnogi'n llwyr.

17:23

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I call on Lindsay Whittle to move amendment 3, tabled in the name of Elin Jones.

Galwaf ar Lindsay Whittle i gynnig gwelliant 3, a gyflwynwyd yn enw Elin Jones.

*Gwelliant 3—Elin Jones*

*Amendment 3—Elin Jones*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn gweithio gyda grwpiau LGBT a Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu i sicrhau bod yr heddlu yn cymryd troseddau casineb yn erbyn pobl drawsryweddol o ddifrif a bod dioddefwyr yn teimlo eu bod yn gallu rhoi gwybod am droseddau a'u bod yn cael eu cefnogi drwy'r broses cyfiawnder troseddol.*

*Work with LGBT groups and Police and Crime Commissioners to ensure that the police force takes transgender hate crimes seriously and that victims feel able to report crimes and are supported throughout the criminal justice process.*

17:23

## Lindsay Whittle Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Diolch, Lywydd. I move amendment 3 in the name of my colleague, Elin Jones.

Diolch, Lywydd. Cynigiaf welliant 3 yn enw fy nghyd-Aelod, Elin Jones.

I sincerely thank the Liberal Democrats very much indeed for the sincerity in which they bring this debate forward. It is a debate that I really hope all of Wales is listening to. We have heard today from Peter Black that, in Wales, approximately 31,000 transgender people are among the most misunderstood and, sadly, targeted minority group of people in our country. Although there have undoubtedly been advances in the level of tolerance to minorities across much of the western world in the last two decades, the socially liberal nature of our society has still not allowed some groups of people to be accepted and treated in the way in which we should expect and demand.

Diolch yn fawr i'r Democratiaid Rhyddfrydol am eu didwylledd wrth gyflwyno'r ddadl hon. Mae'n ddadl rwy'n gobeithio'n fawr y bydd Cymru gyfan yn gwrando arni. Rydym wedi clywed heddiw gan Peter Black fod tua 31,000 o bobl drawsryweddol yng Nghymru, sydd ymhlith y grwpiau lleiafrifol sy'n cael eu camddeall a'u targedu fwyaf yn ein gwlad, yn anffodus. Er bod datblygiadau wedi bod yn ddi-os o ran y lefel o oddefgarwch tuag at leiafrifoedd ar draws llawer o'r byd gorllewinol yn y ddau ddegawd diwethaf, mae natur ryddfrydol gymdeithasol ein cymdeithas yn dal i fod heb ganiatáu i rai grwpiau o bobl gael eu derbyn a'u trin yn y modd y dylem ei ddisgwyl a'i fynnu.

It is a truth—it is a truth, I repeat—that transgender people face much discrimination in their daily lives and many of the things that others take for granted are simply not given to trans people. As a vulnerable group, and, of course, recognised as such under the Equality Act 2010, it is the duty of all governments to ensure that their equality is guaranteed. This sometimes requires extra work to see that this is carried out. We welcome the motion today in the name of Aled Roberts and the Liberal Democrats. I am really pleased it has cross-party support.

Mae'n wir—mae'n wir, dywedaf eto—fod pobl drawsryweddol yn wynebu llawer o wahaniaethu yn eu bywydau bob dydd ac nid yw pobl drawsryweddol yn cael llawer o'r pethau y mae eraill yn eu cymryd yn ganiataol. Fel grŵp sy'n agored i niwed, ac sy'n cael ei gydnabod felly yn Neddf Cydraddoldeb 2010, wrth gwrs, mae'n ddyletswydd ar bob llywodraeth i sicrhau bod eu cydraddoldeb yn cael ei warantu. Mae hyn weithiau'n galw am waith ychwanegol i sicrhau bod hyn yn cael ei wneud. Croesawn y cynnig heddiw yn enw Aled Roberts a'r Democratiaid Rhyddfrydol. Rwy'n falch iawn ei fod yn cael cefnogaeth drawsbleidiol.

I would like to mention some of the points and amendments specifically. Point 3(a) calls for the identification of a Minister to take responsibilities for issues facing the transgender community. I believe that we already have a Minister in charge—the Minister for Communities and Tackling Poverty. Her brief specifically mentions that human rights and equality and groups identified under the Equality Act 2010 are her responsibility. So, I am sure that this motion and the points in it can be taken forward now.

Hoffwn sôn am rai o'r pwyntiau a'r gwelliannau penodol. Mae pwynt 3(a) yn galw am benodi Gweinidog i gymryd cyfrifoldeb dros faterion sy'n wynebu'r gymuned drawsryweddol. Rwy'n credu bod gennym Weinidog â chyfrifoldeb eisoes—y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi. Mae ei brîff yn sôn yn benodol mai ei chyfrifoldeb hi yw grwpiau hawliau dynol a chydraddoldeb a nodwyd yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Felly, rwy'n siŵr y gellir symud ymlaen yn awr ar y cynnig hwn a'r pwyntiau sydd ynddo.

To turn to the Plaid Cymru amendment, we believe that it is crucial to inspire and encourage comprehensive working relationships between groups dedicated to the rights of transgender people and the police and crime authorities. More understanding and trust needs to be fostered between front-line officers and trans people in particular, as has also been pointed out in amendments from the Conservatives. Targeting transgender people with verbal or physical abuse is a hate crime and is unacceptable, but more needs to be done to report such incidents and more needs to be done to ensure that there is proper and full support from the police and the judicial authorities when they are reported. Trust needs to be established so that victims of crime can feel confident of walking into a police station and reporting hate crimes, without fear of ridicule, being dismissed and receiving lack of respect as a victim.

I droi at welliant Plaid Cymru, credwn fod ysbrydoli ac annog cysylltiadau gwaith cynhwysfawr rhwng grwpiau sy'n ymroddedig i hawliau pobl drawsryweddol a'r awdurdodau heddlu a throseddu yn hanfodol. Mae angen meithrin mwy o ddealltwriaeth ac ymddiriedaeth rhwng swyddogion rheng flaen a phobl drawsryweddol yn benodol, fel y nodwyd hefyd mewn gwelliannau gan y Ceidwadwyr. Mae targedu pobl drawsryweddol â cham-drin geiriol neu gorfforol yn drosedd casineb ac yn annerbyniol, ond mae angen gwneud mwy i roi gwybod am ddigwyddiadau o'r fath a gwneud mwy i sicrhau bod cymorth priodol a llawn i'w gael gan yr heddlu a'r awdurdodau barnwrol pan gânt eu hadrodd. Mae angen sefydlu ymddiriedaeth fel y gall dioddefwyr troseddau deimlo'n ddigon hyderus i gerdded i mewn i orsaf heddlu a rhoi gwybod am droseddau casineb heb ofni gwawd, cael eu diystyru a diffyg parch fel dioddefwyr.

Life can be very cruel for those people who are clearly born into the wrong body, but what is important is that more and more people should understand the issues they face and embrace them. We will not be the free and embracing society that most people feel we are until we do.

Gall bywyd fod yn greulon iawn i bobl sy'n amlwg wedi'u geni i'r corff anghywir ond yr hyn sy'n bwysig yw bod mwy a mwy o bobl yn deall y problemau sy'n eu hwynebu ac yn mynd i'r afael â hwy. Mae'r rhan fwyaf o bobl yn teimlo ein bod yn gymdeithas rydd, groesawgar, ond hyd y gwnawn ni hyn, ni fyddwn yn gymdeithas o'r fath.

17:27 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

As has been mentioned earlier, provision of public services for the trans community in Wales is simply not good enough. One of the areas where this is most apparent is in the field of healthcare. Health is consistently cited as the most significant concern amongst trans people. That has been confirmed by numerous organisations we consulted in preparation for this debate and was reconfirmed by a survey recently conducted by Stonewall. Despite these levels of concern, Wales is the only country in the UK that does not have a designated gender clinic, meaning that many patients have to travel to London or elsewhere just to be seen by an expert in the field. As a result, waiting times for the clinic in Charring Cross, for example, are measured in years rather than weeks or months. The lack of a gender clinic in Wales not only means added expense and complexity in getting advice and treatment, it also means individuals being far away from their home, family and friends at a time when support from those around them is most needed.

Fel y soniwyd yn gynharach, nid yw'r modd y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu darparu i'r gymuned drawsryweddol yng Nghymru yn ddigon da. Un o'r meysydd lle mae hyn yn fwyaf amlwg yw maes gofal iechyd. Caiff iechyd ei nodi'n gyson fel y pryder mwyaf arwyddocaol ymhlith pobl drawsryweddol. Mae hynny wedi cael ei gadarnhau gan nifer o sefydliadau y buom yn ymgynghori â hwy wrth baratoi ar gyfer y ddadl hon a chafodd ei ategu gan arolwg a gynhaliwyd yn ddiweddar gan Stonewall. Er gwaethaf y lefelau hyn o bryder, Cymru yw'r unig wlad yn y DU heb glinig rhywedd penodol, sy'n golygu bod rhaid i lawer o gleifion deithio i Lundain neu i rywle arall i gael eu gweld gan arbenigwr yn y maes. O ganlyniad, mae amseroedd aros ar gyfer y clinig yn Charring Cross, er enghraifft, wedi'u mesur mewn blynyddoedd yn hytrach nag wythnosau neu fisoedd. Mae diffyg clinig rhywedd yng Nghymru nid yn unig yn golygu costau ychwanegol a chymhlethdod wrth geisio cyngor a thriniaeth, mae hefyd yn golygu bod unigolion yn gorfod mynd ymhell o'u cartrefi, eu teuluoedd a'u ffrindiau ar adeg pan fyddant fwyaf o angen cefnogaeth gan y rhai o'u cwmpas.

The Government's excuse for this is a so-called lack of demand. However, as has been highlighted by Simon Thomas, the Government does not have the evidence to stack that argument up, and, even if that was the case, what an opportunity there is to develop services here for the trans community not only in Wales, but in other parts of the UK. We know that the clinic in Exeter is oversubscribed. I have just said that waiting times in Charring Cross are incredibly long. We could be providing a service here in Wales not only for citizens of Wales, but for the citizens of the south-west too.

Esgus y Llywodraeth am hyn yw'r hyn y mae'n ei alw'n ddiffyg galw. Fodd bynnag, fel yr amlygodd Simon Thomas, nid oes gan y Llywodraeth dystiolaeth sy'n sail i'r ddadl honno a hyd yn oed pe bai hynny'n wir, dyma gyfle heb ei ail i ddatblygu gwasanaethau yma ar gyfer y gymuned drawsryweddol, nid yn unig yng Nghymru, ond mewn rhannau eraill o'r DU. Gwyddom nad yw'r clinig yng Nghaerwysg yn gallu ymdopi â nifer y bobl sy'n gofyn am gymorth. Rwyf newydd ddweud bod amseroedd aros yn Charring Cross yn anhygoel o hir. Gallem ddarparu gwasanaeth yma yng Nghymru, nid yn unig ar gyfer dinasyddion Cymru, ond i ddinasyddion y de-orllewin hefyd.

Local service provision of trans healthcare in Wales is also virtually non-existent. Local GPs have not always received adequate training and they do not always know where patients can and should be referred on to. One patient in Cardiff said that their GP had to look up the word transgender online before trying to work out what to do next. This lack of adequate healthcare has a huge impact on the mental health of the trans community. Occurrences of mental health problems among transgender people in Wales and across the UK are very common indeed. For many people, identifying as trans is not an easy process and the mental strain can take its toll, often resulting in depression and anxiety.

Bron nad oes unrhyw wasanaethau gofal iechyd trawsryweddol yn cael eu darparu'n lleol yng Nghymru. Nid yw meddygon teulu lleol wedi cael hyfforddiant digonol bob amser ac nid ydynt bob amser yn gwybod at bwy y gallant ac y dylent atgyfeirio cleifion. Dywedodd un claf yng Nghaerdydd fod ei feddyg teulu wedi gorfod edrych ar-lein am esboniad o'r gair trawsryweddol cyn ceisio penderfynu beth i'w wneud nesaf. Mae diffyg gofal iechyd digonol o'r fath yn cael effaith fawr ar iechyd meddwl y gymuned drawsryweddol. Mae achosion o broblemau iechyd meddwl ymhlith pobl drawsryweddol yng Nghymru a ledled y DU yn gyffredin iawn. I lawer o bobl, nid yw cael eu hadnabod fel pobl drawsryweddol yn broses hawdd a gall y straen meddyliol fynd yn drech na hwy, gan arwain at iselder a phryder yn aml.

When combined with the external barriers facing individuals, both in terms of social prejudice and the practical barriers posed by a lack of services, it is easy to see how mental health problems can be prolonged and exacerbated. A mental health report published last year found that trans people are at a greater risk of depression, self-harm and suicide as a result of social disapproval and the discrimination that they can encounter in their lives. Despite this, we have heard from trans organisations that, in the fields of children's mental health and adult mental health services, in terms of gender diversity in Wales, provision is patchy, particularly for children and young people under the age of 18.

O'u cyfuno â'r rhwystrau allanol sy'n wynebu unigolion, o ran rhagfarn gymdeithasol a'r rhwystrau ymarferol sy'n cael eu hachosi gan ddiffyg gwasanaethau, mae'n hawdd gweld sut y gall problemau iechyd meddwl gael eu hymestyn a'u gwaethygu. Gwelodd adroddiad iechyd meddwl a gyhoeddwyd y llynedd fod pobl drawsryweddol mewn mwy o berygl o ddioddef iselder, ac o gyflawni hunan-niwed a hunanladdiad o ganlyniad i'r anghymeradwyaeth a'r gwahaniaethu cymdeithasol y gallant eu hwynebu yn eu bywydau. Er gwaethaf hyn, rydym wedi clywed gan sefydliadau trawsryweddol fod y ddarpariaeth ym meysydd gwasanaethau iechyd meddwl plant ac oedolion mewn perthynas ag amrywiaeth o ran rhywedd yng Nghymru, yn anghyson, yn enwedig i blant a phobl ifanc o dan 18 oed.

The Welsh Health Specialised Services Committee has a vital role in the provision of health services for trans people in Wales. Unfortunately, it seems that the funding that WHSSC receives from the Welsh Government to carry out its role of ensuring that the population has fair and equitable access to the full range of specialised services is not adequately covering trans services. Despite a protocol being developed in 2012 to try to improve the transgender medical pathway and to deal with the backlog of cases, while things improved initially, we are now back where we started.

Mae gan Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru swyddogaeth hanfodol yn darparu gwasanaethau iechyd i bobl drawsryweddol yng Nghymru. Yn anffodus, mae'n ymddangos nad yw'r cyllid y mae'r Gwasanaethau hyn yn ei gael gan Lywodraeth Cymru i gyflawni'r gwaith o sicrhau bod y boblogaeth yn cael mynediad teg a chyfartal i'r ystod lawn o wasanaethau arbenigol yn ddigonol ar gyfer gwasanaethau trawsryweddol. Er bod protocol wedi cael ei ddatblygu yn 2012 i geisio gwella'r llwybr meddygol ar gyfer pobl drawsryweddol ac i ymdrin â'r ôl-groniad o achosion, er bod pethau wedi gwella ar y cychwyn, rydym bellach yn ôl lle dechreuasom.

While on the topic of health, I want to highlight one fantastic piece of work recently carried out for a partnership with Public Health Wales to produce information resources for transgender service users on breast, cervical and abdominal aortic aneurism screening. While the Deputy Minister, Vaughan Gething, was very pleased to be at the launch of the project, the project only came to fruition because of the tireless and relentless efforts of the trans community to make it happen. I believe that the Welsh Government should be doing more to ensure that it is not reliant on voluntary organisations taking the initiative to lobby for projects that tackle the gaps in available services; the Welsh Government should be taking a lead itself, and the Minister responsible should be co-ordinating that approach.

Gan ein bod yn trafod iechyd, rwyf am dynnu sylw at waith gwych a wnaed yn ddiweddar ar ran partneriaeth gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru i gynhyrchu adnoddau gwybodaeth i ddefnyddwyr gwasanaethau trawsryweddol am sgrinio'r fron, sgrinio serfigol a sgrinio am ymlediad aortaidd yn yr abdomen. Er bod Vaughan Gething, y Dirprwy Weinidog, yn falch iawn o fynychu lansiad y prosiect, ni fyddai'r prosiect wedi dwyn ffrwyth heb ymdrechion diflino a di-ildio'r gymuned drawsryweddol i sicrhau ei fod yn digwydd. Rwy'n credu y dylai Llywodraeth Cymru wneud mwy i sicrhau nad yw'n ddibynnol ar sefydliadau gwirfoddol i fwrw ati i lobïo am brosiectau sy'n mynd i'r afael â'r bylchau yn y gwasanaethau sydd ar gael; dylai Llywodraeth Cymru ei hun fod yn dangos arweiniad, a dylai'r Gweinidog cyfrifol gydgysylltu'r gwaith hwnnw.

Presiding Officer, health is just one aspect where people really struggle; housing is another. Often, as victims of appalling hate crime, trans people are put at serious risk and need rehousing in an area that is safe and more accepting; this often does not happen. There is a trans community safe house that has been established in north Wales, which provides accommodation for young trans people who may otherwise be homeless. Despite the vital work that that scheme does, it has had to be entirely privately funded, and it continues to be run by a small group of dedicated volunteers. Again, we need a Minister with specific responsibility to co-ordinate efforts across portfolios, so that we can ensure that trans people have the public services that they need and deserve.

Lywydd, un agwedd yn unig y mae pobl yn ei chael hi'n anodd ymdopi â hi yw iechyd; mae tai yn un arall. Yn aml, fel dioddefwyr troseddau casineb echrydus, mae pobl drawsryweddol yn cael eu rhoi mewn perygl difrifol ac mae angen eu hailgartrefu mewn ardal sy'n ddiogel ac yn fwy parod i'w derbyn; yn aml, nid yw hyn yn digwydd. Mae tŷ diogel ar gyfer y gymuned drawsryweddol wedi cael ei sefydlu yng ngogledd Cymru, sy'n darparu llety i bobl ifanc drawsryweddol a allai fod yn ddigartref fel arall. Er gwaethaf y gwaith hanfodol y mae'r cynllun hwnnw yn ei wneud, mae wedi gorfod cael ei ariannu'n gwbl breifat ac mae'n parhau i gael ei redeg gan grŵp bach o wirfoddolwyr ymroddedig. Unwaith eto, mae angen Gweinidog gyda chyfrifoldeb penodol dros gydlynu ymdrechion ar draws y portffolios, er mwyn i ni allu sicrhau bod pobl drawsryweddol yn cael y gwasanaethau cyhoeddus sydd eu hangen arnynt ac y maent yn eu haeddu.

17:32 **Jeff Cuthbert** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I am grateful for the opportunity to speak in this important debate. As a former Minister with responsibility for provision for the transgender community, as part of the overall equality duty, I am proud of what the Welsh Government has done in terms of supporting all of the people of Wales, regardless of their sexual orientation or gender identity. In particular, our Gender-based Violence, Domestic Abuse and Sexual Violence (Wales) Bill and our national hate crime reporting centre support those who have been victims of gender-based violence and/or hate crimes, including those in the transgender community, who I recognise are subject to a great deal of unwarranted prejudice. However, in some areas, there are improvements that have to be made.

Diolch am y cyfle i siarad yn y ddadl bwysig hon. Fel cyn Weinidog â chyfrifoldeb am ddarparu ar gyfer y gymuned drawsryweddol, fel rhan o'r ddyletswydd cydraddoldeb gyffredinol, rwy'n falch o'r hyn y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o ran cefnogi holl bobl Cymru, beth bynnag eu cyfeiriadedd rhywiol neu eu hunaniaeth o ran rhywedd . Yn benodol, mae ein Bil Trais ar sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) a'n canolfan genedlaethol ar gyfer adrodd am droseddau casineb yn cefnogi rhai sydd wedi dioddef trais ar sail rhywedd a/neu droseddau casineb, yn cynnwys aelodau o'r gymuned drawsryweddol, yr wyf yn cydnabod eu bod yn destun llawer iawn o ragfarn ddiangen. Fodd bynnag, mewn rhai ardaloedd, mae yna welliannau sy'n rhaid eu gwneud.

A number of employers now develop a workplace culture that is supportive of gay and lesbian staff; indeed, this very institution has rightly been commended by Stonewall for being one of the most lesbian, gay, bisexual and transgender-friendly places in the UK in which to work. Nonetheless, an article earlier this year in 'Forbes' magazine reported that trans employees face particular barriers in the workplace. Many trans employees are, for example, still uncomfortable with revealing their gender identity at work, partially for fear of hurting their career prospects. Furthermore, many trans employees feel that there is, quite often, a disconnect between an employer's stated LGBT policy and practice on the ground. Despite this, many trans employees say that they would only work for an employer with an LGBT staff policy that is well-promoted and firmly in place.

Mae nifer o gyflogwyr bellach yn datblygu diwylliant yn y gweithle sy'n cefnogi staff hoyw a lesbiaidd; yn wir, mae'r union sefydliad hwn wedi cael ei ganmol yn haeddiannol gan Stonewall am fod yn un o'r llefydd mwyaf cyfeillgar i bobl hoyw, lesbiaidd, deurywiol a thrawsryweddol i weithio ynddo yn y DU. Serch hynny, mewn erthygl yn gynharach eleni yng nghylchgrawn 'Forbes', dywedwyd bod gweithwyr trawsryweddol yn wynebu rhwystrau penodol yn y gweithle. Mae llawer o weithwyr trawsryweddol, er enghraifft, yn dal i fod yn anghyfforddus ynghylch datgelu eu hunaniaeth o ran rhywedd yn y gwaith, yn rhannol am eu bod ofn niweidio eu rhagolygon gyrfaol. Ar ben hynny, mae llawer o weithwyr trawsryweddol yn teimlo bod diffyg cysylltiad yn aml iawn rhwng polisi LHDT datganedig y cyflogwr a'r hyn sy'n digwydd yn ymarferol. Er gwaethaf hyn, mae llawer o weithwyr trawsryweddol yn dweud mai dim ond i gyflogwr sydd â pholisi staff LHDT wedi'i hyrwyddo'n dda ac sydd ar waith yn gadarn y byddent yn gweithio.

One of the ways to improve this situation would be for employers to make their LGBT policies more visible and to raise awareness levels among all staff. I would be grateful if the Minister could give me any further details on what plans the Welsh Government has to work towards raising awareness of such policies in the workplace and, perhaps, this could be done in conjunction with the relevant trade unions. However, acceptance and tolerance is nurtured first and foremost among young people in our schools, and I welcome the fact that guidance is provided by the Welsh Government to ensure that balanced and different views are taught in the classroom and that transphobic bullying is also covered and, furthermore, that this is strengthened by the single equality duty of the Equality Act 2010, thus ensuring that learners cannot be discriminated against on the grounds of their gender identity or sexual orientation.

Un o'r ffyrdd o wella'r sefyllfa hon fyddai i gyflogwyr wneud eu polisïau LHDT yn fwy gweladwy a chodi lefelau ymwybyddiaeth ymhlith yr holl staff. Byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Gweinidog roi manylion pellach i mi ynglŷn â pha gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gweithio tuag at godi ymwybyddiaeth o bolisïau o'r fath yn y gweithle ac o bosibl, gellid gwneud hynny ar y cyd â'r undebau llafur perthnasol. Fodd bynnag, caiff derbyniad a goddefgarwch ei feithrin yn gyntaf ac yn bennaf ymhlith pobl ifanc yn ein hysgolion. Rwy'n croesawu'r ffaith bod Llywodraeth Cymru yn rhoi arweiniad i sicrhau bod safbwyntiau cytbwys a gwahanol yn cael eu dysgu yn yr ystafell ddosbarth a bod bwlio trawsffobig yn cael sylw hefyd. Ar ben hynny, rwy'n falch bod hyn yn cael ei gryfhau gan ddyletswydd cydraddoldeb sengl Deddf Cydraddoldeb 2010, gan sicrhau felly na ellir gwahaniaethu yn erbyn dysgwyr ar sail eu hunaniaeth o ran rhywedd neu gyfeiriadedd rhywiol.

I will conclude now by welcoming the progress made so far by the Welsh Government in making provision for the transgender community and particularly with regard to tackling discrimination and hate crime. However, I believe that there are still barriers to break down when it comes to employment and equality of opportunity more generally. We must build now on the good work started by the publication of the single equality scheme in 2009, and ensuring that we start in our schools is important, teaching our children and young people about the virtues of tolerance and acceptance so that Wales is truly a country that is inclusive, equal and fair, and where people do not feel discriminated against, regardless of their gender.

Rwyf am gloi yn awr drwy groesawu'r cynnydd a wnaed hyd yn hyn gan Lywodraeth Cymru o ran darparu ar gyfer y gymuned drawsryweddol ac yn enwedig o ran mynd i'r afael â gwahaniaethu a throseddau casineb. Fodd bynnag, credaf fod yna rwystrau i'w goresgyn o hyd o ran cyflogaeth a chyfle cyfartal yn fwy cyffredinol. Yn awr, rhaid i ni adeiladu ar y gwaith da a ddechreuwyd drwy gyhoeddi'r cynllun cydraddoldeb sengl yn 2009, ac mae sicrhau ein bod yn dechrau yn ein hysgolion yn bwysig, gan addysgu ein plant a'n pobl ifanc am rinweddau goddefgarwch a derbyniad fel bod Cymru yn wlad gynhwysol, gyfartal a theg mewn gwirionedd, a lle nad yw pobl yn dioddef gwahaniaethu, beth bynnag y bo'u rhywedd.

17:36 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

It gives me pleasure to take part in this important debate today, and I am very pleased to see the emerging consensus that we are seeing in this area of policy.

Mae'n rhoi pleser i mi gymryd rhan yn y ddadl bwysig hon heddiw, ac rwy'n falch iawn o weld y consensws rydym am ei weld yn y maes polisi hwn yn dod i'r amlwg.

One of the most effective ways in which barriers facing trans people can be brought down in Wales is through improving education on transgender and gender diversity issues. It is widely understood that ignorance breeds fear, and this often translates into hatred and discrimination against minority groups. One of the reasons why trans people so often experience hate crime and transphobic bullying is because of the lack of awareness and understanding of what it means to be trans; Kirsty Williams referred to that earlier in her contribution.

Un o'r ffyrdd mwyaf effeithiol o oresgyn y rhwystrau sy'n wynebu pobl drawsryweddol yng Nghymru yw drwy wella addysg ar faterion trawsryweddol ac amrywiaeth o ran rhywedd. Ceir dealltwriaeth eang fod anwybodaeth yn magu ofn, a bydd hwn yn aml yn troi'n gasineb a gwahaniaethu yn erbyn grwpiau lleiafrifol. Un o'r rhesymau pam y mae pobl drawsryweddol yn aml yn dioddef troseddau casineb a bwlio trawsffobig yw oherwydd diffyg ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r hyn y mae'n ei olygu i fod yn drawsryweddol; cyfeiriodd Kirsty Williams at hynny yn gynharach yn ei chyfraniad.

There are a number of existing resources that could be more widely used by schools in Wales. For example, the Crown Prosecution Service in the north-west of England has recently worked with the Ministry of Justice, Stonewall and Gendered Intelligence to develop an educational resource pack aimed at reducing homophobic and transphobic bullying and hate crime among young people. I was encouraged to see the response from the Minister for Education and Skills on the question that I raised regarding bullying earlier in this Plenary session. The resource pack included information and lesson plans to help teachers to explore these issues with their students. There is no reason why these resources cannot be more widely used in schools in Wales, and it would no doubt help to challenge the attitudes and behaviours that lead to prejudice and, ultimately, end in bullying against young people.

Mae nifer o adnoddau ar gael yn barod y gallai ysgolion eu defnyddio'n fwy eang yng Nghymru. Er enghraifft, yn ddiweddar gweithiodd Gwasanaeth Erlyn y Goron yng ngogledd-orllewin Lloegr gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, Stonewall a Gendered Intelligence i ddatblygu pecyn adnoddau addysgol gyda'r nod o leihau bwlio homoffobig a thrawsffobig a throseddau casineb ymhlith pobl ifanc. Cefais fy annog i weld yr ymateb gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau ar y cwestiwn a godais ynghylch bwlio yn gynharach yn y Cyfarfod Llawn. Roedd y pecyn adnoddau yn cynnwys gwybodaeth a chynlluniau gwersi i helpu athrawon i archwilio'r materion hyn gyda'u myfyrwyr. Nid oes unrhyw reswm pam na ellid defnyddio'r adnoddau hyn yn ehangach yn ysgolion Cymru, a byddai'n ddiamau yn helpu i herio agweddau ac ymddygiad sy'n arwain at ragfarn ac yn y pen draw, at fwlio pobl ifanc.

We have seen in recent history the way in which the lesbian and gay community has experienced a much greater level of acceptance within society, the ultimate demonstration of which can be seen in equal marriage, which came into effect earlier this year. This has been, in part, the result of the educational campaigns and the greater coverage of LGB issues within the curriculum. The more widely trans issues are understood, the more widely they can be taken into account when designing services or implementing policy. Some public sector workers cite their reluctance to broach transgender issues within their workplace for fear of causing offence, and this is particularly the case when dealing with older people. Once again, this is an area where more effective education strategies can bring improvement.

Mewn hanes diweddar, gwelsom y ffordd y mae'r gymuned lesbiaidd a hoyw wedi profi llawer mwy o dderbyniad mewn cymdeithas, a'r hyn sy'n arddangos hyn orau yw priodasau cyfartal, a ddaeth i rym yn gynharach eleni. Yn rhannol, canlyniad ymgyrchoedd addysgol oedd hyn a'r sylw ehangach a roddwyd i faterion LHD yn y cwricwlwm. Po fwyaf y deellir materion trawsryweddol, y mwyaf y gellir eu hystyried wrth gynllunio gwasanaethau neu weithredu polisi. Mae rhai gweithwyr sector cyhoeddus yn cyfeirio at eu hamharodrwydd i drafod materion trawsryweddol yn eu gweithle rhag peri tramgwydd, ac mae hyn yn arbennig o wir wrth ymdrin â phobl hŷn. Unwaith eto, mae hwn yn faes lle gall strategaethau addysg mwy effeithiol sicrhau gwelliant.

Another area where more needs to be done to support trans people relates to employment and training. Many people who are transitioning from male to female or female to male will leave employment during that process. This can often last for up to two years. Once a person has transitioned, they may find it difficult to return to work, and this can be for a variety of reasons—stigmatisation, harassment and bullying within the workplace can make it virtually impossible for some trans people to return to that workplace, while the gender stereotypes that still surround certain professions mean that some people are no longer deemed 'suited' to their previous profession after their transition. As those who have transitioned will often seek new employment which is different from their previous job, a large number will need additional training, and this needs to be put in place.

Maes arall lle mae angen gwneud mwy i gefnogi pobl drawsryweddol yw cyflogaeth a hyfforddiant. Bydd llawer o bobl sy'n newid o fod yn ddyn i fod yn ddynes, neu o fod yn ddynes i fod yn ddyn, yn gadael eu gwaith yn ystod y broses honno. Yn aml, gall hyn bara hyd at ddwy flynedd. Ar ôl i'r unigolyn newid ei ryw, efallai y bydd yn ei chael hi'n anodd dychwelyd i'r gwaith, a gall hyn fod am amryw o resymau—gall stigma, aflonyddu a bwlio yn y gweithle ei gwneud hi bron yn amhosibl i rai pobl drawsryweddol ddychwelyd i'r gweithle, er y gallai'r stereoteipio ar sail rhywedd sy'n dal ynghlwm wrth rai proffesiynau olygu nad yw rhai pobl yn cael eu hystyried yn 'addas' mwyach ar gyfer eu proffesiwn blaenorol ar ôl iddynt newid eu rhyw. Gan y bydd rhai sydd wedi newid eu rhyw yn aml yn chwilio am waith newydd sy'n wahanol i'w swydd flaenorol, bydd angen hyfforddiant ychwanegol ar nifer ohonynt, a bydd angen ei roi ar waith.

We must also be aware of the significant role that the media can play in conditioning people's attitudes towards gender diversity. As politicians, we are well aware of the role that the media can play in influencing and nurturing public opinion. Depictions of trans people in the media can have an enormous impact on the way society views them, yet articles featuring trans stories are often poorly researched and use inappropriate or inherently negative language. Sadly, there are many examples of the transgender community being portrayed negatively in the press. Trans Media Watch conducted a survey in 2010 that found that 78% of respondents felt that the portrayals of trans people in the media were inaccurate or highly inaccurate, with 70% of respondents saying that they felt that representation of transgender people in the media was negative or very negative.

Rhaid i ni hefyd fod yn ymwybodol o'r rôl bwysig y gall y cyfryngau ei chwarae yn cyflyru agweddau pobl tuag at amrywiaeth o ran rhywedd. Fel gwleidyddion, rydym yn ymwybodol iawn o'r rôl y gall y cyfryngau ei chwarae yn meithrin a dylanwadu ar farn y cyhoedd. Gall y modd y caiff pobl drawsryweddol eu darlunio yn y cyfryngau effeithio'n fawr ar y ffordd y mae cymdeithas yn eu gweld, ac eto mae erthyglau sy'n sôn am bobl drawsryweddol yn aml wedi'u hymchwilio'n wael ac yn defnyddio iaith amhriodol neu gynhenid negyddol. Yn anffodus, mae llawer o enghreifftiau o'r gymuned drawsryweddol yn cael ei phortreadu'n negyddol yn y wasg. Cynhaliodd Trans Media Watch arolwg yn 2010 a ganfu bod 78% o'r ymatebwyr yn teimlo bod y portreadau o bobl drawsryweddol yn y cyfryngau yn anghywir neu'n anghywir iawn, gyda 70% o'r ymatebwyr yn dweud eu bod yn teimlo bod y modd y câi pobl drawsryweddol eu darlunio yn y cyfryngau yn negyddol neu'n negyddol iawn.

So, while this debate attempts to highlight as many of the key issues relevant to the trans community as possible in Wales, we are only able to scratch the surface. Improvements need to be made in so many areas of our public life. We would like the Minister that we are calling for to develop a clear action plan for developing institutionalised strategies to fight prejudice, to improve access to public service and to tackle social stigmatisation.

Felly, er bod y ddadl hon yn ceisio tynnu sylw at gymaint â phosibl o'r materion allweddol sy'n berthnasol i'r gymuned drawsryweddol yng Nghymru, ni allwn ond crafu'r wyneb. Mae angen sicrhau gwelliannau mewn cymaint o feysydd o'n bywyd cyhoeddus. Hoffem i'r Gweinidog rydym yn galw amdano ddatblygu cynllun gweithredu clir ar gyfer datblygu strategaethau sefydliadol i ymladd rhagfarn, gwella mynediad at wasanaethau cyhoeddus a mynd i'r afael â stigma cymdeithasol.

17:41

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call the Minister, Lesley Griffiths, to speak on behalf of the Government.

Galwaf ar Lesley Griffiths, y Gweinidog, i siarad ar ran y Llywodraeth.

17:42

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi / The Minister for Communities and Tackling Poverty*

I very much welcome the opportunity to respond to this very important debate, particularly as tomorrow marks Transgender Day of Remembrance. This is an opportunity for all of us to honour the memory of those people whose lives have been lost because of transphobic violence.

Rwy'n croesawu'n fawr iawn y cyfle i ymateb i'r ddadl bwysig hon, yn enwedig gan mai yfory yw Dydd y Cofio Trawsryweddol. Dyma gyfle i bob un ohonom gofio am y bobl a gollodd eu bywydau oherwydd trais trawsffobig.

We all recognise that, unfortunately, transgender people in Wales can be vulnerable and subject to prejudice and discrimination in society, and I would like to thank colleagues very much for their informed contributions to the debate. It was very clear that everybody brought something different to the debate. It is in this spirit that we support the motion from the Liberal Democrats today and also the amendments.

Yn anffodus, rydym i gyd yn cydnabod y gall pobl drawsryweddol yng Nghymru fod yn agored i niwed ac yn destun rhagfarn a gwahaniaethu mewn cymdeithas, a hoffwn ddiolch yn fawr i fy nghydweithwyr am eu cyfraniadau gwybodus at y ddadl. Roedd yn amlwg iawn fod pawb yn cyflwyno rhywbeth gwahanol i'r ddadl. Yn yr ysbryd hwn rydym yn cefnogi'r cynnig gan y Democratiaid Rhyddfrydol heddiw, a'r gwelliannau hefyd.

However, we do not feel that it fully reflects what we are doing already as a Government, and the importance that we place upon these issues. Jeff Cuthbert referred to the fact that there has been progress and that there have been improvements; as my predecessor, he had oversight of those. However, we would accept that there is more to be done, and as far as possible we want to carry on that improvement with cross-party support in Wales, building up the services that we know are required.

Fodd bynnag, nid ydym yn teimlo ei fod yn adlewyrchu'n llawn yr hyn rydym yn ei wneud yn barod fel Llywodraeth a'r pwyslais a roddwn ar y materion hyn. Cyfeiriodd Jeff Cuthbert at y ffaith bod cynnydd wedi bod a'n bod wedi gweld gwelliannau; fel fy rhagflaenydd, bu'n gyfrifol am oruchwylio hynny. Fodd bynnag, byddem yn derbyn bod mwy i'w wneud a chyn belled ag y bo modd, rydym am barhau'r gwelliant hwnnw gyda chefnogaeth ar draws y pleidiau yng Nghymru, gan adeiladu ar y gwasanaethau y gwyddom eu bod yn angenrheidiol.

Research in Wales has shown that nearly half of transphobic hate crime victims disclose suicidal thoughts and, across the UK, 48% of transgender people have been victims of assault. Sadly, as Mohammad Asghar pointed out, this prejudice begins at a young age. We all know how bullying can impair a young people's achievements at school. Worrying figures from the Home Office show that 70% of children who are uncertain about their gender are subject to bullying.

Mae ymchwil yng Nghymru wedi dangos bod bron i hanner y dioddefwyr troseddau casineb trawsffobig yn meddwl am hunanladdiad ac ar draws y DU, mae 48% o bobl drawsryweddol wedi dioddef ymosodiad. Yn anffodus, fel y dywedodd Mohammad Asghar, mae rhagfarn o'r fath yn dechrau'n ifanc. Rydym i gyd yn gwybod sut y gall bwlio amharu ar gyflawniadau pobl ifanc yn yr ysgol. Mae ffigurau sy'n peri pryder gan y Swyddfa Gartref yn dangos bod 70% o'r plant sy'n ansicr ynglŷn â'u rhywedd yn cael eu bwlio.

In 2011, the Welsh Government published 'Respecting others', which is comprehensive guidance on bullying, including transphobic bullying. The guidance makes schools' legal duties clear to ensure that transphobic bullying is dealt with appropriately, and provides information on preventative and responsive strategies. Our hate crime framework sets out the importance of changing attitudes in society. One way of doing this is through encouraging transgender people to speak about their experiences. During Hate Crime Awareness Week, I met with members of the Unique Transgender Network in north Wales who spoke about the importance of that very point.

Yn 2011, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru 'Parchu eraill', sef canllawiau cynhwysfawr ar fwlio, yn cynnwys bwlio trawsffobig. Mae'r canllawiau'n egluro dyletswyddau cyfreithiol ysgolion i sicrhau bod bwlio trawsffobig yn cael sylw priodol, ac yn darparu gwybodaeth am strategaethau ataliol ac ymatebol. Mae ein fframwaith troseddau casineb yn nodi pa mor bwysig yw newid agweddau yn y gymdeithas. Un ffordd o wneud hyn yw drwy annog pobl drawsryweddol i siarad am eu profiadau. Yn ystod Wythnos Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb, cyfarfûm ag aelodau o Rwydwaith Trawsryweddol Unique yng ngogledd Cymru a siaradodd am bwysigrwydd yr union bwynt hwnnw.

I therefore support amendment 1 and I agree that we must raise public awareness of transgender hate crime to encourage reporting. I am pleased that Wales has seen a 147% increase in reported transphobic hate crimes between 2012-13 and 2013-14. While this does sound like a good achievement, I am very much aware that transgender hate crime still only makes up 2% of overall hate crimes reported across Wales. So, there is certainly no room for complacency and people should not and must not suffer in silence.

Felly, rwy'n cefnogi gwelliant 1 ac rwy'n cytuno bod yn rhaid i ni godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o droseddau casineb trawsryweddol i annog pobl i roi gwybod am droseddau. Rwy'n falch bod Cymru wedi gweld cynnydd o 147% yn y troseddau casineb trawsffobig a gofnodwyd rhwng 2012-13 a 2013-14. Er bod hyn yn swnio fel cyflawniad da, rwy'n ymwybodol iawn mai dim ond 2% o'r holl droseddau casineb a gofnodwyd ar draws Cymru sy'n droseddau casineb trawsryweddol. Felly, yn sicr nid oes lle i laesu dwylo a rhaid i bobl beidio â dioddef yn dawel.

I also support amendment—

Rwyf hefyd yn cefnogi gwelliant—

17:44

## Eluned Parrott Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will you take an intervention on that point?

A wnewch chi dderbyn ymyriad ar y pwynt hwnnw?

17:44

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Minister will take the intervention. Eluned Parrott.

Mae'r Gweinidog yn derbyn yr ymyriad. Eluned Parrott.

17:45 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, would you recognise that while transgender hate crime represents 2% of all hate crime, the trans community represents only 1% of our population, so they are twice as likely to be vulnerable to this kind of violence?

Weinidog, a fyddech yn cydnabod, er mai 2% o'r holl droseddau casineb yw troseddau casineb trawsryweddol, dim ond 1% o'n poblogaeth yw'r gymuned drawsryweddol, felly maent ddwywaith yn fwy tebygol o fod yn agored i'r math hwn o drais?

17:45 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, absolutely, I accept that.

Yn hollol, rwy'n derbyn hynny.

I also support amendment 2 to ensure that transgender victims of hate crime have access to comprehensive and easily accessible support services. All victims of hate crimes have access to the advocacy and support service run by Victim Support Cymru. This is funded by Welsh Government through our equality and inclusion grant. Victim Support will ensure support for the victim as the case goes through the criminal justice process. Hate crime victims can also seek support from our regional equality councils and Race Equality First. Responsibility for crime and justice matters, including support for victims, has not been devolved to the Welsh Government; however, we recognise the importance of community safety and do all that we can to promote it, by working in collaboration with both devolved and non-devolved partners.

Rwyf hefyd yn cefnogi gwelliant 2 i sicrhau bod dioddefwyr troseddau casineb trawsryweddol yn cael mynediad at wasanaethau cymorth cynhwysfawr a hygyrch. Mae holl ddioddefwyr troseddau casineb yn cael mynediad at y gwasanaeth eiriolaeth a chefnogaeth sy'n cael ei redeg gan Cymorth i Ddioddefwyr Cymru. Caiff ei ariannu gan Lywodraeth Cymru drwy ein grant cydraddoldeb a chynhwysiant. Bydd Cymorth i Ddioddefwyr yn sicrhau cefnogaeth i'r dioddefwr wrth i'r achos fynd drwy'r broses cyfiawnder troseddol. Gall dioddefwyr troseddau casineb geisio cymorth gan ein cynghorau cydraddoldeb rhanbarthol a Race Equality First hefyd. Nid yw'r cyfrifoldeb dros faterion troseddol a chyfiawnder, yn cynnwys cymorth i ddioddefwyr, wedi cael ei ddatganoli i Lywodraeth Cymru; fodd bynnag, rydym yn cydnabod pa mor bwysig yw diogelwch cymunedol ac yn gwneud popeth yn ein gallu i'w hyrwyddo, drwy weithio ar y cyd gyda phartneriaid datganoledig a heb eu datganoli.

We support amendment 3 proposing that we work with LGBT groups and police and crime commissioners to ensure that the police force takes transgender hate crimes seriously and that victims feel able to report crimes and are supported throughout the criminal justice process. The Minister for Public Services holds regular meetings with the police and crime commissioners and chief constables of Wales to discuss matters of mutual interest. In addition, we have established the hate crime criminal justice board Cymru, where non-devolved criminal justice agencies work with us to ensure that all victims of hate crime are supported through the criminal justice process. The police and crime commissioners are represented on the board.

Rydym yn cefnogi gwelliant 3 sy'n cynnig ein bod yn gweithio gyda grwpiau LHDT a chomisiynwyr heddlu a throseddu er mwyn sicrhau bod yr heddlu o ddifrif ynghylch troseddau casineb trawsryweddol a bod dioddefwyr yn teimlo y gallant roi gwybod am droseddau a chael eu cefnogi drwy gydol y broses cyfiawnder troseddol. Mae'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda'r comisiynwyr heddlu a throseddu a phrif gwnstabliaid Cymru i drafod materion sydd o ddiddordeb cyffredin iddynt. Yn ogystal, rydym wedi sefydlu bwrdd cyfiawnder troseddol Cymru ar gyfer troseddau casineb, lle mae asiantaethau cyfiawnder troseddol nad ydynt wedi'u datganoli yn gweithio gyda ni i sicrhau bod holl ddioddefwyr troseddau casineb yn cael eu cefnogi drwy'r broses cyfiawnder troseddol. Mae'r comisiynwyr heddlu a throseddu yn cael eu cynrychioli ar y bwrdd.

Through our independent advisory group we will assess whether, as a result of the framework, transgender victims of hate crime are more confident to report hate crime and are receiving sufficient support through the process. We recognise that transgender people can face discrimination and violence in their neighbourhoods. They can be left feeling unsafe in their own homes, or even homeless. They may also face pressure from family to leave home. Older LGBT people may find that the housing and care options that are available to them do not best meet their needs, contributing to social isolation. I have awarded £16,500 funding to Shelter Cymru to deliver an LGBT awareness project. This will ensure that more LGBT people are aware of the housing advice service, and staff training will ensure that housing advisers have an increased awareness of LGBT issues.

Drwy ein grŵp cynghori annibynnol byddwn yn asesu a yw dioddefwyr troseddau casineb trawsryweddol yn fwy hyderus, o ganlyniad i'r fframwaith, i roi gwybod am droseddau casineb ac yn cael digon o gefnogaeth drwy'r broses. Rydym yn cydnabod y gall pobl drawsryweddol wynebu gwahaniaethu a thrais yn eu cymdogaethau. Gall wneud iddynt deimlo'n anniogel yn eu cartrefi eu hunain, neu hyd yn oed yn ddigartref. Efallai y byddant hefyd yn wynebu pwysau gan aelodau o'r teulu i adael cartref. Gall pobl LHDT hŷn deimlo nad yw'r tai a'r opsiynau gofal sydd ar gael iddynt yn diwallu eu hanghenion yn y ffordd orau, gan gyfrannu at arwahanrwydd cymdeithasol. Rwyf wedi rhyddhau £16,500 o gyllid i Shelter Cymru i gyflwyno prosiect ymwybyddiaeth LHDT. Bydd hyn yn sicrhau bod mwy o bobl LHDT yn ymwybodol o'r gwasanaeth cyngor tai a bydd hyfforddiant staff yn sicrhau bod ymgynghorwyr tai yn fwy ymwybodol o faterion LHDT.

In my previous portfolio, I funded independent research to identify the barriers that LGBT people can face when accessing support for experiences of domestic abuse, stalking, harassment and sexual violence. While that research identified some examples of promising practice in Wales, there is more that service providers can do to tackle trans people's experience of gender-based violence, domestic abuse and sexual violence, and to promote the support services that are available for victims.

Yn fy mhortffolio blaenorol, rhoddais gyllid tuag at ymchwil annibynnol i nodi'r rhwystrau y gall pobl LHDT eu hwynebu wrth ofyn am gymorth yn sgîl profiadau o gam-drin domestig, stelcio, aflonyddu a thrais rhywiol. Er bod yr ymchwil wedi nodi rhai enghreifftiau o arferion addawol yng Nghymru, mae mwy y gallai darparwyr gwasanaethau ei wneud i fynd i'r afael â phrofiadau pobl drawsryweddol o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, ac i hyrwyddo'r gwasanaethau cymorth sydd ar gael i ddioddefwyr.

Our strategic equality plan recognises the importance of putting the needs of service users at the heart of delivery in key public services. We know that there is certainly some way to go for transgender service users, but there are examples of good practice. Last month, as Kirsty Williams mentioned, the Deputy Minister for Health launched a suite of screening information to assist transgender service users and screening staff, as a result of that partnership working between Public Health Wales and transgender groups. That also demonstrates the importance of public service providers engaging with their target audience to ensure that the service is fit for purpose, and, importantly, that people are treated with dignity and respect at all times.

Mae ein cynllun cydraddoldeb strategol yn cydnabod pwysigrwydd gwneud anghenion defnyddwyr gwasanaethau yn ganolog wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus allweddol. Yn bendant, gwyddom fod cryn dipyn o ffordd i fynd i ddefnyddwyr gwasanaethau trawsryweddol, ond ceir enghreifftiau o arfer da. Y mis diwethaf, fel y soniodd Kirsty Williams, lansiodd y Dirprwy Weinidog Iechyd becyn o wybodaeth sgrinio i gynorthwyo defnyddwyr gwasanaethau trawsryweddol a staff sgrinio, o ganlyniad i'r gwaith partneriaeth rhwng Iechyd Cyhoeddus Cymru a grwpiau trawsryweddol. Mae'n dangos hefyd pa mor bwysig yw hi i ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus ymgysylltu â'u cynulleidfa darged er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn addas i'r diben, ac yn bwysig, fod pobl yn cael eu trin ag urddas a pharch bob amser.

Our equality and inclusion grant provides funding to Youth Cymru's Trans*Form Cymru project to address the discrimination and exclusion often faced by young people who identify as trans or who are questioning their gender identity. A steering group of young trans people will help to create a toolkit and training resources to raise awareness of gender identity issues among professionals, which will then help them to deliver appropriate advice, information and advocacy. I think that it is also important to highlight the cross-cutting nature of equality and inclusion. All Welsh Government Ministers have a commitment to tackle barriers to equality, as cross-governmental action is required to make Wales a fairer, more inclusive place to live. I am the Minister for equality, as Lindsay Whittle pointed out, and I will take overall responsibility for the issues faced by the trans community and I commit today to report back to the Assembly within six months.

Mae ein grant cydraddoldeb a chynhwysiant yn darparu cyllid i brosiect Traws*Newid Cymru i fynd i'r afael â'r gwahaniaethu a'r allgau y bydd pobl ifanc sy'n ystyried eu hunain yn drawsryweddol neu sy'n cwestiynu eu hunaniaeth o ran rhywedd yn aml yn eu hwynebu. Bydd grŵp llywio o bobl ifanc drawsryweddol yn helpu i greu pecyn adnoddau ac adnoddau hyfforddi i godi ymwybyddiaeth o faterion hunaniaeth o ran rhywedd ymysg gweithwyr proffesiynol, a fydd wedyn yn eu helpu i ddarparu cyngor, gwybodaeth ac eiriolaeth briodol. Credaf hefyd ei bod hi'n bwysig tynnu sylw at natur drawsbynciol cydraddoldeb a chynhwysiant. Mae holl Weinidogion Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i fynd i'r afael â rhwystrau i gydraddoldeb, gan fod angen camau gweithredu trawslywodraethol er mwyn gwneud Cymru yn lle tecach, mwy cynhwysol i fyw ynddi. Fi yw'r Gweinidog cydraddoldeb, fel y dywedodd Lindsay Whittle, a byddaf yn cymryd cyfrifoldeb cyffredinol am y materion y mae'r gymuned drawsryweddol yn eu hwynebu ac rwy'n ymrwymo heddiw i adrodd yn ôl i'r Cynulliad o fewn chwe mis.

17:49

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I call on Eluned Parrott to reply to the debate.

Galwaf ar Eluned Parrott i ymateb i'r ddadl.

17:49

## Eluned Parrott Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Diolch, Lywydd. As politicians, we generally take our places in Chambers such as this as a result of the views of the majority, but it is nevertheless the case that we also have a duty to be a voice for minorities in our communities whose own voices might not otherwise be heard. For that reason, I consider it an honour to close this debate today, and I want to express my thanks to those Members who have contributed in such a positive spirit. I would also like to thank Plaid Cymru and the Welsh Conservatives for their very constructive amendments today and confirm that we will support all of those.

Diolch, Lywydd. Fel gwleidyddion, yn gyffredinol byddwn yn eistedd mewn Siambrau fel hyn o ganlyniad i safbwyntiau'r mwyafrif, ond er hynny mae'n wir fod gennym ddyletswydd hefyd i fod yn llais dros leiafrifoedd yn ein cymunedau na fyddai eu lleisiau'n cael eu clywed fel arall o bosibl. Am y rheswm hwnnw, rwy'n ei hystyried yn anrhydedd i gloi'r ddadl hon heddiw ac rwyf am fynegi fy niolch i'r Aelodau hynny sydd wedi cyfrannu mewn ysbryd mor gadarnhaol. Hoffwn hefyd ddiolch i Blaid Cymru a'r Ceidwadwyr Cymreig am eu gwelliannau adeiladol iawn heddiw ac rwy'n cadarnhau y byddwn yn cefnogi pob un o'r rheiny.

There is so much more that this debate could have covered today, and we have really only just scratched the surface in terms of discussing what more could be done to tackle prejudice, improve public services and tackle the social stigmatisation in the context of the trans community in Wales. This debate must not be the end of this conversation within this Chamber and the Assembly, but merely the start, and I am very grateful for the cross-party support that you have all indicated today and for the assurance of the Minister that she would like to continue to have this discussion.

Mae cymaint mwy y gallai'r ddadl hon fod wedi ymdrin ag ef heddiw ac mewn gwirionedd, dim ond crafu'r wyneb a wnaethom o ran trafod beth arall y gellid ei wneud i fynd i'r afael â rhagfarn, gwella gwasanaethau cyhoeddus a mynd i'r afael â stigma cymdeithasol yng nghyd-destun y gymuned drawsryweddol yng Nghymru. Dechrau'r drafodaeth yn y Siambr ddylai'r ddadl hon fod, nid ei diwedd, ac rwy'n ddiolchgar iawn am y gefnogaeth drawsbleidiol rydych i gyd wedi'i dangos heddiw ac am sicrwydd y Gweinidog y byddai'n hoffi parhau i gael y drafodaeth hon.

Turning to the contributions specifically, in opening, Peter Black talked about the prevalence of social stigmatisation and prejudice against the trans community and the fact that hate crimes continue to be reported at an alarming level. Wales falls short of the rest of the UK when it comes to providing public services, particularly when it comes to healthcare. I think that more research needs to be done to look specifically at trans issues. Existing evidence shows that trans people make up a much more significant proportion of the population than some people might expect, and yet they are underrepresented in research that is done on public services. We are talking about perhaps 30,000 people in Wales, and their needs and demands are not going to go away. The trans community is growing and the need for services will only get more acute.

Gan droi at y cyfraniadau penodol, wrth agor, soniodd Peter Black am yr achosion o stigma cymdeithasol a rhagfarn yn erbyn y gymuned drawsryweddol a'r ffaith bod troseddau casineb yn parhau i ddigwydd ar lefel sy'n peri gofid. Mae Cymru ar ei hôl hi o gymharu â gweddill y DU o ran darparu gwasanaethau cyhoeddus, yn enwedig ym maes gofal iechyd. Rwy'n credu bod angen mwy o waith ymchwil i edrych yn benodol ar faterion trawsryweddol. Mae'r dystiolaeth bresennol yn dangos bod pobl drawsryweddol yn gyfran lawer mwy sylweddol o'r boblogaeth nag y byddai rhai pobl yn ei ddisgwyl, ac eto cânt eu tangynrychioli mewn gwaith ymchwil ar wasanaethau cyhoeddus. Rydym yn sôn am oddeutu 30,000 o bobl yng Nghymru, ac nid yw eu hanghenion na'u gofynion yn mynd i ddiflannu ohonynt eu hunain. Mae'r gymuned drawsryweddol yn tyfu a bydd yr angen am wasanaethau yn cynyddu fwyfwy.

Mohammad Asghar talked about how early in life the bullying behaviour can set in and the impact that a lifetime of discrimination and stigmatisation has on the mental health of many individuals. It is absolutely right that we make sure that those who experience mental ill health as a result of this kind of behaviour have access to the appropriate support, and I thank him for his contribution.

Soniodd Mohammad Asghar am y ffordd y gall ymddygiad bwlio gychwyn yn gynnar mewn bywyd a'r effaith y mae oes o wahaniaethu a stigma yn ei chael ar iechyd meddwl llawer o unigolion. Mae'n gwbl gywir ein bod yn sicrhau mynediad at gymorth priodol i'r rhai sy'n dioddef o salwch meddwl o ganlyniad i'r math hwn o ymddygiad, a diolch iddo am ei gyfraniad.

Lindsay Whittle, in moving the Plaid amendments today, said that, despite the liberalisation of our attitudes to many minority groups, the trans community has been overlooked and still faces significant stigmatisation. However, with regard to your statement that there is already a Minister with responsibility for equality, what I would say to you is that, clearly, this has not been enough yet, if that is the case. Trans issues deserve to be highlighted because they have been overlooked for so long and continue to be overlooked today. Many trans issues remain hidden and buried, in part because it can be so difficult for trans people to speak openly about their experiences, as the Minister suggested. This makes it even more important that their rights are protected and overtly advocated for, not as part of a package of advocacy for all of the equality issues as a piece.

Wrth gynnig gwelliannau Plaid Cymru heddiw, dywedodd Lindsay Whittle fod y gymuned drawsryweddol wedi cael ei hanwybyddu ac yn dal i wynebu stigmateiddio sylweddol, er bod ein hagweddau at lawer o grwpiau lleiafrifol yn fwy rhyddfrydol. Fodd bynnag, o ran eich datganiad fod gennym eisoes Weinidog â chyfrifoldeb dros gydraddoldeb, yr hyn rwyf am ei ddweud wrthych yw ei bod hi'n amlwg nad yw hynny wedi bod yn ddigon hyd yn hyn, os yw hynny'n wir. Mae materion trawsryweddol yn haeddu sylw am eu bod wedi cael eu hanwybyddu ers cymaint o amser ac yn parhau i gael eu hanwybyddu heddiw. Mae llawer o faterion trawsryweddol yn parhau'n gudd ac wedi'u claddu, yn rhannol am ei bod yn gallu bod mor anodd i bobl drawsryweddol siarad yn agored am eu profiadau, fel yr awgrymodd y Gweinidog. Golyga hyn ei bod hi hyd yn oed yn bwysicach fod eu hawliau'n cael eu diogelu a'u hyrwyddo'n agored, nid yn rhan o becyn eiriolaeth dros yr holl faterion cydraddoldeb gyda'i gilydd.

Kirsty spoke about the clear requirement for health service provision to drastically improve, particularly as this is the most cited area of concern among the trans community. It is simply not good enough that people have to go to England to be seen by experts. Waiting lists are too long and existing funding does not seem to be being channelled towards trans healthcare. The Welsh Government and the Welsh Health Specialised Services Committee need to ensure that the treatment pathways for trans people are streamlined and that greater transparency is achieved in relation to funding and service provision. Mental health issues are a particular problem among the trans community, and improvements really must be made here, particularly for children and young adults, because the stress and distress caused by a lifetime of bullying are likely to impact very significantly on the mental wellbeing of those individuals.

Siaradodd Kirsty am yr angen amlwg i wella'n sylweddol y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu darparu, yn enwedig gan mai dyma'r maes lle nodwyd fwyaf o bryder ymhlith y gymuned drawsryweddol. Nid yw'n ddigon da fod rhaid i bobl fynd i Loegr i gael eu gweld gan arbenigwyr. Mae'r rhestrau aros yn rhy hir ac nid yw'n ymddangos bod cyllid presennol yn cael ei sianelu tuag at ofal iechyd trawsryweddol. Mae angen i Lywodraeth Cymru a Phwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru sicrhau bod y llwybrau triniaeth i bobl drawsryweddol yn symlach a bod mwy o dryloywder mewn perthynas ag ariannu a darparu gwasanaethau. Mae materion iechyd meddwl yn broblem arbennig ymhlith y gymuned drawsryweddol, a rhaid gwneud gwelliannau yn hyn o beth, yn enwedig ar gyfer plant ac oedolion ifanc, gan fod y straen a'r gofid a achosir gan oes o fwlio yn debygol o gael effaith sylweddol iawn ar les meddyliol yr unigolion hyn.

In addition, we need to look at other public sector services as well. Housing issues need to be addressed in order to ensure that appropriate considerations are given to trans issues when it comes to that. We need publicly funded safe houses for LGBT victims of abuse, as well as for those who face homelessness as a result of being transgender. We need to be thinking about setting those kinds of things up.

Mae angen i ni edrych ar wasanaethau eraill y sector cyhoeddus hefyd. Mae angen mynd i'r afael â materion tai er mwyn sicrhau bod ystyriaethau priodol yn cael eu rhoi i faterion trawsryweddol pan ddaw i hynny. Rydym angen tai diogel wedi'u hariannu'n gyhoeddus ar gyfer dioddefwyr LHDT sy'n cael eu cam-drin, yn ogystal ag ar gyfer pobl sy'n wynebu digartrefedd o ganlyniad i fod yn drawsryweddol. Mae angen i ni feddwl am sefydlu'r mathau hyn o bethau.

I am grateful to Jeff Cuthbert for his contribution today. He discussed the work of the Welsh Government to date in relation to tackling gender-based violence and equality issues, which I think we must all recognise in this Chamber. However, Jeff also seems to think that it is primarily employers in Wales who need to step up to the plate. Indeed, they do, but I think that it would be wrong to suggest that the public sector has got it covered. We need to step up together. All sectors of our society have a huge distance to cover if we are to build the kind of society that is—in your words, Jeff—inclusive, equal and fair. It is what we would all wish to see, but words in this Chamber are absolutely meaningless if they are not then matched with actions in the real world. The trans community needs a Minister with named responsibility for representing it, specifically to make sure that trans people are not forgotten among the many equality issues that our society faces. Trans people need a champion to fight for them and to fight for them specifically.

Diolch i Jeff Cuthbert am ei gyfraniad heddiw. Trafododd waith Llywodraeth Cymru hyd yn hyn mewn perthynas â mynd i'r afael â materion trais ar sail rhywedd a chydraddoldeb, y credaf y dylem i gyd yn y Siambr hon eu cydnabod. Fodd bynnag, mae Jeff hefyd i'w weld yn credu mai cyflogwyr yng Nghymru sydd fwyaf o angen mynd i'r afael â hyn. Yn wir, mae lle iddynt wneud hynny ond credaf y byddai'n anghywir awgrymu bod y sector cyhoeddus yn delio â hyn yn iawn. Mae angen i ni fynd i'r afael â'r mater gyda'n gilydd. Mae gan bob sector o'n cymdeithas ffordd bell i fynd os ydym am adeiladu'r math o gymdeithas sydd —yn eich geiriau chi, Jeff—yn gynhwysol, yn gyfartal ac yn deg. Dyna y byddem i gyd am ei weld, ond mae geiriau yn y Siambr hon yn gwbl ddiystyr os nad ydynt yn cael eu dilyn gan weithredoedd yn y byd go iawn. Mae angen Gweinidog ar y gymuned drawsryweddol gyda chyfrifoldeb penodol i'w chynrychioli ac i wneud yn siŵr nad yw pobl drawsryweddol yn cael eu hanghofio ynghanol y llu o faterion cydraddoldeb y mae ein cymdeithas yn eu hwynebu. Mae angen hyrwyddwr ar bobl drawsryweddol i ymladd ar eu rhan ac i ymladd ar eu cyfer hwy'n benodol.

Bill Powell talked about education and the important role of schools and the need to include a greater coverage of gender diversity and transgender issues in school curricula. Only through education, in the long term, can barriers caused by stigmatisation, bullying and prejudice really be broken down. Existing resources do exist, as I say, but they should be better exploited. We have anti-homophobic and trans-phobic bullying lesson plans, which have been developed and are available, but do not seem to be widely used in classrooms. That must change as well. Better employment and training services need to be introduced to help trans people to access employment or return to work after treatment.

Siaradodd Bill Powell am addysg a swyddogaeth bwysig yr ysgolion a'r angen i gynnwys mwy o sylw i faterion amrywiaeth o ran rhywedd a thrawsryweddol yng nghwricwla ysgolion. Yn y tymor hir, dim ond addysg a all chwalu'r rhwystrau a achosir gan stigma, bwlio a rhagfarn mewn gwirionedd. Mae adnoddau ar gael ar hyn o bryd, fel y dywedais, ond dylent gael eu defnyddio'n well. Mae gennym gynlluniau gwersi ar fwlio homoffobig a thrawsffobig, sydd wedi'u datblygu ac ar gael, ond nid yw'n ymddangos eu bod yn cael eu defnyddio'n helaeth yn yr ystafelloedd dosbarth. Rhaid i hynny newid hefyd. Mae angen cyflwyno gwasanaethau cyflogaeth a hyfforddiant gwell i helpu pobl drawsryweddol i gael gwaith neu i ddychwelyd i'r gwaith ar ôl cael triniaeth.

The media play an important role in educating the general public and promoting tolerant attitudes towards trans people in Wales. The media must also be encouraged to take greater responsibility for ensuring that trans people are not unnecessarily portrayed in a negative light.

Mae'r cyfryngau yn chwarae rhan bwysig yn addysgu'r cyhoedd yn gyffredinol a hybu agweddau goddefgar tuag at bobl drawsryweddol yng Nghymru. Rhaid annog y cyfryngau hefyd i ysgwyddo mwy o gyfrifoldeb dros sicrhau nad yw pobl drawsryweddol yn cael eu portreadu mewn goleuni negyddol yn ddiangen.

The Welsh Government has a chance to show that it is really committed to tackling the issues faced by the trans community in Wales, as I say, and I am grateful for the Welsh Government's indication that it will support our motion today. I am also grateful for the steps that the Welsh Government has already taken to support the trans community in Wales. It should not be underestimated. However, with regard to some of the specific issues that have been suggested, for example, that the number of transgender people in Wales is too low to warrant investment in something, such as a specific gender clinic for Wales, what I would say to you is that research shows that the number is significant and is growing rapidly. We are talking about 30,000 people requiring trans healthcare; that is 1% of the population. There are many other rare medical conditions that are funded, so it seems grossly unfair to deem the transgender community as not being worthy of Government investment in this way.

Mae cyfle i Lywodraeth Cymru ddangos ei bod yn ymrwymo i fynd i'r afael o ddifrif â'r materion a wynebir gan y gymuned drawsryweddol yng Nghymru, fel y dywedais, ac rwy'n ddiolchgar fod Llywodraeth Cymru wedi dynodi y bydd yn cefnogi ein cynnig heddiw. Rwyf hefyd yn ddiolchgar am y camau y mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi'u rhoi ar waith i gefnogi'r gymuned drawsryweddol yng Nghymru. Ni ddylid tanbrisio'r gwaith hwnnw. Fodd bynnag, o ran rhai o'r materion penodol a awgrymwyd, er enghraifft, fod nifer y bobl drawsryweddol yng Nghymru yn rhy isel i gyfiawnhau buddsoddi mewn pethau fel clinig rhywedd penodol ar gyfer Cymru, yr hyn y byddwn yn ei ddweud wrthych yw bod ymchwil yn dangos bod y nifer yn sylweddol ac yn tyfu'n gyflym. Rydym yn sôn am 30,000 o bobl y mae angen gofal iechyd trawsryweddol arnynt; hynny yw, 1% o'r boblogaeth. Mae llawer o gyflyrau meddygol prin eraill sy'n cael eu hariannu, felly mae'n ymddangos yn annheg iawn i farnu nad yw'r gymuned drawsryweddol yn deilwng o fuddsoddiad y Llywodraeth yn y modd hwn.

On the suggestion that the tackling hate crime agenda is already tackled, I would say that, yes, hate crime is an important issue, but the issues are much wider than hate crime. We must not say or assume that by tackling hate crime, we have tackled the issues. Some transgender individuals find that they are widely accepted by their local communities and they have good networks of friends and family, meaning that hate crime is not a major issue for them. Yet, they can still face unacceptable gaps in service provision and difficulties in the workplace and in education. We need to think more broadly than that.

Ar yr awgrym ein bod eisoes wedi mynd i'r afael ag agenda troseddau casineb, byddwn yn dweud ydy, mae troseddau casineb yn fater pwysig, ond mae'r problemau'n llawer ehangach na throseddau casineb. Rhaid i ni beidio dweud na chymryd yn ganiataol ein bod wedi ymdrin â'r problemau o fod wedi mynd i'r afael â throseddau casineb. Mae rhai unigolion trawsryweddol yn darganfod eu bod yn cael eu derbyn yn eang gan eu cymunedau lleol ac mae ganddynt rwydweithiau da o ffrindiau a theulu, sy'n golygu nad yw troseddau casineb yn fater mawr iddynt hwy. Eto i gyd, gallant ddal i wynebu bylchau annerbyniol o ran y modd y caiff gwasanaethau eu darparu ac anawsterau yn y gweithle ac ym myd addysg. Mae angen i ni feddwl yn ehangach na hynny.

Finally, Llywydd, while it is very valuable to look at the Public Health Wales project providing information for transgender service users, it is just part of a package of things that need to happen. It is not enough to launch a project; we need to be thinking about where the gaps are in the advice, not just telling people where to go for the advice that is already available. Thank you.

Yn olaf, Lywydd, er bod edrych ar brosiect Iechyd Cyhoeddus sy'n darparu gwybodaeth am ddefnyddwyr gwasanaethau trawsryweddol wedi bod yn werthfawr, dim ond rhan yn unig o becyn o bethau a ddylai ddigwydd yw hyn. Nid yw lansio prosiect yn ddigon; mae angen i ni feddwl lle mae bylchau yn y cyngor, nid dim ond dweud wrth bobl lle i fynd i gael y cyngor sydd eisoes ar gael. Diolch.

17:58

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object? There is objection, therefore, I defer all voting on this item until voting time.

Y cynnig yw cytuno ar y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiad, felly gohiriaf bob pleidlais ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

It has been agreed that voting time will take place immediately after the last item of business, so unless three people wish for the bell to be rung, I propose to move directly to voting. I see that no-one does. We will just move straight to voting.

Cytunwyd y bydd y cyfnod pleidleisio yn digwydd yn syth ar ôl yr eitem olaf o fusnes, felly oni bai bod tri o bobl yn dymuno i'r gloch gael ei chanu, bwriadaf symud ymlaen yn syth i bleidleisio. Gwelaf nad oes, felly symudwn ymlaen i bleidleisio'n syth.

# Cyfnod Pleidleisio

# Voting Time

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5622.

Result of the vote on motion NDM5622.

*Gwrthodwyd y cynnig: O blaid 9, Yn erbyn 38, Ymatal 0.*

*Motion not agreed: For 9, Against 38, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 1 i gynnig NDM5622.

Result of the vote on amendment 1 to motion NDM5622.

*Derbyniwyd gwelliant 1: O blaid 47, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

*Amendment 1 agreed: For 47, Against 0, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 2 i gynnig NDM5622.

Result of the vote on amendment 2 to motion NDM5622.

*Derbyniwyd gwelliant 2: O blaid 33, Yn erbyn 14, Ymatal 0.*

*Amendment 2 agreed: For 33, Against 14, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 3 i gynnig NDM5622.

Result of the vote on amendment 3 to motion NDM5622.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 47, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 47, Against 0, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 4 i gynnig NDM5622

Result of the vote on amendment 4 to motion NDM5622

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 47, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 47, Against 0, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 5 i gynnig NDM5622

Result of the vote on amendment 5 to motion NDM5622

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 47, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 47, Against 0, Abstain 0.*

Cynnig NDM5622 fel y'i diwygiwyd:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn credu bod costau cyfleustodau yn annerbyniol o uchel ac yn nodi'r anawsterau penodol y mae hyn yn eu hachosi ar gyfer cymunedau gwledig, busnesau, a'r rhai ar incwm isel.

2. Yn galw ar Lywodraeth y DU i rewi prisiau ynni.

3. Yn nodi'r gronfa 'Cheaper Energy Together' a lansiwyd gan Adran Llywodraeth y DU ar Ynni a Newid Hinsawdd (DECC) i gefnogi newid cyflenwyr ar y cyd, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda DECC i hyrwyddo newid cyflenwyr ar y cyd ledled Cymru i leihau biliau defnyddwyr.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi cynllun gweithredu i liniaru costau cyfleustodau uchel.

5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i edrych ar gostau cysylltiad â'r grid a'u heffaith ar filiau cyfleustodau, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.

Motion NDM5622 as amended:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Believes that utility costs are unacceptably high and notes the particular difficulties this creates for rural communities, businesses, and those on low incomes.

2. Calls on the UK Government to implement an energy price freeze.

3. Notes the Cheaper Energy Together fund launched by the UK Government's Department of Energy and Climate Change (DECC) to support collective switching, and calls on the Welsh Government to work with DECC to promote collective switching across Wales to reduce consumer bills.

4. Calls on the Welsh Government to publish an action plan to alleviate high utility costs.

5. Calls on the Welsh Government to look at grid connection costs and their impact on utility bills, particularly in rural areas.

6. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno sylwadau i'r Grid Cenedlaethol i sicrhau ei fod yn edrych ar Gymru yn ei chyfanrwydd wrth gyfrifo sut y mae trydan yn cael ei allforio pan gaiff cyfrifiadau prisio eu gwneud er mwyn sicrhau gwerth am arian i ddefnyddwyr.

6. Calls on the Welsh Government to make representations to the National Grid to ensure it looks at Wales as a whole when calculating how electricity is exported when pricing calculations are made to ensure value for money for consumers.

7. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ystyried pa mor agored i gynnydd mewn prisiau y mae cwsmeriaid nad ydynt ar y grid, lle mae opsiynau ar gyfer newid yn gyfyngedig, neu lle nad yw marchnadoedd yn cael eu rheoleiddio.

7. Calls on the Welsh Government to consider the vulnerability of 'off-grid' customers to price rises, where switching options are limited or where markets are unregulated.

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5622 fel y'i diwygiwyd

Result of the vote on motion NDM5622 as amended

*Derbyniwyd cynnig NDM5622 fel y'i diwygiwyd: O blaid 33, Yn erbyn 14, Ymatal 0.*

*Motion NDM5622 as amended agreed: For 33, Against 14, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5623

Result of the vote on motion NDM5623

*Derbyniwyd y cynnig: O blaid 28, Yn erbyn 19, Ymatal 0.*

*Motion agreed: For 28, Against 19, Abstain 0.*

18:01

## Dadl Fer

## Short Debate

Y Senedd.tv Fideo Video

### Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

The short debate has been postponed.

Mae'r ddadl fer wedi'i gohirio.

That is the close of proceedings. Thank you very much.

Dyna gloi'r trafodion. Diolch yn fawr iawn.

*Daeth y cyfarfod i ben am 18:01.*

*The meeting ended at 18:01.*